



Cyfarfod

Y CYNGOR

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD IAU, 4YDD MAWRTH, 2021

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol - Zoom

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWDYD 25/02/21)

**Dilwyn Williams
Prif Weithredwr**

www.gwynedd.llyw.cymru

DYDD IAU, 25 CHWEFROR 2021

Annwyl Gyngorydd,

CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 4 MAWRTH 2021

FE'CH GWYSIR TRWY HYN i gyfarfod rhithiol drwy Zoom o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU, 4YDD MAWRTH, 2021** i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Dewi Sillan'. The signature is written in a cursive style with a large initial 'D'.

Prif Weithredwr

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. COFNODION

6 - 17

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, 2020 fel rhai cywir (ynghlwm).

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

6. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

7. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

8. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU A / NEU GODI PREMIWM 2021/22

18 - 99

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid (ynghlwm).

9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL - POLISI TAL Y CYNGOR 2021/22

100 - 109

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion (ynghlwm).

10. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-23 - ADOLYGIAD 2021/22

110 - 301

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

11. CYLLIDEB 2021/22

302 - 354

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid (ynghlwm).

12. STRATEGAETH GYFALAF 2021/22 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG) 355 - 394

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid (ynghlwm).

13. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 395 - 399

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol (ynghlwm).

14. AIL-BENODI AELODAU ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU 400

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

15. CALENDR PWYLLGORAU 2021/22 401 - 403

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd (ynghlwm).

16. RHYBUDD O GYNNIG

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elin Walker Jones yn cynnig fel a ganlyn:-

Bod y Cyngor hwn:

a) yn credu bod y system fudd-daliadau gyfredol yn methu ein dinasyddion ac yn achosi caledi i lawer o gymunedau yng Ngwynedd;

b) yn nodi'r cysyniad o Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI) lle mae dinasyddion yn derbyn swm heb fod yn seiliedig ar brofion modd gan y wladwriaeth i dalu costau byw sylfaenol, a delir i'r holl ddinasyddion yn unigol, waeth beth yw eu statws cyflogaeth, eu cyfoeth, neu statws priodasol;

c) yn credu bod angen profi UBI, gan fod gan UBI y potensial i fynd i'r afael â heriau allweddol megis adferiad ôl-bandemig, anghydraddoldeb, tlodi, cyflogaeth ansicr, a cholli cymuned trwy:

i) rhoi gweithlu mwy hyblyg i gyflogwyr wrth roi mwy o ryddid i weithwyr newid eu swydd;

ii) gwerthfawrogi gwaith di-dâl, megis gofalu am aelodau'r teulu a gwaith gwirfoddol;

iii) cael gwared ar effeithiau negyddol sancsiynau budd-daliadau ac amodoldeb;

iv) rhoi mwy o adnoddau cyfartal i bobl yn y teulu, y gweithle a'r gymdeithas.

ch) yn nodi gwaith Rhwydwaith Lab UBI wrth ddatblygu cynigion i beilota

profi UBI;

d) yn credu na ddylid mesur llwyddiant peilot UBI yn unig yn ôl yr effaith ar y nifer sy'n manteisio ar waith â thâl, ond hefyd yr effaith ar gymunedau a'r hyn y mae'r bobl ynddynt yn ei wneud, sut maen nhw'n teimlo, a sut maen nhw'n uniaethu ag eraill a'r amgylchedd o'u cwmpas;

dd) yn credu bod Gwynedd mewn sefyllfa ddelfrydol i dreialu UBI;

e) yn gofyn i'r Cabinet ymchwilio i'r ymrwymiad fyddai ei angen ac ystyried a ddylid gwirfoddoli i gydweithio gyda chyrrff megis UBI Lab Cymru;

f) yn penderfynu anfon copi o'r Cynnig hwn at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, y Canghellor, arweinydd y Blaid yn y Llywodraeth, eu cymheiriaid ym mhob plaid wleidyddol wrthblaid yn y Senedd, Prif Weinidog Cymru ac at holl ASau Gwynedd

17. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

(A) YMATEB I RYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD GRUFFYDD WILLIAMS 404 - 405

Cyflwyno, er gwybodaeth – llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cyngorydd Gruffydd Williams i gyfarfod 1 Hydref, 2020 ynglŷn â defnyddio'r system gynllunio i reoli'r niferoedd o ail-gartrefi yng Nghymru (ynghlwm).

(B) YMATEBION I RYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD PAUL ROWLINSON 406 - 408

Cyflwyno, er gwybodaeth – llythyrau gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Diwydiannol mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cyngorydd Paul Rowlinson i gyfarfod 3 Rhagfyr, 2020 ynglŷn â rheoli tân gwyllt (ynghlwm).

Y CYNGOR DYDD IAU, 3 RHAGFYR 2020

Yn bresennol: Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Simon Glyn (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.W.Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

Swyddogion:

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Rhun ap Iarll (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Hefyd yn bresennol:

Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) a Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned) (ar gyfer eitem 10)
Dr Einir Young (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau) (ar gyfer eitem 11)

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Menna Baines, Aeron M. Jones, Dafydd Owen, W.Roy Owen a Hefin Underwood.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y Cyfarfod Blynnyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Hydref, 2020 fel rhai cywir.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

'Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 8 – Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2021/22 ac eitem 9 – Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2021/22.

- (1) Datganodd y Cynghorydd Stephen Churchman fuddiant personol yn eitem 8 ar y rhaglen – Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2021/22 – oherwydd ei fod yn hawlio gostyngiad Treth Cyngor ar ei gartref, ac felly'n elwa o'r cynllun.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(2) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 9 ar y rhaglen – Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2021/22:-

- Y Cynghorydd Peredur Jenkins oherwydd ei fod yn rhentu dau eiddo.
- Y Cynghorydd Aled Wyn Jones oherwydd bod gan berthynas iddo ail-gartref yng Ngwynedd.
- Y Cynghorydd Linda Morgan oherwydd bod ganddi deulu sy'n berchen ar ail gartrefi.
- Y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts oherwydd bod ganddo gyswllt â rhywun fydd yn cael ei effeithio gan y Premiwm.
- Y Cynghorydd Angela Russell oherwydd ei bod yn berchen ar ail gartref ac yn gweithio i bobl tai haf.
- Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn oherwydd bod ganddo gysylltiad agos â pherson sy'n talu'r Premiwm.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Gareth Thomas ar golli ei fam yn ddiweddar.
- Teulu'r cyn-gynghorydd Morgan Vaughan. Cyflwynwyd teyrnged gan y Cynghorydd Anne Lloyd Jones.
- Teulu'r Cynghorydd Charles Wyn Jones. Cyflwynwyd teyrnged gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Dymunwyd yn dda i'r canlynol:-

- Mr Dewi Pritchard Jones ar ei ymdeoliad fel Crwner ddiwedd Tachwedd, a diolchwyd iddo am ei waith ar hyd y blynyddoedd.
- Elfyn Evans o Ddolgellau, a gynt o Ddinas Mawddwy, yn rownd derfynol Pencampwriaeth Rali'r Byd.

Llongyfarchwyd y canlynol:-

- Y Tîm Ynni yn yr Adran Tai ac Eiddo ar ennill gwobr Brydeinig (Energy Management Awards – Public Sector Team of the Year) – gwobr haeddiannol iawn o ystyried, nid yn unig eu llwyddiant wrth leihau allyriadau carbon, ond hefyd eu gwaith arbennig o dda yn y maes caffael ynni.
- Liz Saville Roberts, arweinydd Plaid Cymru yn San Steffan, ar ennill Gwobr Aelod Seneddol y Flwyddyn gan yr elusen amrywiaeth a chynhwysiant, Sefydliad Patchwork. Nodwyd bod Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd wedi ei chydnabod am ei gwaith rhanbarthol yn hyrwyddo hawliau merched ifanc, gan ennill gwobr 'Aelod Seneddol Plaid Arall y Flwyddyn.'

5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Dim i'w nodi.

6. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

7. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2021/22

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Gyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill, 2021.

PENDERFYNWYD

(a) Parhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2021 fel ag yr oedd yn ystod 2020/21. Felly, bydd yr amodau canlynol (i – iii isod) ynghylch yr elfennau disgrisiwn yn parhau:

- (i) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.
- (ii) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sydd yn y Cynllun Rhagnodedig.
- (iii) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.

(b) Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2021/22, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.

9. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A / NEU GODI PREMIWM 2021/22

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor am gadarnhad ffurfiol am 2021/22 o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, ac i godi premiwm o 50% ar eiddo perthnasol o'r fath.

Gan gyfeirio'n benodol at ail-gartrefi, nododd yr Aelod Cabinet:-

- Bod y ddarpariaeth a'r amllder o gartrefi gwyliau wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â'r effeithiau cysylltiedig, yn gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Bod poblogrwydd Gwynedd fel cyrchfan wyliau a'r defnydd o lety gwyliau fel buddsoddiad ariannol yn ffactorau, a gwelwyd twf sylweddol yn ddiweddar yn y niferoedd o unedau preswyl sy'n cael eu defnyddio fel llety gwyliau ar draws y sir gyfan.
- Y bwriedid cyflwyno papur ymchwil ar reoli'r defnydd o dai fel tai gwyliau i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 10 Rhagfyr, gydag argymhellion penodol i'w trafod yn y Cabinet ar 15 Rhagfyr.

- Er y cydnabyddid na fyddai modd gweithredu ar yr argymhellion hynny'n syth oherwydd yr angen am ddeddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru, roedd graddfa'r Premiwm ar eiddo yn fater roedd gan y Cyngor llawn fodd i weithredu arno.
- Y bu gohebiaeth gyson a chyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol rhwng Cyngor Gwynedd, gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru, i drafod ein pryderon ynglŷn â gallu perchnogion ail-gartrefi i ddefnyddio Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn trosglwyddo eu heiddo o fod yn eiddo domestig, sy'n talu Treth Cyngor, i fod yn unedau hunan-ddarparu, sy'n destun ardrethi annomestig.

Nododd y Dirprwy Arweinydd:-

- Bod yr argymhelliad yn cynnig cadw at y sefyllfa bresennol o godi premiwm o 50% ar ail gartrefi a thai gweigion, ond y daeth yn amlwg o drafodaethau gydag aelodau, cynigion yn y Cyngor a galwadau cyhoeddus yn ein cymunedau, bod angen ail-ystyried y Premiwm, gyda'r bwriad o'i gynyddu.
- Bod y sefyllfa'n argyfyngus yn y sir, gyda tai o'r stoc yn cael eu colli i fod yn ail-gartrefi a phobl leol yn methu fforddio prynu tai yn eu cymunedau.
- Bod y Cabinet a'r aelodau wedi bod yn pwysu ar y Llywodraeth i newid y ddeddf a rhoi'r hawliau i ni reoli ail-gartrefi. Roedd y Llywodraeth wedi dweud nad oedd gennym dystiolaeth i gyfiawnhau hynny, ond roedd y dystiolaeth wedi'i chyhoeddi bellach, a byddai'n cael ei thrafod yn fuan.
- Yn ogystal â thrafod y papur ymchwil ar reoli'r defnydd o dai fel tai gwyliau, byddai'r Cabinet ar 15 Rhagfyr yn trafod y Cynllun Gweithredu Tai, sef cynllun uchelgeisiol a chyffrous oedd yn buddsoddi oddeutu £77m mewn darparu tai ar gyfer pobl ifanc y sir.
- O fod yn ymwybodol o'r teimladau cryf ar y mater hwn, yr hoffai gynnig gwelliant i ddileu'r geiriau "*ac yn codi premiwm o 50% ar ail gartrefi dosbarth B*" yn ail bwynt bwled yr argymhelliad, gan osod y geiriau "*ond yn gohirio penderfyniad ynglŷn â gosod y Premiwm a gofyn i'r Cabinet ystyried priodoldeb cynyddu y lefel i 100%. Gofynnir i'r Cabinet gynnal proses ymgynghori ar y sail yma, ystyried y ffactorau perthnasol a dod ag argymhelliad pellach i'r Cyngor ym mis Mawrth 2021*" ar ôl "dosbarth B". Eiliwyd y gwelliant.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau ar y gwelliant. Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Awgrymwyd y dylid defnyddio mwy o ddisgresiwn yng nghyswllt tai sy'n wag ac yn y broses o gael eu hatgyweirio.
- Mynegwyd pryder y gallai codi'r Premiwm ar ail-gartrefi i 100% wthio mwy o bobl i ganfod ffyrdd o osgoi talu'r dreth. Roedd llawer o berchnogion ail-gartrefi yn datgan mai eu tŷ yng Ngwynedd oedd eu prif gartref bellach, a galwyd am edrych i mewn i hyn, gan hefyd edrych ar ddulliau o brofi nad yw'r cyfan o'r 2000 o dai sydd wedi trosglwyddo i'r ardreth annomestig yn fusnesau.
- Pwysleisiwyd bod angen ymgyrch genedlaethol i gau'r bwlch o ran trosi tai gwyliau yn fusnesau, a bod lle i Gyngor Gwynedd arwain ar hyn.
- Nodwyd y mawr obeithid y byddai'r Cabinet yn gefnogol i'r gwelliant, a hefyd yn cynnig syniadau y tu hwnt i'r mater treth yn unig.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau unigol, nododd y Pennaeth Cyllid:-

- Bod yr egwyddor o ganiatáu eithriad Treth Cyngor am gyfnod hwy i brynwyr tro cyntaf sy'n atgyweirio hen dai yn un o'r prosiectau o fewn y Cynllun Gweithredu Tai, ac felly dylai hyn gael sylw buan. Gallai'r Cabinet wneud penderfyniad ar y cyfnod, ond nid oedd gan y swyddogion lawer o hyblygrwydd fesul achos yn hyn o beth.

- Bod trefniadau casglu'r Dreth Gyngor yn effeithiol iawn, a bod perchnogion ail-gartrefi yn gallu talu'n brydlon. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn colli'r dreth, yn ogystal â'r Premiwm, ar eiddo oedd yn trosglwyddo i fod yn fusnes, ac yn cael ei daro gan yr ôl-ddyddio hefyd. Roedd y nifer a drosglwyddodd llynedd dros 400, ac roedd y ffigwr yn agos at hynny'n barod eleni. Yn y blynyddoedd cyn hynny, roedd tua 300 y flwyddyn.
- Bod yr Arweinydd, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid ac eraill wedi gweithio gyda'r Llywodraeth o gwmpas Mawrth / Ebrill eleni i roi rheolau yn eu lle fel nad oedd pob eiddo oedd wedi trosglwyddo yn derbyn y grant Covid, ond yn y diwedd bu i rhwng deuparth a thri chwarter ohonynt dderbyn y grant, gan y profwyd bod yr eiddo yn cael ei osod am fwy na 140 diwrnod y flwyddyn yn yr achosion hynny. Er y dymunid bod wedi gallu eu heithrio'n llwyr, byddai hynny wedi eithrio rhai busnesau gwyliau go iawn, a chyfaddawd oedd hyn yn y diwedd.
- Fel casglwr y Dreth Gyngor, roedd y Cyngor yn gallu plismona'r sefyllfa o ran prif gartrefi, e.e. drwy wirio i ba gyfeiriadau roedd datganiadau banc yn cael eu hanfon, ac ati. Fodd bynnag, gan fod y mwyafrif oedd wedi trosglwyddo yn derbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bychain llawn, nid oedd diben iddynt ddatgan bod yr eiddo'n brif gartref ai peidio.
- Mai Swyddfa'r Prisiwr, asiantaeth yn CThEM, oedd yn plismona'r mudo o'r rhestr ddomestig i'r rhestr fusnes, ond roedd yn ymddangos nad oeddent yn gwirio'r dystiolaeth yn ddwfn iawn. Gan hynny, roedd y Cyngor yn parhau i ymgychu mewn ymgais i argyhoeddi Llywodraeth Cymru i newid y ddeddfwriaeth, ac roedd gwaith ar droed gan yr Adran Gyllid, a hefyd gan y Gwasanaeth Cynllunio, i symud hyn ymlaen yn y gobaith o weld cynnydd dros y misoedd nesaf.

Gan gyfeirio at eiriad y gwelliant, eglurodd y Prif Weithredwr fod newid ail bwynt bwled yr argymhelliad yn unig yn anghyson â'r rhan gyntaf sy'n argymhell fod y Cyngor yn gwneud dim newid i'r cynllun ar gyfer 2021/22. Gan hynny, awgrymodd fod y gwelliant yn cael ei gwmpasu ar gyfer yr holl benderfyniad, fel bod y penderfyniad yn ei gyfanrwydd yn cael ei gyfeirio yn ôl i'r Cabinet.

Nododd cynigydd y gwelliant ei fod yn hapus i newid ei welliant yn unol â hynny, a chydysniodd yr eilydd i'r newid hefyd.

Nododd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams na fyddai'n pleidleisio'r naill ffordd na'r llall ar y mater hwn, gan iddo golli cysylltiad am ran helaeth o'r drafodaeth.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn gohirio penderfyniad ynglŷn â chaniatáu disgowntiau a chodi premiwm, gan ofyn i'r Cabinet ystyried priodoldeb cynyddu y lefel i hyd at 100%. Gofynnir i'r Cabinet gynnal proses ymgynghori ar y sail yma, ystyried y ffactorau perthnasol, a dod ag argymhelliad pellach i'r Cyngor ym mis Mawrth 2021 yn unol ag Adran 12, 12B a 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

10. CYTUNDEB TERFYNOL AR GYNLLUN TWf GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn cyflwyno'r pecyn o ddogfennau allweddol oedd eu hangen ar gyfer cyrraedd Cytundeb Terfynol ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Nododd:-

- Y byddai mabwysiadu'r argymhellion yn caniatáu arwyddo'r Cytundeb Terfynol gyda'r ddwy Lywodraeth ar 17 Rhagfyr.
- Y bu'n daith hir o dair blynedd o safbwynt y Cynllun Twf ei hun, ond bod sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi digwydd bron i wyth mlynedd yn ôl, pan ddaeth awdurdodau'r Gogledd, y prifysgolion, y colegau a'r sector breifat at ei gilydd i gyfarch materion datblygu'r economi ar lefel ranbarthol.

- O gydweithio, bod y bartneriaeth yn cael ei chydabod yn eang fel un gadarn, ac yn esiampl o ymarfer da.
- Bod y chwe awdurdod sy'n bartneriaid ar y Bwrdd o sawl lliw gwleidyddol a chefnidir economaidd gwahanol iawn, ond bod y chwe Arweinydd yn gytûn mai lles pobl y Gogledd sy'n bwysig.
- Y dymunai ddiolch i aelodau'r bartneriaeth, gan gynnwys y prifysgolion a'r colegau a'r sector breifat, sydd wedi bod yn rhan fawr o'r drafodaeth ac o ddatblygu'r cynlluniau.
- Yr hoffai ddiolch hefyd i'r tîm o swyddogion dan arweiniad Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio, a nododd fod y ffaith bod yna gystal tîm o swyddogion yn y Gogledd yn gweithredu yn y maes datblygu'r economi yn rhoi hyder iddo y bydd modd cyfarch y problemau mawr fydd yn ein hwynebu i'r dyfodol.
- Fel swyddogion statudol yr awdurdod lletya, bu Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid, ac Iwan Evans, Swyddog Monitro yn allweddol yn arwain timau o swyddogion ar draws y Gogledd wrth gyflawni'r gwaith cyllidol a chyfreithiol a llywodraethiant, ac y dymunai ddiolch iddynt hwythau hefyd am eu cyfraniad arbennig i waith y Bwrdd.
- Bod sefyllfa'r economi yn y Gogledd wedi newid ers i brosiectau'r cynllun gael eu datblygu'n wreiddiol. Roedd Covid wedi cael effaith andwyol iawn, ac roedd dyfodol ansicr i'r economi hefyd yn sgil beth bynnag fyddai'n deillio o Brexit.
- Bod y Bwrdd Uchelgais yn fwy na'r Cynllun Twf, a bwriedid edrych ar ffrydiau eraill o fuddsoddiadau ariannol o sawl cyfeiriad.
- Ei fod yn siomedig bod Llywodraeth San Steffan wedi darparu llai o arian na'r cyfanswm a ofynnwyd amdano ar y cychwyn, ond byddai arwyddo'r Cytundeb Terfynol cyn y Nadolig yn rhyddhau ffrwd o'r £240m, gyda £16m yn cael ei dderbyn bob blwyddyn dros y pymtheng mlynedd nesaf ar gyfer gweithredu prosiectau'r Cynllun Twf dros y 5-6 mlynedd nesaf.

Croesawyd Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) a Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned) i'r cyfarfod, a gwahoddwyd y Cyfarwyddwr Portffolio i roi cyflwyniad sleidiau. Yn ystod y cyflwyniad, manylwyd ar:-

- Bortffolio y Cynllun Twf - nod, maint y buddsoddiad ar gyfer y cynllun yn ei gyfarwydd ac amcanion gwariant.
- Trosolwg o'r rhaglenni
- Rhestr o Brosiectau'r Cynllun Twf.
- Buddion rhanbarthol

Gwahoddwyd y Pennaeth Economi a Chymuned i gyflwyno sleid ar y buddion penodol i Wynedd, sef:-

- Gwell cysylltiad digidol ar gyfer busnesau, trigolion ac ymwelwyr.
- Mynediad at gyfleusterau, offer, cefnogaeth ac ymchwil arbenigol ar gyfer busnesau bwyd a diod Gwynedd drwy fuddsoddiad ar safle Glynllifon.
- Mynediad at ymchwil arloesol a chefnogaeth gyda thechnegau ffermio cynaliadwy ar gyfer y busnesau ffermio yng Ngwynedd.
- Cyfleoedd cadwyn gyflenwi a swyddi yn sgil prosiectau cyfalaf fel Morlais, Porthladd Caergybi, ac ati.
- Cyfleoedd am fentrau ynni adnewyddadwy o fewn y Prosiect Ynni Lleol Blaengar a buddsoddiad yn y Ganolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel ym Mhrifysgol Bangor.
- Buddsoddiad £20m yn isadeiledd safle Trawsfynydd ar gyfer datblygiad ynni carbon isel arloesol.
- Cyfleoedd i ddatblygu safleoedd strategol fel rhan o'r rhaglen Tir ac Eiddo hirdymor yn cynnwys safle Bryn Cegin.

Pwysleisiwyd hefyd mai un rhaglen oedd y Cynllun Twf, a bod yna brosiectau eraill fyddai'n ychwanegu gwerth, ac yn adeiladu ar hyn ar hyd a lled Gwynedd.

Gwahoddwyd y Pennaeth Cyllid i roi trosolwg o'r goblygiadau cyllidol. Nodwyd:-

- Y byddai'r ariannu grant yn dod yn gyson gan y ddwy Lywodraeth dros y 15 mlynedd, ond y byddai'r gwariant yn fwy cyflym dros y 6 blynedd cyntaf.
- Y byddai'n rhaid benthg i ddelio â'r llif arian yma, ac fel awdurod lletya, byddai Gwynedd yn hwyluso hyn i'w bartneriaid drwy sefydlu trefn fyddai'n rhoi swm cyfraniad cyson rhesymol dros y pymtheng mlynedd i dalu'r gost benthg.
- Gan nad oedd amseriad y taliadau na'r cyfraddau llog, ac ati, yn wybyddus eto, rhoddwyd amrediad i'r holl bartneriaid, ac roedd yr amrediad i Wynedd yn amrywio rhwng tua £80,000 - £118,000 y flwyddyn.
- Bod Cytundeb Llywodraethu 2 yn sicrhau na fyddai'r un partner yn medru cerdded i ffwrdd heb dalu ei siâr o'r costau hyn.

Gwahoddwyd y Swyddog Monitro i roi trosolwg o'r cytundeb llywodraethu a'r goblygiadau cyfreithiol. Nodwyd:-

- Bod Cytundeb Llywodraethu 2 yn ein trosglwyddo i gyfnod gweithredol a chyflawni'r Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf.
- Bod y cytundeb yn creu fframwaith cyfreithiol oedd yn ymrwmo pob partner i'w cyfraniadau, ac ni allai neb gerdded i ffwrdd oddi wrth y cytundeb heblaw ar draul parchu eu hymrwymiaid ariannol i'r dyfodol hefyd.
- Bod yna drefniadau llywodraethu o fewn y cytundeb oedd yn cynnal y Bwrdd Uchelgais ac yn darparu ar gyfer materion megis craffu a rheolaeth ariannol a staffio ayb.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd bod y cynllun yn uchelgeisiol, a bod hynny i'w groesawu. Roedd amser caled o'n blaenau, ac roedd yn dda bod gennym y math hwn o gynllun wrth law.
- Mynegwyd pryder bod cyn lleied o'r prosiectau yn Nwyfor a Meirionnydd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod yn hyblyg a dewr a gwneud popeth sy'n bosib i gynorthwyo prosiectau sydd â'r potensial i ddod â nifer uchel o swyddi i'r ardaloedd hynny, a holwyd sut y gallai cwmnïau sy'n dymuno gwneud buddsoddiad o fewn y sir gymryd rhan yn y Cynllun Twf.
- Croesawyd y ffaith bod hwn yn gynllun sydd wedi'i ddatblygu yng Ngogledd Cymru, a'i fod yn creu swyddi safonol gyda chyflogau da fydd yn caniatáu i bobl ifanc fyw a gweithio yn eu cymunedau.
- Cyfeiriwyd at un o egwyddorion allweddol y Weledigaeth Twf, sef canolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol, a chredid yn gryf y byddai'r cynllun hwn o gymorth i ymateb i bryderon rhieni nad oes digon o gyfleoedd gwaith o safon yma yn y Gogledd Orllewin.
- Nodwyd nad oes gwaith na thai i bobl ifanc mewn ardaloedd fel Pen Llŷn a mynegwyd pryder y bydd cwmnïau sy'n elwa o'r Cynllun Twf yn codi pac maes o law, ac yn mynd â'r grantiau gyda hwy.
- Nodwyd bod 2021 am fod yn flwyddyn heriol hefyd, ond bod y Cynllun Twf yn rhoi rheswm i ni fod yn bositif ac optimistaidd, a dymunwyd bob llwyddiant i'r fenter.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd gwneud popeth i annog a helpu busnesau newydd.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â phenderfyniad Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i dynnu eu haelodaeth yn ôl o'r Bwrdd Uchelgais.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r prinder doctoriaid, deintyddion, milfeddygon a gofalwyr yng Ngwynedd.

- Mynegwyd pryder y bydd siroedd y Dwyrain wedi dwyn yr arian i gyd, ac na fydd y Gogledd Orllewin yn gweld fawr ddim o'r budd.
- Nodwyd ei bod yn anodd cael prosiectau yn y canolbarth a phwysleisiwyd pwysigrwydd cydweitho gyda Thwf y Canolbarth. Nodwyd hefyd bod y rhwydwaith ffyrdd yn rwystr i fuddsoddiad yn Ne'r sir.
- Nodwyd mai De Meirionnydd oedd un o'r ardaloedd tlotaf yn Ewrop, a mawr obeithid y byddai'r sefyllfa wedi gwyrddio'n llwyr ymhen 10 mlynedd.
- Nodwyd mai breuddwyd oedd y sôn am fuddsoddiad o £1.1b i Ogledd Cymru, ac ofnid mai disgwyl y byddwn ni am y £722m o'r sector breifat.
- Mynegwyd pryder ein bod wedi ein clymu i fyny gyda Glannau Dyfrdwy a Wrecsam, lle mae'r boblogaeth fwyaf a lle mae'r budd mwyaf am ddod.
- Mynegwyd balchder fod Gwynedd yn cydweithio fel partner llawn wrth y bwrdd, ac yn arwain ar y cynllun pwysig hwn.
- Pwysleisiwyd bod angen atgyfnerthu'r diwydiant bwyd amaeth a nodwyd hefyd mai cynlluniau ynni carbon isel a digidol oedd y dyfodol.
- Croesawyd y ffaith y byddai Parc Cegin, Bangor yn cael ei ddefnyddio'n llawn.
- Nodwyd y dylid ymgyrchu am sefydlu ysgol feddygol, ddeintyddol a milfeddygol fel rhan o Brifysgol Bangor.
- Mynegwyd pryder bod y cynlluniau twf yn rhannu Cymru, a hynny mewn cyfnod o unoliaeth cenedlaethol, drwy uno'r Gogledd gyda Glannau Merswy, Y Canolbarth gyda Birmingham a'r De gyda Bryste.
- Nodwyd y deallid mai yn Warrington fydd y ganolfan wirio gwaith papur ar gyfer loriau fydd yn cludo nwyddau o Gaergybi i Iwerddon ar ôl Brexit, a chwestiynwyd pam nad oedd y ganolfan yn cael ei sefydlu ym Môn, neu hyd yn oed ym Mharc Cegin, Bangor, o ystyried agosrwydd y safle i'r A55.
- Nodwyd nad oedd cyfeiriad yn y papurau at Arfor, na chydabyddiaeth bod Wylfa newydd wedi bod ar y gweill erioed.
- Nodwyd bod y weledigaeth i'w chanmol, ond y gwrthwynebid creu'r cysylltiad gyda Gogledd Lloegr, gan fod hynny'n ein gwanychu fel cenedl.
- Gofynnwyd i'n cynrychiolwyr sicrhau bod cyfran deg o'r arian yn dod i Wynedd.
- Awgrymwyd y dylai pob aelod sydd wedi siarad yn erbyn y cynllun ystyried beth ydi eu 'Plan B', gan ofyn a oes ganddynt £1.1b i'w wario ar greu swyddi i bobl ifanc yng Ngwynedd, oherwydd heb hynny, sut allent bleidleisio yn erbyn y cynllun?

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau unigol, nodwyd:-

- Y dymunid gweld budd yn dod i Ddwyfor a Meirionnydd. Bu'n broses anodd i sicrhau dosbarthiad teg o'r prosiectau ar draws y cynghorau i gyd, ond credid y llwyddwyd i wneud hynny. Roedd yna brosiectau fyddai'n mynd ar draws pob ffin ddaearyddol, e.e. y prosiect digidol a phrosiectau ynni carbon isel cymunedol, a byddai elfennau o'r prosiectau amaethyddol o gymorth ar draws y sir gyfan hefyd.
- O ran y trefniadau caffael, roedd y Swyddfa Portffolio yn gweithio ar strategaeth caffael fyddai'n galluogi i gwmnïau lleol ymgeisio am rywfaint o'r gwaith fyddai'n dod allan o'r Cynllun Twf. Byddai'n rhaid sicrhau na fyddai contract yn rhy fawr, neu wedi'i gyflwyno mewn ffordd fyddai'n atal cwmnïau lleol rhag gallu manteisio arno. Roedd defnyddio cwmnïau lleol i'r eithaf yn egwyddor sylfaenol i ni yn y Gogledd, ac yn arbennig yng Ngwynedd, gan mai ein pwrpas fel Bwrdd Uchelgais oedd cefnogi ein cwmnïau lleol ni yn gyntaf.
- O ran buddsoddiadau, rhan o'r weledigaeth oedd creu Gogledd Cymru fwy deniadol i fuddsoddwyr, nid o reidrwydd i fuddsoddi'n uniongyrchol yn un o brosiectau'r Cynllun Twf, ond oherwydd bod prosiectau'r Cynllun Twf yn creu adnoddau gwell ar gyfer buddsoddwyr sy'n edrych i leoli neu ail-leoli.
- Y deallid y pryderon o ran cwmnïau'n sefydlu yma ac yna'n codi pac, ond nid pwrpas y Cynllun Twf oedd taflu arian at gwmnïau i ddod yma i sefydlu, eithr creu amgylchedd sy'n ddengar i fusnesau a'u helpu. Ychwanegwyd bod busnesau lleol

yn crefu am lefydd i weithio ohonynt. Roedd llawer o fusnesau wedi sefydlu o'r newydd yn ystod y cyfnod Cofid, ac roedd angen rhoi pob cymorth a chefnogaeth iddynt.

- Y bu cefnogaeth Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i holl weithgaredd y Bwrdd Uchelgais yn sylweddol iawn, ond y bu iddynt edrych ar eu gweithgaredd eu hunain yn dilyn Cofid, a gweld bod rhaid iddynt ganolbwyntio eu hadnoddau prin ar gefnogi eu haelodau. Fodd bynnag, roeddent yn parhau'n rhan o'r gweithgaredd, ac wedi bod yn rhan o hwyluso cynhadledd rithiol yn ddiweddar gyda 200 o fusnesau. Roedd y Bwrdd hefyd yn edrych ar syniadau o ran sut i wella ymgysylltu gyda'r sector fusnes, ac roedd y Grŵp Cefnogi Busnes, sef casgliad o berchnogion busnesau blaenllaw iawn yn y Gogledd, yn gwneud gwaith da iawn hefyd o ran cefnogi a chraffu gwaith y Bwrdd
- Na rennid pesimistiaeth rhai aelodau ynglŷn â'r cynllun. Roedd yna risgiau ym mhopeth wrth gwrs, ond dylid cofleidio'r cynllun hwn yn hyderus.
- Na fwriedid cefnu ar ardaloedd gwledig y sir, a bod y 6 awdurdod yn gyfartal o ran dylanwad ar y Bwrdd, gyda chryn ymddiriedaeth rhwng yr arweinyddion gwleidyddol a dymuniad gan bawb i sicrhau bod unrhyw fudd o'r cynllun yn cael ei ledaenu'n deg ar draws y Gogledd.
- Bod unrhyw ddatblygiad oddi fewn i ardal y Cyngor neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ddarostyngedig i bolisïau cynlluniau lleol, ac er mai'r Cyngor oedd yn gosod y polisiau hynny, roedd ein gallu i'w hamrywio yn eithaf cyfyng oherwydd y polisiau cenedlaethol. Roedd y sector breifat yn datgan fod rhaid i'r broses o gael caniatâd cynllunio a chaniatadau gan asiantaethau perthnasol eraill fod yn rhwyddach, ac roedd y neges yma wedi'i chyfleu i'r gweinidogion droeon. Roedd lle hefyd i ni ddylanwadu os oeddem yn meddwl bod cam yn cael ei wneud.
- Bod ein cysylltiadau economaidd, trafniadaeth a chymdeithasol yn agos gyda Phowys a Cheredigion, ac er ein bod yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Twf y Canolbarth, nid oeddem yn cael ein cydnabod fel partneriaid llawn yno. Roedd hyn yn destun pryder a rhwystredigaeth, ond bwriedid parhau i bwysu arnynt yn hyn o beth.
- Ystyrid bod y bartneriaeth ar draws y Gogledd wedi tynnu siroedd y Dwyrain yn agosach atom nag erioed o'r blaen. Er y byddai wedi bod yn bosib' i Fflint a Wrecsam droi eu golygon at Gaer a Lerpwl, roeddent wedi dewis troi at siroedd y Gorllewin oherwydd eu bod yn rhan o Gymru, ac roedd yna gyswllt gwych ac agos gydag arweinwyr Fflint a Wrecsam yn arbennig.
- Bod y buddsoddiadau rydym ni fel Cyngor yn roi i mewn i'r Cynllun Twf yn rhai degau o filoedd, ond byddai hynny'n esgor maes o law ar fudd o gannoedd o filiynau.

PENDERFYNWYD

- (a) **Cymeradwyo'r Cynllun Busnes Cyffredinol fel y ddogfen sy'n gosod y trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.**
- (b) **Cymeradwyo'r darpariaethau yng Nghytundeb Llywodraethu 2 sy'n ymwneud â swyddogaethau anweithredol, ac yn benodol yn mabwysiadu'r trefniadau ar gyfer Craffu sydd wedi'u nodi yn "Cytundeb Llywodraethu 2: Atodiad 3" ohono fel sail ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.**
- (c) **Yn ddarostyngedig i gwblhau Cytundeb Llywodraethu 2, fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i weithredu fel yr Awdurdod Lletya a Chorff Atebol, ac yn llofnodi'r llythyr Cynnig Cyllid Grant ar ran y Partneriaid, drwy law y Prif Swyddog Cyllid.**
- (ch) **Cymeradwyo'r dull a ddefnyddir i gyfrifo cost benthyca sydd ei angen mewn egwyddor i hwyluso'r llyfr arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf, ac yn cynnwys darpariaeth o fewn Cyllideb y Cyngor i dalu'r cyfraniad hwn a'r cyfraniadau**

craidd ac atodol sydd wedi'u sefydlu fel sydd wedi'i nodi yn GA2 (ac ym mharagraffau 5.5 – 5.7 o'r adroddiad).

- (d) Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau gyda'r Partneriaid fel sydd angen i gwblhau'r cytundeb.**

11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2019/20

Croesawyd Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad blynyddol y pwyllgor am 2019/20.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnwyd sylw'n benodol at y ffaith bod y pwyllgor wedi adrodd ers sawl blwyddyn nad oedd achosion yn dod ger eu bron, ac felly yn dod i'r casgliad fod safonau Gwynedd yn uchel iawn. Ond, yn flynyddol yng nghyfarfod llawn y Cyngor, roedd aelodau yn nodi fod achosion yn cael eu hanfon at yr Ombwdsmon, ond bod y broses yn hirwyntog a'r trothwy ar gyfer ymchwiliad yn uchel, gan ei fod yn penderfynu yn amlach na pheidio nad oedd achos i'w ateb. Roedd hyn yn siom i bobl oedd yn credu bod ganddynt gŵyn ddilys.

Eglurwyd nad oedd y Pwyllgor Safonau yn cael manylion yr achosion oedd yn mynd gerbron yr Ombwdsmon, oherwydd, petai achos i'w ateb, byddai'n cael ei anfon yn ôl at y pwyllgor, a byddai gwybod manylion yr achos ymlaen llaw yn rhagfarnu'r pwyllgor. Fodd bynnag, dymunid sicrhau'r Aelodau a'r trigolion fod cynnal safonau o'r pwys mwyaf, a bod rhaid i bawb gymryd cyfrifoldeb dros eu hymddygiad eu hunain.

Diolchodd Dr Einir Young i'r Swyddog Monitro a'r Uwch Gyfreithiwr Corfforaethol am eu harweiniad cyfreithiol a'u cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Sylwyd nad oedd yr Ombwdsmon wedi ymdrin ag unrhyw achos eto eleni, a mynegwyd pryder bod pobl yn teimlo bellach nad oes pwrpas mynd â'u cŵyn at yr Ombwdsmon. Nid oedd modd i neb, heblaw cadeirydd neu glerc cyngor cymuned, droi at Unllais am gymorth, a holwyd i ble roedd pobl i fod i fynd i gael chwarae teg.
- Cyfeiriwyd at achos lle bu i gynghorwyr ymddiswyddo o ganlyniad i benderfyniad yr Ombwdsmon i beidio ymchwilio i'w cŵyn eu bod yn cael eu bwlio.
- Nodwyd ei bod yn hawdd cyhuddo cynghorwyr o fwlio, ac unwaith mae'r bys wedi'i bwyntio, rhaid i'r unigolion hynny weithio'n galed iawn i amddiffyn eu hunain. Nid yw cyhuddiad o fwlio yn golygu o reidwydd bod bwlio'n digwydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nodwyd bod rhaid gweithio o fewn y drefn sy'n bodoli. Roedd yna dros 700 o aelodau cynghorau cymuned a thref yng Ngwynedd a tua 63 o gynghorau, ac roedd yna brinder capasiti o fewn y cynghorau hynny i ymdrin eu hunain â materion sydd ddim yn cyrraedd y trothwy, yn enwedig yn y cynghorau llai. Nid oedd ateb syml i'r broblem, oni bai bod pot o adnoddau ychwanegol ar gael i hwyluso proses wahanol.

Diolchwyd i'r Dr Einir Young am ei chyflwyniad.

12. RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Paul Rowlinson o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

“Penderfyna'r Cyngor:

- (a) Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a gofyn iddi ddefnyddio unrhyw bwerau sydd ganddi i liniaru unrhyw effaith andwyol ar anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed a achosir gan arddangosfeydd tân gwyllt.
- (b) Ysgrifennu at Lywodraeth y DG a gofyn iddi gyflwyno deddfwriaeth i osod uchafswm lefel sŵn o 90dB ar gyfer tân gwyllt a werthir i'r cyhoedd ar gyfer arddangosfeydd preifat.
- (c) Gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau roi sylw o fewn ei raglen waith i adolygu pa gamau all y Cyngor gymeryd i hyrwyddo neu annog:
- Fod pob arddangosfa tân gwyllt gyhoeddus o fewn ffiniau'r sir yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw, o fewn ei gyffiniau gan roi cyfle i bobl gymryd rhagofalon dros eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.
 - Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed – gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu cymryd i liniaru risgiau.
 - Cyflenwyr lleol tanau gwyllt i werthu tân gwyllt llai swnllyd ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus.
 - Pobl i gyfyngu defnyddio tân gwyllt i gyfnod agos at ddyddiadau arbennig.”

Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig gan sawl aelod, ond nodwyd bod raid cofio hefyd bod tân gwyllt yn rhan annatod o ddathliadau crefyddol, megis Diwali, Gŵyl y Goleuni.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-

- (a) **Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a gofyn iddi ddefnyddio unrhyw bwerau sydd ganddi i liniaru unrhyw effaith andwyol ar anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed a achosir gan arddangosfeydd tân gwyllt.**
- (b) **Ysgrifennu at Lywodraeth y DG a gofyn iddi gyflwyno deddfwriaeth i osod uchafswm lefel sŵn o 90dB ar gyfer tân gwyllt a werthir i'r cyhoedd ar gyfer arddangosfeydd preifat.**
- (c) **Gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau roi sylw o fewn ei raglen waith i adolygu pa gamau all y Cyngor gymeryd i hyrwyddo neu annog:**
- **Fod pob arddangosfa tân gwyllt gyhoeddus o fewn ffiniau'r sir yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw, o fewn ei gyffiniau gan roi cyfle i bobl gymryd rhagofalon dros eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.**
 - **Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed – gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu cymryd i liniaru risgiau.**
 - **Cyflenwyr lleol tanau gwyllt i werthu tân gwyllt llai swnllyd ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus.**
 - **Pobl i gyfyngu defnyddio tân gwyllt i gyfnod agos at ddyddiadau arbennig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 3.55yp.

CADEIRYDD

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.55 y.h.

CADEIRYDD

Eitem 8

CYFARFOD:	Y Cyngor Llawn
DYDDIAD:	4 Mawrth 2021
AELOD CABINET:	Cynghorydd Ioan Thomas Aelod Cabinet Cyllid
TEITL:	TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM
AMCAN:	Cadarnhad ffurfiol am 2021/22 i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar anheddau gwag, ac i godi Premiwm o 100% ar eiddo perthnasol o'r fath.
SWYDDOG CYSWLLT:	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg)

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 1.1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm o hyd at 100% ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o **ail gartrefi** ac **eiddo gwag hir dymor**.
- 1.2. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.
- 1.3. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.
- 1.4. Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" ychwanegol o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi perthnasol (Adran 12B).
- 1.5. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac anheddau gwag hir dymor perthnasol am y flwyddyn ariannol 2018/19. Roedd rhaid gwneud y penderfyniad cyntaf i godi "Premiwm ail gartref" o leiaf blwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol, ond dim ond cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol mae angen gwneud unrhyw benderfyniad dilynol. Ers hynny, yn Rhagfyr 2018 a Rhagfyr 2019, penderfynodd y Cyngor barhau gyda'r cynllun heb newid yn 2019/20 a 2020/21 yn eu tro.
- 1.6. Yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2020 penderfynodd y Cyngor ohirio penderfyniad ar y disgowntiau a premiwm Treth Cyngor a gofyn Cabinet ystyried priodoldeb cynyddu lefel y Premiwm i hyd at 100%. Gofynnwyd i'r Cabinet gynnal proses ymgynghori ar y sail yma, ystyried y ffactorau perthnasol, a dod ag argymhelliad pellach i'r Cyngor ym mis Mawrth 2021 yn unol ag Adran 12, 12B a 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

ARGYMHELLIAD

Argymhellir gyfer 2021/22 fod Cyngor Gwynedd yn:

- Caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
- Caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 100% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
- Caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

2. CYFLWYNIAD

2.1. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor llawn ar 3 Rhagfyr 2020 yn argymhell cadw lefelau'r Premiwm yn 50% ar gyfer 2021/22. Mae dolen i'r adroddiad i'w gael yma:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27879/Eitem%209%20-%20Treth%20Cyngor%20-%20Hawl%20Disgresiwn%20i%20Ganiatau%20Disgowntiau%20a%20neu%20Godi%20Premiwm%202021-22.pdf?LLL=1>

2.2. Cyflwynwyd gwelliant yn y cyfarfod i ohirio'r penderfyniad a gofyn i'r Cabinet ystyried priodoldeb cynyddu y lefel i hyd at 100% a gofyn i'r Cabinet gynnal proses ymgynghori ar y sail yma.

2.3. Yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020, penderfynodd y Cabinet gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i gynyddu'r Premiwm ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Mae dolen i'r adroddiad hwnnw i'w gael yma:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27996/Adroddiad%20Cabinet%20-%20Premiwm%20Treth%20Cyngor%20C.pdf?LLL=1>

2.4. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 16 Chwefror 2021 yn egluro canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ac yn amlinellu'r ffactorau oedd rhaid i'r Cabinet eu hystyried cyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor.

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s28460/Adroddiad%20Cabinet%20-%20Ymgynghoriad%20Premiwm%20Treth%20Cyngor%20C.pdf?LLL=1>

[Atodiad 1 - Canllawiau](#)

[Atodiad 2 - Dadansoddiad Ymatebion i'r Ymgynghoriad](#)

[Atodiad 3 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb \(Adroddiad Cabinet\)](#)

2.5. Bydd rhaid i'r Cyngor llawn bwysu a mesur yr un ystryriaethau cyn dod i benderfyniad os yw am weithredu yn unol ag argymhelliad y Cabinet.

3. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Cyd-destun

- 3.1. Nid “ail gartrefi” na “tai haf” yw’r terminoleg a ddefnyddir yn Adran 12B, ond “aneddau gyda preswyllo o bryd i’w gilydd (dwellings occupied periodically)”. Mae’r Ddeddf yn datgan mai’r amodau er mwyn i eiddo fod yn destun premiwm Treth Cyngor “ail gartref” yw, “**there is no resident of the dwelling, and the dwelling is substantially furnished**”. Hynny yw, nad yw’r eiddo yma yn brif gartref i unrhyw un, ond mae wedi cael ei ddodrefnu. Nid yw’r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i allu gwahaniaethu ar sail lle mae’r perchennog yn byw, neu os yw’n cael ei ddefnyddio at bwrpasau gwyliau.
- 3.2. Yn Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 (SI 1998/105) mae ‘ail gartrefi’ wedi’u categorio i ddau ddsbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag:
 - **Dosbarth A** – Anedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi’i ddodrefnu’n sylweddol lle mae’r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
 - **Dosbarth B** – Anedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi’u ddodrefnu’n sylweddol a nid oes cyfyngiad cyfreithiol ar ei feddiant.
 - **Dosbarth C** – Anedd sydd yn ddiddeiliad a heb ei ddodrefnu’n sylweddol.
- 3.3. Diffinnir “trigolyn” mewn perthynas ag unrhyw anedd fel unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 mlwydd oed gyda’u prif neu unig breswylfa yn yr anedd (Adran 6(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992).
- 3.4. Oherwydd yr eithriadau statudol ni ellir codi Premiwm ar ail gartref Dosbarth A, ond ers 1998 mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu peidio caniatáu disgownt iddynt.
- 3.5. Adroddwyd i’r Cabinet yn Rhagfyr 2020 mai’r sefyllfa ar 25 Tachwedd 2020 oedd fod:
 - **4,718** eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)
 - **165** o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu’r Premiwm gan eu bod yn destun un o’r eithriadau a amlinellir yn Rhan 7 isod.
 - **811** eiddo o fewn Dosbarth A lle mae’r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
- 3.6. Ar yr un adeg, roedd **1,130** eiddo yn destun y Premiwm ar anedd gwag hirdymor.

Gofynion Statudol

- 3.7. Wrth roi’r grym i gynghorau i godi Premiwm o hyd at 100% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer gweinyddu’r Premiwm, sef *Canllawiau Gweithredu Premiymau’r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru*. Mae copi o’r Canllawiau Statudol i’w gael yn Atodiad 1.
- 3.8. Mae paragraffau 20 i 22 o’r Canllawiau yn amlinellu’r hyn sydd angen i awdurdod lleol ei ystyried pan yn bwriad cyflwyno Premiwm. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i rhain yn 2016 pan benderfynodd Cyngor Gwynedd gyflwyno Premiwm o 50% ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor. Wrth ystyried os yw am weithredu argymelliad y Cabinet a chynyddu lefel y Premiwm, bydd angen i’r Cyngor ystyried y canlynol eto, a sut mae’r dystiolaeth sydd i law yn cyflawni’r isod.

20. Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:

- **adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a**
- **chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.**

21. Wrth benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio, dylid talu sylw i'r nodau hyn. Dylai awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr angen am dai a'r amgylchiadau neilltuol yn eu hardal.

22. Mae yna ystod o ffactorau a allai fod o gymorth i awdurdodau lleol i benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio. Tra y bydd rhai ffactorau yn benodol naill ai i gartrefi gwag hirdymor neu i ail gartrefi, bydd eraill yn gyffredin i'r ddau. Rhestrir y ffactorau hyn isod i fod o gymorth i awdurdodau lleol. Ni fwriadwyd i'r rhestr fod yn un derfynol.

- **Niferoedd a chanrannau o gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi yn yr ardal;**
- **Dosbarthiad cartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd neilltuol;**
- **Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;**
- **Patrymau'r galw am gartrefi fforddiadwy a faint sydd ar gael;**
- **Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol;**
- **Yr effaith bosibl ar y gymuned leol;**
- **Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i gynyddu'r cyflenwad tai;**
- **Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i fod o gymorth i adfer defnydd eiddo gwag.**

3.9. Wrth gyflwyno'r Premiwm o 50%, rhoddwyd sylw penodol i ddau astudiaeth. Yn gyntaf, dadansoddiad manwl a gynhaliwyd yn 2013 oedd yn cefnogi cyflwyno premiwm, gan hefyd bwysu am gamau i reoli / rhwystro trosglwyddiad ail gartrefi i dai gwyliau masnachol a'r gyfundrefn treth busnes. Roedd y ddogfen yn cynnwys dadansoddiad fanwl yn cefnogi safbwynt y Cyngor y dylid rhoi'r hawl i ganiatáu premiwm ar ail gartrefi. Rhannwyd canlyniad y dadansoddiad yma gydag aelodau ar y pryd, a bu'n ystyriaeth allweddol wrth wneud y penderfyniad i godi Premiwm ar ail gartrefi.

3.10. Yn yr un modd, roedd Strategaeth Dai 2013-17 yn rhoi sylw i eiddo gwag o fewn Gwynedd, a datganiad cenhadaeth y Strategaeth Tai Gwag oedd: "Bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Ein nod yw cyfrannu at les y gymdogaeth, cynyddu'r cyflenwad tai, lleihau digartrefedd neu'r posiblirwydd o ddigartrefedd, ac ar yr un pryd, lleihau'r pwysau ar y Rhestr Aros Tai".

3.11. Erbyn hyn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Tai newydd, ac mae dau adroddiad allweddol wedi cael sylw gan y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020, sef Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau a'r Cynllun Gweithredu Tai.

3.12. Fel rhan o'r drefn o bwysu o mesur a dod at ei argymhelliad i'r Cyngor llawn, mae'r Cabinet wedi ystyried os ydi'r sefyllfa wedi newid yn y cyfnod ers penderfynu cyflwyno'r Premiwm yn 2016 i gyfiawnhau unrhyw newid i lefel y Premiwm. Mae'r Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau, y Strategaeth Tai a'r Cynllun Gweithredu Tai yn dystiolaeth allweddol er mwyn gwireddu hyn.

Ail Gartrefi

3.13. Mae canlyniad y Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau yn rhoi cefndir o'r sefyllfa gyfredol yng Ngwynedd o safbwynt "cartrefi gwyliau", ac effaith gyfunol ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar ar gymdeithas Gwynedd:

Adroddiad Cabinet:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad%20GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1>

Atodiad – Ymchwil:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27959/Eitem%207%20-%20Atodiad%20-%20Ymchwil.pdf?LLL=1>

3.14. Cymeradwywyd y gwaith ymchwil hwn gan y Cabinet i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Gwnaethpwyd y penderfyniad "yn wyneb yr angen i gael gwell rheolaeth ar dai sydd yn cael eu tynnu allan o'r cyflenwad sydd ar gael i bobl leol, a thrwy hynny i roi buddiannau trigolion lleol yn gyntaf".

3.15. Roedd y gwaith ymchwil yn ystyried "cartrefi gwyliau" fel cyfuniad o ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar. Roedd yr astudiaeth yn amlygu'r nifer uchel o anheddau a ddefnyddir o fewn Gwynedd at bwrpasau gwyliau, gyda dros 4,800 o ail-gartrefi ac oddeutu 2,000 o unedau gwyliau hunanddarpar (Tachwedd 2020):

	Gwynedd	Cymru
Nifer o unedau preswyl	61,645	988,418
Nifer o ail-gartrefi	4,873	18,547
Nifer o lety gwyliau hunan-ddarpar (uned busnes annomestig)	1,976	6,906
Cyfanswm cyfunol	6,849	25453
Canran cyfunol o lety gwyliau	10.76%	2.56%

Ffynhonnell: Adroddiad Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau, Rhagfyr 2020

3.16. Mae dros 1 o bob 10 uned preswyl yng Ngwynedd yn lety gwyliau gydag 8% yn ail gartrefi. Nid yw'r unedau gwyliau hunan-ddarpar yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn Treth Cyngor gan eu bod wedi trosglwyddo i'r rhestr ardrethi annomestig, a rhoddir mwy o sylw i'r eiddo hyn yn Rhan 5 o'r adroddiad yma.

3.17. Fel mae'r Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau yn nodi, ers cyflwyno premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn 2018 a chyflwyno'r cynllun rhyddhad treth i unedau llety gwyliau hunanarlwyo cymwys sy'n talu'r cyfraddau trethi annomestig, mae nifer yr ail gartrefi wedi lleihau'n raddol gyda nifer yr eiddo sy'n talu cyfraddau treth annomestig yn cynyddu'n raddol.

Anheddau Gwag

3.18. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ei Strategaeth Tai 2019-2024, "Cartrefi i Bobl Gwynedd" yng Ngorffennaf 2019:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Tai/Strategaeth-Tai-v29-Terf-Cymraeg.pdf>

3.19. Mae'r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd". Mae'r Strategaeth yn nodi'r canlynol am dai gwag: *"Rydym wedi adnabod oddeutu 1,300 o dai gwag ar draws y Sir. Mae'r rhain yn dai sydd wedi bod yn wag ers peth amser a gall eu cyflwr fod yn wael iawn. Mae hyn yn wastraff adnodd wrth ystyried bod agos i 2,000 o bobl ar restr aros y Cyngor. Credwn nad yw'r rhestr tai gwag yn gyflawn, a bod angen cynyddu'r ymdrech i'w canfod a'u dychwelyd i ddefnydd fel cartrefi i'n trigolion"*.

3.20. Mae nifer uchel o anheddau gwag hirdymor yng Ngwynedd o'i gymharu â siroedd eraill o'r un maint. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn trosi'r Strategaeth i mewn i brosiectau penodol er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa ac un o'r rhain ydi darparu cefnogaeth ariannol i 250 o brynwyr tro cyntaf lleol a fydd yn eu cynorthwyo i brynu ac adnewyddu cartrefi gwag.

Adroddiad Cabinet:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27956/Eitem%206%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai%20TERFYNOL.pdf?LLL=1>

Cynllun Gweithredu:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27957/Eitem%206%20-%20Atodiad%20A%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai.pdf?LLL=1>

4. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

- 4.1. Eglurwyd i'r Cabinet yn Rhagfyr 2020 fod y Canllawiau Statudol, *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru*, hefyd yn nodi

23. Rhaid i'r penderfyniad gan awdurdod lleol i godi premiwm dan adrannau 12A neu 12B o Ddeddf 1992 gael ei wneud gan y Cyngor llawn. Cyn gwneud hynny, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill. Dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, a chynnal ymgynghoriad cyn penderfynu p'un ai codi un neu'r ddau breimiwm ynteu peidio.

- 4.2. Wrth wneud ei benderfyniad i lansio ymgynghoriad, mynegodd y Cabinet ei fod yn ffafrio'r holiadur roedd Cyngor Sir Powys wedi ei ddefnyddio yn ddiweddar, ond i roi mwy o amlygrwydd i'r effaith ar yr iaith Gymraeg.
- 4.3. Defnyddiwyd y meddalwedd *LimeSurvey* a ddefnyddir yn arferol gan y Cyngor er mwyn llunio holiadur ar ffurf tebyg i un Cyngor Sir Powys. Lansiodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 22 Rhagfyr 2020, ac roedd yn agored tan 1 Chwefror 2021. Rhyddhawyd datganiad i'r wasg ar 23 Rhagfyr a arweiniodd at nifer o erthyglau ac eitemau yn y wasg a'r cyfryngau. Dechreuwyd cyhoeddi negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol yr un pryd er mwyn hyrwyddo'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd ail ddatganiad i'r wasg ym mis Ionawr mewn da bryd cyn y dyddiad cau, a bu sawl neges atgoffa ar gyfrifon Facebook a Trydar y Cyngor.

Cyfryngau Cymdeithasol a Llythyru

- 4.4. O 23 Rhagfyr 2020 tan Ionawr 30 2021, cyhoeddwyd cyfres o negeseuon rheolaidd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Mae'r ystadegau yn dangos fod 75,263 wedi gweld y negeseuon ar Facebook, a 78,909 wedi eu gweld ar Twitter. Yn ogystal, fe wnaeth 1,715 o bobl glicio ar y ddolen yn y neges ar Facebook, a 368 ar Twitter, gyda chyfanswm o 343 yn rhannu neu ail-drydar y negeseuon yma.
- 4.5. Er mwyn sicrhau fod ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad mor eang â phosib, ar 6 Ionawr anfonwyd llythyr at bob perchennog ail gartref ac eiddo gwag hirdymor yn eu hysbysu am yr ymgynghoriad; lle roedd cyfeiriad gohebu ar y system Treth Cyngor oedd yn wahanol i gyfeiriad yr eiddo dan sylw, defnyddiwyd y cyfeiriad gohebu.
- 4.6. Rydym yn hyderus felly bod ymdrech resymol wedi cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl Gwynedd a perchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor i'w hysbysu o'r ymgynghoriad fel bod modd iddynt ymateb, ac fod hyn yn dystiolaeth fod ymdrech glir wedi ei wneud i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol.


- 4.7. Un mater a godwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghori oedd nad oedd y meddalwedd yn cynnwys rhwystrau i atal unigolion rhag llenwi'r fwy nag unwaith. Codwyd hyn gan bobl oedd yn gwrthwynebu cynyddu lefel y Premiwm yn ogystal â'r rhai oedd yn gefnogi gwnaeud hynny. Nid oes modd cael cyfleuster gwirio a fyddai'n sicrhau mai unwaith yn unig y gallai unigolyn fynegi barn. Mae'n bwysig nodi nad pleidlais neu refferendwm cyhoeddus yw'r ymarfer hwn ond yn hytrach ymarfer ymgynghori a gynlluniwyd i gasglu barn trigolion llawn amser Gwynedd yn ogystal â pherchnogion anheddau sy'n cael eu meddiannu o bryd i'w gilydd ac anheddau gwag hirdymor ar faterion parhaus. Hynny yw, nid cyfrif amrwd o'r atebion o blaid ac yn erbyn cynyddu'r Premiwm fydd y prif ffactor fydd angen ei ystyried, ond serch hynny mae'r ffigyrau isod yn rhoi ymdeimlad i aelodau am nifer a chyfeiriad yr ymatebion.
- 4.8. Mae'n egwyddor sylfaenol fod unrhyw ymgynghoriad yn cael ei gynnal pan mae'r cynigion yn cael eu ffurfio a fod canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael ystyriaeth cydwybodol wrth ddod i safbwynt. Felly, wrth wneud ei argymhelliad, roedd angen i'r Cabinet roi ystyriaeth briodol i'r materion a'r pryderon sydd wedi eu cynnwys yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, fel bod darlun llawn o'r materion sydd wedi cael eu tynnu i'w sylw. Bydd angen i'r Cyngor wneud yr un peth.

Nifer Ymatebion


- 4.9. Derbyniwyd **6,227** o ymatebion i'r holiadur (6,171 wedi ei lenwi ar-lein a 56 wedi dychwelyd copi ar bapur), yn ogystal ag oddeutu 100 o lythyrau a negeseuon ar wahân yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r cynnig. Mae hyn yn ymateb eithriadol o uchel i ymgynghoriad cyhoeddus gan y Cyngor.
- 4.10. Mae'r holl ymatebion wedi eu cadw mewn taenlen sydd yn ffurfio rhan o Papurau Cefndir yr adroddiad yma.
- 4.11. Roedd 5,679 (91.2%) o'r rhai a atebodd yn dweud eu bod yn gyfrifol am dalu Treth Cyngor i Cyngor Gwynedd.
- 4.12. O'r ymatebwyr:
- Roedd 2,559 (41.1%) yn dweud nad oeddynt yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hir dymor
 - Roedd 3,326 (53.4%) yn dweud eu bod yn berchen ar ail gartref
 - Roedd 253 (4.1%) yn dweud eu bod yn berchen ar annedd gwag hir dymor
 - Roedd 71 (1.1%) yn dweud eu bod yn berchennog ar ail gartref ac annedd gwag hir dymor
 - Ni atebodd 18 y cwestiwn.

Dadnasoddi'r Canlyniadau

- 4.13. Mae'r Tîm Ymchwil a Gwybodaeth wedi gwneud ymdrech sylweddol ers dyddiad cau'r ymgynghoriad ar 1 Chwefror i ddadansoddi'r canlyniadau. Mae canlyniad eu gwaith i'w gael yn Atodiad 2.
- 4.14. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (55.1%) o'r farn fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar cymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 28.0% yn meddwl eu bod yn cael effaith negyddol, gyda 16.1% yn meddwl nad ydynt yn cael effaith ar y cyfan ("niwtral").
- 4.15. Fodd bynnag, wrth edrych ar y canlyniadau'n ddyfnach, gwelir fod gwahaniaeth amlwg rhwng barn yr ymatebwyr sydd yn berchen ar ail gartrefi a'r rhai nad ydynt. Mae bron i 4 o bob 5 (78.9%) o'r ymatebwyr sydd yn berchen ar ail gartref yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra dim ond ychydig dros chwarter (26.7%) o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hirdymor sydd o'r farn yma. Mae mwy neu lai 3 o bob 5 (59.9%) o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hirdymor yn meddwl bod ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra mai dim ond 3.8% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref sydd o'r farn yma.
- 4.16. Cwestiwn allweddol yn yr ymgynghoriad oedd **Mae'r Cyngor yn ystyried cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anneddau gwag hirdymor (sy'n 50% ar hyn o bryd). A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?**
- 4.17. Gwelir fod gwahaniaeth barn clir a disgwylidig yma rhwng perchnogion eiddo sy'n destun y Premiwm a pherchnogion eiddo sydd ddim, fel dangosir yn y siart isod.



- 4.18. Tra'n pwysleisio eto nad refferendwm oedd y broses, ond ymgynghoriad sy'n chwilio am farn a sylwadau i gynorthwyo'r awdurdod i ddod at benderfyniad, mae'r ymatebion yn rhoi ymdeimlad o'r farn gyhoeddus am y cynnig.
- 4.19. O'r rhai oedd yn datgan nad oeddynt yn berchen ar eiddo sy'n destun y Premiwm, roedd 61.2% o'r farn y byddai cynyddu'r Premiwm yn briodol, a 37.7% o'r farn na fyddai (roedd 1.1% heb fynegi barn).
- 4.20. Fodd bynnag, roedd 95.5% o berchnogion ail gartrefi yn datgan y byddai cynyddu'r Premiwm yn amhriodol, fel oedd 87.8% o berchnogion eiddo gwag hir-dymor a 94.4% o'r rhai sy'n berchen y ddau fath o eiddo.
- 4.21. Nid yw'n syndod i ddeall nad ydi'r trethdalwyr sy'n talu Premiwm ar hyn o bryd yn teimlo ei bod yn briodol gofyn iddynt dalu mwy, ond 61.2% o'r rhai oedd yn dweud nad oeddynt yn destun i'r premiwm ar hyn o bryd oedd yn gefnogol i'r bwriad. Dyma'r awgrym gorau sydd gennym fod y farn ymysg y rhai sydd ddim yn talu'r Premiwm – ac sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad – yn ranedig.
- 4.22. Un o'r dadleuon cyffredin iawn yn y sylwadau gan berchnogion ail gartrefi oedd y budd economaidd roeddynt yn ddweud maent yn ei gyfrannu i Wynedd, gan roi gwaith i adeiladwyr a masnachwyr lleol eraill, yn ogystal â'r gefnogaeth sy'n cael ei roi i siopau lleol. Ymddengys fod nifer o pobl sydd ddim yn talu premiwm o'r farn fod yna ddibyniaeth ar berchnogion ail gartrefi, gan fod 37.7% o'r trethdalwyr sydd ddim yn destun premiwm o'r farn y byddai cynyddu lefel y Premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol (serch y ffaith fod cynnyrch y Premiwm presennol yn cael ei ddefnyddio ar faterion tai lleol); roedd 32.2% yn credu y byddai'n cael effaith negyddol a 28.3% o'r farn na fyddai effaith, gyda 1.8% heb ateb y cwestiwn.
- 4.23. Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd yn nodi fod eu hail gartref yng Ngwynedd wedi bod ym meddiant eu teulu ers nifer o flynyddoedd, ac er eu bod yn meddu ar ased o safbwynt perchnogaeth yr eiddo, fod eu hincwm yn gymharol isel a nad yw'r Dreth Cyngor mor fforddiadwy iddynt ag y mae'r gred gyffredinol yn awgrymu. Mae'r Aseiad Effaith Cydraddoldeb (Atodiad 3) yn nodi fod tueddiad i berchnogion ail gartrefi fod yn bobl hŷn, a felly mae'n debygol iawn fod nifer yn ddibynnol ar eu pensiynau i dalu'r Dreth Cyngor.
- 4.24. Ar y llaw arall, mae'r dystiolaeth yn y graff isod yn dangos fod bandiau Treth Cyngor ail gartrefi yn dueddol o fod yn uwch na rhai Gwynedd yn gyffredinol:




5. TROSGLWYDDIADAU UNEDAU GWYLIAU HUNAN-DDARPAR

- 5.1. Pan wnaethpwyd y penderfyniad gwreiddiol i godi Premiwm, adnabuwyd y risg o gyflymiad yn y nifer o eiddo sy'n trosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, sy'n destun ardrethi annomestig. Byddai hyn oherwydd fod Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi dyfarnu eu bod yn cwrdd â'r trothwy i allu gwneud hynny.
- 5.2. Mae'r Cyngor ers sawl blwyddyn wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i newid Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn rheoli trosglwyddiad cartrefi domestig i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar sy'n destun ardrethi annomestig, a'r mwyafrif helaeth yn osgoi unrhyw drethiant lleol am eu bod yn derbyn ryddhad ardrethi busnesau bychain. Mae Cynllun y Cyngor yn nodi fod y Cyngor yn bwriadu parhau i gynnal ein pwysu yn y maes yma yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan ddefnyddio tystiolaeth rydym yn ei gasglu yn barhaus, er mwyn cael Gweinidogion Cymru i ddeall maint y broblem sy'n bodoli yng Ngwynedd. Siomedig fu'r ymateb hyd yma gyda'r Llywodraeth yn canolbwyntio mwy ar yr effaith niweidiol honedig ar dwristiaeth yn hytrach na'r effaith niweidiol go iawn ar drigolion Gwynedd.
- 5.3. Mae'r risg y byddai cynyddu'r Premiwm yn cymell mwy o berchnogion ail gartrefi i osod eu heiddo a'i drosglwyddo i'r rhestr ardrethi annomestig yn un mae'r Cyngor a'r Cabinet yn ymwybodol ohono ers peth amser gan i hyn gael ei ystyried mewn adroddiadau blaenorol.
- 5.4. Adroddwyd i'r Cyngor Llawn a'r Cabinet yn Rhagfyr fod y trosglwyddo yma yn parhau i gyflymu. Mae'r ffigyrau diweddaraf (hyd at ddiwedd Ionawr 2021) yn dangos fod cyfanswm o 2,106 eiddo yng Ngwynedd wedi trosglwyddo o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Ardrethi Annomestig, wedi i Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr ddynodi'r eiddo yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, yn unol ag Adran 66(2BB) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae oddeutu 90% o'r eiddo sy'n trosglwyddo yn derbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bychain llawn, sy'n golygu nad oes unrhyw drethiant lleol yn daladwy arnynt:


Blwyddyn ariannol	Nifer eiddo'n trosglwyddo
2020-21 (hyd at 31/01/2021)	419
2019-20	397
2018-19	454
2017-18	282
2016-17	199
2015-16	167
2014-15	188
Cyfanswm	2,106

- 5.5. Roedd perchnogion ail gartrefi sy'n talu Premiwm ar hyn o bryd hefyd yn ymwybodol fod y rhai sydd wedi trosglwyddo eu heiddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar yn osgoi talu unrhyw drethi o gwbl. Serch hynny, roedd nifer yn datgan fod eu eiddo wedi cael ei etifeddu, neu wedi cael ei brynu ers sawl blwyddyn, ac nad oedd ganddynt awydd i ddechrau ei osod yn fasnachol – os rhywbeth, roeddynt yn fwy tebygol o waredu'r eiddo. Roedd eraill yn datgan y buasent yn chwilio i drosglwyddo eu heiddo i fod yn fusnes er mwyn osgoi Treth Cyngor.

- 5.6. Mae profiadau diweddar, e.e. wrth weinyddu grantiau busnes Covid-19 y Llywodraeth, wedi dangos fod nifer o uniogolion a chwmnïau yn ymddangos yn prynu eiddo yng Ngwynedd erbyn hyn yn benodol gyda'r bwriad o'u trosi i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, yn hytrach na'u defnyddio fel ail gartref. Fel rhan o'r buddsoddiad yma maent yn ymdrechu i gadw'r eiddo o fewn y gyfundrefn Treth Cyngor am cyn lleied â phosib cyn gallu trosglwyddo.
- 5.7. Amlygwyd uchod fod bandiau Treth Cyngor ail gartrefi yn dueddol o fod mewn bandiau Treth Cyngor uwch na eiddo Gwynedd yn gyffredinol. I'r gwrthwyneb, mae'r eiddo sydd wedi trosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar ers 1 Ebrill 2018 mewn bandiau is, ac yn agosach i ddarlun cyffredin stoc dai Gwynedd (fel gwelir yn y graff isod). Dyma'r math o eiddo fyddai'n addas fel cartrefi i brynwyr tro cyntaf. Mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu fod sbeciannwyr sy'n prynu eiddo er mwyn eu troi'n unedau gwyliau hunan-ddarpar hefyd yn cael effaith andwyol ar argaeledd tai fforddiadwy ag ail gartrefi oherwydd natur yr eiddo maent yn eu prynu.



5.8. Wrth gymharu bandiau Treth Cyngor ail gartrefi Gwynedd a'r eiddo sydd wedi trosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar gyda bandiau Treth Cyngor stoc dai gyffredinol Gwynedd gwelir fod yr ail-gartrefi yn dueddol o fod mewn bandiau Treth Cyngor uwch na eiddo Gwynedd yn gyffredinol, tra fod yr eiddo sydd wedi trosglwyddo ers 1 Ebrill 2018 yn llawer agosach i stoc dai Gwynedd, mewn bandiau is, ac yn agosach i'r math o eiddo fyddai'n addas fel cartrefi i brynwyr tro cyntaf.




5.9. Ers 1 Ebrill 2018, mae cyfataledd o dros 400 eiddo y flwyddyn wedi cael ei golli o'r bandiau Treth Cyngor i'r gyfundrefn ardrethi annomestig. Mae Treth Cyngor Band D 2020/21 Cyngor Gwynedd oddeutu £1,430 sy'n golygu fod y Premiwm blynyddol (ar 50%) yn £715. Mae pob 400 eiddo sy'n trosglwyddo, ar sail y graddfeydd presennol yn golled o £286,000 o gynnyrch Premiwm y flwyddyn. Nid yw hyn yn cynnwys y Dreth Cyngor sylfaenol, fydd hefyd yn cael ei golli, ac unrhyw ad-daliad sydd rhaid ei dalu oherwydd ôl-ddyddio.

5.10. Petai'r Premiwm yn cynyddu i 100%, byddai pob 400 eiddo sy'n trosglwyddo yn golled o £572,000 o gynnyrch Premiwm. Wrth gwrs, petai graddfa'r Premiwm yn dyblu, byddai cyfanswm y cynnyrch yn parhau'n uwch cyn belled â bod llai na hanner yr eiddo sy'n ei dalu yn trosglwyddo. Yn y sefyllfa hwnnw byddai hanner y nifer presennol yn talu dwywaith y premiwm yr un er mwyn cynhyrchu'r un cyfanswm, gyda'r hanner arall yn talu dim trethiant lleol o gwbl.

5.11. Gyda'r lefel Premiwm o 50%, mae £2.7m wedi ei glustnodi'n flynyddol ar gyfer y Cynllun Gweithredu Tai, a hynny ar ôl caniatáu darpariaeth ddarbodus ar gyfer eiddo'n trosglwyddo i ardrethi annomestig, costau casglu ayb. Ar sail nifer presennol yr eiddo gallai cyfanswm gros o oddeutu £3.9m ychwanegol gael ei gasglu petai'r Premiwm yn cynyddu i 100% (cyn ystyried darpariaethau ddarbodus).

6. ANHEDDAU GWAG HIRDY MOR

- 6.1. Eglurwyd i'r Cabinet yn ei gyfarfod yn Rhagfyr fod rhai awdurdodau bilio yng Nghymru yn codi cyfradd wahanol o Premiwm ar eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi. Yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad mae rhai o berchnogion ail gartrefi wedi pwyntio allan fod angen i'r Cyngor ganolbwyntio cynyddu'r Premiwm ar eiddo gwag hirdymor, gan honni mai rhain sy'n achosi problemau cymdeithasol go iawn.
- 6.2. Fodd bynnag, byddai trafferthion ymarferol wrth godi graddfeydd gwahanol. Petai'r Cyngor yn cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag i fod yn uwch na graddfa ail gartrefi yr oll bydda'i perchnogion angen ei wneud fyddai dodrefnu'r ystafelloedd sy'n welady o'r tu allan. Ar y llaw arall, petai Premiwm eiddo gwag hirdymor yn cael ei osod yn is, ni fyddai modd ymarferol i blismona oddeutu 5,000 eiddo petai'r perchnogion yn datgan wrth y Cyngor nad yw'r eiddo wedi cael ei ddodrefnu bellach.
- 6.3. Dylid nodi hefyd fod cyfanswm o 1,130 eiddo gwag hir-dymor, tra'n gymharol isel o'i gymharu â nifer yr ail gartrefi o fewn Gwynedd, yn ffigwr uchel pan yn ystyried y galw am gartrefi fforddiadwy o fewn y sir ac mae hyn wedo ei gydnabod yn y Strategaeth Tai. Yn ôl Ystadegau Cymru, mae amcangyfrifon yn awgrymu fod Gwynedd yn 7fed allan o 22 awdurdod lleol Cymru o ran nifer o eiddo gwag hirdymor.
- 6.4. Mewn cymhariaeth â'r ail gartrefi ac eiddo sydd wedi trosglwyddo, gwelir fod yr anheddau gwag hirdymor o fewn Gwynedd yn dueddol o fod mewn bandiau Treth Cyngor is nag eiddo Gwynedd yn gyffredinol; gwelir yn arbennig fod dros 20% ohonynt ym Mand A, o'i gymharu â llai na 15% o'r stoc cyffredinol.



7. EITHRIADAU

- 7.1. Mae Deddf 1992 yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi'r hawl i Weinidogion Cymru osod eithriadau penodol (mewn dosbarthiadau) lle na ellir gosod premiwm Treth Cyngor. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r eithriadau lle na allwn godi'r premiwm yn unol â [Rheoliadau'r Dreth Gyngor \(Eithriadau rhag Symiau Uwch\) \(Cymru\) 2015 \(SI 2015/2068\)](#):

Dosbarthiadau o Anheddau	Diffiniad	Y math o eiddo sy'n gymwys i'r eithriad rhag talu'r premiwm
Dosbarth 1	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn	Cartrefi Gwag Hir dymor ac Ail Gartrefi
Dosbarth 2	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn	
Dosbarth 3	Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd	
Dosbarth 4	Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswyllo yn llety'r Lluoedd Arfog	
Dosbarth 5	Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod.	Ail Gartrefi
Dosbarth 6	Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn	
Dosbarth 7	Anheddau cysylltiedig â gwaith	

8. TRAFODAETH CABINET

- 8.1. Yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, yn ogystal â ffactorau perthnasol eraill fel a amlinellir yn y Canllawiau Statudol.
- 8.2. Cyn ystyried pa argymhelliad i'w gyflwyno, roedd yr aelodau Cabinet yn nodi na ddylai beth bynnag y byddent yn ei benderfynu fod yn ymgais i gosbi perchnogion eiddo, ond darparu gweledigaeth a chyflawni sefyllfa deg i bob un o drigolion Gwynedd, gydag unrhyw gynnyrch o'r Premiwm yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cartrefi. Byddai cael mwy o arian trwy'r dreth yma yn gwneud mwy i gartrefu pobl Gwynedd ac yn cynorthwyo'r Cyngor i wneud rhywbeth sy'n lleihau anghyfiawnder yn y sir.

Eiddo wedi ei feddiannu'r achlysurol (ail gartrefi)

- 8.3. Rhoddwyd ystyriaeth ar wahân i ail gartrefi (Adrannau 12 a 12B Deddf 1992) ac anheddau gwag hir-dymor (Adran 12A).
- 8.4. Nid oedd y Cabinet o'r farn ei bod yn rhy fuan i gynyddu lefel y Premiwm i 100%. Wrth ystyried y canllawiau statudol, nodwyd fod gwir angen i Gyngor Gwynedd barhau i ymdrechu i ddelio gyda'r sefyllfa dai.
- 8.5. Mae'r Cyngor eisoes wedi cyflwyno adroddiad i Llywodraeth Cymru yn sgil penderfyniad gan y Cabinet yn Rhagfyr 2020, yn annog newid y drefn cynllunio a thrwyddedu ar gyfer tai gwyliau. Yn ôl yr ymateb a dderbyniwyd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal gwaith eu hunain yn y maes.
- 8.6. Roedd hefyd angen adnabod y pwysau cynyddol ar y stoc dai lleol a'r bwch fforddiadwyedd cynyddol yn y farchnad dai. Roedd y Cyngor yn ceisio cyfarch hyn drwy'r Strategaeth Dai ac wedi mabsywiadu Cynllun Gweithredu Tai. Roedd yn un o amcanion y Premiwm i gynyddu argaeledd tai fforddiadwy a byddai cynyddu y Premiwm yn gyfrwng i gryfhau y cynlluniau yma yng ngwyneb sefyllfa oedd yn dwysau. Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn amlygu fod y sefyllfa yma yn gwaethygu ac yn cyfiawnhau adolygu lefel y Premiwm a'i osod ar y lefel uchaf.
- 8.7. Nodwyd fod aelodau'r Cabinet wedi ystyried effaith ail gartrefi ar gymunedau ac ar y stoc tai, ac fod hyn wedi bod yn destun trafod ers nifer o flynyddoedd bellach. Nodwyd fod cymaint o bobl wedi ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ond ar ôl pwysu a mesur roedd aelodau wedi dod i'r casgliad fod rhaid cyfarch anghenion trigolion Gwynedd a felly roeddynt yn cefnogi cynnig i argymhell i'r Cyngor fod y Premiwm yn cynyddu i 100%.
- 8.8. Roedd aelodau'r Cabinet yn awyddus i bwysleisio nad ymosodiad ar y diwydiant twristiaeth a'r economi ymweld fyddai'r argymhelliad yma, ond ymateb i'r argyfwng stoc tai lleol. Mae'r economi ymwelwyr yn bwysig i Wynedd ond mae canlyniad yr ymgynghoriad ehangach yn dangos fod angen "cydsyniad cymunedol" er mwyn i'r economi ffynnu ac i drigolion Gwynedd weld budd y diwydiant ymwelwyr. Mae hyn angen ei ystyried fel rhan o'r drafodaeth.
- 8.9. Tynnwyd sylw fod paragraff 5.22 o'r adroddiad yn nodi fod perchnogion ail gartrefi'n datgan eu bod yn dod â budd economaidd gan eu bod yn gwario gyda masnachwyr lleol megir adeiladwyr ayb. Tra fod aelodau'r Cabinet yn derbyn y byddai hynny'n dod ag arian i mewn i'r ardal, gofynnwyd beth fyddai'r sefyllfa i'r economi petai teulu yn byw yn llawn amser yn yr eiddo ac yn dod ag arian i'r economi trwy'r flwyddyn.

8.10. Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad, ystyriaeth o'r Strategaeth Dai a chynnwys y Canllawiau Statudol ynghyd a chanfyddiadau yr Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb, penderfynwyd y dylid argymhell fod graddfa'r Premiwm ar ail gartrefi Dosbarth B yn cynyddu i 100% a na fyddai disgownt yn cael ei gynnig i ail gartrefi Dosbarth A.

Anheddau Gwag Hirdymor

8.11. Roedd rhai o aelodau'r Cabinet yn awyddus i nodi fod y rhesymau fod anheddau yn gwag am dros flwyddyn yn gallu amrywio o un eiddo i'r llall ac yn dibynnu'n helaeth ar amgylchiadau penodol, e.e. os yw eiddo wedi cael ei etifeddu ac fod bwriad cadw'r eiddo yn yr hir-dymor. Mae cariad at fro yn ddealladwy.

8.12. Serch hynny, o ystyried y Strategaeth Dai a'r rhestr aros am dai yng Ngwynedd ar hyn o bryd, mae nifer o deuluoedd methu cael llety parhaol a tho dros eu pennau. Tynnwyd sylw'r aelodau i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i fod yn ddyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau fod ei gymunedau'n llewyrchus a'i drigolion yn iach. Tra'n cydnabod fod perchnogion ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm, roedd ymatebion eraill i'r ymgynghoriad yn nodi'r trafferthion roedd pobl yn ei brofi wrth geisio cartref ym mro eu mebyd.

8.13. Eto roedd hefyd angen adnabod y pwysau cynyddol ar y stoc dai lleol a'r bwch fforddiadwyedd cynyddol yn y farchnad dai a'r angen i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Roedd y Cyngor yn ceisio cyfarch hyn drwy y Strategaeth Dai ac wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai oedd ag elfennau yn cyfarch eiddo gwag yn benodol. Roedd yn un o amcanion y Premiwm i gynyddu argaelaedd tai fforddiadwy a byddai cynyddu'r premiwm yn gyfrwng i annog dod ag eiddo gwag i ddefnydd. Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn amlygu fod y sefyllfa yma yn gwaethygu ac yn cyfiawnhau adolygu lefel y premiwm a'i osod ar y lefel uchaf.

8.14. Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad, ystyriaeth o'r Strategaeth Dai a chynnwys y Canllawiau Statudol ynghyd â chynnwys yr Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb, penderfynwyd y dylid argymhell fod graddfa'r Premiwm ar anheddau gwag hirdymor hefyd yn cynyddu i 100%.

9. GOFYNION CYFREITHIOL

- 9.1. Ers i'r Cyngor benderfynu ar 3 Rhagfyr 2020 i ohirio'r penderfyniad ar raddfa'r Premiwm, rydym yn hyderus fod aelodau a swyddogion y Cyngor wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fod unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd wedi gwneud er mwyn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.

Dyletswydd Deddf Cydraddoldeb 2010

- 9.2. Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ddyletswydd dan Deddf Cydraddoldeb 2010 i ddal sylw priodol at yr angen i ddileu gwahnaiaethu, aflonyddu a gormesu anghyfreithlon, ynghyd ac ymddygiadau eraill a waherddir dan ddarpariaethau'r Ddeddf, cynyddu cyfle cyfartal a hefyd hyrwyddo perthnasau da rhwng y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad oes ganddynt (y Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol). Yn unol â'r gofyn yng Nghymru ac er cyfarch y dyletswydd yma mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei baratoi (Atodiad 3).
- 9.3. Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei baratoi ac wedi ei adolygu eto cyn ei gyflwyno i'r Cyngor. Mae'r manylion cyflawn a'r dadansoddiad yn yr Asesiad yn rhoi gwerthusiad o'r bwriad yn erbyn y dyletswyddau yma a cyfeirir aelodau yn benodol at y cynnwys.
- 9.4. Gellir crynhoi darganfyddiadau'r Asesiad fel a ganlyn. Mae peth tystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor yn cael effaith negyddol ar rai o'r grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig ond positif ar eraill. Disgwylir y bydd effaith gadarnhaol ar deuluoedd ifanc a phlant gan fod y polisi o godi Premiwm yn galluogi'r Cyngor i gyflenwi cartrefi iddynt, ond mae ymateb i'r ymgynghoriad yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn. Mae'r effaith ar yr iaith Gymraeg yn debygol o fod yn gadarnhaol, ond mae rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi honni fod y polisi yn un hiliol. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu fod cyfran arwyddocaol o'r unigolion sy'n debygol o gael eu heffeithio'n negyddol yn ariannol yn sgil y polisi yn adnabod eu hunain fel Saeson. Fodd bynnag, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan fod gweithrediad gadarnhaol yn gyfreithiol os yw'r polisi yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, ac yn yr achos hwn mae'n fodd o fynd i'r afael ag argyfwng tai i bobl leol. Mae posibilrwydd bychan damcaniaethol y gallai ambell ail gartref fod wedi ei brynu'n arbennig ar gyfer rhywun gyda anabledd, ond ni ragwelir effaith penodol ar y grwpiau eraill gyda nodweddion gwarchoddedig.
- 9.5. Pwysleisir fod y Premiwm yn cael ei godi ar sail defnydd yr eiddo, nid nodweddion y perchennog. Mae'r rhesymeg am y polisi o godi Premiwm yn deillio o'r deddfwriaeth sydd yn caniatáu gosod y premiwm, yr arweiniad statudol a'r ystyriaethau sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad.

10. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

- 10.1. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.
- 10.2. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol:

- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor
 - Trigolion sy'n iach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da
- 10.3. Ers y penderfyniad gwreiddiol yn 2016 i godi Premiwm Treth Cyngor, rhoddwyd sicrwydd fod ystyriaeth wedi ei roi i'r materion hyn. Mae'r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor, sy'n ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.
- 10.4. Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".
- 10.5. Mae'r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni'r weledigaeth hon:
1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
 2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
 3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
 4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
 5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.
- 10.6. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd ati i wireddu'r amcanion hyn.

11. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

11.1. Mae'r Cabinet wedi gwneud yr argymhelliad canlynol:

Argymhellir gyfer 2021/22 fod Cyngor Gwynedd yn:

- **Caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
 - **Caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 100% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
 - **Caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
- 11.2. Wrth ystyried argymhelliad y Cabinet, bydd angen i'r Cyngor sicrhau fod cyfiawnhad dros y cynnig fel a amlinellir yn y Canllawiau Statudol ac fod gwaith ymchwil yn cadarnhau fod problem yn bodoli sydd angen ei dacio.
- 11.3. Bydd y Cyngor yn ymwybodol fod cynyddu'r Premiwm yn debygol o gynyddu'r incwm a ddaw i'r Cyngor a byddai modd defnyddio'r cynnyrch yma i ariannu mwy o brosiectau yn y Cynllun Gweithredu Tai. Mae hefyd yn arf i dacio anghyfartaledd cymdeithasol o fewn Gwynedd.

11.4. Ar y llaw arall nid yw'r incwm wedi ei warantu os bydd anheddau yn parhau i drosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, a nid yw addasu'r Premiwm am fod yn ddatrysiad i'r broblem parhaus yma. Er sawl blwyddyn, mae'r Cyngor wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i newid Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn rheoli trosglwyddiad cartrefi domestig i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar sy'n destun ardrethi annomestig, a'r mwyafrif helaeth yn osgoi unrhyw drethiant lleol am eu bod yn derbyn ryddhad ardrethi busnesau bychain. Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal ein pwysu yn y maes yma yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan ddefnyddio tystiolaeth rydym yn ei gasglu yn barhaus, er mwyn cael Gweinidogion Cymru i ddeall maint y broblem sy'n bodoli yng Ngwynedd. Siomedig fu'r ymateb hyd yma gyda'r Llywodraeth yn canolbwyntio mwy ar yr effaith niweidiol honedig ar dwristiaeth yn hytrach na'r effaith niweidiol go iawn ar drigolion Gwynedd.

12. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

12.1. Mae'r adroddiad yn disgrifio canlyniadau'r ymgynghoriad.

DOGFENNAU CEFNDIR

1. Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad ar Bwerau Disgresiwn i Awdurdodau Lleol i Gynyddu'r Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi (Hydref 2013)
2. Strategaeth Tai 2019-2024, "Cartrefi i Bobl Gwynedd"
3. Cynllun Gweithredu Tai Gwynedd
4. Ymatebion i'r Ymgynghoriad (gan eithrio dogfenau sydd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am unigolion)

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:

Y Swyddog Monitro:

Rwyf wedi cael cyfle i gael mewnbwn l'r adroddiad ymlaen llaw. Rwy'n fodlon ei fod yn darparu arweiniad ar y seiliau penderfynu, y cyd –destun a chanlyniadau'r ymgynghoriad. Mae'n bwysig fod y Cyngor yn cloriannu y materion yma yn ofalus wrth ddod i benderfyniad ar y mater.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Premiymau'r Dreth Gyngor.....	3
Adran 12A: Swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor.....	4
Adran 12B: Swm uwch ar gyfer ail gartrefi.....	5
Gwneud Penderfyniad i godi Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi.....	5
Eithriadau i Breimiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi.....	6
Dosbarth 1: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth.....	7
Dosbarth 2: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod.....	8
Dosbarth 3: Eithriad ar gyfer anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd.....	8
Dosbarth 4: Eithriad ar gyfer anheddau, fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswyllo yn llety'r Lluoedd Arfog.....	8
Dosbarth 5: Eithriad ar gyfer safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod	8
Dosbarth 6: Eithriad ar gyfer cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn.....	9
Dosbarth 7: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â gwaith.....	9
Lleihau Atebolrwydd am Breimiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi.....	10
Apeliadau.....	11
Y Camau Nesaf.....	11
Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Gysylltiedig.....	11
Gweinyddu a Gorfodi.....	11
Defnydd o'r Refeniw Ychwanegol a gynhyrchir o Breimiymau'r Dreth Gyngor.....	11
Monitro ac Adrodd.....	12

Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru

Cyflwyniad

1. O 1 Ebrill 2017, bydd Awdurdodau Lleol yn cael codi premiwm o hyd at 100% o raddfa safonol y Dreth Gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yn eu hardal. Gwnaed y newidiadau i'r ddeddfwriaeth gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r pwerau a roddwyd i awdurdodau lleol yn rhai dewisol. Mae dewis codi premiwm ar gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi (neu'r ddau) felly yn benderfyniad sydd i gael ei wneud gan bob awdurdod lleol.
2. Pwrpas y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio yn eu hardal.
3. Cynhyrchwyd y canllawiau hyn er mwyn sicrhau bod y premiymau a'r eithriadau yn cael eu gweithredu'n deg ac yn gyson ledled Cymru.
4. Mae'r canllawiau yn statudol ac fe'u cyhoeddir dan bwerau yn adrannau 12A (3) a 12B (4) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Maent yn berthnasol i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.
5. Ni ddylid trin y canllawiau hyn fel dehongliad o'r ddeddfwriaeth. Mater i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf yw dehongli deddfwriaeth, gyda'r dehongliad terfynol yn gyfrifoldeb y llysoedd.

Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Premiymau'r Dreth Gyngor

6. Mae paragraffau 7 - 14 yn disgrifio'r fframwaith cyfreithiol sy'n gyffredin i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'r gofynion sy'n benodol i gartrefi gwag hirdymor wedi eu hesbonio ym mharagraffau 15-17, ac mae'r rheiny sy'n benodol i ail gartrefi wedi eu disgrifio ym mharagraffau 18-19.
7. Mae Deddf 2014 yn diwygio Deddf 1992 drwy osod adrannau newydd 12A a 12B i mewn er mwyn galluogi awdurdod trethu (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) yng Nghymru i ddatgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd i anheddau gwag hirdymor ac anheddau lle mae rhywun yn byw yn achlysurol a chymhwyso swm uwch o dreth gyngor (premiwm).
8. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i benderfynu ar swm y premiwm hyd at uchafswm o 100% o raddfa safonol y dreth gyngor sy'n berthnasol i'r annedd.

9. Pan benderfynir codi premiwm, rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi rhybudd o'r penderfyniad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad.
10. Bydd penderfyniad gan awdurdod trethu i godi premiwm hefyd yn datgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd dan adran 11(2)(a) o Ddeddf 1992 ar gyfer anheddau lle nad oes preswylwyr.
11. Gall awdurdod trethu wneud, amrywio neu ddirymu penderfyniad a wnaed dan adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992, ond dim ond cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddi.
12. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bwerau dan adrannau 12A(4) a 12A(5), a 12B(5) a 12B(6) o Ddeddf 1992 i ragnodi drwy reoliadau rai dosbarthiadau o anheddau na fyddant o bosibl yn destun premiwm. Gwnaed Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau i Symiau Uwch Cymru) 2015 dan y pwerau hyn ac mae'r eithriadau y maent yn eu rhagnodi yn cael eu disgrifio yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.
13. Mae system y dreth gyngor eisoes yn darparu nifer o eithriadau penodol i'r dreth gyngor. Mae'r grwpiau sydd wedi eu heithrio wedi eu rhestru yng Ngorchymyn Treth Gyngor (Anheddau wedi eu Heithrio) 1992. Mae nifer o eithriadau yn eu lle ar gyfer anheddau gwag, megis, er enghraifft:
 - lle mae'r preswlydd mewn gofal preswyl tymor hir neu yn yr ysbyty,
 - lle mae adeiladwaith annedd yn cael ei drwsio (am hyd at flwyddyn),
 - lle mae'r preswlydd wedi marw (am hyd at chwe mis ar ôl rhoi profiant neu lythyrau gweinyddu).
14. Nid yw annedd sydd wedi ei heithrio o'r dreth gyngor yn agored i bremiwm. Fodd bynnag, pan na fydd annedd bellach yn gymwys i gael ei heithrio, ond yn parhau'n wag, bydd yn dod yn agored i'r premiwm. Yn achos cartref gwag, bydd yn agored i bremiwm ar ôl iddo fod yn wag am gyfnod di-dor o flwyddyn.

Adran 12A: Swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor

15. Diffinnir annedd wag hirdymor fel annedd sydd wedi bod yn wag a heb ei dodrefnu i raddau helaeth am gyfnod di-dor o flwyddyn o leiaf.
16. Wrth benderfynu a yw annedd wedi bod yn wag am flwyddyn, nid yw unrhyw gyfnod cyn 1 Ebrill 2016 i gael ei gymryd i ystyriaeth. At hynny, ni fydd dodrefnu neu fyw mewn annedd am un neu fwy o gyfnodau o chwe wythnos neu lai yn ystod y flwyddyn yn effeithio ar ei statws fel annedd wag hirdymor. Mewn geiriau eraill, ni all person newid statws annedd fel annedd wag hirdymor drwy fyw ynddi neu osod dodrefn am gyfnod byr.

17. Pan fydd awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad i godi premiwm ar anheddau gwag hirdymor, efallai y bydd yn pennu gwahanol ganrannau (hyd at uchafswm o 100 y cant) ar gyfer gwahanol anheddau ar sail yr hyd o amser y maent wedi bod yn wag. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu dull graddedig gyda chynyddiadau bychain yn cael eu cymhwyso dros gyfnod.

Adran 12B: Swm uwch ar gyfer ail gartrefi

18. Diffinnir ail gartref fel annedd nad yw yn unig nac yn brif gartref person ac sydd wedi ei dodrefnu'n sylweddol. Cyfeirir at yr anheddau hyn yn Neddf 1992 fel anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt o dro i dro ond y cyfeirir atynt yn gyffredin fel "ail gartrefi".

19. Er mwyn i bremiwm fod yn berthnasol i anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt o dro i dro, rhaid i'r awdurdod trethu wneud ei benderfyniad cyntaf dan adran 12B o leiaf flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn perthyn iddi. Mae hyn yn golygu er mwyn codi premiwm o 1 Ebrill 2017 bod rhaid i'r awdurdod trethu wneud penderfyniad cyn 1 Ebrill 2016. Rhaid gwneud penderfyniad i godi premiwm yn 2018 cyn 1 Ebrill 2017 ac felly ymlaen.

Gwneud penderfyniad i godi Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi

20. Bwriadwyd i'r disgrisiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:

- adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a
- chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynladwyedd cymunedau lleol.

21. Wrth benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio, dylid talu sylw i'r nodau hyn. Dylai awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr angen am dai a'r amgylchiadau neilltuol yn eu hardal.

22. Mae yna ystod o ffactorau a allai fod o gymorth i awdurdodau lleol i benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio. Tra y bydd rhai ffactorau yn benodol naill ai i gartrefi gwag hirdymor neu i ail gartrefi, bydd eraill yn gyffredin i'r ddau. Rhestrir y ffactorau hyn isod i fod o gymorth i awdurdodau lleol. Ni fwriadwyd i'r rhestr fod yn un derfynol.

- Niferoedd a chanrannau o gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi yn yr ardal;
- Dosbarthiad cartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd neilltuol;
- Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;

- Patrymau'r galw am gartrefi fforddiadwy a faint sydd ar gael;
- Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol;
- Yr effaith bosibl ar y gymuned leol;
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i gynyddu'r cyflenwad tai;
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i fod o gymorth i adfer defnydd eiddo gwag.

23. Rhaid i'r penderfyniad gan awdurdod lleol i godi premiwm dan adrannau 12A neu 12B o Ddeddf 1992 gael ei wneud gan y Cyngor llawn. Cyn gwneud hynny, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill. Dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, a chynnal ymgynghoriad cyn penderfynu p'un ai codi un neu'r ddau bremiwm ynteu peidio.

24. Ar ôl penderfynu codi premiwm, yn ychwanegol at yr angen i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol o fewn 21 diwrnod, dylai awdurdod lleol ystyried sut i gyfleu ei benderfyniad yn ehangach, yn enwedig i'r rheiny y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt. Gall wneud hyn drwy gyhoeddi hysbysiadau yn y wasg, rhoi gwybodaeth ar dudalennau gwefan neu ddulliau eraill o godi ymwybyddiaeth megis, er enghraifft, cyfathrebu uniongyrchol â threthdalwyr y cyngor sy'n debygol o fod yn agored i'r premiwm. Efallai y bydd yr awdurdod lleol hefyd yn dymuno rhoi ystyriaeth i'r modd y mae'n rhoi gwybod ac yn hysbysu'r rheiny y gall y premiwm effeithio arnynt ond sydd fel rheol yn byw y tu allan i'r ardal leol.

Eithriadau i Breimymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi

25. Mae adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru iddynt wneud rheoliadau i ragnodi un neu ragor o ddsbarthiadau o anheddau na chaiff awdurdod trethu wneud penderfyniad i godi premiwm mewn perthynas â hwy. Gwnaed Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau i Symiau Uwch) (Cymru) 2015 dan y pwerau hyn - ni cheir codi premiwm ar annedd sy'n dod o fewn eithriad. Rhaid i awdurdod lleol gymryd yr eithriadau hyn i ystyriaeth cyn penderfynu gweithredu premiwm.

26. Mae'r rheoliadau yn rhagnodi saith dosbarth o anheddau sydd wedi eu heithrio. Mae Dosbarthiadau 1,2,3 a 4 yn ymwneud â chartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi. Ag ail gartrefi yn unig y mae a wnelo Dosbarthiadau 5,6 a 7. Mae'r dosbarthiadau o anheddau wedi eu hamlinellu yn y tabl isod a rhoddir mwy o fanylion yn eu cylch ym mharagraffau 28 - 46.

Dosbarthiadau o Anheddau	Diffiniad	Cymhwysiad
Dosbarth 1	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn	Cartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi
Dosbarth 2	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn	
Dosbarth 3	Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd	
Dosbarth 4	Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswyllo yn llety'r Lluoedd Arfog	
Dosbarth 5	Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod.	Ail Gartrefi
Dosbarth 6	Cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn	
Dosbarth 7	Anheddau cysylltiedig â gwaith	

27. Disgrifir pob eithriad ymhellach yn yr adran nesaf. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau ar gyfer:

- anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth
- anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod
- anheddau cysylltiedig â gwaith.

Dosbarth 1: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth

28. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth. Mae hefyd yn cynnwys anheddau lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn ond bod y gwerthiant heb ei gwblhau eto.

29. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn rhaid i annedd fod ar y farchnad i'w gwerthu am bris rhesymol. Wrth ystyried a yw pris yn rhesymol, dylid ystyried prisiau gwerthu anheddau tebyg yn yr ardal. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

30. Mae'r cyfnod eithrio yn rhedeg am hyd at un flwyddyn o'r amser y caniatwyd yr eithriad. Wedi i'r eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sy'n

cael ei marchnata fel annedd ar werth yn gymwys i gyfnod eithrio pellach oni fydd wedi cael ei gwerthu.

Dosbarth 2: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod

31. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod. Mae hefyd yn cynnwys anheddau lle mae cynnig rhentu wedi cael ei dderbyn ond nad oes gan y tenant hawl eto i fyw yn yr eiddo am nad yw'r denantiaeth wedi cychwyn eto.
32. Er mwyn bod yn gymwys i'r eithriad hwn, rhaid i annedd fod ar y farchnad i'w gosod am rent rhesymol, sef y rhent y disgwylid i'r eiddo ei ennill o ystyried y rhent a godir am anheddau cyffelyb. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.
33. Mae'r cyfnod eithrio yn rhedeg am hyd at un flwyddyn o'r amser y caniatawyd yr eithriad. Wedi i'r cyfnod eithrio ddod i ben, ni fydd annedd sy'n cael ei marchnata fel annedd ar osod yn gymwys i gyfnod eithrio pellach oni fydd wedi bod yn destun tenantiaeth a roddwyd am gyfnod o chwe mis neu ragor.

Dosbarth 3: Eithriad ar gyfer anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd

34. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi.
35. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle mae perchennog wedi addasu ei annedd i ddarparu anecs ac mae'r anecs bellach yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r brif annedd.

Dosbarth 4: Eithriad ar gyfer anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswyllo yn llety'r Lluoedd Arfog

36. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi.
37. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun ond sy'n wag oherwydd bod y person hwnnw yn preswyllo yn llety'r Lluoedd Arfog.
38. Bwriedir i'r eithriad hwn hefyd gynnwys personél y lluoedd arfog y mae eu cartrefi'n wag oherwydd eu bod yn byw yn llety'r lluoedd arfog dramor.

Dosbarth 5: Eithriad ar gyfer safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod sy'n cael eu defnyddio.

39. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n cynnwys safle lle mae carafán yn sefyll neu angorfa lle mae cwch wedi ei angori, lle nad oes neb yn preswyllo yn y cwch neu'r garafán, ond pan fydd yn cael ei defnyddio nesaf fydd yn unig neu'n brif breswylfa person.

Dosbarth 6: Eithriad ar gyfer cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn

40. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n berthnasol i anheddau sy'n destun amodau cynllunio sy'n atal preswyllo am gyfnod di-dor o 28 diwrnod o leiaf yn unrhyw gyfnod o 12 mis.

41. Bwriadwyd yr eithriad hwn i gynnwys cartrefi gwyliau pwrpasol neu hafotai sy'n destun amodau cynllunio sy'n atal preswyllo ar hyd y flwyddyn. Mae'r eithriad yn seiliedig ar ddiffiniad y disgownt dewisol presennol ar gyfer cartrefi tymhorol (Dosbarth A) yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998¹.

Dosbarth 7: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â gwaith

42. Nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol ond i'r premiwm ar ail gartrefi ac mae'n ymwneud ag annedd lle mae person yn byw sydd:

- yn berson cymwys mewn perthynas â'r annedd, ond sy'n preswyllo mewn annedd arall sy'n gysylltiedig â gwaith (fel y'i diffiniwyd yn Atodlen 1 y Rheoliadau); neu
- yn berson cymwys mewn perthynas ag annedd sy'n gysylltiedig â gwaith.

43. Diffinnir person cymwys fel:

- person sy'n agored i dreth gyngor o ran annedd ar ddiwrnod arbennig, p'un a yw hynny ar y cyd gyda pherson arall neu beidio; a
- pherson fyddai'n agored i'r dreth gyngor o ran annedd ar ddiwrnod arbennig, p'un a fyddai hynny ar y cyd gyda pherson arall neu beidio, os nad oedd yr annedd honno yn dod o fewn:
 - i. Dosbarth O Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau sydd wedi eu heithrio) 1992; neu
 - ii. Dosbarth E Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion) 1992.

44. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle mae gofyn i berson breswyllo mewn annedd gysylltiedig â gwaith. Mae'n berthnasol i ail gartref lle mae rhywun yn byw'n achlysurol oherwydd bod angen i berson fyw mewn llety

¹ SI 1998 Rhif 105

cysylltiedig â gwaith yn rhywle arall. Mae hefyd yn berthnasol lle mae'r llety cysylltiedig â gwaith yn ail gartref person.

45. Rhoddir diffiniad o annedd gysylltiedig â gwaith yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Er bod yr eithriad hwn yn debyg i'r disgownt cysylltiedig â gwaith dan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998, mae'n wahanol oherwydd nad yw'r disgownt yn berthnasol ond os yw'r annedd gysylltiedig â gwaith yn unig neu brif breswylfa person.
46. Gwahaniaeth arall i'r disgownt ar gyfer annedd gysylltiedig â gwaith yw nad oes gofyn i'r trethdalwr fod yn atebol am y dreth gyngor o ran dwy annedd, sy'n golygu y gall person sydd â phrif gartref dramor neu annedd gysylltiedig â gwaith dramor hefyd elwa o'r eithriad. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

Lleihau Atebolrwydd am Bremiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag-Hirdymor ac Ail Gartrefi

47. O dan adran 13A o Ddeddf 1992, mae gan awdurdod trethu bwerau dewisol i leihau atebolrwydd am dreth gyngor i'r cyfryw raddau ag y mae'r awdurdod trethu yn meddwl sy'n addas. Gellir arfer y grym mewn achosion neilltuol neu drwy benderfynu dosbarth neu achos. Gellir defnyddio'r grym i leihau atebolrwydd am dreth gyngor mewn amgylchiadau lle y byddai awdurdod lleol fel arall yn codi premiwm.
48. Mae rhai enghreifftiau i ddarlunio lle y gallai awdurdod lleol ystyried defnyddio'r pwerau hyn yn cynnwys:
- lle mae rhesymau pam na ellid byw yn yr annedd;
 - lle mae rhesymau pam na ellid gwerthu neu osod yr annedd;
 - lle mae cynnig wedi cael ei dderbyn ar eiddo ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto ac mae'r cyfnod eithrio wedi dod i ben;
 - lle y gallai codi premiwm achosi caledi.
49. Nid yw'r rhestr uchod yn derfynol a bydd ar awdurdodau trethu eisiau ystyried yr holl ffactorau y maent yn meddwl eu bod yn berthnasol.
50. Mater i awdurdod lleol yw p'un a yw pwerau dewisol 13A yn cael eu defnyddio i leihau atebolrwydd am dreth gyngor o ran y premiwm. Er mwyn tegwch a thryloywder, dylai fod gan awdurdod lleol bolisi clir ar p'un a ddefnyddir y pwerau hyn ai peidio a sut. Dylai'r awdurdod, fodd bynnag, ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ar ôl cymryd amgylchiadau'r achos i ystyriaeth.
51. Dylid nodi y bydd trafodaethau ynghylch defnyddio pwerau dewisol 13A yn debygol o fod yn wahanol pan gânt eu hystyried i leihau atebolrwydd am dreth gyngor sy'n ganlyniad premiwm o gymharu â lleihau atebolrwydd am raddfa safonol y dreth gyngor. Mae hyn oherwydd bod anheddau sy'n agored i bremiwm eisoes yn agored i'r raddfa safonol o dreth gyngor.

Apeliadau

52. Os bydd person yn teimlo ei fod wedi cael cam drwy gyfrifiad yr awdurdod lleol o swm y dreth gyngor y mae'n atebol amdano, gan gynnwys ei atebolrwydd i dalu premiwm, rhaid iddo, yn y lle cyntaf, apelio at ei awdurdod lleol.

53. Os bydd yn teimlo ei fod wedi cael cam drwy benderfyniad yr awdurdod lleol neu os na fydd yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad o fewn y cyfnod o amser sy'n ofynnol, gall apelio at Dribiwnlys Prisio Cymru ond dim ond ar ôl dihysbyddu proses apelio'r awdurdod lleol.

54. Ceir gwybodaeth bellach am y broses apelio ar wefan Tribiwnlys Prisio Cymru drwy'r cyswllt isod:

<http://www.valuation-tribunals-wales.org.uk/home.html>

Y Camau Nesaf

Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Gysylltiedig

55. Er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu gweinyddu a gorfodi'r premiwm, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i adlewyrchu cyflwyno'r premiwm, er enghraifft, newidiadau i gyfrifiad sylfaen y dreth ac i'r broses apelio.

Gweinyddu a Gorfodi

56. Er mwyn bod o gymorth i awdurdodau lleol gyda gweinyddu a gorfodi'r premiymau, yn enwedig cymhwyso'r eithriadau, darperir arweiniad ychwanegol.

57. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan rai awdurdodau ynglŷn ag anawsterau gweinyddol a ffyrdd posibl o gamddefnyddio, bydd yr arweiniad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau ar gyfer:

- anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth;
- anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod; ac
- anheddau cysylltiedig â gwaith.

Defnydd o'r Refeniw Ychwanegol a gynhyrchir o Bremiymau'r Dreth Gyngor

58. Bydd awdurdod lleol yn cael cadw unrhyw gyllid ychwanegol a gynhyrchir drwy weithredu'r premiwm a gwneir diwygiadau i gyfrifiad sylfaen y dreth er mwyn hwyluso hyn. Fodd bynnag, anogir awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

59. Caiff gofynion penodol o ran adrodd am y refeniw ychwanegol a gynhrychwyd, a'r defnydd ohono yn ddiweddarach, eu hegluro mewn arweiniad pellach. Rhoddir rhagor o fanylion ynglŷn â hyn yn yr adran nesaf.

Monitro ac Adrodd

60. Er mwyn monitro pa mor effeithiol yw'r premiymau ac er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch y defnydd a wneir ohonynt ar gael yn glir i drethdalwyr lleol, bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fonitro ac adrodd am weithrediad y premiymau.

61. Caiff y gofynion penodol mewn perthynas â hyn eu hesbonio mewn arweiniad pellach a gyhoeddir cyn Ebrill 2017. Mae hwn yn debygol o gynnwys:

- Nifer yr adeiladau sy'n agored i'r premiwm;
- Yr incwm ychwanegol a godwyd drwy weithredu'r premiymau;
- Sut y cafodd unrhyw incwm ychwanegol ei ddefnyddio;
- Nifer y cartrefi gwag yr adferwyd eu defnydd.

62. Mae modiwl newydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar Datatank i awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth fodelu, monitro ac adrodd ar y premiymau. Bydd hwn ar gael i'r holl awdurdodau lleol yn y Flwyddyn Newydd.

Tîm Trethi Lleol
Llywodraeth Cymru
Rhagfyr 2015

Atodiad 2 – Dadansoddiad o Ymgynghoriad Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor

Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 22ain Rhagfyr 2020 ac roedd yn agored tan hanner nos ar 1af Chwefror 2021. Rhoddwyd yr holiadur ar wefan y Cyngor gyda llythyrau wedi cael eu gyrru i holl berchnogion ail gartrefi, a negeseuon atgoffa yn cael eu rhoi ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Cyhoeddwyd dau ddatganiad i'r wasg – un ar 23 Rhagfyr 2020 ac un ar 19 Ionawr 2021 - i godi ymwybyddiaeth o'r ymarferiad yn y wasg a'r cyfryngau ynghyd a chyfres o negeseuon ar gyfrifon gwefannau cymdeithasol y Cyngor

Derbyniwyd 6,227 o ymatebion i'r holiadur. Roedd 6,171 o ymatebion i'r holiadur ar-lein a 56 o ymatebion papur. Mae hyn yr nifer fwyaf o ymatebion mae'r Cyngor wedi ei weld i unrhyw ymgynghoriad yn y blynyddoedd diwethaf.

Gweler isod ddadansoddiad o gwestiynau meintiol yr holiadur gyda enghreifftiau o'r math o atebion a gafwyd ar gyfer y cwestiynau ansoddol.

Ydych chi'n gyfrifol am dalu Treth Cyngor i Cyngor Gwynedd am unrhyw eiddo?

Gweler o'r tabl isod fod 91.2% (N=5,679) o'r ymatebwyr yn gyfrifol am dalu Treth Cyngor i Cyngor Gwynedd am unrhyw eiddo, tra fod 8.5% (N=523) ohonynt ddim.


	Nifer	Canran
Ydw	5,679	91.2%
Nac ydw	523	8.4%
Dim ateb	25	0.4%
Cyfanswm	6,227	100.0%

A ydych chi'n berchen ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd?

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (58.6%, N=3,650) yn berchen ar un ai ail gartref neu annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd (neu'r ddau).

O fewn y ffigwr yma roedd 53.4% (N=3,326) yn berchen ar ail gartref, 4.1% (N=253) yn berchen ar annedd gwag hirdymor, ac 1.1% (N=71) yn berchen ar y ddau (h.y. annedd gwag hirdymor ac ail gartref yng Ngwynedd).

Doedd 41.1% (N=2,559) o'r ymatebwyr ddim yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd.




O'r 5,679 o'r ymatebwyr a oedd yn talu treth gyngor, roedd ychydig dros hanner ohonynt (57.7%, N=3,278) yn berchen ar ail gartref, ychydig dros draean ddim yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hirdymor (36.4%, N=2,069), ac 4.4% (N=249) yn berchen ar annedd gwag hirdymor.

A ydych chi'n berchen ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd?	Ydych chi'n gyfrifol am dalu Treth Cyngor i Cyngor Gwynedd am unrhyw eiddo?							
	Ydw		Nac Ydw		Dim ateb		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Nac ydw	2,069	36.4%	484	92.5%	6	24.0%	2,559	41.1%
Ydw – ail gartref	3,278	57.7%	36	6.9%	12	48.0%	3,326	53.4%
Ydw – annedd gwag hirdymor	249	4.4%	3	0.6%	1	4.0%	253	4.1%
Ydw – annedd gwag hirdymor ac ail gartref	71	1.3%		0.0%		0.0%	71	1.1%
Dim ateb	12	0.2%		0.0%	6	24.0%	18	0.3%
Cyfanswm	5,679	100%	523	100%	25	100%	6,227	100%

Yn eich barn chi, pa effaith mae ail gartrefi yn ei gael ar gymunedau lleol ar hyn o bryd?

Mewn cyfanswm roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (55.1%, N=3,433) yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 28.0% (N=1,746) o'r farn eu bod yn cael effaith negyddol, gyda 16.1% (N=1,002) yn meddwl eu bod yn cael effaith niwtral.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartrefi a rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



Siart ddim yn dangos y nifer fychan o ymatebwyr oedd heb ateb y cwestiwn

“Perchen ail gartref” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p’run ai oeddent hefyd yn berchen annedd gwag hirdymor ai peidio

“Ddim yn berchen ail gartref” yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o’r ddau

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod 78.9% (N=2,624) o'r ymatebwyr sydd yn berchen ar ail gartref yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith cadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra dim ond ychydig dros chwarter (26.7%, N=684) o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hirdymor sydd o'r farn yma. Mae 59.9% (N=1,533) o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hirdymor yn meddwl bod ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra mai dim ond 3.8% (N=125) o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref sydd o'r farn yma.

Gwelir fod ymatebion yr rhai sy'n berchen ar annedd gwag hirdymor yn eithaf cyfartal, gyda ychydig mwy ohonynt (37.5%, N=95) yn teimlo fod ail gartrefi yn cael effaith niwtral ar gymunedau lleol ar hyn o bryd.

	Effaith gadarnhaol		Effaith niwtral		Effaith negyddol		Dim ateb		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag annedd gwag hirdymor	684	26.7%	329	12.9%	1,533	59.9%	13	0.5%	2,559	100.0%
Perchen ail gartref	2,624	78.9%	554	16.7%	125	3.8%	23	0.7%	3,326	100.0%
Perchen annedd gwag hirdymor	75	29.6%	95	37.5%	78	30.8%	5	2.0%	253	100.0%
Perchen annedd gwag hirdymor ac ail gartref	44	62.0%	19	26.8%	8	11.3%	0	0.0%	71	100.0%
Dim ateb	6	33.3%	5	27.8%	2	11.1%	5	27.8%	18	100.0%
Cyfanswm	3,433	55.1%	1,002	16.1%	1,746	28.0%	46	0.7%	6,227	100.0%

Dyma enghreifftiau o'r sylwadau ychwanegol oedd yn cael eu nodi:

Cadarnhaol:

“Mae'n dod ag ymwelwyr i'r gymuned, yn dod ag incwm bychan i preswylwr lleol a ddim yn effeithio prisiau tai lleol. Mae llai na 5% o'r tai yn fy mhentref yn ail gartrefi.”

“Mae perchnogion ail gartrefi yn cyfrannu i'r economi – maent yn rhoi mwy mewn yn economaidd nag y maent yn ei gael allan. Mae angen i ni annog busnes a twristiaeth, dim digalonnï yn enwedig ar ôl y flwyddyn yma.”

“Cadarnhaol yn enwedig gan bod llawer o berchnogion ail gartrefi wir yn cyfrannu i'w cymunedau yn lleol. Rydym yn defnyddio pobl trin gwallt, pobl trin cŵn, atyniadau a canolfannau gweithgareddau lleol. A mwy. Rydym yn gwneud hyn drwy'r flwyddyn yn wahanol i dwristiaid/ ymwelwyr. Rydym wedi ymrwymo i'n cartrefi, yr ardal leol a'r gymuned. Mae llawer o ail gartrefi hefyd yn cael ei gosod fel llety gwyliau sydd yn golygu bod yr ymwelwyr yma'n gwario arian yn lleol fan helpu busnesau a cymunedau yn lleol.”

“Wedi derbyn ty nain a’i gadw fel bod ein plant yn gallu aros yn yr ardal yn y dyfodol.”

“Sawl un wedi cael ei adnewyddu yn y dref. Un neu ddau yn adfail. Hefyd, does dim digon o lefydd i aros yn y dref. Dim hotels mawr. Er hynny, mae digon o dai haf nawr a dylai roi terfyn arnynt.”

Niwtral:

“Mae’n gymysg. Dwi’n deall y cyflwr, ond dwi ddim yn meddwl wnaiff anghymell ail gartrefi ddod a prisiau tai i lawr – yn enwedig yn y tymor byr. Yr unig ateb yw cynyddu’r stoc dai i addasu prisiau, a gwneud y rhan fwyaf ohonynt yn flaenoriaeth i bobl lleol”.

“Maent yn dod a llawer o arian a gwaith i’r ardal felly’n dda yn y cyd-destun yna ond mae angen gosod cyfradd i gyfyngu’r nifer o ail gartrefi. Hefyd, ni ddylent cael cofrestru fel busnes a peidio talu unrhyw drethu lleol. Dwi yn meddwl bod treth cyngor 200% yn ormod ac fe wnaiff niweidio’r ardal.”

Negyddol:

“Mae yna argyfwng tai oherwydd anghyfartaledd economaidd rhwng y rhai sydd eisau prynu yn lleol a'r rhai sydd yn dymuno prynu ail-gartref neu ar gyfer Airb&b a'r cyffelyb. Mae hyn yn gysylltiedig a diffyg gwaith parhaol a chyflogau isel sydd yn arbennig yn broblem mewn ardaloedd twristiaeth. Nid yw economi twristaidd yn gynnaladwy o gwbl ac mae colli pobl ifanc yn gwano'r ardaloedd hyn ymhellach ac yn golygu dirywiad parhaol yn yr iaith Gymraeg”


“Dwi’n gwerthfawrogi bod twristiaeth yn elwa’r economi leol ond gallwn atynnu twristiaeth drwy gwestai a safleoedd campio ayb mae angen i ni sicrhau yn gyntaf bod yna gartrefi i bobl sydd eisau byw yma yn llawen amser ac yn barhaol ac integreiddio hefo’r gymuned leol. Does gan rhai pobl ddim cartrefi – sut gallai felly bod yn dderbyniol i ganiatáu i bobl cael ail gartrefi yma – Dwi’n meddwl hyd yn oed heb pobl yn cael ei ail gartrefi yma byddai pobl dal eisau dod yma ar eu gwyliau felly dwi ddim yn meddwl bydd twristiaeth yn cael ei eiffeithio.”

“Mae'n anodd, os nad amhosib, i lawer iawn o bobl ifanc neu bobl ag incwm isel, brynu cartrefi yn eu cymunedau eu hunain yng Ngwynedd. Maen nhw'n cael eu prisio allan gan berchnogion ail gartrefi. Rwyf yn nabod llawer o gyplau ifanc yn Arfon a Llyn sy'n methu fforddio prynu eu ty cyntaf yn yr ardaloedd lle maen nhw wedi cael eu magu a lle maen nhw'n gweithio. Mae hon yn broblem gynyddol. Byddai codi'r premiwm yn creu incwm i'r cyngor helpu'r bobl hyn a lliniaru'r broblem.”

Yn eich barn chi, pa effaith mae anheddau gwag hirdymor yn ei gael ar gymunedau lleol ar hyn o bryd?

Mewn cyfanswm roedd 65.0% (N=4,049) o'r ymatebwyr yn meddwl fod anheddau gwag hirdymor yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 28.2% (N=1,756) yn meddwl eu bod yn cael effaith niwtral a 4.72% (N=295) yn meddwl eu bod yn cael effaith cadarnhaol.

Dangosir yn y siart isod bod rhywfaint o wahaniaeth yn y farn yma rhwng ymatebwyr sy'n berchen annedd gwag hirdymor a gweddill yr ymatebwyr.



Siart ddim yn dangos y nifer fychan o ymatebwyr oedd heb ateb y cwestiwn

“Perchen annedd gwag hirdymor” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen annedd o’r fath, p’run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio

“Ddim yn berchen annedd gwag hirdymor” yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim annedd gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o’r ddau

Mae’r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod ychydig dros hanner (56.9%, N= 144) o’r ymatebwyr sy’n berchen ar annedd gwag hirdymor yn teimlo fod anheddau

gwag hirdymor yn cael effaith niwtral ar gymunedau lleol, gyda ychydig dros traean ohonynt (34.4%, N=87) yn meddwl eu bod yn cael effaith negyddol.

Mae 77.8% (N=1,992) o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag annedd gwag hirdymor yn teimlo fod anheddau gwag hirdymor gwag yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol, tra fod bron i un o bob pump ohonynt (17.6%, N=451) yn meddwl eu bod yn cael effaith niwtral.

Mae 58.4% (N=1,944) o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn meddwl fod anheddau gwag hirdymor yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol, gyda tua traean ohonynt (33.6%, N=1,116) yn meddwl eu bod yn cael effaith niwtral.

	Effaith gadarnhaol		Effaith niwtral		Effaith negyddol		Dim ateb		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag annedd gwag hirdymor	87	3.4%	451	17.6%	1,992	77.8%	29	1.1%	2,559	100.0%
Perchen ail gartref	183	5.5%	1,116	33.6%	1,944	58.4%	83	2.5%	3,326	100.0%
Perchen annedd gwag hirdymor	14	5.5%	144	56.9%	87	34.4%	8	3.2%	253	100.0%
Perchen annedd gwag hirdymor ac ail gartref	10	14.1%	40	56.3%	20	28.2%	1	1.4%	71	100.0%
Dim ateb	1	5.6%	5	27.8%	6	33.3%	6	33.3%	18	100.0%
Cyfanswm	295	4.7%	1,756	28.2%	4,049	65.0%	127	2.0%	6,227	100.0%

Dyma enghreifftiau o'r sylwadau ychwanegol oedd yn cael eu nodi:

Cadarnhaol:

“Mae rhain yn aml yn brosiectau adnewyddu sydd yn cymryd amser ac arian i wella oherwydd bod yr eiddo wedi cael ei adael i ddyddio neu mewn cyflwr gwael. Mae Covid 19 wedi rhwystro cynnydd y prosiectau yma ond hefyd mae’r ddiffyg gweithwyr sydd yn gallu ymrwymo neu’n ddibynadwy hefyd yn ychwanegu i’r oedi. Unwaith maent wedi eu cwblhau maent yn dod i fod yn ail gartrefi a chartrefi gwyliau sydd yn dod a buddion i bobl lleol....”

Niwtral:

“Rwy'n rhannol berchen ar annedd drwy etifeddiaeth. Mae'r eiddo ar werth ers blwyddyn a hanner am bris a ystyrir yn rhesymol gan asiantaeth dai lleol ac mae'r pris gwreiddiol wedi cael ei ostwng ddwywaith yn y gobaith y byddai'n denu prynwr lleol, Mae treth y cyngor ar yr eiddo bron cymaint â'r dreth cyngor rydyn ni'n ei thalu ar ein cartref mewn sir arall er nad ydym yn manteisio ar unrhyw gyfleusterau a gynigir gan Gyngor Gwynedd.”

“Maent yn arbed arian i’r Cyngor e.e. casglu gwastraff ac rydych yn parhau i dderbyn 50% yn ychwanegol o dreth Cyngor”

“Nid ydynt yn niweidiol i’r gymuned leol. Rhaid cadw rhyddid i prynu a gwerthu eiddo a ni ddylai perchnogion cartrefi cael eu cosbi yn ormodol.”

Negyddol:

“Colli ymdeimlad o gymuned”

“Maent yn gwneud i bentrefi ymddangos yn flêr ac anghroesawgar. Mae anfantais i eiddo cyfagos.”

“Llai o blant yn ein hysgolion, llai o fwrlwm yn ein cymunedau, a pobl ifanc yn cael eu hel o’r gymuned.”

“Mae argaeledd o eiddo i rhentu yn gyfyngedig a chost yr eiddo wedi chwyddo oherwydd ail gartrefi, cartrefi gwyliau, Air BnB ac eiddo gwag hirdymor – mae’n rhaid i rhywbeth newid neu fe wnaiff ein cymunedau farw.”

“Mae nhw’n gallu achosi problemau e.e. - denu ymddygiad gwrth gymdeithasol, byddai’n gallu bod yn gartref neu fusnes lleol.”

“Nid yw cartrefi gwag yn cyfrannu at gymuned, os nad mai’r opsiwn amgen yw eu bod yn parhau i fod yn wag ac yn dirywio gan nad oes gan unrhyw un diddordeb yn eu cynnal. Nid yw’n ymddangos bod cydbwysedd cadarnhaol i’w cael gan eu bod yn denu incwm i’r cymuned fel sydd yn achos perchnogion ail gartrefi”


Mae'r Cyngor yn ystyried cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor (sy'n 50% ar hyn o bryd). A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?

Gweler fod 71.3% (N=4,440) o'r ymatebwyr yn nodi nad yw'n briodol i gynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor. Nododd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr (27.4%, N=1,705) ei fod yn briodol i gynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor.

Gweler gwahaniaethau mewn barn yn ôl os oedd ymatebwyr yn berchen ar ail gartref neu annedd gwag hirdymor neu beidio. Roedd 61.2% (N=1,566) o'r ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar ail gartref nag annedd gwag hirdymor yn teimlo ei fod hi yn briodol i gynyddu lefel y premiwm treth cyngor, tra mai dim ond 3.2% (N=107) o'r ymatebwyr oedd yn berchen ar ail gartref ac 9.9% (N=25) o'r ymatebwyr oedd yn berchen ar annedd gwag hirdymor oedd yn teimlo hyn.

Er eu bod ddim yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hirdymor, roedd ychydig dros draean (37.7%, N=965) yr ymatebwyr yma ddim yn meddwl ei fod yn briodol cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor. Roedd 95.5% (N=3,176) o'r ymatebwyr oedd yn berchen ar ail gartref ac 87.8% (N=222) o'r ymatebwyr sydd yn berchen ar annedd gwag hirdymor hefyd o'r farn yma.

	Ydi		Nac Ydi		Dim ateb		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag annedd gwag hirdymor	1,566	61.2%	965	37.7%	28	1.1%	2,559	100.0%
Perchen ail gartref	107	3.2%	3,176	95.5%	43	1.3%	3,326	100.0%
Perchen annedd gwag hirdymor	25	9.9%	222	87.8%	6	2.4%	253	100.0%
Perchen annedd gwag hirdymor ac ail gartref	3	4.2%	67	94.4%	1	1.4%	71	100.0%
Dim ateb	4	22.2%	10	55.6%	4	22.2%	18	100.0%
Cyfanswm	1,705	27.4%	4,440	71.3%	82	1.3%	6,227	100.0%



Siart ddim yn dangos y nifer fychan o ymatebwyr oedd heb ateb y cwestiwn


Dim cwestiwn sylwadau ychwanegol

Yn eich barn chi, a fyddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi yng Ngwynedd yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg?

Gweler fod 71.9% (N=4,480) o'r ymatebwyr o'r farn na fyddi cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi yng Ngwynedd yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg, tra fod ychydig dros chwarter (25.8%, N=1,605) o'r farn y byddai.

Gweler gwahaniaethau ymysg yr ymatebwyr sy'n berchen ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref neu beidio. Mae'r barn yr ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref wedi hollti, gyda 51.9% (N=1,329) ohonynt yn teimlo na fyddai'n cael effaith ar yr iaith Gymraeg, ac 46.4% (N=1,187) yn teimlo y byddai yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg tra fod 87.5% (N=2,909) o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref o'r farn na fyddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae ychydig dros chwarter (27.3%, N=69) yr ymatebwyr sy'n berchen ar annedd gwag hirdymor yn meddwl y byddai yn cael effaith ar yr iaith Cymraeg tra fod 68.8% (N=174) ohonynt ddim.

	Byddai		Na fyddai		Dim ateb		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Ddim yn berchen ail gartref nag annedd gwag hirdymor	1,187	46.4%	1,329	51.9%	43	1.7%	2,559	100%
Perchen ail gartref	335	10.1%	2,909	87.5%	82	2.5%	3,326	100%
Perchen annedd gwag hirdymor	69	27.3%	174	68.8%	10	4.0%	253	100%
Perchen annedd gwag hirdymor ac ail gartref	12	16.9%	57	80.3%	2	2.8%	71	100%
Dim ateb	2	11.1%	11	61.1%	5	27.8%	18	100%
Cyfanswm	1,605	25.8%	4,480	71.9%	142	2.3%	6,227	100%



Sart ddim yn dangos y nifer fychan o ymatebwyr oedd heb ateb y cwestiwn

Dyma enghreifftiau o'r sylwadau ychwanegol oedd yn cael eu nodi:

Byddai:

"Ia, dwi'n credu byddai'n cael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg gan y byddai gennym llai o swyddi yn twristiaeth a fe wnaiff ein pobl ifanc, yn syml, symud i ffwrdd lle gallent ffeindio swyddi gwell. Mae gennyf sawl ffrind ac aelod teulu oedd yn siaradwyr Cymraeg iaith cyntaf sydd wedi symud i ffwrdd yn barod a wnaiff ddim dod yn ôl oherwydd dyw'r partneriaid maent wedi ei gyfarfod ddim yn siarad Cymraeg ac mae gyfleoedd gwaith iddynt yn gyfyngedig"

"Effaith negyddol ar yr iaith gan bydd codi lefel y premiwm yn mynd â'r premiwm fwy allan o gyrraedd bobl lleol a fwy i ddwylo'r bobl rydych yn trio atal i brynu'r eiddo fel y mae hi. Tydi'r gost ddim yn effaith i rai or bobl."

"Byddai wir. Fel yr wyf wedi'i nodi eisoes, byddai hyn yn cadw siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau ac yn gyfle iddyn nhw fagu teuluoedd yno yn Gymraeg ar gyfer y dyfodol. Hefyd yn hwb i weithgareddau a thraddodiadau Cymraeg megis CFfl, Urdd neu eisteddfodau - mwy o bobl i gymryd rhan a pharhau â'r gweithgareddau yma."

"Dwi'n teimlo os ydi pobl lleol neu pobl sydd ddim yn lleol ond eisiau byw yna yn barhaol yn dod yn rhan o'r gymuned wnaiff hyn cadw'r iaith Gymraeg i fynd. Tydi pobl yma yn ei ail gartrefi ddim am drafferthu i ddysgu'r iaith a mewn cymuned hefo llawer o ail gartrefi fe wnaiff yr iaith fynd."

Na fyddai:

"Mae'r niwed eisioes wedi ei wneud gan ddegawdau o ddiffyg blaengynllunio."

“Pam bod angen ymwneud a’r iaith Gymraeg â hyn ? Mae llawer o bobl Cymraeg sydd â ail gartrefi maent unai ym rhentu allan fel tai gwyliau er mwyn cael incwm mewn ardal o swyddi cyflogaeth isel ac mae hefyd pobl Cymraeg yn byd ar hyd Cymru sydd yn gallu fforddio a mwynhau ail gartref yn Nghymru. Eto mae’r cwestiwn yma’n amherthnasol a gyda bias.”

“Mae’r twf yn yr iaith Gymraeg dros y blynyddoedd diweddaraf yn dangos nad yw ail gartrefi yn cael effaith” [[Sylw Saesneg Wreiddiol “The growth in the use of the Welsh language over the most recent years demonstrates that second homes have no effect.”]]


“Yn sicr ddim. Rydym yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd”

“Ddim yn sicr. Mae’n dibynnu ar lefel y premiwm - dwi’n amau fydd codiad o 100% ddim yn gwneud fawr o wahaniaeth, gan fod perchnogion ail dai a llety gwyliau hefo incwm ddigonol i fforddio hyn.”

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi yng Ngwynedd yn cynyddu, byddai nifer yr ail gartrefi yng Ngwynedd yn...

Gweler fod ymatebion i'r cwestiwn yma wedi'i hollti, gyda bron i hanner (47.5%, N=2,959) yn meddwl bydd nifer yr ail gartrefi yn gostwng, ac bron i hanner (46.5%, N= 2,895) yn meddwl byddai nifer yr ail gartrefi yn aros yr un fath. Mae barn y pobl sydd yn berchen ar ail gartrefi yn adlewyrchu'r uchod, tra fod ychydig mwy o bobl sydd ddim yn berchen ar ail gartrefi nag anheddau gwag hir dymor yn meddwl bydd nifer yr ail gartrefi yn gostwng (53.8%, N=1,377). Mae canran uwch o'r ymatebwyr sydd yn berchen ar annedd gwag hirdymor yn meddwl bydd nifer yr ail gartrefi yn aros yr un fath (67.6%, N=171).

	Cynyddu		Aros yr un fath		Gostwng		Dim ateb		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag annedd gwag hirdymor	126	4.9%	1,027	40.1%	1,377	53.8%	29	1.1%	2,559	100%
Perchen ail gartref	110	3.3%	1,651	49.6%	1,497	45.0%	68	2.0%	3,326	100%
Perchen annedd gwag hirdymor	24	9.5%	171	67.6%	51	20.2%	7	2.8%	253	100%
Perchen annedd gwag hirdymor ac ail gartref	3	4.2%	38	53.5%	29	40.8%	1	1.4%	71	100%
Dim ateb	0	0.0%	8	44.4%	5	27.8%	5	27.8%	18	100%
Cyfanswm	263	4.2%	2,895	46.5%	2,959	47.5%	110	1.8%	6,227	100%



Siart ddim yn dangos y nifer fychan o ymatebwyr oedd heb ateb y cwestiwn

Dyma enghreifftiau o'r sylwadau ychwanegol oedd yn cael eu nodi:

Cynyddu:

"Dwi'n meddwl bydd dal mwy o bobl yn fodlon prynu ail gartrefi, ond byddent yn dod o adran mwy cyfoethog o'r cyhoedd, a ddim o reidrwydd rhai sydd yn sympathetig i'r ardal neu gyda cysylltiad hanesyddol yna. Bydd cael ail gartref yn dod yn weithgaredd mwy elitaidd."

Aros yr un fath:

"Ni fydd yn cael unrhyw effaith ar berchnogaeth ail gartrefi ac yn sicr yn cael dim effaith cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. Fe fydd, fodd bynnag yn gyrru rhaniadau rhwng preswylwyr parhaol a perchnogion ail gartrefi ac yn y pendraw arwain at cymdeithas mwy rhanedig."

"Mae'n rhaid i chi dderbyn bod y mwyafrif sylweddol o bobl sydd gyda ail gartrefi gyda nhw gan eu bod nhw wedi bod yn llwyddiannus. Fe wnaiff y pobl yma amddiffyn eu buddsoddiadau mewn unrhyw ffordd posib. Er bod 50% yn brifo'n ariannol buasai 100% yn newid y cydbwysedd a bydd llawer yn ceisio osgoi ei dalu mewn ffyrdd teg, neu fel arall, dyna'r gwirionedd."

"Os yw pobl yn gallu fforddio ail gartref byddent yn talu y treth cyngor."

"Bydd mwy o llety gwyliau!"

"Canlyniad hyn fyddai i rai o'r tai yma gael eu gwerthu i berchnogion unig gartrefi. Efallai i rai bob leol ond mae'n bosibl mai mewnfudwyr newydd o Loegr fydd yn cymryd y rhan helaeth! Gyda dyfodiad Covid mae miloedd wedi darganfod bod yn hawdd iawn gweithio o adref, 'Rwyf yn amau y bydd rhai o breswylwyr trefi Lloegr yn gweld y syniad o weithio o adref mewn ardal wledig yn un delfrydol. Canlyniad hefyd bydd bod y tai yna yn cael eu troi yn eiddo busnes gyda colled fawr yn elw treth cyngor. Hynny neu gwerthu wna i."

“Oherwydd agwedd negyddol Cyngor Gwynedd tuag at perchnogion ail gartrefi yn er enghraifft Fairbourne lle maent wedi mwy neu lai sicrhau bod gan y tai ddim gwerth heb galluogi unrhyw ostyngiad mewn gwerth treth. Ni all perchnogion cael allan hyd yn oed petai nhw eisiau.”

Gostwng:

“Efallai wnaiff pobl werthu a prynu ail gartref rhywle arall sydd ddim yn codi premiwm ar dwristiaid”

“Bydd y cynghorau yn gyrru neges glir i perchnogion ail gartrefi nad oes croeso iddyn yn Nghymru a byddent yn annog unrhyw deimladau felly yn lleol yn hytrach na ceisio symud ymlaen i agenda mwy addas ar gyfer y 21ain ganrif.”

“Bydd llawer mwy o gymhelliad i drin yr ail gartref fel cartref gosod gwyliau, felly’n gostwng incwm treth Cyngor. Mae pwynt ble mae’r safiad ar dreth yn ddigonol i wneud yn iawn am y baich ychwanegol o osod yr eiddo.”


“Byddai rhai perchnogion tai haf yn gwerthu, a fyddai o fudd i gymunedau lleol.”

“Tra mae’r anghyfartaledd cyflogaeth rhwng dinasoedd Lloegr a chefn gwlad Gwynedd yn mynd i barhau yna mi fydd prynwyr tai o ffwrdd yn parhau i allu talu premiwm treth cyngor yng Ngwynedd. Ond byddai codi’r dreth arnynt o leiaf yn dod a rhyw fantais ariannol i’r Cyngor i helpu pobol leol i gael tai.”

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngwynedd yn cynyddu, credaf byddai nifer yr anheddau gwag yng Ngwynedd yn...

Gweler fod ymatebion wedi'i hollti yma hefyd, gyda canran ychydig uwch (43.9%, N=2,735) yn meddwl fydd nifer yr anheddau gwag yng Ngwynedd yn gostwng, tra fod 38.3%, (N=2,384) yn meddwl fydd nifer yr anheddau gwag hirdymor yn aros yr un fath. Mae barn yr ymatebwyr sy'n berchen ar annedd gwag hirdymor yn wahanol i ymatebwyr eraill, gyda 62.1% (N=157) ohonynt yn teimlo os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byd nifer yr anheddau gwag yng Ngwynedd yn aros yr un fath. Mae ychydig llai o bobl sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag annedd gwag hirdymor (31.1%, N=797) ac rhai sy'n berchen ar ail gartref (41.6%, N=1,385) o'r farn yma. Mae 57.8% (N=1,478) o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag annedd gwag hirdymor o'r farn y byddai nifer yr anheddau gwag hirdymor yn gostwng, sydd yn llawer uwch na beth mae'r ymatebwyr sydd yn berchen ar annedd gwag hirdymor (22.1%, N=56) ac yr ymatebwyr sydd yn berchen ar ail gartrefi (35.3%, N=1,175) yn ei feddwl.

	Cynyddu		Aros yr un fath		Gostwng		Dim ateb		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Ddim yn berchen ail gartref nag annedd gwag hirdymor	228	8.9%	797	31.1%	1,478	57.8%	56	2.2%	2,559	100%
Perchen ail gartref	610	18.3%	1,385	41.6%	1,175	35.3%	156	4.7%	3,326	100%
Perchen annedd gwag hirdymor	33	13.0%	157	62.1%	56	22.1%	7	2.8%	253	100%
Perchen annedd gwag hirdymor ac ail gartref	9	12.7%	39	54.9%	21	29.6%	2	2.8%	71	100%
Dim ateb	0	0.0%	6	33.3%	5	27.8%	7	38.9%	18	100%
Cyfanswm	880	14.1%	2,384	38.3%	2,735	43.9%	228	3.7%	6,227	100%



Siart ddim yn dangos y nifer fychan o ymatebwyr oedd heb ateb y cwestiwn

Dyma enghreifftiau o'r sylwadau ychwanegol oedd yn cael eu nodi:

Cynyddu:

"Bydd eiddo heb eu dodrefnu yn dihoeni yn y pendraw ac yn edrych yn wael i'r Cyngor a trigolion lleol."

"Mae i weld nad oes digon o bobl leol i prynu'r rhai y byddai'n dod ar y farchnad"

Aros yr un fath:

"Mae'n annhebygol bod y rhesymau bod eiddo yn wag yn hir-dymor yn cael ei effeithio gan dreth Cyngor"

"Mae eiddo yn wag am bob math o resymau mae rhan fwyaf o bobl yn deall bod gan eiddo werth cynhenid i werthu neu rhentu a tydi ei adael yn wag hir dymor ddim yn ddefnydd doeth o'r adnodd/ Y gwir ydi maent yn wag am wahanol resymau cymhleth ac anodd eu datrys. Roeddwn yn arfer gweithio i gymdeithas dai ac fe edrychwyd ar hyn fel ffordd o gynyddu'r stoc dai – aeth y syniad ddim yn bell."

"Credaf fod llawer o Gartrefi gwag Gwynedd yn Nwylo pobl leol, ac mae unai yn aros i gael eu adnewyddu neu maen't wedi eu etifeddu. Os hynny byddai y premiwm yma ond yn rhoi pwysau ar y perchnogion i werthu neu adnewyddu."

"Efallai wnaiff cynyddu'r dreth cyngor orfodi pobl i werthu eiddo gwag a'i rhyddhau yn ôl i'r stoc dai lleol ond fe allent dal fod yn anfforddiadwy i'r gymuned leol mae'r Cyngor yn dweud nad ydynt yn gallu fforddio prynu'r fath eiddo ar hyn o bryd. Felly os nad ydi Cyngor Gwynedd yn bwriadau prynu'r eiddo fel tai cyngor ni fyddai unrhyw fuddion."

Gostwng:

“Dwi’n meddwl ei fod yn amlwg y byddai well gan bobl werthu yn hytrach na thalu dwbl ar eiddo gwag sydd yn gwneud dim aria, a dwi’n meddwl ei fod yn iawn na ddylai pobl gael eistedd ar eiddo gwag a gallai cael ei ddefnyddio gan gymunedau lleol”

“Pobl leol yn gallu prynu tai lleol gobeithio.”

“Os oes tai sydd ddim yn cael eu defnyddio o gwbl, gobeithio y byddai perchnogion yn eu gwerthu neu eu gosod i denantiaid.”


“Dwi’n credu byddai’r cynnydd yn canolbwyntio meddyliau perchnogion sydd yn gadael eiddo yn wag. Dwi wedi clywed pobl yn cyfaddef eu bod ddim ond wedi prynu ar gyfer eu pensiwn ac efallai y byddent yn byw yma rhyw dydd. Yn y cyfamser tydi ein gweithwyr siop, gyrwyr bysiau a nyrsys methu ffeindio cartref i fyw ynddo gan fod rhywun o Loegr yn meddwl ei fod yn iawn i ddefnyddio Gwynedd a Cymru fel pot pensiwn ac i uffern a bobl lleol.”

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai argaeledd tai fforddiadwy yng Ngwynedd yn...

Mae 64.5% (N=4,016) o'r ymatebwyr yn meddwl byddai argaeledd tai fforddiadwy yn aros yr un fath yng Ngwynedd os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, tra fod 22.2% (N=1,384) yn meddwl y byddai'n cynyddu ac 10.5% (N=655) yn meddwl y byddai'n gostwng.

Mae gwahaniaeth barn sylweddol yn y math o ymatebwyr yn ddibynnol os oes ganddyn nhw ail dy neu annedd gwag hirdymor neu beidio. Mae barn yr ymatebwyr sydd ddim hefo ail gartref neu annedd gwag hirdymor wedi hollti, gyda 46.5% (N=1,190) ohonynt yn meddwl bydd argaeledd y tai fforddiadwy yn cynyddu ac 43.6% (N=1,117) yn meddwl y byddai yn aros yr un fath. Roedd canran llawer uwch o'r ymatebwyr oedd yn berchen ar ail gartref yn meddwl byddai'r argaeledd tai fforddiadwy yn aros yr un fath (80.3%, N=2,670) tra roedd 11.7% (N=388) ohonynt yn meddwl y byddai'n gostwng ac 4.9% (N=163) ohonynt yn meddwl y byddai'n cynyddu. Roedd 68.8% (N=174) o'r ymatebwyr a oedd yn berchen ar annedd gwag hirdymor yn meddwl y byddai'r argaeledd tai fforddiadwy yn aros yr un fath, tra roedd canran uwch ohonynt o gymharu â'r ymatebwyr eraill yn meddwl byddai argaeledd y tai fforddiadwy yn gostwng (19.4%, N=49).

	Cynyddu		Aros yr un fath		Gostwng		Dim ateb		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag annedd gwag hirdymor	1,190	46.5%	1,117	43.7%	201	7.9%	50	2.0%	2,558	100%
Perchen ail gartref	163	4.9%	2,670	80.4%	388	11.7%	100	3.0%	3,321	100%
Perchen annedd gwag hirdymor	21	8.3%	174	68.8%	49	19.4%	9	3.6%	253	100%
Perchen annedd gwag hirdymor ac ail gartref	7	9.9%	47	66.2%	15	21.1%	2	2.8%	71	100%
Dim ateb	3	12.5%	8	33.3%	2	8.3%	11	45.8%	24	100%
Cyfanswm	1,384	22.2%	4,016	64.5%	655	10.5%	172	2.8%	6,227	100%



Siart ddim yn dangos y nifer fychan o ymatebwyr oedd heb ateb y cwestiwn

Dyma enghreifftiau o'r sylwadau ychwanegol oedd yn cael eu nodi:

Cynyddu:

“Os yw'r treth cyngor ychwanegol yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio yn benodol i gynyddu'r stoc o dai fforddiadwy i bobl lleol, byddwn i'n gweld hynny fel peth da. Mae'n anodd iawn i bobl ifanc cael ar yr farchnad dai oherwydd prisiau tai, ond nid ar gyfer Cymru'n unig mae hyn yn wir.”

“Gan obeithio bydd y cynnydd yn gostwng faint o bobl sydd yn byw a prynu ail dai mi fyddai ar ol amsar yn gostwng prisiau tai yn Nghwynedd”

Aros yr un fath:

“Mae'n dibynnu ar yr ardal. Mae'r pris eiddo cyfartalog yn Abersoch yn uchel. Ni fyddai cynnydd yn y premiwm treth Cyngor yn gyrru pris eiddo i lawr. Byddai'n cael effaith i'r gwrthwyneb; unai byddai perchnogion yn cael eu gorfodi i werthu ar y cyfradd marchnad uchel, neu yn cynyddu rhentu er mwyn talu”.

“Dwi ddim yn credu y byddai'n cael llawer o effaith ar dai fforddiadwy. Ni fyddai ein ail gartref yn disgyn i'r categori o dai fforddiadwy. Ddylai strategaeth yr awdurdod fod i adeiladu mwy o dai fforddiadwy ac effeithiol wrth mynd ymlaen. Mae wedi bod diffyg hyn ers y 70au.”

“Os nad oes yna swyddi lleol, ni wnaiff pobl prynu yn yr ardal beth bynnag yw argaeledd eiddo. Os yw perchnogion ail gartrefi presennol yn gadael bydd effaith colli masnach ar fusnesau lleol yn gwaethygu hyn.”

“Nid oes sicrwydd y byddai argaeledd tai fforddiadwy yng Ngwynedd yn gwella oherwydd codi'r dreth. Nid yw'n rhoi sicrwydd na fyddent yn cael eu prynu gan estroniaid gan fod y gallu ariannol i brynu yn uwch tu hwnt i Gymru - ni fyddai codi'r dreth yn rwystr iddynt.”

“Wnaiff cosbi pobl sydd heb wneud unrhyw beth o'i le ddim gwneud unrhyw fwy o dai ar gael. Mae polisïau i hybu adeiladu tai fforddiadwy newydd i bobl leol ac i gyfyngu gwerthu o gartrefi presennol u bobl leol yn dderbyniol; tydi cosbi pobl di-euog ddim.”

“Mae costau tai wedi cynyddu'n barod felly mae'n rhy hwyr! Swyddi llewyrchus i gadw pobl ifanc yn eu hardaloedd sydd eisïau a gwell system gynllunio gwledig.”

Gostwng:

“Deallaf fod y trethi yng Ngwynedd yn gymharol uchel beth bynnag, a chan fod y cyflogau'n lleol yn isel ar y cyfan, mae'n debyg o gael effaith negyddol ar allu pobl leol i dalu am gartref. Alla'i ddim gweld prisïau'r farchnad dai'n gostwng i'r graddau fod tai yn fwy fforddiadwy i'r boblogaeth leol.”


“Mae tai fforddiadwy yn aml yn cael eu darparu fel rhan o ddatblygiadau mwy. Gall datblygwyr cael eu troi oddi wrth Gwynedd os y byddent yn ei gweld hi'n anodd i werthu cartrefi oherwydd y premiwm treth Cyngor. Os nad yw'r datblygiadau yn mynd yn eu blaen ni wnaiff yr cartrefi fforddiadwy chwaith”.

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai'r effaith ar y gymuned leol yn...

Mae ychydig dros hanner (53.4%, N=3,327) yr ymatebwyr yn meddwl byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor yn cael effaith negyddol ar y gymuned. Roedd ychydig llai na chwarter (23.4%, N=1,455) yn meddwl y byddai'n cael effaith cadarnhaol ar y gymuned leol, ac un o bob pump ymatebwyr (20.9%, N=1,302) yn meddwl y byddai'n cael effaith niwtral.

Eto, gwelir gwahaniaethau yn y math o ymatebwyr os ydynt yn berchen ar ail gartref neu annedd gwag hirdymor neu beidio. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref neu annedd gwag hirdymor (52.8%, N=1,350) yn meddwl byddai codi lefel premiwm treth cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned lleol sydd yn llawer uwch o gymharu ag ymatebwyr perchnogion ail gartref (2.3%, N=76) a perchnogion annedd gwag hirdymor (8.3%, N=21). Roedd canran llawer uwch o ymatebwyr oedd yn berchen ar ail gartrefi (72.1%, N=2,398) yn meddwl byddai'r effaith ar y gymuned leol yn negyddol o gymharu a ychydig dros hanner yr ymatebwyr oedd yn berchen ar annedd gwag hirdymor (53.4%, N=135) ac 29.0% (N=742) o ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar ail gartref nag annedd gwag hirdymor.

	Gadarnhaol		Niwtral		Negyddol		Dim ateb		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag annedd gwag hirdymor	1,350	52.8%	424	16.6%	742	29.0%	43	1.7%	2,559	100%
Perchen ail gartref	76	2.3%	769	23.1%	2,398	72.1%	83	2.5%	3,326	100%
Perchen annedd gwag hirdymor	21	8.3%	85	33.6%	135	53.4%	12	4.7%	253	100%
Perchen annedd gwag hirdymor ac ail gartref	5	7.0%	21	29.6%	44	62.0%	1	1.4%	71	100%
Dim ateb	3	16.7%	3	16.7%	8	44.4%	4	22.2%	18	100%
Cyfanswm	1,455	23.4%	1,302	20.9%	3,327	53.4%	143	2.3%	6,227	500%



Siart ddim yn dangos y nifer fychan o ymatebwyr oedd heb ateb y cwestiwn

Dyma enghreifftiau o'r sylwadau ychwanegol oedd yn cael eu nodi:

Gadarnhaol:

"Gobeithio mwy o eiddo i bobl leol prynu neu rhentu, bydd gan drefi a pentrefi yn De Gwynedd mwy o deuluoedd yn byw yno, defnyddio ysgolion ayb."

"Bydd pobl o leiaf yn meddwl bod perchnogion ail gartrefi yn cyfrannu i'r economi, yn cydbwysu'r costau i bobl leol"

"Mae ail gartrefi yn broblem ddifrifol mewn nifer gynyddol o gymunedau yng Ngwynedd. Maen nhw'n cyfrannu i danseilio eu strwythur a'u gwedd cymdeithasol gan wanychu'r Gymraeg fel iaith gymunedol a chreu sefyllfa o anghyfiawnder cymdeithasol. Mae ail gartrefi yn lleihau'r stoc dai ac yn cyfrannu i godi prisiau tai, gyda phobl leol yn methu cystadlu yn y farchnad dai oherwydd cyflogau cymharol isel sy'n aros yn eu hunfan. Byddai codi premiwm treth ail gartrefi i 100% yn cynyddu'r gronfa sydd gan y cyngor sir i sicrhau tai i bobl leol."

Niwtral:

"Dwi'n credu bod angen ystyried pob cais ail dy yn unigol gan fod achosion teilwng i fod ei angen os am ei rhyddhau i'r farchnad rent neu i'w adnewyddu cyn byw ynddo."

"Ni fydd y sefyllfa yn newid yn fy marn i, dim ond y Cyngor yn elwa nid y gymuned"

Negyddol:

“Mae COVID wedi achosi drwgdeimlad mewn cymunedau dros y gwahaniaeth economaidd sydd yn bodoli a bydd hyn yn tynnu mwy o sylw at hynny. Byddai darparu mwy o gyfleodd i berchnogion ail gartrefi ymgysylltu hefo gwaith elusen lleol, cefnogi cynlluniau ysgoloriaethau, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, yn well defnydd o ymdrech, adnoddau ac amser. Dwi hefyd yn credu byddai hyn yn dod a mwy o fwynhad i bawb yn ogystal a ail-fywiogi y diwydiant twristiaeth ar ôl COVID.”

“mae; rhan fwyaf o'r ail gartrefi yn gyfrwng i lawer o ymwelwyr ddod i'r ardal am wyliau a gwario'n helaeth. Byddai eu colli yn niwed i economi'r fro ac yn golled ariannol i fusnesau'r fro yn enwedig siopau tai bwyta a gwestai”

“Mae'r rhan fwyaf o gymunedau lleol yn ffynnu yn economaidd ble mae perchnogion ail gartrefi fwy amlwg. Mae perchnogion ail gartrefi yn mwy tebygol i wario llawer o arian ar eu eiddo gyda adnewyddiadau ac hefyd yn fwy tebygol o wario llawer o arian yn yr economi leol. Mae perchnogion ail gartrefi yn helpu dod a gwaith, mwy o swyddi a chwant i wario arian yn Nghymru.”

“Bydd gwario mewn siopau a lletygarwch bron yn sicr yn lleihau, gan fygwth swyddi.”


“Dwi'n meddwl y byddai'n drist i gymunedau golli pobl sydd wedi dangos wir ymrwymiad i'w cymdogion sydd wedi dod yn ffrindiau hir-dymor. Dyma be wnaiff ddigwydd os ydych yn gorfodi pobl fel ni i symud i ffwrdd, rhywbeth wnaiff lleihau amrywiaeth y gymuned hefyd. Bydd gan y rhai sydd yn gallu aros llai o arian i'w wario yn lleol neu i'w roi yn fwy eang i dwristiaeth Cymreig.”

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai'r effaith ar dwristiaeth yn...

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (57.5%, N=3,582) yn nodi byddai codi lefel y premiwm treth cyngor yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth tra roedd traean o'r ymatebwyr (33.0%, N=2,056) yn nodi y byddai'n cael effaith niwtral ac 7.4% (N=458) yn nodi y byddai'n cael effaith gadarnhaol.

Eto, gwelir gwahaniaethau ym marn y math gwahanol o ymatebwyr. Roedd ychydig dros hanner o'r ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hirdymor (51.8%, N=1,325) yn meddwl yn byddai'n cael effaith niwtral ar dwristiaeth, gyda ychydig llai na traean ohonynt (31.7%, N=810) yn meddwl y byddai'n cael effaith negyddol ac 15.1% (N=387) yn meddwl y byddai'n cael effaith gadarnhaol. Roedd ychydig dros tri chwarter yr ymatebwyr a oedd yn berchen ar ail gartref (77.7%, N=2,585) yn meddwl y byddai'n cael effaith negyddol ar dwristiaeth ac bron i un o bob pump yn meddwl y byddai'n cael effaith niwtral (18.5%, N=615). Dim ond 1.5% (N=50) o'r ymatebwyr yma oedd yn meddwl y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth. Roedd bron i hanner (48.6%, N=123) yr ymatebwyr a oedd yn berchen a annedd gwag hirdymor yn meddwl y byddai'n cael effaith negyddol ar dwristiaeth tra roedd 39.5% (N=100) ohonynt yn meddwl y byddai'n cael effaith niwtral ac 7.1% (N=18) ohonynt yn meddwl y byddai'n cael effaith gadarnhaol.

	Gadarnhaol		Niwtral		Negyddol		Dim ateb		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nac annedd gwag hirdymor	387	15.1%	1,325	51.8%	810	31.7%	37	1.5%	2,559	100%
Perchen ail gartref	50	1.5%	615	18.5%	2,585	77.7%	76	2.3%	3,326	100%
Perchen annedd gwag hirdymor	18	7.1%	100	39.5%	123	48.6%	12	4.7%	253	100%
Perchen annedd gwag hirdymor ac ail gartref	2	2.8%	13	18.3%	55	77.5%	1	1.4%	71	100%
Dim ateb	1	5.6%	3	16.7%	9	50.0%	5	27.8%	18	100%
Cyfanswm	458	7.4%	2,056	33.0%	3,582	57.5%	131	2.1%	6,227	100%



Siart ddim yn dangos y nifer fychan o ymatebwyr oedd heb ateb y cwestiwn

Dyma enghreifftiau o'r sylwadau ychwanegol oedd yn cael eu nodi:

Gadarnhaol:

“Mae'r busnesau gosod tai yn tynnu cwsmeriaid oddi wrth gwestai, manau campio ayyb sydd yn dod a £££ I fewn i'r economi, drwy brynnu bwyd gan cyflenwyr lleol, talu cyflogau ayyb mae hyn yn creu twristiaeth cynladwy. Rydan ni isio croesawu ymwelwyr sydd isio'r profiad yma. NID y rhai sydd yn dod yma ac yn talu dim i'r economi, creu drwg deimlad, ac yn creu gormodedd o ymwelwyr sydd ddim yn rhoi profiad da I neb.”

“Bydd pentrefi a trefi yn fyrlymus drwy'r flwyddyn a byddai busnesau siopa ar gael drwy'r flwyddyn yn hytrach nag yn nhymor twristiaeth yn unig, byddai yn ymestyn y tymor twristiaeth yn hytrach na dim on y pegwn yn misoedd yr haf.”

Niwtral:

“Bosib cynnydd byr-dymor yn yr 12-16 wythnos yn nhymor y gwyliau ond ar y cyfan mae'n siŵr yn cydbwysu allan yn ystod y flwyddyn. Mae llawer o berchnogion ail gartrefi yn aros am hirach na'r misoedd haf prysur ac yn gwario arian drwy'r flwyddyn. Felly mae busnesau yn cael incwm ac yn gallu gweithredu drwy'r flwyddyn yn hytrach na dim ond y tymor gwyliau.”

“Ni fydd gan twristiaid diddordeb yn lefelau treth cyngor sy'n cael ei dalu yn yr ardal os nad ydi o'n effeithio'r pris sy'n cael ei godi am lety.”

“Mae harddwch yr ardal yn denu twristiaeth. Maent yn aros yn ble bynnag mae lle ar gael. Dyw twristiaeth ddim yn dibynnu yn llwyr ar tai haf.”

“Efallai cynyddu’r nifer sy’n newid categori eu eiddo fel llety hunan-arlwyo ac felly mwy o dwristiaid.”

Negyddol:

“Os mai canlyniad hyn fydd llai o dai gwyliau a dim newid yn y fframwaith dwristiaeth leol ac nad oes gwesty yn ein cymuned ni yna lleihad y nifer o bobl fydd yn dod yma i aros ar wyliau a gwario yn y siopau bach a bwytai fydd, ond efallai yn aros mewn tref arall fwy ac yn gwario mwy mewn trefi mawr yn Ngwynedd ayb eto yn creu ffafriaeth a ddim yn rhaeadru cyfoeth yn ddigonol ar draws yr awdurdod. Mae angen deall y math o bobl sydd yna aros mewn tai gwyliau yn hytrach na gwestai neu barc carafanau er enghraifft. Oes yna astudiaeth i dueddiad pobl sy’n aros mewn tŷ gwyliau or ran lle maent yn gwario y bunt yn lleol? Ai adrannau o Wynedd fydd yn elwa o dwristiaeth fel hyn? Oes yna dueddiad i bobl sydd yn aros mewn gwestai i brynu Bwyd yn lleol yn y gwesty yn hytrach na yn ardaloedd eraill Gwyendd?”

“Gan mai twristiaeth yw prif incwm llawer o bobol yng nghefn gwlad Gwynedd mae’n anodd deall sut mae rhoi anhawsterau fel hyn yn mynd i helpu.”

“Does neb eisiau ymweld a ardal dawel, pobl sy’n gwneud Gwynedd y lle gwych ydi o. Pan symudais i i Wynedd 11 mlynedd yn ôl roedd llawer o dai yn lleol wedi cael ei adael i ddirywio. Roedd fy nhŷ i, wedi bod ar y farchnad am chwe mlynedd ac angen lot o wario i’w gael yn ôl i safon i fyw ynddo”

“Mae Gwynedd yn ran hyfryd o’r wlad sydd yn dibynnu gymaint ar groesawu a chynnal ymwelwyr. Os ydi’r treth Cyngor yn cynyddu 50% arall byddai hynny yn sicr yn lleihau’r nifer o berchnogion ail gartrefi a fyddai mae’n siŵr yn symud i ran arall o’r Deyrnas Unedig ac felly ddim gwario arian yn Nghymru.”


“Ni fydd y cynnig yma yn ddeniadol i bobl sydd yn dod ar eu gwyliau a’r pryder yw y bydd twristiaeth yn ystyried iddo fod yn elyniaethus, ar y gorau ac yn anghroesawgar. Er, bydd y mwyafrif o bobl sy’n dod ar eu gwyliau ddim yn ymwybodol o’r newidiadau buaswn i’n dychmygu.”

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai'r effaith ar yr economi leol yn gyffredinol yn...

Roedd 59.9% (N=3,731) o'r ymatebwyr yn meddwl byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor yn cael effaith negyddol ar yr economi, tra roedd 20.6% (N=1,281) yn meddwl y byddai'n cael effaith niwtral ac 17.1% (N=1,063) yn meddwl y byddai'n cael effaith gadarnhaol.

Eto, gwelir gwahaniaethau ym marn yr ymatebwyr yn ddibynnol os oeddent yn berchen ar ail gartref neu annedd gwag hirdymor neu beidio. Gweler barn eithaf cyfartal rhwng y tri opsiwn yn yr ymatebwyr a oedd ddim yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor gyda 37.7% (N=966) ohonynt yn meddwl y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar yr economi, 32.2% (N=824) yn meddwl y byddai'n cael effaith negyddol ac 28.3% (N=724) yn meddwl y byddai'n cael effaith niwtral. Roedd barn llawer cryfach i'w weld gan yr ymatebwyr a oedd yn berchen ar ail gartref gyda canran llawer uwch yn meddwl y byddai'n cael effaith negyddol ar yr economi (81.1%, N=2,697). Roedd 13.9% (N=463) ohonynt yn meddwl y byddai'n cael effaith niwtral ar yr economi, ac 2.3% (N=77) yn meddwl y byddai'n cael effaith gadarnhaol. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr a oedd yn berchen ar annedd gwag hirdymor (57.3%, N=145) yn meddwl y byddai'n cael effaith negyddol tra roedd 30.4% (N=76) ohonynt yn meddwl y byddai'n cael effaith niwtral ac 6.7% (N=17) yn meddwl y byddai'n cael effaith gadarnhaol.

	Gadarnhaol		Niwtral		Negyddol		Dim ateb		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nac annedd gwag hirdymor	966	37.7%	724	28.3%	824	32.2%	45	1.8%	2,559	100%
Perchen ail gartref	77	2.3%	463	13.9%	2,697	81.1%	89	2.7%	3,326	100%
Perchen annedd gwag hirdymor	17	6.7%	78	30.8%	145	57.3%	13	5.1%	253	100%
Perchen annedd gwag hirdymor ac ail gartref	2	2.8%	12	16.9%	56	78.9%	1	1.4%	71	100%
Dim ateb	1	5.6%	4	22.2%	9	50.0%	4	22.2%	18	100%
Cyfanswm	1,063	17.1%	1,281	20.6%	3,731	59.9%	152	2.4%	6,227	100%



Siart ddim yn dangos y nifer fychan o ymatebwyr oedd heb ateb y cwestiwn

Dyma enghreifftiau o'r sylwadau ychwanegol oedd yn cael eu nodi:

Gadarnhaol:

"Byddai mwy o bobl 'leol' yn y cymunedau ac felly mwy o ddefnydd o wasanaethau a chyflenwyr lleol."

"Llai o dai gwag. Mwy o bobl yn byw yn yr ardal mwy o arian i'r economi leol – yn hytrach na disgwyl am y tymor twristiaeth."

Niwtral:

"Mae perchnogion ail gartrefi yn dod a arian i'r gymuned maent yn wario ar gwasanaethau adeiladu lleol, bwytai, siopa ayb; Maent yn berchnogion tai ac yn dwristiaid. Os ydi'r cynnydd yn y dreth cyngor yn golygu llai o ail gartrefi mae'n bosib byddai preswylwyr parhaol ddim yn gwario gymaint."

"Os ydych yn dymuno codi'r dreth i gefnogi'r cynllun dai ac yn cadw'r arian ar gyfer y pwrpas yna, yna mi fydd o fudd i'r sefyllfa leol. Does dim tystiolaeth y bydd codi'r dreth yn lleihau'r nifer o dai gwyliau nac yn cynyddu'r nifer o dail fforddiadwy sydd ar gael."

Negyddol:

"Gan mai twristiaeth yw prif incwm llawer o bobol yng nghefn gwlad Gwynedd mae'n anodd deall sut mae rhoi anhawsterau fel hyn yn mynd i helpu."

"Llai o arian gan bobl i'w gyfrannu tuag at fusnesau lleol."

“Dwi’n meddwl bod nifer o siopau a bwytai yn dibynnu ar bobl sydd yn dod ar eu gwyliau yn enwedig y rhai sydd yn dod yn ôl dro ar ôl tro gan fod ganddynt ail gartref yn Gwynedd”.

“Yn syml yn nhermau mwy o arian sy’n cael ei wario ar dreth, llai o arian sy’n cael ei wario yn yr ardal leol, os nad ydi pob Cyngor yn addo cynyddu gwasanaethau lleol gyda’r dreth ychwanegol. Y sefyllfa waethaf ydi bod ail gartrefi yn troi’n wag wrth ddisgwyl gwerthu sydd yn gallu gwneud pentrefi a trefi edrych fel eu bod ar ei lawr yn hytrach na’n lefydd deniadol”.

“Mae unrhyw effaith ar dwristiaeth yn mynd i effeithio’r economi leol. Mae Gwynedd yn ddibynnol iawn ar y diwydiant twristiaeth a tydi hynny ddim am newid yn y tymor byr-ganolog. Tydi unrhyw newid i hyn ddim am ddigwydd drwy cyfyngu twristiaeth ond yn hytrach drwy annog amrywiaethu yn yr economi a bod yn rhagweithiol wrth adeiladu is-adeiladedd addas fydd yn galluogi amrediad ehangach o swyddi yn yr ardal. Gan gynnwys cysylltiad band-eang cyflym i alluogi pobl i weithio o bell.”

Buasem yn croesawu unrhyw sylwadau eraill sydd gennych:

Dyma enghreifftiau o'r sylwadau a dderbyniwyd, wedi eu rhannu yn ôl categorïau os ydynt yn berchen ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd neu beidio.

Ddim yn berchen ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd:

Mae angen rhoi cap ar waith fel lleoedd yn Northumberland, Ynysoedd y Sianel a llawer mwy sydd ond yn caniatáu i rywbeth fel 20% o ardal fod yn ail gartrefi. P'un a yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes neu fyw'n rhan-amser.

Rwy'n credu y dylid cynyddu Treth y Cyngor, ond nid wyf yn credu y bydd yn ddigon ar ei ben ei hun i ddatrys y broblem. Fel preswlydd mewn pentref sydd â tua 75% o ail gartrefi, ni allaf ei weld yn cael llawer o effaith ar faint o ail gartrefi sydd gennym yn y pentref, er y byddai llawer o gartrefi yn darparu incwm sylweddol i Gyngor Gwynedd wario adeiladu tai fforddiadwy neu brynu eiddo yn ôl i'w osod i bobl leol.

Mae angen mynnu caniatad cynllunio i droi ty yn fusnas, i'w wneud yn amhosib i bobol osgoi y taliad ychwanegol

Teimlaf dylai Cyngor Gwynedd sicrhau dyfodol ein cymunedau Cymraeg drwy ddefnyddio unrhyw bwerau posib i atal y sefyllfa fregus hon waethygu. Os na fydd newid mawr yn y dyfodol agos fydd iaith Gymraeg wedi'i cholli fel iaith gyntaf yr ardal mewn cenhedlaeth.

Yn fy marn i, nid adeiladu stadau o dai ar gyfer teuluoedd lleol yw'r ateb. Mae canoedd o ail gartrefi sy'n wag ran helaethaf o'r flwyddyn ac sy'n cael eu prynu am brisiau allan o afael trigolion Gwynedd sydd yn gweithio'n galed yn lleol. Mae y tai yma yn cael eu cofrestru fel busnesau felly ddim yn talu trethi o gwbl, a'r incwm o'r tai yma yn mynd allan o'r ardal. Byddai grantiau i brynu'r tai o'r stoc farchnad yn well na adeiladu stadau o dai bach a 'wnaiff y tro i'r trigolion'. Dylai'r cyngor ail brynu tai cyngor yn nôl yn hytrach na'u bod yn cael eu prynu fel ail gartrefi, neu greu cynllun pryniant fforddiadwy i bobol leol

Mae hon yn ffordd sinigaidd ac anghyfiawn o geisio codi treth a fydd yn cael effaith negyddol ar fusnesau lleol, yr economi a'r iaith Gymraeg. Rwy'n teimlo mai agenda wleidyddol yn unig ydyw i ennill pleidleisiau. Bydd hefyd yn cael effaith negyddol ar brisiau tai perchnogion lleol, felly mae'n debyg y bydd ail brisiad o'r dreth gyngor a bydd y bandiau'n gostwng. Edrychaf ymlaen at hynny.

Fel unigolyn... yn byw ym Mhen Llŷyn ers fy ngeni, mae hi'n dod yn amlycach pob dydd nad y byddwn yn gallu fforddio prynu ty o ansawdd a maint da yn lleol. Does dim digon o swyddi yn talu'n ddigonol, ond yn bwysicach na hynny, mae prisiau tai yn codi yn sydyn dros ben. Rwyf wedi derbyn swydd i ffwrdd o'r ardal leol a fyddai'n talu'n well, gyda'r gobaith o brynu ty ymhen ychydig o flynyddoedd gyda'r pres â enillwyd - nid yw hyn yn opsiwn sydd ar gael i bawb. Mae hi'n hanfodol fod Cyngor Gwynedd, ar y cyd â Llywodraeth Cymru yn delio hefo'r "crisis" ail dai mewn ardaloedd fel Llyn mewn ffyrdd mwy cadarn na codi treth cyngor o faint bychan. Mae angen system drwydded

neu quota, er mwyn galluogi trigolion lleol i fyw adra. Nid jest tai teras/mewn stad, ond tai o bob math ar draws yr ardal.

Pe tasai yna swyddi sy'n taly yn dda yng nghefn gwlad fysa yna fwy o gystadleuaeth am dai. Fysa'n rhaid i gyflogau pawb lleol fwy na dyblu i gystadlu a'r mwenfydwyr

Diddymwch y rhyddhad ardrethi busnes ar osod gwyliau wedi'u dodrefnu a weithredir fel busnes. Mae cynifer o'r rhain ac nid ydynt yn cyfrannu dim at y cyngor lleol. Nid oes rhesymeg dros ganiatáu i'r busnesau hyn osgoi talu trethi busnes.

Mae canran uchel o ail gartrefi dan berchnogaeth ac yn cael eu rhedeg fel busnes gan Gymry ar y cyfan. Pam na all yr ardal hon ac yn arbennig y cyngorau lleol sylweddoli mai twristiaeth a gweithgareddau awyr agored yw dau o'r ychydig ddiwydiannau hyfyw yn yr ardal, yn wahanol i ffermio sy'n bodoli oherwydd cymorthdaliadau a grantiau yn unig. Rhowch y gorau i geisio gyrru ymwelwyr i ffwrdd ond eu croesawu a ffynnu oddi wrthynt.

Peidiwch â gwneud hyn os gwelwch yn dda. Yn gyntaf, mae arnaf ofn am y berthynas a union natur ein cymunedau. Mae perchnogion ail gartref wedi talu'r arian ychwanegol eleni ond nid ydynt wedi gallu ymweld mor aml ag y maent eisoes yn teimlo eu bod wedi cael eu cosbi ddwywaith am brynu cartref a chefnogi ein heconomi leol. Yn ail, beth sy'n digwydd os ydych am werthu eich eiddo (cartref cyntaf neu ail) ac na allwch. Rydych chi'n gadael i fyw yn rhywle mewn fflat, llety cysgodol ac ati ond mae'r tŷ yn aros ar y farchnad ond yn wag. A fydd hyn yn arwain at godi treth gyngor ddwbl? Pam y dylai rhywun nad yw'n gallu gwerthu ei gartref dalu treth gyngor ddwbl? Nid yw'n gwneud synnwyr o gwbl gan nad ydynt yn defnyddio cyfleusterau'r Cyngor.

Treth wleidyddol yw hon. Dylai tai fforddiadwy gael eu creu drwy ddulliau eraill. Yn gyffredinol, nid yw ail gartrefi yn defnyddio gwasanaethau'r cyngor gymaint â phreswylwyr llawn amser.

Mae hwn yn gam sydd, fe dybiaf, wedi'i anelu at geisio sicrhau bod eiddo ar gael ac yn rhatach i bobl leol ei brynu. Beth am fynd i'r afael â'r mater hwn o'r pen arall. Annog busnes a masnach i wella'r economi cyflogau truenus o isel fel y gall pobl fforddio prynu cartref. Cymerodd y tŷ wrth fy ymyl flwyddyn i'w werthu y llynedd, doeddwn i ddim yn gweld ciwiau o bobl leol yn ceisio ei brynu ac roedd y pris o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU yn isel iawn. Ar y gorau, mae gan y cam hwn y bwriadau cywir ond bydd yn cael yr effaith anghywir. Ar y gwaethaf mae'n sbeitlyd ac yn winfu a bydd yn ennyn mwy o ddrwgdeimlad ar ddwy ochr y ddadl. Peidiwch â gwneud hyn.

Rhowch y gorau i roi'r iaith Gymraeg o flaen pob mater pwysig arall - economi; iechyd; gwasanaethau; lles. Gall pobl ddewis a ydynt am siarad Cymraeg ai peidio, rhowch orau i geisio dweud ei fod yn bwnc mwy na'r rhai hanfodol. Nid oes angen tai fforddiadwy arnoch, nid oes marchnad o gwbl ar eu cyfer. Ni allwch gael morgais ar dŷ fforddiadwy gydag amod Adran 106, felly sut fyddwch chi'n ei brynu? Mae'r argyfwng tai yn ymwneud â'r rhai nad ydynt yn broffesiynol ac yn annysgedig ac sydd ar gyflogau isel. Adeiladwch dai cymdeithas dai neu dai cyngor iddynt. Y broblem wedi ei ddatrys. Gadewch i'r farchnad dai weithio fel y mae bob amser, yr un fath ym mhobman. NEU dim ond pobl leol all brynu unrhyw dai newydd a adeiladwyd, ond gadewch y stoc dai bresennol i fod. Unwaith eto, y broblem wedi ei ddatrys.

Dwi ddim yn meddwl yr holl CG neud unrhyw beth am y maes yma heb newidiadau gan Llywodraeth Cymru.

Y prif broblem gyda aneddau sy'n cael eu defnyddio fel ail gartrefi yw fod nifer fawr o berchnogion yn osgoi'r premiwm presennol drwy nodi fod yr eiddo yn un masnachol, ac felly ddim yn talu unrhyw dreth ar sail y gostyngiad/eithriad ar gyfer busnesau bychain. Os cynyddu'r premiwm, rwy'n sicr y bydd mwy o berchnogion ail-gartrefi yn penderfynnu gwneud yr un peth, fyddai'n arwain at leihad yn incwm y cyhoedd, fydd yn y diwedd yn cael effaith negyddol ar wariant ar dai a gwasanaethau pobl leol. Rwy'n gefnogol (iawn) o egwyddor codi premiwm, ond rhaid dod i afael â'r broblem o ddiffinio anedd fel nad oes modd osgoi talu treth cyngor ar ail-gartref. Pe byddai rhaid cyflwyno tystiolaeth fod anedd wedi cael caniatâd cynllunio i fod yn uned gwyliau, nid anedd, cyn bod posibl iddo gael ei ystyried fel eiddo busnes fel fyddai (i) modd i'r adran gynllunio gael dylanwad ar y nifer o unedau gwyliau mewn ardaloedd lle mae yna ormodedd; (ii) rhwystro perchnogion ail-gartrefi osgoi talu treth cyngor; a (iii) creu rhwystr naturiol i bobl drosi anedd yn dy gwyliau gan fod cwmnai morgais ddim yn benthg yn erbyn eiddo sydd ddim a hawl i'w ystyried yn anedd. Cam gwag fyddai codi premiwm uwch heb ddod i afael a'r broblem yma, fyddai'n codi drwgdeimlad, ac arwain at leihad real yn y dreth sy'n cael ei ryddhau gan aneddau o'r fath.

Mae llawer o ail gartrefi wedi bod yn eiddo i deuluoedd ers cenedlaethau. Mae'n ymddangos yn annheg cosbi'r bobl hyn pan fydd eiddo a brynir fel cynnig busnes neu hyd yn oed fusnesau 'tybiedig' yn talu treth fusnes yn unig. Efallai fod hwn yn faes y dylid edrych arno. Nid yw llety tymor byr yn ychwanegu fawr ddim at fywyd a diwylliant lleol. Teimlaf fod hyn oll yn wleidyddol iawn a bod ganddo deimlad o wahaniaethu.

Rwy'n byw yn Nolgellau lle mae nifer yr ail gartrefi yn sylweddol. Yn fy mhrofiad i, mae'r mwyafrif yn cael eu meddiannu'n rheolaidd, ac mae'r perchnogion yn cyfrannu at yr economi leol drwy siopa'n lleol ac yn aml yn cyflogi masnachau lleol pobl megis, er enghraifft, adeiladwyr, glanhawyr ffenestri, ffitwyr carpedi ac ati. Maent hefyd yn cyfrannu swm sylweddol o arian drwy weithgareddau twristiaeth. Credaf y byddai llawer o'r perchnogion ail gartref hyn yn ystyried gwerthu eu heiddo o ddifrif ac o bosibl yn ceisio prynu ail gartref mewn ardal lle na fyddai taliadau treth gyngor uwch yn cael eu cosbi. Mae nifer o'm cymdogion agos eisoes wedi dweud wrthyf y byddent yn dilyn y camau gweithredu hyn. Credaf y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar yr ardal. Nid wyf yn gweld prinder tai fforddiadwy yn yr ardal ar hyn o bryd a chredaf y byddai hyn yn arwain at fwy o eiddo gwag a cholli incwm gwerthfawr i'r economi leol.

Dwi'n teimlo y dylid edrych ar achosion yn unigol - oes mae eisiau rhoi cyfyngiadau yn eu lle er mwyn gwneud i bobl feddwl ddwywaith cyn prynu ail dŷ, ond does dim eisiau cosbi pobl leol sy'n berchen ar dai chwaith. Dwi'n gwybod am sawl achos lle mae rhywun wedi colli rhiant ac wedi etifeddu tŷ ond ddim yn y sefyllfa i symud yno/talu i wneud gwaith arno er mwyn iddo fod yn ddigon addas i'w osod ar hyn o bryd. Ddylai pobl ddim teimlo eu bod yn cael eu cornelu a'u gorfodi i osod tŷ am eu bod yn methu fforddio'r premiwm. Beth am gynlluniau i helpu pobl sydd wedi etifeddu tŷ ond ddim eisiau byw yno i'w osod yn yr hirdymor i bobl leol? Fel yna bydd tŷ yn eiddo i rywun lleol a ddim yn cael ei werthu i bobl o'r tu allan. Mae angen set o feini prawf, fel bod pobl leol sydd eisiau cadw cysylltiad efo'r ardal yn cael eu cefnogi yn hytrach na'u cornelu.

Yn berchen ar ail gartref yng Ngwynedd

Rwy'n teimlo'n gryf na ddylai'r Dreth Gyngor godi'n gyffredinol ar draws pob 'ail gartref' gan fod cymaint o wahanol fathau e.e. carafán/plasty. Y gwahaniaeth rhwng bod yn berchen ar dŷ sy'n cael ei rentu allan fel busnes o'i gymharu â sialet/carafán yr arhosiad gan deulu a'u ffrindiau. Pam y dylai rhywun na all fod yn rhywle drwy'r amser dalu mwy o dâl gwasanaeth h.y. treth gyngor nad y mae tigolyn parhaol yn ei thalu. annheg iawn.. efallai fod angen mwy o ddeddfwriaeth drwy gynllunio.

Mae Gwynedd yn ardal o harddwch naturiol syfrdanol a chyfoeth o natur a thir heb ei ddifetha mae hwn yn ased enfawr i'r cyngor a dylid manteisio arno mewn modd sy'n parhau i ddod â buddsoddiad i'r ardal a gwella'r economi leol heb gosbi pobl sydd wedi buddsoddi eu pensiwn ac yn y pen draw mae diwedd oes a chynlluniau ymddeol i fyw mewn ardaloedd o'r fath ac ardal o harddwch ar gyfer nodau trethiant tymor byr. Byddwn yn cyflogi'r cyngor i edrych ar gymheiriaid yng Nghernyw a Dyfnaint a Swydd Efrog i ddeall sut y maent wedi taro cydbwysedd â'r sector twristiaeth a'r sector ail gartrefi yn yr ardaloedd hyn ac yn gweithio gyda pherchnogion ail gartrefi sy'n dod â phobl i'r ardal drwy osod defnydd uchel sy'n rhoi gwerth masnachol i ardaloedd o werth masnachol isel ond harddwch naturiol uchel. Gofynnaf am gosbi neu ofyn mwy gan berchnogion cartrefi gwag nad ydynt yn dod â gwerth masnachol i'r ardal drwy beidio â gadael i'w heiddo dalu mwy gan nad yw'r mathau hyn o berchnogion ail gartref yn cefnogi'r economi leol mewn unrhyw ffordd yn gymesur â'r rhai sy'n eu rhedeg fel busnes.

Efallai fod gan y cynnig hwn rai bwriadau anrhydeddus ond mae'n annoeth. A fu unrhyw astudiaeth o fanteision economaidd (neu fel arall) pobl o'r tu allan sy'n buddsoddi yng Ngwynedd (e.e. drwy ddefnyddio siopau lleol, gwasanaethau, masnachwyr ac ati)? a fu unrhyw astudiaeth briodol o fanteision diwylliannol pobl o'r tu allan sy'n gwerthfawrogi'r Gymraeg ac agweddau diwylliannol lleol? Rwyf wedi chwilio am unrhyw ymchwil o'r fath ond heb ddod o hyd iddo. Mae'n ymddangos bod rhagdybiaeth bod buddsoddiad gan pobl o'r tu allan yng Ngwynedd, ynddo'i hun, yn beth drwg. Credaf fod hon yn sefyllfa sydd wedi'i thangnenwau'n ddifrifol. Mae'r rhesymau pam mae eiddo'n wag yn gymhleth; y rhesymau pam mae'r Gymraeg yn dangos arwyddion calonogol ond hefyd yn denu pryderon goroesi hefyd yn gymhleth; ac yr un mor gymhleth i'w werthuso'n llawn yw manteision economaidd a manteision eraill neu beidio mae pobl o'r tu allan fel ni a ddewisodd fyw rhan sylweddol o'n bywydau fel aelodau sy'n cyfrannu o'r gymuned leol. Mae'n ymddangos bod hwn yn gip ariannol wedi'i wisgo fel actifiaeth cymdeithasol. Argymhellaf yn gryf ymagwedd fwy cynnil tuag at y materion cymhleth hyn.

Mae fy eiddo'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, gennyf fi a nifer o'm ffrindiau, fel llety tra byddwn yn cynnig ein gwasanaethau'n wirfoddol ar un o Drenau Bach Cymru. Yr ydym yn rhannu'r gost o redeg y tŷ, ac yr ydym yn defnyddio siopau a siopau lletygarwch lleol yn rheolaidd. Felly, rydym yn sicrhau bod ein rheilffordd yn gallu parhau i gyfrannu'n sylweddol at economi dwristiaeth Gwynedd, ac fel unigolion rydym hefyd yn gwario arian mewn siopau lleol ac allfeydd lletygarwch. Mae tâl Premiwm pellach ar Dreth y Cyngor i bob pwrpas yn gic yn y dannedd i Rheilffyrdd Treftadaeth yng Ngwynedd - un o brif atyniadau twristaidd yr ardal, a busnes na all weithredu'n gynaliadwy heb nifer fawr o wirfoddolwyr rheolaidd.

Mae'n bwysicach cael y Dreth Gyngor gan y bobl sy'n berchen ar ail gartrefi ac nad ydynt bellach yn talu'r dreth am eu bod yn dweud eu bod yn fusnesau dim ond am eu bod yn eu gosod am ychydig wythnosau yn ystod y flwyddyn. Dylai'r ail gartrefi hyn fod yn talu mwy yn hytrach na dim.

Mae gennym ail gartref yng Nghymru o ddifrif, nid cartref gwyliau na gosod gwyliau a rydym yn byw 50% o'n hamser yng Ngwynedd. Er ein bod yn caru Lloegr rydym hefyd yn caru Cymru a'i phobl ac yn gofyn i chi beidio â'n cosbi dim ond am ein bod yn ffodus i allu fforddio cartref yng Nghymru. CARTREF nid tŷ, annedd na chartref. Mae gennym dŷ bach yn Lloegr a thŷ bach iawn yng Nghymru y mae ei gwerth swm yn llai na llawer o eiddo sengl yn Lloegr a Gwynedd, os gwelwch yn dda, peidiwch â'i gwneud yn anodd i ni fwynhau'r ddwy wlad. Yr ydym yn cyfrannu at economi leol a chymuned Cymru ac yn mwynhau ceisio siarad Cymraeg a chymryd rhan yng nghyfoeth y ddau ddiwylliant.

Fel person Cymraeg sy'n berchen ar ail gartref mewn pentref y tarddodd fy nheulu ohono, mae'n drist i mi ei bod yn ymddangos bod barn mor gryf fel bod perchnogion ail gartref yn broblem ac yn diraddio diwylliant ac iaith Cymru. Deallaf fod mater tai fforddiadwy yn y Gymru wledig, ond mae hyn yr un fath yng nghefn gwlad Lloegr a'r Alban. Fodd bynnag, nid wyf yn gweld unrhyw gefnogaeth gan lywodraeth leol i fynd i'r afael â'r materion hyn drwy adeiladu cymunedau ac ystadau tai. Rwy'n credu bod pobl sydd ag ail gartref yn rhoi hwb i'r economi leol a byddai ganddynt ddi-ddordeb mewn gweld y newid mewn incwm lleol o ganlyniad i'r cyfyngiadau covid. Nid yw pob un o berchnogion ail gartref yn bobl gyfoethog o'r de neu Swydd Gaer sy'n manteisio fel y mae pobl fel petaent yn credu, mae'r rhan fwyaf o berchnogion ail gartref yr wyf yn eu hadnabod yn ceisio eu hymgorffori eu hunain yn y cymunedau ac yn cefnogi lle y bo'n bosibl.

Yn fy achos i'n bersonol mae'r tŷ yn gartref teuluol er ein bod o reidrwydd wedi gorfod symud i ddilyn gwaith. Mae'r teulu yn awyddus iawn i gadw'r eiddo o fewn y teulu ac yn gyndyn o'i werthu. I ateb y cynnydd yn y dreth bu'n rhaid gosod y tŷ yn y tymor byr i dalu'r gost ychwanegol. Er yn llwyr cydymdeimlo â'r sefyllfa enbyd ag yn parchu a gwerthfawrogi parodrwydd y cyngor i fynd i'r afael â'r broblem dwi'n ofni ein bod wedi'n dal mewn cylch dieflig braidd. Does dim bwriad gwerthu'r eiddo, ond mae'n rhaid ei osod i gynnal y dreth.

Rydw i'n deall y broblem yr ydych yn ceisio ei ddatrys yma ond rydw i'n meddwl fod yn rhaid i chi dargedu gwerthu tai lleol i bobl o ffwrdd yn fwy uniongyrchol. Buasai codi'r premiwm treth yn unig yn cosbi pobl o'r ardal sydd yn byw i ffwrdd yn ormodol rydw i'n meddwl. Yn ogystal, mi ddylach chi hefyd geisio rheoli gwerthiant tai lleol i bobl sydd ddim yn bwriadu byw ynddynt nhw.

Mae diboblogi mewn ardaloedd gwledig yn hen hen broblem ac wrth gwrs yn berthnasol i gannoedd o ardaloedd led led y byd. Mae angen i ni ganolbwyntio ar strategaeth hir dymor i wneid ein ardaloedd yn llefydd i fusnesau bach lewyrchi, mae y dechnoleg fodern yn ei gwneid hi yn fwy deniadol byth i fyw mewn fath ardaloedd ac yng nghanol y strategaeth honno saif pobol a theluoedd ifanc. Y nhw i'w ein dyfodol. Y mae'r cynnig hwn ella yn rhan o'r strategaeth honno; rhaid edrych ar bob peth fel ffordd i gynnig cyfleoedd newydd i'r fath bobol ac ella yn llai at rhwystro pobol rhag cymryd mantais o'r sefyllfa fel y mae. Newid graddol a ddaw a'r canlyniadau da ni isio.

Rwy'n berchen ar fwthyn un llofft a etifeddais mewn ardal ym mro fy mebyd nad wyf yn ei osod i neb ac yn ei ddefnyddio fy hun yn aml cyn y cyfyngiadau cofid. Os cyfyd y Premiwm Treth Cyngor, fe fydd yn rhaid ystyried ei roi ar y farchnad, ac oherwydd ei faint, mae'n debygol iawn y byddai'n rhaid ei werthu i bobl o du allan i'r ardal fel ty Haf. Efallai fod hyn yn mynd yn groes i'r egwyddorion y mae'r Cyngor yn ei hybu yn y lle cyntaf. A fyddai modd i'r Cyngor ystyried peidio a chosbi perchnogion sydd a'i prif gartref yng Ngwynedd.

Byddai gennyf ddiddordeb mewn gweld sut y bydd yr incwm a gynhyrchir o gynnydd yn y dreth gyngor ail gartref yn cael ei ddefnyddio i helpu gyda stoc adeiladu, lleihau prisiau tai. helpu gyda diwylliant Cymru. A yw'r cyngor wedi edrych ar ble y mae lleoedd eraill wedi defnyddio'r ymagwedd hon a'r effaith a gafodd ar stoc tai ac ati a phrisiau.

Rwy'n Gymro sy'n siarad Cymraeg sydd ag ail gartref mewn ardal lle mae fy nheulu yn dod o. Ni allaf fyw'n llawn amser yng Ngwynedd gan nad wyf yn gallu gwneud fy ngwaith yng Ngwynedd... Yr wyf wedi gweld y mudiad yng Nghymru o economi sy'n dibynnu ar ddiwydiant trwm i Dwristiaeth. Yr wyf wedi gweld y manteision i'r gymuned leol ac o'i hamgylch i dwristiaeth. Mae Cymru'n ymddangos yn fwy "Cymreig" nawr ac rwy'n ystyried bod twristiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar fod yn Gymry, bod yn falch o fod yn Gymry, ansawdd yr adeiladau/amgylchedd lleol a hefyd i hyrwyddo'r Gymraeg.

Yn berchen ar annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd

Deall yr angen i godi'r premiwm, ond oherwydd hyn, mae teuluoedd lleol yn cael eu cosbi hefyd. Rydym wedi gorfod talu premiwm gan ein bod wedi prynu tŷ gwag oedd angen ei adnewyddu yn sylweddol (ail-weirio, rhoi gwres canolog, lloriau newydd, to ac ati). Gan ein bod methu byw yn y tŷ gyda 2 o blant bach, rydym yn cael bil treth anferthol nes fod y gwaith wedi ei gwblhau. Mae Covid, ar ben hyn, wedi pwsio'r prosiect nôl bron i flwyddyn, ac rydym yn cael ein cosbi oherwydd hyn. Tydi hyn ddim yn gwneud i bobl fod eisiau cymryd gwaith adnewyddu ymlaen. Mae angen cysidro y sefyllfa cyn codi'r premiwm.

Ni fydd codi trethi yn gwneud affliw o wahaniaeth i'r ffaith bod mewnfudwyr cefnog yn prynu ail-dai yng Ngwynedd. Mae gan y bobl ariannog yma ddigon o fodd i dalu'r dreth heb deimlo twll yn eu pocedi! Bydd eu cyfreithwyr craff yn Lloegr ddim yn hir yn ffeindio ffordd o osgoi talu'r dreth yn llawn chwaith! Mae gennyn ni ffermdy, sy'n eiddo gwag ers 3 mlynedd gan fod angen gwneud gwaith sylweddol arno. (Ni allwn fforddio ei wneud i fyny ar y funud) Mae'r ty yn rhan o'n fferm ers degawdau ac ein gobaith yw cadw perchnogaeth y ty i'r teulu. Rydym eisioes yn talu y dreth ychwanegol o 50% ar y ty gwag. Pe bai'r dreth cyngor yn codi i 100% ar dai gwag/ail-gartref bydd rhaid i ni ystyried gwerthu yr eiddo - a mwy na thebyg, mewnfudwyr fydd y perchnogion newydd. Dwi'n siwr bydd llawer o bobl leol/cefn gwlad yn yr un sefyllfa pe bai'r ychwanegiad yn y dreth arfaethedig yma yn dod i rym. Hoffwn i chi ystyried y gallai codiad yn y dreth nadu pobl leol rhag mentro a chreu incwm i'r ardal leol.

Nid yw twristiaeth yn ddrwg i gyd. Rhaid i ni fod yn wyliadwrus fel Cymry lleol nad ydym yn saethu ein hunain yn ein traed! A fydd codi trethi yn ateb y broblem? Ddim yn fy marn i. Oni ddylai'r adran gynllunio wledig fod yn fwy arloesol i hybu datblygu cynaliadwy?

... roeddem yn gobeithio cael tenantiaid newydd yn asap. Ond nid ydym wedi gallu cael masnachwyr i mewn i wneud gwaith. Ni fyddem wedi gallu fforddio treth uwch. Byddai unrhyw dreth uwch yn cael ei hymgorffori mewn rhent ar gyfer y tenant nesaf.

Fel rhywun a fagwyd yn yr eiddo, ac roedd fy rhieni wedi byw yno ers dros 50 mlynedd, rwy'n teimlo ein bod yn cael ein cosbi am etifeddu'r tŷ... rydym yn talu'r dreth gyngor ond nid ydym yn cael dim o'r budd-iannau e.e. casglu sbwriel ac ati. Pe byddwn yn cael incwm o'r tŷ, ni fyddai gennyf unrhyw broblem o ran talu'r premiwm, ond yr wyf yn awr yn talu'r dreth gyngor ar eiddo na allaf ei wagio oherwydd cyfyngiadau Covid. Roedd fy diweddar Fam yn rhedeg busnes B & B yn yr eiddo... ac felly cyfrannodd yn aruthrol at yr economi leol yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn sicr, nid yw'n ail gartref yn fy marn i.

... ni yw prynwyr cartref am y tro cyntaf ac ni allwn fod yn fwy lleol. Nid yw ein tŷ ond yn wag oherwydd nad ydym yn gallu byw ynddo'n gorfforol oherwydd gwaith adnewyddu. Mae'n gywilyddus y bydd prynwyr ifanc tro cyntaf lleol yn cael eu cosbi oherwydd ymgais y sir i gael arian allan o osodiadau gwyliau.

Dim yn deg bod anheddau gwag hir dymor yn gorfod talu premium ychwanegol, wedi prynu ty a fferm pedair blynedd yn ol ac gwaith adnewydd ar y ty, gwaith yn mynd yn ei flaen ar ol disgwyl am hawliau ac yn blaen

Mae arnom angen swyddi â chyflog gwell a mwy o dai cyngor neu fyngalos bach sy'n addas ar gyfer pobl hyn a fyddai'n arwain at fy o gartrefi teulu sydd angen eu hadnewyddu yn dod ar y farchnad.

Mae'r gwaith adnewyddu wedi cymeryd llawer hirach na'r disgwyl. Mae datrys problem y tamprwydd yn profi'n rhwystredig iawn. Fe all codi'r premiwm fy ngorfodi i werthu ac yn debygol o'i brynu fel ty haf.

Yn fy achos i ac mae'n siŵr eraill, nid yw'r gras chwe mis ar gyfer datblygu eiddo gwag yn ddigonol oherwydd cyfyngiadau ffisegol a llif arian. Byddai unrhyw gynnydd mewn treth yn ymestyn yr amser i ddod â'r eiddo i'r farchnad. Mae hyd yn oed y Premiwm o 50% yn cael effaith o arafu adnewyddu. Ni fyddai Premiwm o 100% yn annog adnewyddu eiddo, yn enwedig rhai hŷn o werth hanesyddol i'r gymuned leol.

Yn berchen ar annedd gwag hirdymor ac ail gartref yng Ngwynedd

Peidiwch â rhoi'r holl eiddo gwag mewn un categori o wag hirdymor... Mae gennyf eiddo sydd weithiau'n wag am fwy nag ychydig fisoedd oherwydd diffyg galw nid diffyg awydd ar fy rhan i'w adael i berson lleol. Meddyliwch am effaith gor-drethu'r landlordiaid ar dai fforddiadwy, y mae rhai ohonynt yn ceisio helpu'r gymuned leol.

Mae'n ymddangos bod rhai pobl yn cael yr argraff bod pob perchennog ail gartref yn gyfoethog. O'm profiad i, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi gweithio'n galed am flynyddoedd lawer i brynu ail gartref. Efallai fod rhai wedi etifeddu gan aelod o'r teulu lle na fu'n bosibl byw a dod o hyd i waith yn y gymuned ac maent wedi gorfod symud i ffwrdd ond am gadw cysylltiad â'u treftadaeth. Mae gan y rhan fwyaf o berchnogion yr ail gartref atgofion melys o wyliau yng Nghymru ymhell cyn iddynt ddod yn berchnogion ail gartref yma ac mae'r rhan fwyaf ohonynt am gyfrannu at eu cymuned leol gystal ag y gallant.

sut y gall fod yn deg codi'r dreth gyngor pan nad ydym wedi gallu dod i'n heiddo, oherwydd cyfyngiadau covid a orfodir gan eich llywodraeth??? dylech fod yn ei leihau heb ei gynyddu!!!!!!

Os yw hyn i ddod i rym, credaf mai dim ond ar gyfer pryniannau newydd y dylai fod yn effeithiol fel bod pobl yn ymwybodol cyn prynu. Gallai'r penderfyniad hwn gael effaith ddinistriol ar berchnogion presennol sydd wedi gwthio eu hunain i'w terfyn i brynu'r eiddo sydd ganddynt. Gallai hyn effeithio'n ddifrifol ar gynifer o fywydau pobl.

Byddai annog cartrefi gwag yn ôl i ddefnydd yn beth cadarnhaol i bawb tra na fyddai cynyddu treth ar ail gartrefi yn helpu'r gymuned ac y byddai'n rhoi'r argraff o ymgyrch yn erbyn Saeson!

Nid dyma'r amser ar gyfer y cynnydd hwn, mae pobl wedi blino gydag effaith ariannol y pandemig. Adolygwch ef eto yn nes ymlaen. Rhaid i hyd yn oed perchnogion busnes ac 2il gartref reoli cyfyngiadau ariannol.

Dwi'n teimlo y dylai'r Awdurdod wahaniaethu rhwng tai a brynwyd ar gyfer anheddau gwag hir dymor a thai sydd wedi ei hetifeddu gan Gymru Cymreig. Mewn sefyllfaoedd o'r fath rydym yn cadw y tai hyn yn llaw y Cymry ac yn ei basio ymlaen o un genhedlaeth i'r llall. Petawn yn gwerthu y anheddau hyn wedyn y byddai effaith negyddol ar gymunedau lleol.

Drwy gael yr polisi ar gyfer pawb byddwch yn brifo yn ariannol bobl sydd ag ail eiddo fel ffynhonnell incwm. Bydd pobl sydd am gael cartrefi gwyliau yng Nghymru yn talu premiwm ond yn gwario llai yn lleol i'w ddigolledu.

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

I Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Premiwm Treth Cyngor ar Eiddo Gwag Hir Dymor ac Ail Gartrefi

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Ers Ebrill 2018 mae'r Cyngor wedi bod yn codi premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor. Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod y Cyngor ar 3 Rhagfyr 2020 yn argymhell cadw lefel y Premiwm yn 50% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Cyflwynwyd gwelliant i'r cynnig hwn, sef bod y Cabinet yn ystyried ymgynghori ar cynyddu lefel y premiwm i hyd at 100%, ac fe'i basiwyd. Y ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020, cytunodd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i gynyddu'r Premiwm ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Ar ôl ystyried materion perthnasol, gan gynnwys sefyllfa dai Gwynedd a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r Cabinet yn argymhell cynyddu lefel y Premiwm ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor i 100% yn 2021/22.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg)

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

15 Rhagfyr 2020. Dechreuodd yr asesiad hwn ar ôl i'r Cabinet benderfynu y byddai'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn darganfod barn y cyhoedd ar y cynnig i newid graddfa'r Premiwm.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae gan y Cyngor y grym o dan Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd) i addasu lefel y Premiwm hyd at 100%. Fodd bynnag, mae'n ddisgwyliad echblyg i ni ymgynghori hefo'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus, gyda sylw wedi ei roi yn y wasg lleol ac ar wefannau cymdeithasol, ac ysgrifennodd y Cyngor at berchnogion eiddo sy'n destun y Premiwm.

Y partneriaid a rhanddeiliaid allweddol oedd:

Trigolion Gwynedd
Trethdalwyr ar eiddo gwag ac ail gartrefi

Bu cydweithio gyda nifer o bartneriaid mewnol, e.e.:

Adran Cyllid
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd
Y Cyngor Llawn

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?

Rydym wedi ymdrechu i adnabod unigolion gyda nodweddion gwarchoddedig gan fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn i'r ymatebwyr ein hysbysu o unrhyw nodweddion gwarchoddedig fel bod modd ystyried rhain wrth ddatblygu'r polisi.

Roedd yr ymgynghoriad yn un cyhoeddus ac roedd yr holiadur ar gael i unrhyw un i'w lenwi ar-lein. Cyhoeddwyd dau ddatganiad i'r wasg yn codi ymwybyddiaeth ohono, a defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.

Ysgrifennodd y Cyngor at bob aelwyd oedd yn destun y Premiwm gyda llythyr yn tynnu eu sylw at yr ymgynghoriad. Lle roedd y cyfeiriad gohebiaeth gwahanol wedi ei gofnodi yn y system Treth Cyngor, defnyddiwyd hwnnw. Roedd y llythyr yn cyfeirio at wefan y Cyngor a'r cyfle i lenwi'r holiadur yno, ond roedd gwefan y Cyngor yn nodi y gallai unrhyw un gysylltu gyda'r Cyngor os oeddynt yn dymuno derbyn copi papur o'r ymgynghoriad.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 22 Rhagfyr 2020 a 1 Chwefror 2021. Derbyniwyd 6,213 o ymatebion ar yr holiadur ffurfiol, yn ogystal ag oddeutu 100 o lythyrau a negeseuon ar wahân yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r cynnig.

Roedd barn y rhai a atebodd wedi ei rannu, ond roedd dros 70% o'r rhai a ymatebodd yn erbyn cynyddu lefel y Premiwm. Yn gyffredinol, roedd perchnogion ail gartrefi yn arbennig yn gwrthwynebu'r bwriad i godi unrhyw breimiwm, tra fod cyfran sylweddol arall yn cefnogi codi premiwm o hyd at 100%.

Gofynnwyd am sylwadau ymatebwyr ar effaith y Premiwm ar nifer o agweddau o faterion cymdeithasol. Roedd nifer o'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynnydd yn nodi eu bod yn berchen ar eu heiddo yng Ngwynedd ers sawl blwyddyn, ac yn hoff iawn o'r ardal. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r rhai oedd yn ymateb yn honni fod cymhelliad hiliol tu ôl i'r bwriad i godi Premiwm gan fod y Cyngor yn erbyn pobl o'r tu allan i Wynedd a'i fod yn hiliol. Ni gyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn yma.

Mae dau gategori gwahanol o eiddo sy'n destun y Premiwm, sef ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

Ychydig iawn o bobl sydd eisiau talu mwy o dreth, ac roedd gwrthwynebiad chwyrn gan berchnogion ail gartrefi yn arbennig. Mae'n sefyll i reswm byddai cynyddu lefel y Premiwm yn cael effaith ariannol ar yr unigolion yma, ond ni welwyd dystiolaeth y byddai unrhyw grŵp gwarchoddedig yn cael eu heffeithio. Serch hynny, mae nifer o'r rhai sydd wedi ymateb i'r ymholiad yn honni fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol, gwrth-Seisnig, er nad oes unrhyw wahaniaethu yn bodoli pan yn gosod y premiwm.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i'r Cyngor weithredu'n bositif tuag at rhai carfannau os oes tystiolaeth o angen ("cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill"). Mae sawl astudiaeth gan y Cyngor wedi adnabod fod problem yn bodoli gyda argaeledd tai i deuluoedd ifanc Gwynedd, felly rydym wedi adnabod problem ac yn cymryd camau i ddelio gyda hynny. Mae pobl ifanc wedi ei prasio allan o'r farchnad dai leol.

Ar 25 Tachwedd 2020, roedd:

- 4,718 eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)
- 165 o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu'r Premiwm gan eu bod yn destun un o'r eithriadau statudol
- 811 eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol a na ellir codi Premiwm.

Ar yr un adeg, roedd 1,130 eiddo yn destun y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor

Astudiaeth Effaith Tai Gwyliau

Ystyriaeth allweddol gan y Cyngor wrth bleidleisio ar y gwelliant i ohirio'r penderfyniad ar godi premiwm yn 2021/22 oedd yr adroddiad manwl Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau a gyflwynwyd i gyfarfod y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2020:

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1

Mae hyn yn dilyn astudiaeth debyg a gynhaliwyd yn 2013.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos fod cyfanswm nifer y cartrefi gwyliau (ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar) o fewn Gwynedd yn parhau i gynyddu, ac yn gofyn am ymrwymiad y Cabinet i gymryd camau pendant i ymdrin â'r sefyllfa.

Mae'r astudiaeth yn ganlyniad gwaith ymchwil manwl sydd wedi cael ei gynnal dros y misoedd diwethaf, ac mae'n amlygu fod nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar stoc dai Gwynedd. Mae'n adeiladu ar astudiaethau sydd wedi cael eu cynnal yn y gorffennol ac yn amlygu fod materion dybryd sy'n parhau angen sylw, a fod y sefyllfa o fewn cymunedau Gwynedd, yn enwedig y rhai sy'n denu ymwelwyr, yn dwysau.

Tra fod sgôp yr astudiaeth yn ymestyn i faterion cynllunio hefyd, rhoddir sylw blaenllaw i'r cymhelliad ariannol sydd yn bodoli o fod yn berchennog tŷ gwyliau yn ogystal â'r fantais trethiannol sy'n bodoli o fod yn cwrdd â'r trothwyon cyfreithiol ar gyfer trosglwyddo eiddo i'r gyfundrefn ardrethi annomestig (nid yw'r eiddo hyn yn destun y Premiwm).

Gwerth eiddo

Mae bandiau Treth Cyngor ail gartrefi yn gyffredinol uwch nag eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Yn Rhagfyr 2020, roedd 33.9% o ail gartrefi Gwynedd ym Mand Treth Cyngor E neu uwch, o'i gymharu â 21.5% o eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Ar y llaw arall, mae bandiau eiddo gwag hir dymor yn is. Dim ond 17.8% o'r eiddo yma sydd yn mand E neu uwch.

Un o'r themâu oedd yn dod o'r ymgynghoriad oedd fod nifer o ail gartrefi yn gartref teuluol oedd wedi cael eu hetifeddu a'u cadw gan y teulu, neu fod yr eiddo wedi bod ym mherchnogaeth y teulu fel ail gartref ers nifer o flynyddoedd.

2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Ar wahân i ymdeimlad rhai ymatebwyr fod Cyngor Gwynedd yn gyffredinol hiliol am ystyried codi'r Premiwm ac yna ei gynyddu, nid oes dystiolaeth wedi ei dderbyn i gefnogi hynny gan fod astudiaethau wedi cael eu cynnal sy'n awgrymu fod angen cymryd camau i weithredu i fynd i'r afael â phroblemau tai mewn ardaloedd gwledig o Wynedd.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys holiadur cydraddoldeb. Roedd hyn yn awgrymu fod cyfran uwch o berchnogion ail gartrefi na'r boblogaeth gyffredinol yn bobl hŷn.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	<p>Positif</p> <p>Negyddol</p>	<p>Bwriad y polisi o godi premiwm yw i fynd i'r afael â'r sefyllfa nad oes tai ar gael i bobl leol, ac mae'r effaith yn bositif ar y garfan yma.</p> <p>Bydd y polisi yn effeithio ar bobl o'r tu allan i Wynedd ac mae rhai o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn honni y byddai'r Polisi yn hiliol gan ei fod yn targedu pobl o'r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystyriaeth o hil perchnogion yr eiddo pan fydd premiwm yn cael ei godi ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.</p> <p>Codir y Premiwm ar bob ail gartref ac eiddo gwag hirdymor heb wahaniaethu mewn unrhyw fodd ar lle mae'r perchnogion yn byw na beth yw eu hil neu genedligrwydd. Er hynny, rydym yn cydnabod fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dangos fod cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson ac felly mae'n debyg y bydd y polisi yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma. Serch hynny, bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol, sy'n ddeiliant positif.</p>
Yr iaith Gymraeg	Positif	<p>Bydd effaith anuniongyrchol ar yr iaith gan mai pwrpas codi premiwm yw i annog perchnogion eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i'r stoc dai lleol, neu i dalu Treth Cyngor ychwanegol. Mae cynnyrch y Premiwm hyd yma wedi ei ddefnyddio i diwallu anghenion tai lleol. Mae cefnogi'r iaith Gymraeg, felly, yn rhan greiddiol o'r polisi yma.</p> <p>Yn benodol, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy.</p>

Anabledd	Ansylweddol	Mae posibilrwydd bychan o wahaniaethau yn anuniongyrchol ar sail anabledd o oes rhywun sydd ag anabledd yn cadw eiddo sydd wedi ei addasu yng Ngwynedd gan nad oes modd iddynt gael gwyliau mewn man arall.
Rhyw	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Oedran	Positif	<p>Dangosodd astudiaeth yn 2013 fod gwneuthuriad demograffig y cymunedau sydd â chyfrannau uchel o ail gartrefi yn wahanol; yn gyffredinol, mae'r boblogaeth breswyl yn 'hîn'. Mae hyn yn effeithio ar gydbwysedd y cymunedau a bydd yn cael effaith ar wydnwch a chynnaladwyedd yr ardaloedd hyn yn y dyfodol.</p> <p>Aethpwyd ymlaen i nodi fod proffiliau perchnogion ail gartrefi eu hunain yn awgrymu eu bod yn gyffredinol yn ganol oed neu wedi ymddeol, ac yn gyfoethocach na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fe wnaeth Shelter (2011) (<i>Taking Stock, an assessment of under utilisation of housing stock in England</i>) amcangyfrif fod 60% o berchnogion ail gartrefi yn genedlaethol rhwng 45 a 60 mlwydd oed o gymharu â 40% ar draws yr holl perchen-feddiant yn y grŵp oedran hwn. Mae ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus cyfredol wedi awgrymu yr un peth.</p> <p>Felly, mae tystiolaeth fod y rhai fydd ar eu colled yn ariannol yn hîn, ond disgwylir y bydd y bobl hîn sy'n byw yn yr ardaloedd perthnasol trwy'r flwyddyn ar eu hennill gan y bydd y gymdeithas leol yn fwy gwydn a chynaliadwy.</p> <p>Serch hynny, mae tystiolaeth gryf fod darparwyr gofal yn wynebu trafferthion recriwtio dybryd. Mae sicrhau cydbwysedd cymunedol yn hollbwysig er mwyn cael digon o bobl ieuengach i warchod a rhoi gofal i bobl hîn, a bwriad y polisi o godi Premiwm ydi helpu pobl ifanc i aros yn yr ardal leol trwy allu darparu cartrefi lleol iddynt. Ar y cyfan, felly, bydd y polisi yn cael effaith bositif gan ei fod yn helpu teuluoedd ifanc i gael cartref. Bydd hyn wedyn yn rhoi effaith mwy bositif na negyddol ar gydbwysedd cymunedol.</p>
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Ailbennu rhywedd	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod

Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Bydd hyn yn rhoi cyfle cyfartal i bobl leol sy'n methu fforddio cartref ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa tai ar hyn o bryd yn anghyfartal a bwriad y penderfyniad ydi sefydlogi ac unioni'r sefyllfa yma.
Meithrin perthnasau da	Ydi	<p>Gall y polisi o godi Premiwm hyrwyddo perthnasau da gyda pobl o fewn cymunedau Gwynedd os ydi'r Polisi yn rhoi cyfle iddynt cael gwell cartref, neu gartref cyntaf, gan fod nifer y tai gwyliau ac anheddau gwag yn cael ei ganfod fel cael effaith andwyol ar allu pobl lleol i gael lle i fyw. Gall polisi o godi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag wella'r perthnasau os ydi trigolion Gwynedd yn teimlo fod y polisi'n gymorth iddynt fod â gwell cyfle i gael cartref yn eu hardal leol.</p> <p>Mae rhai perchnogion ail gartrefi wedi honni yn eu hymateb i'r ymgynghoriad y bydd cynyddu lefel y Premiwm yn achosi drwg-deimlad cymunedol, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i law gefnogi'r honiad yma. Mae'r anghyfartaledd presennol yn fwy tebygol o greu drwgdeimlad.</p>

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Un o prif ganlyniadau'r Premiwm ydi ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai. Bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol o fewn Gwynedd. Mae'r Aseiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi'r camau positif iawn fydd yn deillio o weithredu'r Cynllun, gyda chymorth ariannol y Premiwm:

[Microsoft Word - 0.2Aseiad Effaith Cydraddoldeb CGT.doc \(llyw.cymru\)](#)

Bwriad y Premiwm yw anelu i leihau anghydraddoldeb o fewn cymunedau Gwynedd, ac mae'n cyfrannu at hynny drwy ariannu prosiectau penodol.

Mae manylion am aseiad o safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w gael yng nghorff yr adroddiad i'r Cabinet.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Dau garfan benodol o'r boblogaeth fydd yn destun y premiwm, sef perchnogion ail gartrefi, a perchnogion tai gwag hir dymor.

Dylid nodi fod ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd ag astudiaethau cenedlaethol yn awgrymu'n gryf fod perchnogion ail gartrefi yn dueddol o fod yn bobl hŷn. Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu fod rhai o'r perchnogion hŷn yma yn "asset rich / cash poor". Hynny yw, maent wedi prynu'r eiddo ers sawl blwyddyn neu wedi ei etifeddu, ond nid yw eu hincwm o reidrwydd yn uchel. Mae hyn yn y pen draw yn codi gronyn o amheuaeth os yw'r Cyngor yn gwireddu ei ddyletswyddau statudol, ond rhaid pwysu hynny yn erbyn y tlodi, diweithdra a digartrefedd sydd yng nghefn gwlad Gwynedd. Yn ôl y Cynllun Gweithredu Tai, mae 59% o drigolion Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yng Ngwynedd.

Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi datgan fod y Polisi yma yn un hiliol gan ei fod yn targedu unigolion sydd yn byw y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, mae'r Premiwm yn cael ei godi ar bob eiddo sy'n ail gartref neu'n eiddo gwag hirdymor heb ystyried y perchnogaeth. Mae cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson, a byddai cynyddu'r Premiwm yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma. Fodd bynnag, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan fod hyn yn gyfreithiol os yw'r polisi yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, ac yn yr achos hwn mae'n fodd o wireddu gweithrediad gadarnhaol, sef mynd i'r afael ag argyfwng tai i bobl leol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	✓

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfanteision maent yn eu hachosi.

Mae honiad fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol oherwydd lle mae perchnogion ail gartrefi yn byw, ond mae nifer o'r rhai sydd wedi ateb yr ymgynghoriad yn nodi mai Cymry sydd yn berchen ar eiddo yng Ngwynedd tra fod eu prif gartref y tu allan i Gymru. Bydd y Premiwm yn cael ei godi yn seiliedig ar nodweddion yr eiddo, nid nodweddion y perchennog, a bydd effaith bositif os ydi teuluoedd lleol yn gallu fforddio prynu eiddo yn eu hardal leol yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd i gael cartref. Mae cydnabyddiaeth fod effaith ariannol negyddol ar bobl sy'n byw tu allan i Wunedd, gyda nifer helaeth ohonynt yn adnabod eu hunain fel Saeson. Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mae cynyddu lefel y Premiwm yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, sef ariannu Cynllun Gweithredu Tai sy'n mynd i'r afael â peth o'r niwed mae ail gartrefi ac anheddau gwag yn eu hachosi i gymunedau Gwynedd.

Mae unigolion sydd o blaid ac yn erbyn codi'r Premiwm wedi mynegi anfodlonrwydd gyda'r un cwestiwn ar effaith y Premiwm ar yr economi (gan honni ei fod yn "arwain"), sy'n awgrymu fod y balans y cwestiynau yn gywir.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Mater gwleidyddol yn y pen draw yw lefel y Premiwm, wedi ei gymryd ar sail y dystiolaeth sydd i law. Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng y gost ychwanegol i berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor a'r cymhelliant cysylltiedig o ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd, yn erbyn y lles cymdeithasol fyddai'n deillio o'r gallu i wireddu cynlluniau penodol i fynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor llawn y flynyddol ar gyfer gosod lefel y Premiwm. Bydd yr Adran Gyllid yn parhau i gadw golwg ar newidiadau ar statws eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, ac yn gweithredu fel bo'r angen i asesu os oes materion cydraddoldeb tu ôl i'r trosglwyddo i ardrethi annomestig.

Eitem 9

Cyfarfod:	CYNGOR
Dyddiad:	4 Mawrth 2021
Teitl:	Adroddiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor
Pwrpas	Mabwysiadu Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2021 / 22
Awdur:	Dilwyn Williams – Prif Weithredwr
Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion	Y Cynghorydd Dafydd Meurig

CEFNDIR

1. Ers 2012 mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwnnw yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.
2. Wrth fabwysiadu'r polisi ar gyfer 2012 / 13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn.
3. Yn sgîl hynny ac yn unol â threfniadau sydd wedi'u gweithredu yn y cyfamser, gofynwyd i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2021 / 22 yn ei gyfarfod ar yr 11eg o Chwefror eleni, a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 4ydd o Fawrth.

PRIF SWYDDOGION

4. Adroddwyd wrth y Pwyllgor y llynedd fod yna beryg fod cyflogau prif swyddogion yng Ngwynedd yn llithro ar ôl swyddi cyfatebol mewn cynghorau eraill yn y rhanbarth, a bod hynny yn arwain at risg posib i ni o ran recriwtio a chadw staff. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Prif Weithredwr gynnal adolygiad o gyflogau prif swyddogion a chyflwynwyd adroddiad ar yr adolygiad hwnnw yn y cyfarfod ar yr 11eg o Chwefror.
5. Cafwyd dadansoddiad gan y Prif Weithredwr o'r farchnad ar gyfer swyddi arweinyddion llywodraeth leol yn rhanbarthol, ac eglurwyd ei bod yn gwneud synnwyr i gynnal dadansoddiad o fewn y cyd-destun hwnnw bellach, yn hytrach na chynnal asesiad wedi ei seilio ar y farchnad ar lefel Prydain fel a wnaethpwyd yn y gorffennol.
6. Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, derbyniodd y Pwyllgor bod angen adolygu cyflogau prif swyddogion y Cyngor, ond gan fod posib y bydd yna rewi ar gyflogau rhai swyddogion yn y sector gyhoeddus, y dylid gohirio'r mater ymhellach hyd nes bod staff y Cyngor yn ehangach yn derbyn codiadau cyflog. Penderfynwyd y dylai'r Pwyllgor ail ymweld â chynnwys yr adroddiad yn syth ac ystyried y cynnwys ymhellach bryd hynny.
7. Cafwyd trafodaeth ychydig yn wahanol ynghylch swydd y Swyddog Monitro. Adroddwyd nad yw cyflog y swydd yn gystadleuol â swyddi sydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau cyfatebol mewn awdurdodau lleol rhanbarthol eraill, a bod hynny yn cyflwyno risg sydd yn annerbyniol i weithrediad effeithiol y Cyngor. Daeth y Pwyllgor felly i benderfyniad y dylid gweithredu yn ddiymdroi ac y dylid codi cyflog y swydd honno yn syth i uchafswm o tua £70,000.

8. Yn gwbl ar wahân i'r adolygiad uchod, dylid cofio fod gan bob Prif Swyddog yr hawl i'r codiadau cyflog sy'n cael eu pennu yn genedlaethol gan y Cyd-Gyngor Trafod Telerau Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion. Mae'r rhain yn delerau cytundebol y mae'n rhaid i bob cyflogwr weithredu arnynt. Gyda hyn mewn golwg, mae'r drafft polisi tâl yn datgan **'fod gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol presennol'**. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl blynyddol felly, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog cenedlaethol hyn. Ar gyfer y flwyddyn 2020/21 roedd y cynnydd yn 2.75%
9. Fel yr awgrymir ym mharagraff 6 uchod, ym mis Tachwedd 2020 cafwyd cyhoeddiad gan Lywodraeth Prydain y bydd yna rewi ar gyflogau rhai rhannau o'r sector gyhoeddus am y tro. Er nad ydi effaith y cyhoeddiad hwn ar lywodraeth leol yn gwbl glir eto, mae'n bosib y gall y cyhoeddiad ddylanwadu ar unrhyw benderfyniadau ar gynnydd yn y cyflogau yn y pen draw. Gwyddom fod y broses o drafod ar fin dechrau, ac fe ddaw'r sefyllfa yn gliriach maes o law felly.
10. Oni bai am y newid y cyfeirir ato ym mharagraff 7 uchod felly, nid oes unrhyw newid pellach i'r polisi tâl o'r hyn a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2020/21.

SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

11. Mae gan staff sydd yn gweithio mewn swyddi o dan lefel Prif Swyddogion yr hawl cytundebol i godiadau cyflog sydd yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol. Roedd y cynnydd yn y cyflog ar gyfer 2020/21 yn 2.75%.
12. Fe all y cyhoeddiad i rewi cyflogau rhai rhannau o'r sector gyhoeddus fod yn berthnasol ar gyfer ein gweithlu ehangach ni am y flwyddyn sydd i ddod hefyd. Mae'r trafodaethau cenedlaethol ar gynnydd posib ar fin dechrau, ac fe ddaw'n amlwg yn fuan pa ddylanwad y caiff cyhoeddiad Llywodraeth Prydain ar y broses honno.
13. Pe bai yna gynnydd yn y cyflogau ar gyfer 2021/22 yna bydd y Cyngor yn gweithredu ar unrhyw benderfyniad cyn gynted â phosib.

ARGYMHELLIAD

14. Bod y Cyngor yn cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu'r Polisi Tâl ar gyfer 2020 / 21, yn cynnwys y penderfyniad a nodir ym mharagraff 7.

Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro (Paratowyd gan yr Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol):

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gosod gofyn statudol ar y Cyngor i fabwysiadu Polisi Tâl blynyddol sydd yn cyfarch y gofynion yn y Ddeddf. Penderfyniad y Cyngor Llawn yw hyn. Rwy'n fodlon fod y Polisi a argymhellir ar gyfer ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion yn cyfarch y gofynion statudol.

Y Pennaeth Cyllid:

Mae adnoddau ar gyfer ariannu ymhlygiadau'r Polisi Tâl gerbron yma wedi'u darparu yn y Gyllideb ar gyfer 2021/22, sy'n eitem arall ar raglen cyfarfod yma'r Cyngor.



Polisi Tâl – 2021 / 22

1. CYFLWYNIAD

Yn unol ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gofyn i bob Cyngor baratoi datganiad polisi tâl. Rhaid i'r datganiad hwn gyfleu beth yw polisiâu'r Awdurdod ar nifer o faterion sy'n ymwneud â thâl ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff (neu 'brif swyddogion') a'r gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf. Rhaid paratoi datganiad polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pa mor allweddol yw rheoli cydnabyddiaeth ariannol mewn modd teg, cyson a thryloyw ac mae'r penderfyniadau a wneir yn y cyswllt hwn yn greiddiol i sicrhau cyflog cyfartal a chydaddoldeb ar draws y Cyngor.

2. POLISI TÂL AR GYFER PRIF SWYDDOGION

Mae'r Cyngor yn diffinio ei brif swyddogion fel a ganlyn: y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Penaethiaid Adran. Mae'r Cyngor yn gorff cyflogi atebol ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru hefyd, ac o ganlyniad mae swyddi prif swyddogion y cyrff hynny yn cael eu hystyried fel rhai sy'n disgyn o fewn gofynion y polisi hwn.

Mae'r Cyngor yn cyflogi prif swyddogion o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ac mae hynny wedi'i ymgorffori yn eu cytundebau. Mae'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion yn negodi codiad cyflog blynyddol cenedlaethol (DU) ar sail costau byw ar gyfer y grŵp hwn. Mae gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol.

3. CYFLOGAU

Mabwysiadwyd y polisi sy'n ymwneud â chyflogau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Penaethiaid Adran am y tro cyntaf yng nghyfarfod y Cyngor llawn ym mis Hydref 2009 ac yna ym Mehefin 2012, fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Polisi Tâl yn ei gyfanrwydd. Cynhaliwyd adolygiad rhannol pellach o'r polisi ym Mawrth 2015 er mwyn adlewyrchu newidiadau strwythurol o fewn y Cyngor. Bryd hynny, roedd cyflogau prif swyddogion yn seiliedig ar adroddiad annibynnol gan gwmni *Korn Ferry (Hay Group)* yn flaenorol) ac ar eu cynllun arfarnu swyddi hwy.

Ym mis Chwefror 2021, cynhaliwyd adolygiad o gyflogau prif swyddogion y Cyngor, gyda'r adolygiad hwnnw wedi ei seilio ar gymharu cyflogau â swyddi cyfatebol yn y farchnad swyddi ranbarthol er mwyn i unrhyw asesiad adlewyrchu y sefyllfa sydd yn wir berthnasol i ogledd a chanolbarth Cymru.

Mae tâl ar gyfer y Prif Weithredwr wedi ei osod yn unol â'r raddfa £109,638 - £118,063.

Nid yw'r Cyngor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w Brif Swyddogion. Mae amodau a thelerau gwaith lleol y Cyngor yn berthnasol i'w Brif Swyddogion, yn yr un modd ag ar gyfer gweddill y staff, oni nodir yn wahanol yn y polisïau unigol.

Mae cyflogau Prif Swyddogion y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor (Gweler Atodiad 1).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ffurfio Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae gan y Panel hwn yr awdurdod i roi barn ac argymhelliad i gynghorau wrth iddynt ystyried addasu telerau cyflogi swyddi Prif Weithredwyr. Mewn sefyllfa ple bo'r Cyngor yn bwriadu newid lefel cyflog y Prif Weithredwr, a phle nad yw'r newid hwnnw yn cyd-fynd hefo newid i gyflogau swyddi gweddill cyflogaion y Cyngor, mae gofyn ymgynghori â'r Panel ynglŷn â'r newid arfaethedig cyn cymryd y penderfyniad terfynol.

4. SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

Mae polisi tâl y Cyngor ar gyfer gweddill ei staff yn seiliedig ar bolisi tâl cyfartal y Cyngor a'i gytundeb torfol â'r undebau llafur cydnabyddedig, ddaeth yn weithredol ar y 1af o Ebrill 2008. Mae strwythurau tâl y Cyngor yn destun archwiliadau tâl cyfartal.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf Cynllun Arfarnu Swyddi GLPC fel sail i osod graddfa cyflog ar gyfer pob swydd sydd o dan Amodau Gwaith Gweithwyr Llywodraeth Leol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu cyflogau yn unol â deddfwriaeth cyflog cyfartal a'r cytundeb "statws sengl" rhwng cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur cydnabyddedig a luniwyd yn 1997.

Nid yw'r Cyngor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad ei weithwyr.

Mae'r berthynas rhwng tâl ei Brif Swyddogion a'i weithwyr eraill wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i recriwtio a chadw'r gweithwyr addas gorau yn ei swyddi amrywiol, tra'n cynnal y pwyntiau gwahaniaethol a arfarnwyd yn yr arfarniad swyddi.

Mae Adolygiad Hutton o Gyflog Teg yn y Sector Gyhoeddus yn argymhell cymhareb o ddim mwy na 1:20 rhwng y cyflog uchaf a'r cyflog isaf (llawn-amser). Mae'r gymhareb hon ar hyn o bryd yn 1:6.4.

5. TÂL CYCHWYNNOL

Mae'r nifer o hicynnau sydd o fewn pob graddfa yn adlewyrchu'r cyfnod posib o ddatblygiad mewn swydd allai fod yn berthnasol i'r unigolion sydd ar y raddfa honno. Bydd aelodau staff yn cael eu penodi i'r pwynt cyflog o fewn y raddfa sydd yn adlewyrchu'r amser fydd ei angen er mwyn datblygu fel eu bod yn gallu ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn llawn.

Yn arferol, penodir pob gweithiwr i'r pwynt cyflog isaf o fewn y raddfa gyflog briodol. Os yw gweithiwr eisoes yn derbyn tâl uwchben y pwynt cyflog isaf neu os oes tystiolaeth ddigonol i arddangos bod y gweithiwr eisoes yn llawn gymwys i gyflawni nifer o agweddau o'r swydd, gall rheolwr, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol neu ddirprwy, benodi ar bwynt cyflog uwch o fewn y raddfa gyflog briodol.

Os oes lle o fewn graddfa'r swydd, bydd pob aelod staff yn gymwys i dderbyn hicynddod cyflog blynyddol ar y cyntaf o Ebrill, ar yr amod eu bod wedi'u penodi i'w swydd bresennol am fwy na chwe mis cyn y dyddiad hwnnw.

6. COSTAU AIL-LEOLI

Mewn sefyllfa pan ei bod yn angenrheidiol i weithiwr ail-leoli er mwyn ymgymryd â swydd, gall y Cyngor, o dan amgylchiadau arbennig, gyfrannu tuag at ad-daliad costau ail-leoli. Mae'r cynllun yn berthnasol i weithwyr a benodir o ganlyniad i hysbyseb neu'n dilyn ad-drefnu mewnol lle bydd rhaid iddynt symud tŷ.

Rhaid i gartref presennol y gweithiwr fod fwy na 20 milltir o'r ganolfan weinyddol cyn y gellir ystyried cais i ad-dalu costau.

O dan yr amgylchiadau hyn, telir cost symud dodrefn ac eiddo yn llawn, yn ddarostyngedig i dderbyn yr isaf o dri dyfynbris ynghyd a chost lawn storio dodrefn hyd at dri mis. Gellir gwneud cyfraniad hyd at £3,270 ar gyfer costau cyfreithiol, ffioedd arwerthwr tai, costau carpedi a llenni a mân gostau symud eraill yn amodol ar ddangos derbynebaw perthnasol.

7. YCHWANEGIAD Y FARCHNAD

Mae graddfa cyflog pob swydd wedi ei seilio ar gynllun arfarnu swyddi'r Cyngor. Golyga hyn fod y system o dalu aelodau staff wedi ei seilio ar gydraddoldeb yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cyflog Cyfartal 1970 ac yn sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau sydd yn ymwneud â thâl. O ganlyniad fe allai unrhyw wyriad o'r system hon greu risg sydd angen ei reoleiddio'n gadarn. Mae'n rhaid bod rhesymau pendant a chliir os am gyfiawnhau unrhyw wyriad o'r trefniant hwn.

Fodd bynnag, fe allai sefyllfa godi pan fo pwysau'r farchnad yn creu problemau recriwtio a/neu gadw staff yng nghyswllt swydd benodol. Gall y Cyngor mewn rhai achosion eithriadol, ac er mwyn denu a/neu gadw unigolyn i swydd benodol, gynnig taliad ychwanegol i'r raddfa gyflog a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Yn y cyswllt hwn dim ond pan fydd tystiolaeth ddogfennol ddigonol o fethiant i recriwtio a/neu gadw aelod staff y bydd ychwanegiad y farchnad yn cael ei ddefnyddio. Nid yw ychwanegiad y farchnad yn ychwanegiad parhaol i gyflog swydd. Os yw'r amgylchiadau sydd yn berthnasol i'r ychwanegiad yn newid, neu os yw aelod staff yn cael ei drosglwyddo gan y Cyngor i swydd arall nad yw'n denu ychwanegiad y farchnad, yna bydd hawl yr unigolyn hwnnw/honno i'r taliad yn peidio, a bydd yr atodiad yn cael ei atal yn unol â'r rhybudd priodol.

Mae'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 9fed o Hydref, 2014, wedi cymeradwyo caniatáu darpariaeth ychwanegiad y farchnad o hyd at £3,000 ar gyfer Prif Swyddogion pan fo hynny wedi'i gyfiawnhau gan achos busnes. Nid oes nenfwd wedi'i osod yng nghyswllt lefel ychwanegiad y farchnad ar gyfer swyddi eraill.

8. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL (YMGYMRYD Â CHYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL)

Gellir caniatáu taliad ychwanegol pan fo aelod staff yn cytuno i gais i ymgymryd â chyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau sydd y tu hwnt i ddyletswyddau a chyfrifoldebau arferol ei swydd ar sail dros dro. Mae'n rhaid i'r gyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau uwch fod yn sylweddol, yn cael eu harfarnu ar lefel cyflog uwch a thros gyfnod estynedig cyn y gellir cynnig cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol dros-dro.

9. TALIADAU AR-DDYLETSWYDD, AR ALWAD A GALW ALLAN

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau yn unol ag anghenion pobl Gwynedd. Golyga hyn y bydd adegau pan fo gofyn i aelodau staff ymgymryd â dyletswyddau oddi allan i'r patrwm gwaith arferol ac ar adegau anghymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cwrdd â'r anghenion ar gyfer y gwasanaethau hyn trwy:

- sicrhau fod staff cymwys ar gael i gymryd galwadau a phenderfynu ar weithredu priodol
- sicrhau fod gweithlu cymwys ar gael i fod ar alwad ac yn barod i gael eu galw allan ar fyr rybudd er mwyn ymateb i waith mewn argyfwng

- cydnabod y staff uchod trwy daliadau addas mewn cydnabyddiaeth o'r anghyfleustra a'r ymyrraeth mae gwaith o'r fath yn ei greu.

Diffinnir **ar ddyletswydd** fel cyfnod o amser pan fo swyddog ar ddyletswydd oddi allan i'r oriau gwaith arferol ar gyfer cyfnod penodol o amser, a'u bod **ar gael** i ymateb i alwadau gan drigolion, gwasanaethau brys a.y.b.

Diffinnir **ar alwad** fel cyfnod penodol o amser mae swyddog **ar gael** i'w alw allan y tu allan i'r oriau gwaith arferol.

Mewn rhai achosion bydd bod ar alwad neu ar ddyletswydd yn ffurfio rhan o gyflog sylfaenol swyddogion. Mewn achos o'r fath bydd y cytundeb cyflogaeth yn nodi hynny'n glir. Ni fydd gan y swyddogion hynny'r hawl i daliad ychwanegol pan ar alwad/ar ddyletswydd. Bydd swyddogion eraill yn derbyn tâl ar ffurf taliad ychwanegol a fydd yn adlewyrchu lefel yr anghyfleustra ar gyfer bod ar gael i ymateb i alwad tu hwnt i oriau gwaith arferol. Bydd y swyddogion hynny yn derbyn lleiafswm o ddwy awr ar y cyflog priodol pob tro maent yn cael eu galw allan (gan gynnwys amser teithio).

Mae taliadau ar alwad/ar ddyletswydd yn cael eu diweddarau'n flynyddol i adlewyrchu'r cynnydd cyflog blynyddol yn unol â'r hyn a gytunir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

10. FFIOEDD PROFFESIYNOL

Ad-delir un ffi'r flwyddyn i Swyddogion ar gyfer aelodaeth o gorff cydnabyddedig sy'n berthnasol i'w swyddogaeth broffesiynol a phle bo'r aelodaeth hwnnw yn ofyniad gan y Cyngor.

11. DEFNYDDWYR CAR

Dynodir pob gweithiwr fel defnyddiwr car achlysurol a thelir ad-daliadau am deithiau busnes ar sail graddfeydd Swyddfa Cyllid y Wlad.

12. TREULIAU CYNHALIAETH

Telir ad-daliadau cynhaliath, ar gyflwyniad derbynneb, os yw aelod staff yn teithio tu allan i'r Sir ar gyfer brecwast, cinio, te a swper, a hynny hyd at yr uchafswm ar gyfer lwfansau cynhaliath. Ar gyfer y staff hynny sydd â'u gwaith yn golygu eu bod yn teithio ar draws mwy nag un Sir e.e. Gwynedd a Môn, diffinnir "y tu allan i'r Sir" fel y tu allan i'r ardal waith arferol.

13. GWEITHIO ORIAU YCHWANEGOL

Telir gweithwyr, a gyflogir ar bwynt 22 neu is, ar sail unwaith a hanner o'r cyflog sylfaenol yr awr pan yn gweithio mwy na 37 awr mewn wythnos (trefniadau amgen ar gyfer gweithwyr gyda phatrymau gwaith pan fo'r oriau a weithir ar sail pythefnos/misol neu flynyddol). Caniateir tâl sylfaenol neu amser yn ei le i staff a gyflogir ar bwynt uwch na 22 pan eu bod yn gweithio mwy na 37 awr, neu os yw Pennaeth Adran wedi cymeradwyo'r gwaith ychwanegol ymlaen llaw yna gellir awdurdodi tâl ar sail amser a hanner.

14. GWEITHIO ORIAU ANGHYMDEITHASOL

Telir cyflog ar y raddfa sylfaenol am waith, oddi fewn i'r 37 awr, a gyflawnir ar y penwythnos. Telir tâl chwyddedig o dâl sylfaenol a thraean rhan o'r cyflog am waith a gyflawnir rhwng 10 y nos a 6 y bore i weithwyr sy'n gweithio yn ystod yr oriau hynny.

Telir cyflog yn unol â'r cytundeb cenedlaethol ar gyfer gwaith a gyflawnir ar wyliau banc a gwyliau statudol ychwanegol.

15. LWFANS CYMORTH CYNTAF

Telir lwfans blynyddol i weithwyr sydd yn gweithredu fel Cymorthyddion Cyntaf dynodedig.

16. DYLETSWYDDAU ETHOLIADAU LLEOL

Mae ffioedd y Cyngor ar gyfer taliadau i'r Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau am ddyletswyddau etholiadau lleol wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

17. DISWYDDO AC YMDDEOL

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol y Cyngor yn cael eu gweithredu'n gyfartal a theg i bob aelod staff, waeth beth fo'u graddfa cyflog, eu hoedran neu eu rhyw ac fe'i gweithredir yn unol â rheoliadau'r cynlluniau pensiwn perthnasol. Nid oes unrhyw eithriadau i Brif Swyddogion. Mae'r polisïau perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor.

18. CYNLLUN COLLED ARIANNOL

Diffinnir colled ariannol fel colled o ganlyniad i newid mewn graddfa cyflog ac amodau a thelerau cytundebol. Mae'r Cyngor yn darparu cymorth ariannol i staff sy'n wynebu sefyllfa o golled ariannol (yn sgil ail-strwythuro neu ail-ddyrannu cyfrifoldebau) am gyfnod o ddwy flynedd oddi ar ddyddiad gweithredol y newid i'w pecyn cyflogaeth, gyda 100% o warchodaeth yn y flwyddyn gyntaf a 50% yn yr ail. Bydd y cymorth ariannol hwnnw yn dod i ben ar ôl dwy flynedd oni bo'r aelod staff unigol yn y cyfamser wedi'i benodi i swydd arall ple nad yw o/hi yn wynebu'r golled ariannol.

19. AIL-GYFLOGI

Bydd y Cyngor yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei r(h)inweddau ei hun a bydd yn penodi gyda'r bwriad o gyflawni'r effeithlonrwydd gorau ar gyfer y gwasanaeth a'r gwerth gorau ar gyfer ei drethdalwyr. Byddai'r fath benodiad, os byddai'n cael ei wneud, yn destun unrhyw leihad a nodir yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Yn unol â deddfwriaeth trethiant, rhaid i reolwyr sicrhau ym mhob achos fod unrhyw drefniant i dalu unigolyn am waith trwy 'gytundeb o wasanaeth' wedi bod yn destun prawf statws cyflogaeth fel sy'n ymddangos ar wefan CThEM, a cynhelir y prawf yma yn hollol wrthrychol.

20. PENODI PRIF SWYDDOG NEWYDD (CYFLOG O £100,000 A THROSODD)

Bydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo unrhyw newid i becyn cyflog swydd o'r fath cyn yr eir ati i recriwtio. Byddai angen cyfeirio'r mater at Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol hefyd, yn unol â rhan 3 o'r polisi hwn.

Hysbysebair yn allanol ar gyfer llenwi swydd o'r fath.

Cyflogau Prif Swyddogion o fis Ebrill 2021 ymlaen

Prif Weithredwr	£109,638 - £118,063
Cyfarwyddwr Strategol	£89,058 - £98,954
Pennaeth Addysg	£83,330 - £92,590
Pennaeth Cyllid	£75,596 - £83,993
Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Economi a Chymuned, Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Chefnogi Teuluoedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Amgylchedd, Tai ac Eiddo, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Arweiniol ar gyfer yr Asiantaeth)	£70,342 - £78,156
Pennaeth Ymgynghoriaeth	£59,419 - £66,021
Swyddog Monitro	£67,183 – £70,124

ATODIAD 2

TREULIAU'R CYNLLUN TALIADAU ETHOLIADAU FEL A GYMERADWYFYD GAN GYNGOR GWYNEDD

Ffioedd ar gyfer cynnal yr etholiad yn gyffredinol a chwblhau'r holl ddyletswyddau ble bo angen i Swyddog Canlyniadau weithredu dan unrhyw orchymyn neu ymddeddfiad sy'n ymwneud ag ethol Cynghorwyr.		
Ffioedd Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau	Wedi eu herio	Heb eu Herio
Swyddog Canlyniadau	125.00	
Am gynnal yr etholiad yn gyffredinol a chwblhau'r holl ddyletswyddau ble bo angen i Swyddog Canlyniadau weithredu dan unrhyw orchymyn neu ymddeddfiad sy'n ymwneud ag ethol Cynghorwyr)
)
Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref)
) 75.00
Dirprwy Swyddog Canlyniadau	85.00)
)
Dyletswyddau penodol i gynnwys bod yn bresennol i dderbyn papurau pleidleisio, eu harchwilio a beirniadu a ydynt yn ddilys; ymdrin gydag ymgeiswyr; hysbysu ymgeiswyr am benderfyniadau gydag enwebiadau; cyhoeddi datganiadau am bobl a enwebwyd, a bod yn bresennol i dderbyn unrhyw achos o dynnu yn ôl a rheoli'r cyfrif)
)
Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref.)
Isetholiadau)

Mewn unrhyw isetholiad lle y cyflogir Dirprwy Swyddog
Canlyniadau i reoli'r cyfrif:

Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref,
Ward Cyngor Cymuned / Tref.

34.00

Eitem 10

CYFARFOD	Cyngor Llawn
DYDDIAD	4ydd o Fawrth 2021
TEITL	Cynllun y Cyngor 2018-23: Adolygiad 2021/22
PWRPAS	Cymeradwyo diweddariad o Gynllun y Cyngor
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
SWYDDOG CYSWLLT	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

1. Y Penderfyniad a Geisir

- 1.1. Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu **Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2021/22** er mwyn ei weithredu yn ystod 2021/22.

2. Cyflwyniad

- 2.1. Mabwysiadwyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 8fed o Fawrth 2018. Yn flynyddol ers hynny rydym wedi bod yn adolygu ei gynnwys er mwyn sicrhau ein bod fel Cyngor yn parhau i flaenoriaethu ein gwaith yn ôl anghenion pobl Gwynedd.
- 2.2. Rydym bellach angen adolygu'r Cynllun er mwyn datgan beth fydd y Cyngor yn bwriadu ei gyflawni yn ystod 2021/22, sef y bedwaredd flwyddyn i mewn i'r cynllun pum mlynedd.
- 2.3. Er mwyn adolygu'n iawn, roedd angen i ni ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar lesiant pobl Gwynedd i'r dyfodol.
- 2.4. Yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror bu i'r Cabinet gymeradwyo **Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2021/22 (y Cynllun)**, yn amodol ar addasiadau i eiriad Blaenoriaeth 4 a Blaenoriaeth 7, ac argymhell i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu yng Nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 4 Mawrth 2021.

3. Cefndir

- 3.1. Fel y fersiwn gyfredol mae **Cynllun y Cyngor 2018-23: Adolygiad 2021/22** wedi ei rannu'n 2 brif ran, sef y **Blaenoriaethau Gwella** a'r **Cynlluniau Adran** unigol. Ceir copi o'r Cynllun diwygiedig yn **Atodiad 1**.

- 3.2. Mae'r **Blaenoriaethau Gwella** (a gyhoeddir hefyd fel dogfen ar wahân wedi ei dylunio - **Atodiad 2**) yn nodi ein Hamcanion Llesiant a'n Prosiectau Blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod dan sylw. Ceir amlinelliad o'r holl feysydd yr ydym am roi sylw penodol iddynt er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau ein trigolion. O dan bob Blaenoriaeth Gwella ceir crynodeb o'r hyn y bwriedir ei gyflawni.
- 3.3. Ceir disgrifiad o waith dydd i ddydd yr Adrannau o fewn y **Cynlluniau Adran**. Mae'r rhain hefyd yn rhoi sylw i'r hyn yr ydym yn ei wneud mewn ymateb i'r materion a amlygwyd gan Gynghorwyr fel Blaenoriaethau Lleol yn ôl yn hydref 2017.
- 3.4. Dros y misoedd diwethaf mae llawer o'n hymdrechion fel Cyngor wedi canolbwyntio ar ymateb i argyfwng Covid-19 ond rydym bellach yn cynllunio ar gyfer sefydlogi ac ail adeiladu i'r dyfodol.
- 3.5. Oherwydd hyn, a'r ffaith ein bod dros hanner ffordd trwy'r Cynllun, roedd yn amserol i ni ymgynghori yn ehangach gyda gweddill yr Aelodau Etholedig. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu ar ddechrau mis Chwefror er mwyn sicrhau fod y blaenoriaethau'n parhau i gyfarch anghenion pobl Gwynedd a cheir crynodeb o'r prif faterion a godwyd o dan pwynt 5 yn yr adroddiad hwn.

4. Newidiadau ers Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2020/21

- 4.1. Mae llawer o waith wedi'i wneud er mwyn adnabod meysydd y dylid eu blaenoriaethu o ystyried yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd wrth sefydlogi ac ailadeiladu yn dilyn argyfwng Covid-19. O ganlyniad, mae sgôp nifer o brosiectau wedi ei ehangu i gynnwys y materion a oedd wedi eu hadnabod.
- 4.2. Fe grynhoir y prif newidiadau isod. Mae'r wybodaeth yn cynnwys eglurhad o ba brosiectau sy'n newydd i'r cynllun a pha brosiectau sy'n barhad o'r rhai yn y cynllun presennol neu sydd wedi newid rywfaint (e.e. yn ehangu ar brosiect blaenorol neu wedi newid ffocws).
- 4.3. Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu o'r newydd. Dylid nodi fod nifer o'r meysydd, megis Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes, wedi bod yn derbyn sylw fel rhan o waith y cyngor ers rhai blynyddoedd. Fodd bynnag, mae heriau penodol wedi codi yn sgil argyfwng Covid-19 sydd wedi amlygu'r problemau fwyfwy sy'n golygu eu bod wedi eu huchafu i'w cynnwys ymysg prif flaenoriaethau'r cynllun.
 - Adfywio: llunio cynllun adfywio ar gyfer ein hardaloedd
 - Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc
 - Strategaeth Dysgu Digidol
 - Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes
 - Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig
 - Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol
 - Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd
 - Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth

- Sicrhau fod teuluoedd a plant ag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd angen arnynt i ffynnu
- Capasiti Gwarchod y Cyhoedd
- Sicrhau fod rheolwyr yn arddel eu rôl lechyd a Diogelwch yn effeithiol
- Cyflawni Arbedion
- Cymunedau Glân a Thaclus
- Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu

4.4. Yn ogystal, mae sgôp neu gynnwys y prosiectau canlynol wedi newid:

- **Elwa o Dwristiaeth** bellach wedi ei ehangu a'i ail-enwi yn **Twristiaeth – Ilunio Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy**
- Sgôp prosiect **Busnesau'n cael Cymorth i Ffynnu** wedi'i ehangu yn sgil yr angen am gefnogaeth ychwanegol i fusnesau'n dilyn heriau argyfwng Covid-19
- **Darpariaeth Ôl-16, Dalgylch Bangor, Dalgylch Treferythyr (Cricieth), Cydweithio Meirionnydd** wedi ei rannu yn bedwar prosiect unigol sef:
 - **Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn Arfon**
 - **Dalgylch Bangor**
 - **Dalgylch Cricieth; a**
 - **Cydweithio Meirionnydd**
- Sgôp prosiect **Cefnogi Llesiant Pobl** wedi'i ehangu yn sgil anghenion gwahanol yn dod i'r amlwg ymysg ein cymunedau'n ystod argyfwng Covid-19
- Sgôp prosiect **Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith** wedi'i ehangu yn sgil cynnydd mewn diweithdra yn dilyn argyfwng Covid-19
- **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24** wedi ei newid i fanylu ar dri prosiect ychwanegol sydd yn dod o dan faner y strategaeth, sef:
 - **Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu;**
 - **Mynediad rhwydd a chliir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai : Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai; a**
 - **Gosod tai cymdeithasol i bobl leol: Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol**
- Sgôp prosiect **Hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc** wedi'i newid oherwydd yr angen i ystyried sgil effaith y cyfnod clo ar sgiliau a hyder dysgwyr yn y Gymraeg
- Mae'r prosiect **Gwydnwch Cymunedol** wedi ei ymgorffori fel rhan o brosiect **Cefnogi Llesiant Pobl**
- Sgôp prosiect **Cynllun Prentisiaethau** wedi ei ehangu a'i ail-enwi yn **Cynllunio'r Gweithlu**
- Mae'r prosiect **Busnesau Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg** erbyn hyn yn derbyn sylw fel rhan o waith ddydd i ddydd yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Adran Economi a Chymuned.

4.5. Mae gweddill y prosiectau Blaenoriaeth Gwella yn parhau o 2020/21 i 2021/22.

5. Sesiynau ymgysylltu gyda'r Aelodau Etholedig

- 5.1. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu ar y blaenoriaethau gydag Aelodau Etholedig ar ddechrau mis Chwefror a fynychwyd gan 28 o aelodau. Yn gyffredinol roedd cytundeb i'r blaenoriaethau drafft ynghyd â chroeso i'r cyfle i fwydo i mewn i'r broses cyn cyflwyno'r cynllun yn ffurfiol i'r Cabinet a chyfarfod y Cyngor Llawn.
- 5.2. Ceir crynodeb o'r prif 'negeseuon' ddaeth allan o'r sesiynau ymgysylltu isod:
 - **'Pobl yn helpu pobl'** – angen cofio'r agweddau positif o sefyllfa Covid-19 a'r modd y gwnaeth cymunedau a phobl Gwynedd helpu ei gilydd pan oedd gwir angen. Angen cadw'r momentwm i'r dyfodol.
 - **Edrychiad cymunedau** - mae trigolion Gwynedd wedi dod yn llawer mwy ymwybodol o'u milltir sgwâr yn ystod y cyfnodau clo ac felly wedi gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol lleol. Ar y llaw arall, roedd siomedigaeth fod problemau megis baw ci a sbwriel wedi parhau dros y cyfnod. Mae hyn yn awgrymu fod pobl leol yn cyfrannu tuag at y broblem ac nad yw'n rhywbeth sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr (*mae prosiectau o fewn y Cynllun sydd yn ymateb i'r problemau yma*).
 - **Cynlluniau Adfywio Lleol** - roedd croeso i'r syniad o greu cynlluniau sy'n ymateb i anghenion penodol ardaloedd lleol gan fod blaenoriaethau yn amrywio ar draws y sir.
- 5.3. Yn ogystal fe dderbyniwyd nifer o sylwadau ar brosiectau penodol a byddwn yn pasio'r sylwadau hyn ymlaen i arweinwyr y prosiectau perthnasol.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)(2015)

- 6.1. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant yn eu hardal nhw.
- 6.2. Bu i ni ymgynghori gyda'r Aelodau Etholedig a'r cyhoedd ynghylch y materion sy'n effeithio ar eu llesiant fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynllun gwreiddiol (a gyda Aelodau Etholedig yn ystod Chwefror 2021) gan hefyd ddadansoddi canlyniadau Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.
- 6.3. Gan fod y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lunio'r amcanion llesiant ar gyfer 2018/19 yn parhau i fod yn berthnasol awgrymir bod yr amcanion hynny yn parhau ar gyfer 2021/22. Ceir rhestr o'r amcanion llesiant ar dudalen 5 o'r cynllun.

7. Deddf Cydraddoldeb 2010

- 7.1. Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn **Atodiad 3**.

- 7.2. Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd cyfrifoldeb ar Arweinyddion Prosiect i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

8. Unrhyw Ymgynghoriadau A Gynhaliwyd Cyn Argymell Y Penderfyniad

8.1 Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Pennaeth Cyllid

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol, sy'n gosod allan yr hyn y mae Cyngor Gwynedd am anelu i'w wneud dros y dair blynedd nesaf. Mae'r Gronfa Trawsfurfio yn parhau mewn lle i ariannu blaenoriaethau'r Cynllun, ond mae cyfran o'r gronfa yma eisoes wedi cael ei ymrwymo. Mae tebygolrwydd y bydd gofynion adnoddau'r holl flaenoriaethau gwella sydd yn y Cynllun yn fwy na'r arian fydd ar gael iddynt, tra mae priodoldeb ariannol yn golygu y bydd rhaid sicrhau bod ffynhonnell ariannu wedi cael ei adnabod ar gyfer unrhyw ymrwymiad i wario. Disgwyliaf bydd y Cabinet yn parhau i ystyried pob achos busnes yn unigol cyn cytuno i ariannu cynlluniau a awgrymir, ac ar yr achlysuron hyn byddaf yn diweddarau'r Cabinet ar ddigonolrwydd y Gronfa.

ii. Y Swyddog Monitro:

O fewn Cynllun y Cyngor mae agweddau statudol sydd yn cael eu cyfarch, yn benodol felly ynglŷn ag Amcanion Gwella (Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009) ag Amcanion Llesiant a osodir yn unol â'r gofyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol(Cymru) 2015. Drwy adolygu'r Cynllun mae'r Cyngor yn cyfarch gofynion yn blynyddol ynglŷn a'r rhain. Rwy'n cefnogi'r argymhelliad o safbwynt priodoldeb.

8.2 Barn yr Aelod Lleol

Ddim yn fater lleol.

8.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad

Asesiadau Effaith Cydraddoldeb i'w gweld yn Atodiad 3.

Crynodeb o'r sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd hefo Aelodau Etholedig wedi ei gynnwys o dan bwynt 5 yn yr adroddiad.

9. Atodiadau

Atodiad 1 – Cynllun y Cyngor 2018-23: Adolygiad 2021/22


Atodiad 2 – Blaenoriaethau Gwella

Atodiad 3 - Asesiadau Cydraddoldeb



Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 - 2023

Adolygiad 2021/22





Cynnwys



Cynnwys	Tudalen
Rhagair Arweinydd y Cyngor	1
Cyflwyniad i'r Cynllun	2
Blaenoriaethau Gwella	5
Cynlluniau Adrannol	37
Addysg	39
Oedolion, Iechyd a Llesiant	45
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	49
Plant a Chefnogi Teuluoedd	57
Amgylchedd	63
Economi a Chymuned	75
Tai ac Eiddo	83
Ymgynghoriaeth Gwynedd	90
Cefnogaeth Gorfforaethol	93
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	100
Gwasanaethau Cyfreithiol	107
Gwybodaeth Ariannol	109

Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall
ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru



Graffeg "designed by
Freepik"

Os ydych chi angen mwy o wybodaeth am y Cynllun
hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes y Cyngor
drwy ffonio 01766 771000
neu cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru

RHAGAIR ARWEINYDD Y CYNGOR



Wrth gyflwyno'r adolygiad hwn o Gynllun Cyngor Gwynedd ar gyfer 2021/22 i chi mae'n amhosibl peidio ag edrych yn ôl ar y flwyddyn ddigynsail a fu. Byddai'n ffôl, os nad yn anghyfrifol, i beidio ymateb i effeithiau pellgyrhaeddol pandemig Covid-19 wrth i ni gynllunio ein gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bu 2020/21 yn flwyddyn na welwyd mo'i thebyg o'r blaen yn ein hoes ni, gydag unigolion a theuluoedd wedi dioddef profedigaethau a gwaeledd, colli gwaith neu incwm, a busnesau wedi eu taro yn ddigynsail. Rydw i, a'r Cyngor, yn cydymdeimlo â phob un ohonoch yn ddiffuant. Er na fedr y Cyngor ddatrys yr holl broblemau y mae Covid-19 wedi ei luchio atom fe wnawn bopeth o fewn ein gallu ein hunain i ymateb.

Mae'r Cynllun hwn felly'n cynnwys nifer o flaenoriaethau a phrosiectau sydd wedi eu datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, a rhai newydd ar gyfer 2021/22. Pwy fyddai wedi rhagweld flwyddyn yn ôl y byddem wedi darparu Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu sydd wedi, ac a fydd yn parhau, i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r frwydr yn erbyn y feirws? Gyda sefyllfa Covid-19 mor anwadal mae angen i ni fedru ymateb yn gyflym i anghenion pobl Gwynedd, ac os fydd angen i ni ddargyfeirio i wneud gwaith gwahanol yna mae angen bod yn realistig ynghylch yr hyn y mae'n bosib i ni ei gyflawni o fewn y Cynllun hwn.

Wedi dweud hynny, mae yna waith pellach sydd angen ei wneud mewn rhai meysydd i ddeall gwir effaith Covid-19, megis ar les ac addysg ein plant, ond fe wnawn y gwaith hwnnw a gweithredu yn ôl yr angen. Yn yr un modd rydym am addasu rhai prosiectau oedd yn rhedeg yn barod, megis 'twristiaeth gynaliadwy' a chynllun gweithredu cyffrous ac uchelgeisiol ar gyfer darparu cartrefi i bobl Gwynedd.

Byddwn yn cychwyn ail-adeiladu ar gyfer y dyfodol drwy edrych ar wahanol anghenion cymunedau lleol. Mae angen cychwyn wrth ein traed. Mae'n naturiol na fydd anghenion Bangor, Y Bala a'r Bermo yr un fath, felly bydd y gwaith yn cychwyn drwy greu Cynlluniau Adfywio Lleol a dwi'n edrych ymlaen i weld ffrwyth y gwaith hwn.

Cofiwch nad oedd effaith Covid-19 yn gwbl negyddol. Mae hefyd wedi amlygu yr holl elfennau rhagorol hynny oedd eisoes yn bodoli o dan yr wyneb ym mhobl Gwynedd. Drwy galedi y flwyddyn a fu mae pobl wedi helpu pobl. Mae cymunedau wedi dod at ei gilydd ac wedi lapio blanced ddiogel o amgylch y rhai mwyaf bregus yn ein plith. Mae angen diolch a dathlu yr ymdrech honno, ac mae gennym gynlluniau fydd yn ceisio cynnal y momentwm hwnnw i'r dyfodol, megis Cefnogi Llesiant Pobl.

Fedr Cyngor Gwynedd ddim ateb gofynion pawb a fedrwn ni ddim gwneud popeth ar ein pennau ein hunain. Yn fwy nag erioed mae Covid-19 wedi dangos pa mor ddibynnol ydym ni ar ein gilydd; a thrwy gydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill, y trydydd sector, busnesau a chymunedau, dwi'n obeithiol wrth edrych ymlaen at 2021/22 i'r sir arbennig hon.



CYFLWYNIAD I'R CYNLLUN

Cafodd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018 (a'i adolygu yn flynyddol wedyn). Fe'i lluniwyd ar sail tystiolaeth o fewn yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd ag adborth o ymgynghori efo cymunedau, aelodau etholedig, staff a phartneriaid.

Yn unol â gofynion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf)** mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant, sydd yn syml yn crynhoi uchelgais y Cyngor o weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu. Mae hyn yn golygu bod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbydd addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y Sir.

Mae'r amcanion yma wedi eu cyhoeddi eisoes yn ein [datganiad llesiant](#), sydd hefyd yn egluro sut y maent yn cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol a osodwyd gan Llywodraeth Cymru yn y Ddeddf. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut mae gwaith y Cyngor yn cyfrannu tuag at wireddu'r uchelgais hon drwy gyfuniad o waith ddydd i ddydd Adrannau'r Cyngor a phrosiectau penodol sydd wedi eu hadnabod er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd hynny lle mae angen y mwyaf o'm hymdrech i'w datblygu. Mae'r prosiectau hyn wedi eu crynhoi o dan yr hyn a elwir yn Flaenoriaethau Gwella. Mae pob un o'r blaenoriaethau gwella yn cyfrannu at sawl un o'n hamcanion llesiant, ac mae'r cynllun yn nodi pa rai fesul prosiect.

Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ystyried y tymor hir, atal rhag digwydd, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio, "Ffordd Gwynedd", sydd â'i ffocws ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r cynllun yn cyfeirio at sawl enghraifft lle rydym yn gweithio'n ataliol, yn cynnwys pobl Gwynedd drwy ymgynghori a chydweithio â'n cymunedau a lle rydym yn ystyried anghenion y dyfodol. Mae hefyd enghreifftiau lle'r ydym yn cydweithredu ac yn gweithio yn integredig i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd - megis drwy ein gwaith fel aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, neu'n fewnol drwy brosiectau ein byrddau rhaglen e.e. y Bwrdd Cefnogi Pobl.

Er bod camau eisoes wedi eu cymryd i ddangos sut yr ydym yn cyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf rydym yn cydnabod fod gwaith pellach angen ei wneud er mwyn tystiolaethu hyn a'r effaith a geir ar drigolion Gwynedd. O ganlyniad, byddwn yn edrych i gryfhau ein trefniadau herio ac adrodd ar berfformiad er mwyn amlygu ein cyfraniad i egwyddorion y Ddeddf.

Bu i ni adolygu cynnwys y Cynllun dros y misoedd diwethaf er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i wneud y pethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sy'n dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar bobl Gwynedd i'r dyfodol. Wrth gwrs, mae rhai newidiadau sylweddol yn anghenion ein cymunedau

yn sgil argyfwng Covid-19 ac mae bywyd bobl Gwynedd ar hyn o bryd yn edrych yn dra gwahanol i'r hyn yr oedd y tro diwethaf i ni adolygu'r cynllun hwn.

Rydym fel Cyngor felly wedi bod yn adolygu cynnwys y cynllun a'r blaenoriaethau a oedd wedi eu gosod gennym eisoes. Mae adolygiad 2021-22 o Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 yn cynnwys parhad o gynlluniau sydd eisoes yn y cynllun, yn ogystal â chasgliad o flaenoriaethau newydd; nifer ohonynt wedi codi yn uniongyrchol o ganlyniad i argyfwng Covid-19, ac eraill wedi codi'n anuniongyrchol wrth i'r argyfwng, yr amodau byw a'r cyfyngiadau a ddaeth gydag o ddod ag anghenion eraill fwy i'r wyneb. Mae llawer o'r meysydd sydd wedi eu cynnwys o fewn rhai o'r prosiectau, megis 'Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes' ac 'Enwau Llefydd cynhenid Cymreig', wedi bod yn derbyn sylw fel rhan o waith y cyngor ers rhai blynyddoedd wrth gwrs. Fodd bynnag, mae heriau penodol sydd wedi codi yn sgil argyfwng Covid-19 wedi amlygu'r problemau fwyfwy, ac felly mae rhai pethau oedd eisoes ar waith bellach wedi eu cynnwys ymysg prif flaenoriaethau'r Cynllun.

Bydd y fersiwn hon o'r Cynllun, 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2021/22', yn disodli'r fersiwn gyfredol. Isod, ceisir grynhoi'r prif addasiadau a wnaed yn dilyn yr adolygiad:

Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu o'r newydd:

- **Adfywio: Ilunio cynllun adfywio ar gyfer ein hardaloedd**
- **Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc**
- **Strategaeth Dysgu Digidol**
- **Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes**
- **Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig**
- **Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol**
- **Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd**
- **Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth**
- **Sicrhau fod teuluoedd a plant ag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd angen arnynt i ffynnu**
- **Capasiti Gwarchod y Cyhoedd**
- **Sicrhau fod rheolwyr yn arddel eu rôl lechyd a Diogelwch yn effeithiol**
- **Cyflawni Arbedion**
- **Cymunedau Glân a Thaclus**
- **Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Yn ogystal, mae sgôp neu gynnwys y prosiectau canlynol wedi newid:

- **Elwa o Dwristiaeth** bellach wedi ei ehangu a'i ail-enwi yn **Twristiaeth – Ilunio Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy**
- Sgôp prosiect **Busnesau'n cael Cymorth i Ffynnu** wedi'i ehangu yn sgil yr angen am gefnogaeth ychwanegol i fusnesau'n dilyn heriau argyfwng Covid-19
- **Darpariaeth Ôl-16, Dalgylch Bangor, Dalgylch Treferythyr (Cricieth), Cydweithio Meirionnydd** wedi ei rannu yn bedwar prosiect unigol sef:
 - **Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn Arfon**
 - **Dalgylch Bangor**
 - **Dalgylch Cricieth; a**
 - **Cydweithio Meirionnydd**

- Sgôp prosiect **Cefnogi Llesiant Pobl** wedi'i ehangu yn sgil anghenion gwahanol yn dod i'r amlwg ymysg ein cymunedau'n ystod argyfwng Covid-19
- Sgôp prosiect **Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith** wedi'i ehangu yn sgil cynnydd mewn diweithdra yn dilyn argyfwng Covid-19
- **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24** wedi ei newid i fanylu ar dri prosiect ychwanegol sydd yn dod o dan faner y strategaeth, sef:
 - **Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwraeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu;**
 - **Mynediad rhwydd a chilir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai : Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai; a**
 - **Gosod tai cymdeithasol i bobl leol: Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol**
- Sgôp prosiect **Hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc** wedi'i newid oherwydd yr angen i ystyried sgil effaith y cyfnod clo ar sgiliau a hyder dysgwyr yn y Gymraeg
- Mae'r prosiect **Gwydnwch Cymunedol** wedi ei ymgorffori fel rhan o brosiect **Cefnogi Llesiant Pobl**
- Sgôp prosiect **Cynllun Prentisiaethau** wedi ei ehangu a'i ail-enwi yn **Cynllunio'r Gweithlu**
- Mae'r prosiect **Busnesau Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg** erbyn hyn yn derbyn sylw fel rhan o waith ddydd i ddydd yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Adran Economi a Chymuned.

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch yr hyn yr ydym wedi ei wneud mewn ymateb i'r materion a amlygwyd gan Gyngorwyr fel Blaenoriaethau Lleol yn ôl yn hydref 2017. Bydd unrhyw newidiadau neu addasiadau i'r blaenoriaethau, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu y bwriedir eu cynnal i'r dyfodol, yn cael eu cyfarch o fewn y Cynlluniau Adran perthnasol.

Mae sefyllfa ariannol ansicr Cymru a Phrydain yn gosod cryn her i ni fel Cyngor wrth i ni gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Mae cynnydd annigonol mewn grant gan y Llywodraeth yn golygu bod parhau i ddarparu nifer o wasanaethau yn anodd. Rhaid, felly, bod yn greadigol ac ystyried pob ffordd posib o ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl Gwynedd yn eu haeddu. Rydym yn datgan yn glir fodd bynnag y bydd unrhyw newid yn seiliedig ar yr angen i weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu ac i wella lles ein trigolion i'r dyfodol.

Ers i'r Cynllun gwreiddiol gael ei fabwysiadu mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu eu [Cynllun Llesiant](#) yn ystod gwanwyn 2018. Mae'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau a amlygir o fewn y Cynllun Llesiant yn gyson â'r rhai sydd o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023. Mae Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio ar y gwasanaethau dydd i ddydd a'r materion y mae'r Cyngor wedi eu blaenoriaethu tra bydd y Cynllun Llesiant yn canolbwyntio ar y meysydd lle y teimlir y gall sefydliadau cyhoeddus wneud mwy o wahaniaeth i lesiant pobl yr ardal trwy weithio ar y cyd.

Ein uchelgais yw gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'n bod fel pobl yn...

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

Cael manteisio ar harddwch naturiol y sir

Byddwn yn gwneud hyn drwy arloesi a bod ar flaen y gad ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, gan ganolbwyntio ar...

Greua economi hyfyw a ffyniannus

Roi cyfle i bob disgybl gael y cyfle i gyflawni ei botensial

Leihau anghydraddoldeb o fewn y sir

Sicrhau mynediad at gartref addas


Helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg

Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant

Roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud

Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd

...fydd yn cael ei gynnal gan holl waith dydd i ddydd Adrannau'r Cyngor.



Blaenoriaethau Gwella

Ein Blaenoriaethau Gwella yw'r meysydd y credwn mae angen i ni ganolbwyntio arnynt oherwydd bod angen cynyddu neu wella'r sefyllfa bresennol. Isod, fe welwch ddisgrifiadau o'r 8 Blaenoriaeth Gwella, ac yna'r prosiectau unigol fydd yn cyfrannu at bob un ohonynt.

Mae yna rai prosiectau blaenoriaeth lle y bydd yn gwbl angenrheidiol i ni eu cyflawni ac, wrth gwrs, mae'r Cyngor yn bwriadu gwireddu pob un o'r prosiectau o fewn y cynllun hwn ac yn ymrwmo i roi pob ymdrech i wneud hynny. Fodd bynnag, dylid nodi fod argyfwng Covid-19, fel yr ydym wedi ei weld ers mis Mawrth 2020, yn achosi anawsterau a all gyfyngu ar ein gallu i gyflawni'n llawn ar rai pethau. Byddwn yn adrodd ar unrhyw anawsterau o'r fath yn ein hadolygiad nesaf o'r cynllun hwn ac mewn adroddiadau perfformiad perthnasol.

Blaenoriaeth Gwella I

Creu economi hyfyw a ffyniannus

Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod yna swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

I. Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

Adran Economi a Chymuned

Mae diffyg twf yn wendid yn economi Gogledd Cymru gyfan, a'r gogledd orllewin yn arbennig. Er mwyn ceisio gwyrddroi'r sefyllfa daeth chwe sir y gogledd, a rhanddeiliaid eraill megis sefydliadau addysg y rhanbarth a'r sector breifat, ynghyd i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Prif gynllun y Bwrdd yw 'Cais Twf Gogledd Cymru' ac yn Rhagfyr 2020 arwyddwyd cytundeb rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu'r Cais Twf. Bydd y cais yn arwain at £945m o fuddsoddiad yn rhanbarth y Gogledd dros y pymtheg mlynedd nesaf gan greu hyd at 4,000 o swyddi ledled y Gogledd.

Fel aelod o'r Bwrdd Uchelgais, ein nod fel Cyngor yw sicrhau y bydd pobl a busnesau Gwynedd yn elwa i'r eithaf o'r buddsoddiad ariannol hwn, yn enwedig mewn cyfnod pan fydd angen ymateb i sgil-ffeithiau Covid-19 a Brexit.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i gyfrannu at raglen waith y Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys gwella argaeledd band eang cyflym, datblygu safle Atomfa Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Gwledig yng Nglynllifon. Byddwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru sy'n cael ei pharatoi gan Lywodraeth Cymru i adnabod prif raglenni buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

2. Cadw'r Budd yn Lleol

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn **aros yn lleol**.

Nid yw'r farchnad leol yn gallu ymateb i gyfleon bob amser oherwydd cyfyngiadau o ran maint neu rwystrau eraill sy'n bodoli. Mae hynny wedyn yn arwain at fusnesau lleol yn colli'r awydd a'r gallu i gystadlu am waith gyda'r canlyniad nad oes modd uchafu gwariant y Cyngor a gedwir yn lleol.

Rydym yn ceisio cefnogi busnesau lleol gyda'r newidiadau i'r rheoliadau caffael yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd gan fanteisio ar y cyfleoedd hefyd i gaffael yn lleol.

Byddwn yn rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

1. Cwblhau prosiect er mwyn asesu ymarferoldeb cyflwyno '**Social Value Portal**' neu debyg i Wynedd h.y. rhannu y dull o asesu tendrau sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd trwy fesur Pris ac Ansawdd i un sy'n mesur Pris, Ansawdd a Gwerth Lleol.
2. Cynlluniau i **ddatblygu gallu'r farchnad** i ennill cytundebau caffael y Cyngor - Ymateb i gwestiynau y Ddeddf Llesiant mewn tendrau, cefnogaeth i ennill achrediadau iechyd a diogelwch.
3. Asesu cyfleon i osod tendrau i gwmnïau lleol yn sgil **Brexit** a'r rhyddid i weithredu tu allan i reoliadau caffael Ewrop.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

3. Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £28,500 neu fwy)

Adran Economi a Chymuned

Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol yn y sir bron yr isaf yng Nghymru yn 2020 (£500 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418 – yr isaf ym Mhrydain). Mae cyflogau isel, yn anorfod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.

Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, gan sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrfod Eryri yn Llanbedr, gweithredu cynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda, ac wedi dylanwadu ar benderfyniad i barhau'r gwaith dadgomisiynu ar safle Atomfa Trawsfynydd.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau hyn, ac hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis cefnogi datblygiad sector diwydiannau creadigol a digidol, cefnogi datblygiad sector iechyd a meddygol a datblygu cynllun gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i baratoi Safle Atomfa Trawsfynydd er mwyn cynhyrchu ynni carbon isel ac isotopau meddygol i'r dyfodol. Cynlluniau o'r fath fydd yn sicrhau parhad swyddi gwerth uchel yn lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

4. Arloesi Gwynedd Wledig

Adran Economi a Chymuned

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 79% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fygythiadau o ran cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig gyda'r heriau hyn wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws a Brexit.

Mae'r Cyngor yn ceisio cryfhau sail yr economi wledig gan annog mentrau lleol i ddatblygu, creu a chynnal swyddi ar draws Gwynedd. Mae pecyn ariannol wedi'i ganfod trwy Ewrop i weithredu Rhaglen Datblygu Gwledig yn yr ardal sydd yn cynnwys pecyn o brosiectau i hyrwyddo mentergarwch.

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi WiFi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol. Rydym hefyd yn rhan o raglen ARFOR, sef buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i greu mwy a gwell swyddi mewn ardaloedd yng ngorllewin Cymru ble mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Gymraeg.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod, ynghyd â gweithio i ddatblygu'r economi sylfaenol a chefnogi ein busnesau gwledig i addasu a datblygu yn sgil Covid-19 a Brexit.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

5. Hybu Canol Trefi

Adran Economi a Chymuned

Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol gan gynnig ystod o wasanaethau i'n cymunedau.

Ond mae ardaloedd "stryd fawr" ein canol trefi yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd gyda nifer o siopau cadwyn cenedlaethol yn cau a masnachu yn cael ei gyfyngu yn sgil Covid-19. Mae angen hybu a chefnogi datblygiad canol trefi i sicrhau eu bod yn gallu addasu a ffynnu i'r dyfodol; i gynnal a chreu gwaith; darparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr a darparu unedau preswyl newydd.

Rydym eisoes wedi bod yn cydweithio â busnesau ym Mangor a Chaernarfon i hyrwyddo'r Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) ac i ddenu adnoddau Rhaglen Adfywio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Buom yn llwyddiannus yn sefydlu rhaglen fenthyg i uwchraddio adeiladau segur yn ardaloedd Caernarfon, Bangor, Bethesda a Phenygroes a bydd y rhaglen yn ymestyn i holl drefi Gwynedd yn ystod 2021.

Yn ystod 2020 sefydlwyd grŵp traws-adrannol ar gyfer datblygu rhaglen o welliannau a mesurau tymor byr mewn ymateb i argyfwng Covid-19. I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith yma ac yn paratoi cynlluniau ar gyfer 13 o ddalylchoedd yng Ngwynedd a hynny ar sail yr hyn sydd yn bwysig i drigolion o fewn y cymunedau hyn.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

[Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.](#)
[Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

6. Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith

Adran Economi a Chymuned

Yn ystod 2020 cyflwynwyd enwebiad llawn o Wynedd i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ac i Unesco ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd i Dirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r enwebiad yn rhoi cyfle i ni gydnabod cyfraniad y diwydiant llechi traddodiadol ar blatfform rhyngwladol, ac i ddatlu a gwarchod y diwylliant Cymraeg sydd ynghlwm â'r ardaloedd hynny.

Rydym eisoes wedi defnyddio enwebiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi ac i gynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr. Mae £1m o adnoddau ychwanegol wedi eu denu i'r sir trwy'r Gronfa Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru, Yr Undeb Ewropeaidd a Pharc Cenedlaethol Eryri trwy brosiect LleCHI.

I'r dyfodol byddwn yn cydweithio gyda'r cymunedau llechi, trwy brosiect LleCHI, i greu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn gwella gwedd a golwg cymunedau, gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr, ac yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, iaith a diwylliant.

Bydd y Pwyllgor Treftadaeth Byd yn cyfarfod fis Mehefin / Gorffennaf 2021 a byddwn yn parhau i ymgysylltu a chydweithio efo cymunedau, tirfeddianwyr, busnesau a phartneriaid i sicrhau ein bod yn barod i fanteisio ar y cyfleon a ddaw yn sgil y dynodiad er budd pobl Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

7. Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu Adran Economi a Chymuned

Mae'n gyfnod ansicr i fusnesau ar hyn o bryd o ganlyniad i Covid-19 a Brexit gyda newidiadau mewn trefniadau masnachu a chystadlu. Mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o helpu mentrau lleol i addasu ac ymateb i'r her ac rydym eisoes wedi gwneud ymdrech ddigynsail i gefnogi busnesau lleol drwy ddarparu cymorth ariannol, cyngor a gwybodaeth.

Mae busnesau'r sir yn ymwneud â nifer o adrannau'r Cyngor neu'n derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Rydym eisoes wedi ymgynghori â busnesau'r sir i weld a yw'r cymorth a'r gefnogaeth y maent yn ei gael gan y Cyngor y gorau y gall fod.

Rydym eisoes wedi cefnogi a chydweithio gyda Swyddfa Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar becyn o brosiectau Cais Twf er mwyn creu cyfleoedd i fusnesau o fewn economi Gwynedd i'r dyfodol. Yn ogystal, rydym wedi cydweithio gyda thîm Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i ddatblygu rhaglen i hyrwyddo prynu lleol, ac wedi adolygu'r angen am ofod gan fusnesau (cyn Covid-19)

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i flaenoriaethu adnoddau ac ymdrech i gefnogi ein busnesau lleol gan sicrhau fod pob rhan o'r Cyngor yn ystyried sut gallent gynnig cymorth i gefnogi busnesau. Byddwn hefyd yn annog busnesau Gwynedd i wneud y gorau o'r cymorth sydd ar gael gan eraill, ac i leisio anghenion busnesau Gwynedd yn rymus wrth drafod gyda'n partneriaid, yn enwedig yng ngoleuni'r pandemig a Brexit.

Byddwn hefyd yn gweithredu:

- Rhaglen Swyddi Gwerth Uchel ac o Ansawdd er mwyn diogelu a chreu swyddi ar safle Trawsfynydd, Llanbedr a sectorau allweddol sydd yn creu swyddi o ansawdd ar draws Gwynedd
- Rhaglen Arloesi Gwynedd Wledig ac ARFOR er mwyn annog busnesau bach yn yr economi sylfaenol i arloesi a ffynnu
- Rhaglen Gwella Busnes i Bawb ar draws gwasanaethau Cyngor Gwynedd
- Rhaglen Cyfathrebu Busnes er mwyn ymgysylltu gyda busnesau a rhannu gwybodaeth.

Yn ogystal, byddwn yn gweinyddu Pecynnau Cymorth Busnes ar ran Llywodraeth Cymru er mwyn cynnig cymorth ariannol i fusnesau Gwynedd mewn ymateb i gyfyngiadau masnachu Covid-19.

I'r dyfodol byddwn angen gwerthuso rhaglenni blaenoriaeth Cynllun y Cyngor ar gyfer datblygu'r economi a chefnogi busnesau a hynny yn sgil effaith Covid-19 a Brexit. Byddwn hefyd angen adolygu

rôl y Cyngor yn y maes gyda phartneriaid yn lleol a rhanbarthol a chytuno ar flaenoriaethau gwaith i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

8. Twristiaeth – llunio cynllun twristiaeth cynaliadwy

Adran Economi a Chymuned

Mae gennym bryder nad yw pobl Gwynedd yn elwa cymaint ag y dylent o dwristiaeth, gyda'r argyfwng Covid-19 wedi tanlinellu sut y gall effeithiau negyddol y diwydiant weithiau orbwyo'r manteision.

Mae yna waith wedi ei wneud er mwyn deall y newid mewn tueddiadau twristiaeth dros y blynyddoedd ac adnabod y buddion a'r risgiau i Wynedd, yn cynnwys effaith ar gymunedau, iaith a diwylliant yr ardal ac ail-gartrefi.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae yna waith wedi ei wneud er mwyn llunio egwyddorion twristiaeth cynaliadwy ar gyfer Gwynedd fydd yn sail i gynllun rheoli i'r dyfodol.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer twristiaeth i'r dyfodol ac yn datblygu Cynllun Rheoli Economi Ymweld Gwynedd mewn cydweithrediad efo cymunedau a'r sector er mwyn sicrhau y budd gorau i bobl Gwynedd o ymwelwyr. Bydd y Cynllun yn gosod cyfeiriad i bolisiau a gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor i'r dyfodol, ond bydd hefyd yn cydnabod yr angen tymor byr i ymateb i effaith Covid-19.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

9. Adfywio: Llundiau cynlluniau adfywio ar gyfer ein hardaloedd

Adran Economi a Chymuned

Mae risg fod pob gwasanaeth yn gweithredu eu rhaglenni eu hunain yn unol a'u canllawiau grant, ond efallai ddim yn ymateb i wir anghenion a chyfleoedd adfywio Gwynedd. Rydym wedi sefydlu Bwrdd Adfywio gyda'r bwriad o ddatblygu Rhaglen Adfywio ar gyfer cymunedau'r sir. Bydd y Rhaglen yn ymgorffori gweithgareddau traws-adrannol ynghyd â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor.

Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio newydd ac yn datblygu 13 Cynllun Adfywio ar gyfer ardaloedd Gwynedd.

Byddwn yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid er mwyn deall sut mae cymunedau yn dymuno gweld eu hardaloedd yn datblygu yn y 10-15 mlynedd nesaf, ac yn adnabod blaenoriaethau lleol. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi sylw arbennig i anghenion canol trefi a dyfodol y 'stryd fawr' ar draws Gwynedd i'r dyfodol.

Byddwn yn sicrhau fod gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor yn cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad y Cynlluniau Adfywio hyn.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Blaenoriaeth Gwella 2

Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial

Os am fanteisio ar unrhyw gyfleoedd fydd yn codi, mae'n allweddol fod gan Wunedd gyfundrefn addysg gynaliadwy o ansawdd, sy'n rhoi'r sgiliau i'n trigolion fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn Arfon

Adran Addysg

Mae amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon yn effeithio ar ddeilliannau a llwybrau dysgu.

Mae'r Cabinet eisoes wedi rhoi caniatâd i gychwyn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd yr ymgysylltu anffurfiol yn ystod Tymor yr Hydref 2020.

Yn 2021/21, byddwn yn defnyddio casgliadau'r ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i symud ymlaen i sefydlu cynigion drafft fydd yn arwain at gynnig opsiwn ffafredig i Gabinet y Cyngor yn yr Hydref.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

2. Dalgylch Bangor

Adran Addysg

Mae amgylchedd dysgu'r plant yn anaddas gan fod nifer o ysgolion cynradd ym Mangor (ac yn ardal Penrhosgarnedd yn benodol) yn llawn neu'n orlawn.

Mae gwaith adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd fydd â chapasiti i dderbyn hyd at 420 o ddysgwyr wedi ei gwblhau erbyn Tachwedd 2020. Yn ystod 2021/22 byddwn yn cwblhau'r gwaith o adeiladu estyniad a sicrhau gofal cymunedol ar safle Ysgol y Faenol ym Mhenrhosgarnedd gyda chapasiti i dderbyn 315 o ddysgwyr.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

3. Dalgylch Cricieth

Adran Addysg

Mae cyflwr adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Trefarthyr yng Nghricieth yn wael, sy'n effeithio ar brofiad y dysgwyr. Byddwn felly'n adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu.

Yn 2021/22, yn sgil y broses o gyhoeddi rhybudd statudol, byddwn yn symud ymlaen i ymgysylltu ar gynlluniau, sicrhau caniatâd cynllunio ac apwyntio contractwyr.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

4. Cydweithio Meirionnydd

Adran Addysg

Mae risg fod materion yn ymwneud â'r drefn bresennol yn effeithio ar brofiadau dysgwyr ym Meirionnydd, e.e. mae ysgolion uwchradd Meirionnydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Os na fydd datrysiad i'r sefyllfa, bydd yr effaith ar wydnwch y gyfundrefn addysg a'r amodau arweinyddiaeth yn yr ardal yn parhau.

Mae gwaith wedi ei gomisiynu i ymchwilio i ganfod datrysiadau creadigol fydd yn arwain at gydweithio rhwng ysgolion uwchradd Meirionnydd er mwyn sicrhau bod ansawdd yr addysg yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn sefydlu trefn ddiwygiedig ar y cyd gyda Chadeiryddion, Is gadeiryddion a Phenathiaid Meirionnydd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

5. Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Adran Addysg

Mae yna risg y byddwn yn methu a darparu yn addas ar gyfer pob disgybl gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) oherwydd na chafwyd adnoddau gan y Llywodraeth i gwrdd â'r cynnydd mewn angen am ddarpariaeth statudol (Deddf ADY a Tribiwnlys, 2018).

Mae'n bosibl hefyd na fydd plant a phobl ifanc yn cael y mynediad cywir at staff arbenigol (e.e. Seicolegwyr Addysg dwyieithog, Athrawon Synhwyraidd) a rolau allweddol o ran swyddi statudol o fewn y cod (Swyddog Arweiniol y Blynyddoedd Cynnar, Cydlynnydd ADY) oherwydd cyfuniad o anawsterau recriwtio, cyllido, a chynnydd mewn llwyth gwaith.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- Parhau i baratoi at y newid deddfwriaethol gan roi ffocws ar y blynyddoedd cynnar, Ôl-16, partneriaeth gyda rhieni ac asiantaethau, a'r dull cyllido mwyaf addas ar gyfer y gofyn deddfwriaethol
- Sefydlu prosesau a darpariaethau yn y blynyddoedd cynnar, ac mae hyn yn cynnwys mapio'r galw mewn llwyth gwaith (e.e. nifer o blant fydd angen sylw arbenigol/cymorth)
- Sefydlu prosesau a darpariaethau yn y sector Ôl-16, gan gydweithio'n agos gyda'r Colegau Addysg Bellach
- Sefydlu dull ariannu - adolygu'r dull ariannu er mwyn cael model sydd yn rhoi gwell sefydlogrwydd o ran darpariaeth
- Parhau â thrafodaethau cenedlaethol, gan barhau i drosglwyddo'r neges ynglŷn â phryder hyfforddi a recriwtio staff arbenigol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

6. Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc Adran Addysg

Mae pryder y gall rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y bu angen help ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw ynghyd â chefnogaeth gyda'u lles.

Mae rhieni yn bryderus ynglŷn a'u gyrru i'r ysgol neu yn penderfynu addysgu gartref, ac mae cynnydd mewn pryderon diogelu.

Rydym yn ymwybodol fod pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar. Yn ystod 2021/22 byddwn yn canolbwyntio ar ddeall effeithiau y cyfnod clo ar les plant bach ac yn adolygu ein trefniadau a'n darpariaethau er mwyn sicrhau y cychwyn gorau i deuluoedd a phlant 0-5 oed. Yn ystod 2021/22 byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gyfer y grŵp oedran 5-16 drwy gefnogi'r ysgolion i weithredu Rhaglen Cyflymu'r Dysgu gydag arian gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ein caniatáu i ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr.

Tu hwnt i'r ysgol rydym hefyd yn sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 oed wedi eu heffeithio yn anghymesur gan yr argyfwng, fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae mwy o gyfeiriadau am gymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd ymysg y grŵp oedran hwn. Law yn llaw gyda'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg nac hyfforddiant mae bwriad felly i roi sylw penodol i'r maes hwn er mwyn lliniaru unrhyw sgil-ffeithiau gan sicrhau fod ein pobl ifanc yn cael cefnogaeth a darpariaeth briodol i'w galluogi i ffynnu.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

7. Strategaeth Dysgu Digidol

Adran Addysg

Mae risg o ddarparu addysg is-safonol i blant Gwynedd oherwydd methiant i uchafu'r cyfleoedd y mae dysgu digidol yn ei gynnig. Bwriad y strategaeth yw rhoi'r ddarpariaeth ddigidol orau i gefnogi ein dysgwyr a'n hathrawon i feithrin ystod o sgiliau i ddefnyddio technoleg yn hyderus, creadigol ac yn feirniadol.

Yn sgil diwygio'r cwricwlwm mae cymhwysedd ddigidol yn gyfrifoldeb statudol ar draws pob maes dysgu ac mae angen ei ystyried ym mhob agwedd wrth ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae amrywiaethau mewn ansawdd rhwydweithiau ysgolion, a chyflwr a nifer ac argaeledd dyfeisiadau i athrawon a dysgwyr. Mae amrywiaeth yn nealltwriaeth y cyfrwng ymysg athrawon. Nid yw'r drefn o gynnal offer yn sicrhau mynediad di- dor.

Mae gwaith yn digwydd i lunio strategaeth o'r newydd ac erbyn 2021/22 byddwn wedi cyhoeddi'r strategaeth ac yn cychwyn ei rhoi ar waith.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Blaenoriaeth Gwella 3

Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir

Rhaid cydnabod hefyd, ar hyn o bryd, nad yw pob un yn ein cymdeithas yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial. Yn sicr, fel ym mhob sir yng Nghymru, mae yna anghydraddoldeb yn bodoli o fewn y sir ar wahanol lefelau, gyda'r anghydraddoldeb a grëir gan dlodi yn sylweddol o ran y niwed sy'n cael ei greu.

Mae'n amlwg fod tlodi hefyd yn gallu cael effaith andwyol sylweddol ar lesiant, ac yn arbennig felly y dyfodol a gynigir i blant. Tra bod gennym wasanaethau sy'n ceisio meirioli effeithiau tlodi, mae'n ddyletswydd arnom i ystyried a oes mwy y gallwn ei wneud.

Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i gynnal gwasanaethau o safon ar gyfer edrych ar ôl y plant hynny sy'n canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae angen i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Yn y pen draw, nid oes unrhyw un ohonynt eisiau bod yn y fath sefyllfa.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith Adran Economi a Chymuned

Mae nifer fawr wedi colli eu gwaith yng Ngwynedd dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil Covid-19. Mae lefelau diweithdra wedi codi yn sylweddol a rhagolygon yn dangos y bydd yn cynyddu eto dros y misoedd nesaf. Mae nifer o bobl Gwynedd hefyd yn methu â chyflawni eu llawn botensial gan eu bod wedi eu tangyflogi neu wedi eu heithrio o gyflogaeth.

Gall diweithdra a lleihad mewn incwm aelwydydd effeithio ar iechyd a lles unigolion a theuluoedd a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus. Mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.

Rydym eisoes wedi gwro blaenoriaethau er mwyn gallu ymateb o fewn adnoddau presennol gan:

- ymestyn rhaglen Cymunedau i Waith er mwyn cefnogi mwy o unigolion di-waith sydd wedi eu cyfeirio gan asiantaethau Llywodraeth i dderbyn cymorth i oresgyn rhwystrau i waith
- weithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau fod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, ac yn cefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith
- gefnogi gweithluoedd sydd yn cael eu diswyddo er mwyn iddynt gael mynediad at wybodaeth berthnasol gan wahanol wasanaethau, a hynny mewn cyfnod lle mae cyfyngiadau Covid-19
- gydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen 'Kickstart' y Llywodraeth yng Ngwynedd i gefnogi busnesau a chyflogwyr lleol i gyflogi pobl ifanc am gyfnod o 6 mis a datblygu eu sgiliau gwaith.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau uchod ac yn cydweithio yn agos gyda'n partneriaid ledled Gogledd Cymru a chydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i wella cydlynid ein gwasanaethau. Byddwn yn darparu rhaglen i gynig profiadau gwaith i bobl ifanc di-waith mewn busnesau ar draws Gwynedd a bydd tasglu a sefydlwyd yn ystyried os oes camau pellach gall Cyngor Gwynedd ei gymryd i ymateb i'r her anferthol o gefnogi pobl Gwynedd yn ôl i waith cyn gynted â phosibl.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

2. Cefnogi Llesiant Pobl

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd yn sgil argyfwng Covid-19, ac mae sefyllfa fregus rhai trigolion eraill wedi gwaethygu yn ystod yr argyfwng. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel ac yn iach.

Mae trigolion yn ei chael hi'n anodd i gael mynediad at wasanaethau a chanfod gwybodaeth am be sydd ar gael i'w helpu, yn arbennig drwy gyfryngau rhithiol ac ar-lein ac felly'n wynebu eu allgau yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Mae rhai trigolion yn wynebu caledi ariannol, yn wynebu colli gwaith a cholli cartref. Mae trigolion yn ei chael hi'n anodd cael yr help sydd ei angen arnynt i ddelio gyda'r heriau hyn a chynnal eu llesiant yn lleol, ac yn amserol.

Mae gennym rwydwaith eang a niferus drwy gymunedau'r sir sy'n helpu a chefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

1. Blaenoriaethu ein ymdrechion a byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi trigolion:-
 - sy'n wynebu digartrefedd
 - sy'n gofalu am anwyliaid yn ddi-dâl
 - sy'n wynebu tlodi ariannol a thlodi bwyd
 - sy'n cael eu allgau'n ddigidol.
2. Byddwn yn gweithio ar draws gwasanaethau a gyda'n partneriaid ar:
 - ymyraethau llesiant i blant, pobl ifanc a phobl o bob oed
 - cefnogi cymunedau
 - cynnal gwydnwch cymunedau a chefnogi gwirfoddolwyr/ysbryd cymunedol.

- Byddwn hefyd yn edrych ar fodolau ar gyfer sicrhau fod trigolion yn cael mynediad i'r ystod eang a newydd o gefnogaeth sydd ar gael yn amserol, yn gydlynus ac yn lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

3. Merched mewn Arweinyddiaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Er yn gadarn ei fod yn talu cyflog ar sail cyfartal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad o fewn y gweithlu cyfan - h.y. 70% merched 30% dynion.

Byddwn yn cyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

4. Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb (Sicrhau Tegwch i Bawb) Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Rydym yn awyddus i sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor er mwyn gwella ein gwasanaethau ar gyfer pawb o bobl Gwynedd.

Erbyn diwedd 2020/21 byddwn wedi cynnal ymchwiliad trylwyr o farn pobl Gwynedd sydd â nodweddion gwarchoddedig (fel maent yn cael eu nodi yn Neddff Cydraddoldeb 2010) am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu cynnig, gan hefyd adnabod unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd canlyniad yr ymchwiliad hwn yn sail i nifer o'r gweithgareddau pellach o fewn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y 5 Amcan o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24.

Yn ystod 2021/22 fe fyddwn yn:

- Datblygu rhaglen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth i staff a rheolwyr er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o anghenion pobl Gwynedd a'r Ddeddf ar gyfer ei chyflwyno o Fedi 2021 ymlaen
- Byddwn hefyd yn parhau i gynnig cymorth a hwyluso gallu rheolwyr i gynnal Asesiadau Cydraddoldeb
- Annog staff i gwblhau'r holiadur monitro er mwyn cael tystiolaeth ddibynadwy i'n helpu i wella amrywiaeth ein gweithlu, ac i leihau unrhyw fylchau tâl.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Blaenoriaeth Gwella 4

Mynediad at gartrefi addas

Mae gan y maes tai rôl allweddol i helpu'r Cyngor gyflawni ein huchelgais. Gwyddwn fod cael cartref sydd yn addas ac o safon yn arwain at well iechyd, cymunedau mwy gwydn a phoblogaeth sy'n gallu cyfrannu yn llawn i gymdeithas. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu cynigion tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd y gall pobl fyw ynddynt trwy gydol eu hoes yn ogystal â chynnig cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen.

Fel Awdurdod Lleol, byddwn yn ymyrryd i annog ystod o opsiynau cefnogaeth a llety er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Law yn llaw â hyn, rhaid sicrhau fod y camau a gymerir yn parchu diwylliant cymunedau'r sir.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu

Adran Tai ac Eiddo

Er mwyn cyrraedd uchelgais ein Strategaeth Tai i "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd", rydym wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynnwys dros 30 o gynlluniau penodol a buddsoddiad o £77 miliwn.

Bydd y cynlluniau hyn yn anelu i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn cychwyn gweithredu ar y cynlluniau hyn er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartrefi addas o fewn eu cymunedau.

Mae'r galw ar ein gwasanaeth digartrefedd wedi cynyddu yn y misoedd diwethaf o ganlyniad i bandemig Covid-19 a byddwn yn anelu i flaenoriaethu nifer o'r cynlluniau a fyddai'n cynyddu'r cyflenwad o dai ar gael i'r gwasanaeth digartrefedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

2. Mynediad rhwydd a chlr at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai : Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai

Adran Tai ac Eiddo

Ar hyn o bryd, mae nifer o bwyntiau cyswllt o fewn yr Adran i'r cyhoedd gael mynediad at wahanol wasanaethau yn y maes Tai ac Eiddo. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys prosiect i sefydlu un pwynt cyswllt drwy greu Desg Gymorth Tai.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn ymchwilio i fodolau gwahanol o ddarparu desg gymorth a chychwyn ar y gwaith o sefydlu math o Ddesg Gymorth Tai all gynghori'r cyhoedd sut orau i ddatrys eu hanghenion tai.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

3. Gosod tai cymdeithasol i bobl leol : Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol

Adran Tai ac Eiddo

Rydym wedi cyflwyno Polisi Gosod Tai newydd sydd wedi bod yn weithredol ers Haf 2020. Mae'r polisi hwn yn blaenoriaethu pobl leol, ac yn disodli'r hen system pwyntiau i ddyrannu tai.

Mae'r drefn newydd yn golygu fod ceisiadau am dai cymdeithasol yn cael eu rhoi mewn un o 4 'band' yn ddibynnol ar eu hanghenion tai a'u cysylltiad gyda Gwynedd neu beidio.

Yn ystod 2021/22 byddwn angen sicrhau fod trefniadau effeithiol ar gyfer gweithredu'r polisi gosod newydd a sefydlu trefn i fonitro fod y polisi hwn yn cael ei weithredu drwy'r sir i sicrhau'r cyfleoedd gorau i bobl Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

4. Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes

Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth

Ers sawl blwyddyn, mae'r Cyngor wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i newid Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn rheoli trosglwyddiad cartrefi domestig i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar sy'n destun ardrethi annomestig. Mae'r mwyafrif helaeth yn osgoi unrhyw drethiant

lleol am eu bod yn derbyn rhyddhad ardrethi busnesau bychain. Rydym yn bwriadu parhau i bwysu am ddiwygio'r drefn yn y maes yma yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan ddefnyddio tystiolaeth rydym yn ei gasglu yn barhaus, er mwyn cael Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ddeall maint y broblem sy'n bodoli yng Ngwynedd. Siomedig fu'r ymateb hyd yma gyda'r Llywodraeth yn canolbwyntio mwy ar yr effaith niweidiol honedig ar dwristiaeth yn hytrach na'r effaith niweidiol go iawn ar drigolion Gwynedd.

Byddwn hefyd yn parhau â'r gwaith o bwysu ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref i gynnwys dosbarth defnydd penodol ar gyfer tai preswyl a ddefnyddir fel llety gwyliau, ynghyd â chyflwyno trefn trwyddedu gorfodol er mwyn gallu gweithredu'r busnes. O ganlyniad, ni ddylai unrhyw eiddo heb ganiatâd priodol ar gyfer ei ddefnyddio fel llety gwyliau tymor byr fod yn gymwys i drosglwyddo o fand Treth Cyngor i'r rhestr ardrethi annomestig.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi'r incwm a geir o'r premiwm Treth Gyngor yn ein Cynllun Gweithredu Tai er mwyn ceisio lleddfu rhywfaint ar yr effaith andwyol y mae ail gartrefi yn ei gael ar argaeledd tai i bobl leol. Wrth i eiddo drosglwyddo i fod yn unedau gwyliau mae posibilrwydd y bydd llai o eiddo yn destun y premiwm.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Blaenoriaeth Gwella 5

Byw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg

Un nodwedd unigryw sydd gan Wunedd fel sir hefyd yw ei Chymreictod. Mae Cyngor Gwynedd ei hun wedi ymrwymo i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ni fydd hynny ynddo'i hun yn ddigonol os ydym am gadw natur unigryw'r sir yn fyw.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

I'r dyfodol fe fyddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda gweddill gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig y rhai rheng flaen, i gwblhau'r asesiad a datblygu sgiliau staff newydd.

Byddwn hefyd yn datblygu cynllun prentisiaethau i ddenu a datblygu staff gyda'r gallu ieithyddol briodol ac yn parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth dysgu sydd eisoes yn ei le (gyda hyblygrwydd i addasu i anghenion timau penodol).

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

[Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

2. Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo gyrff cyhoeddus.

Trwy Is-Grŵp y Gymraeg o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus byddwn yn llunio cynllun ar y cyd gyda'n partneriaid ar y Bwrdd er mwyn ceisio symud i sefyllfa lle mae defnyddio'r Gymraeg yn naturiol ar y cyfle cyntaf bosibl, ac i annog pobl i wneud hynny.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

[Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

3. Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae gennym bryder fod enwau llefydd cynhenid Cymreig yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg.

Byddwn yn llunio rhaglen waith gan flaenoriaethu'r meysydd i gael sylw ac ym mha drefn. Byddwn hefyd yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud fel rhaglen waith ym meysydd adeiladau'r Cyngor, enwau strydoedd ac enwau llefydd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

[Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

4. Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc

Adran Addysg

Mae sgiliau a hyder dysgwyr (o gartrefi di-Gymraeg yn arbennig) yn y Gymraeg wedi dirywio yn sgil y cyfnod clo a Covid-19.

Yn 2021/22 byddwn yn sefydlu gwaelodlin o sefyllfa bresennol y Gymraeg yn sgil effaith y cyfnod clo a Covid-19, ac yn llunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu mewn ymateb i'r sefyllfa.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

[Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud](#)
[Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

Blaenoriaeth Gwella 6

Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant

Rydym fel Cyngor yn darparu gofal yn uniongyrchol i blant a'u teuluoedd a phobl sydd angen cymorth arbenigol, ond ein gweledigaeth yw bod pawb o bob oedran yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen yn y ffordd fwyaf addas a chyfleus iddyn nhw.

Gan fod anghenion pob unigolyn a theulu yn siŵr o fod yn wahanol, er mwyn iddynt barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant mae angen i ni fel Cyngor addasu ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth. Er mwyn llwyddo, bydd angen i ni barhau i gydweithio â darparwyr eraill, megis y Bwrdd Iechyd, gan gofio rhoi anghenion yr unigolyn yn ganolog bob tro.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

I. Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu nifer o ffactorau a all effeithio ar ein gallu i **barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd**. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau byddwn yn ystod 2021/22 yn:

- ceisio deall “gwir gost gofal” er mwyn ystyried opsiynau posib ar gyfer ein trefniadau comisiynu gofal i'r dyfodol
- sicrhau ein bod yn deall yr angen am ddarpariaeth gwelyau nyrsio yn y sir, a symud ymlaen gyda phrosiect Safle Penrhos er mwyn cyfarch y prinder ym Mhen Llŷn
- gweithio tuag at gynyddu nifer y gwelyau dementia yn y sir ymhellach
- ystyried a yw'n gwasanaethau cefnogol e.e. gofal dydd ac ysbaid yn parhau'n addas er mwyn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd, neu os oes angen i ni wneud rhywbeth yn wahanol
- ystyried sut allwn ni wella addasrwydd ein hadeiladau darparu gofal wrth geisio cwrdd â mesurau rheoli haint ychwanegol.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i **wella safon ein darpariaeth gofal ar draws y sir**. Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- agor uned dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog, ond sydd heb allu agor oherwydd argyfwng Covid-19
- cwblhau'r gwaith o adeiladu uned dementia ychwanegol yn ein cartref yn y Bermo
- cwblhau addasiadau i'n cartref yn Nolgellau er mwyn medru cynnig gofal mwy pwrpasol ar gyfer unigolion ag anghenion corfforol dwys
- cydweithio gyda chymdeithas tai Adra ar ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwlheli a cheisio adnabod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir, gyda blaenoriaeth i ardal Dolgellau a Meirionnydd yn ehangach

- cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

2. Ail-Ddylunio ein Gwasanaethau Gofal

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae anghenion gofal y sir yn newid, ac rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i drawsnewid ein gwasanaethau cymunedol. Mae angen i ni hwyluso gallu ein staff ni a staff y Bwrdd Iechyd i gydweithio fel un tîm o fewn ardaloedd penodol. Bydd hyn yn arwain at sicrhau mai un pwynt cyswllt fydd gan unigolion sydd angen cymorth iechyd a gofal yn y gymuned er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau a gwasanaeth di-dôr. Rydym hefyd yn gweithio i newid ein ffordd o ddarparu gofal cartref ar draws y sir er mwyn hwyluso'n gallu i sicrhau fod y gofal wedi'i deilwro yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

Yn ystod 2021/22, byddwn yn:

- arfogi'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal yn ogystal â staff iechyd) i allu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar hyfforddiant priodol a dileu unrhyw rwystrau technolegol
- dyfarnu cytundebau gofal cartref newydd ymhob ardal gyda'r nod o weithredu'r model newydd yn fuan yn 2022/23
- cryfhau'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, yn cynnwys datblygu gwasanaeth symud a thrin arbenigol i alluogi unigolion i fyw mor annibynnol â phosib
- ychwanegu at y rhwydwaith o hybiau cymunedol sy'n cefnogi a chreu cyfleon i unigolion gydag anabledau dysgu drwy ddatblygu cynlluniau ar gyfer Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau
- ailagor ein hwb iechyd meddwl cymunedol ym Mhwillheli, yn dilyn iddo orfod cau yn sgil argyfwng Covid-19 ac edrych ar opsiynau i ddatblygu hybiau pellach ar draws y sir
- edrych ar opsiynau i ddatblygu darpariaeth cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i garfan iau ardal Arfon.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

3. Y Gweithlu a Recriwtio yn y Maes Gofal

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae recriwtio i'r maes gofal yn heriol am amryw o resymau. Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ac mae hyn wedi ei amlygu yn arbennig yn ystod argyfwng Covid-19. Ond, mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Yn ystod 2021/22, byddwn yn:

- adolygu trefniadau'r ymgyrch recriwtio diweddar #GalwGofal er mwyn ystyried sut fyddwn ni'n mynd ati i recriwtio i'r dyfodol
- ystyried ein trefniadau cofrestru ac hyfforddi yn ogystal â threfniadau datblygu staff er mwyn cynyddu hyblygrwydd a chadernid yn y maes
- datblygu cynllun Meithrin Talent i fynd i'r afael â phrinder arbenigedd mewn rhai meysydd e.e. Therapi Galwedigaethol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

4. Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae rhai teuluoedd angen cefnogaeth benodol ar adegau i'w helpu i fagu plant fel bod y plant hynny yn gallu aros gyda'u teulu, yn ffynnu, yn iach, ac yn ddiogel. Nid oes plant yn dod i ofal yn ddi-angen yng Ngwynedd ac rydym am sicrhau nad yw hynny yn digwydd. Weithiau, mae'n orfodol fod plentyn yn dod i'n gofal oherwydd ei bod yn beryglus iddynt aros gartref. Mae ein trefniadau a'n penderfyniadau pan fo hynny'n digwydd yn seiliedig ar risg ac anghenion y teulu. Pan mae plentyn yn dod i ofal mae angen gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn derbyn gofal briodol, addas a lleol; a'u bod nhw a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi fel bod y plentyn yn gallu dychwelyd at ei deulu.

Bydd Rhaglen Trawsffurfio "Amddiffyn Plant yn Effeithiol" yn weithredol yng Ngwynedd, yn cael ei gwerthuso'n barhaus a byddwn yn rhannu'r model gydag Awdurdodau eraill Gogledd Cymru.

Byddwn yn cwblhau y gwaith Ffordd Gwynedd gan weithio ar draws gwasanaethau'r adran ac ar y cyd gyda'r Adran Addysg i ddeall yr hyn sy'n bwysig i deuluoedd Gwynedd ac yn cytuno ar egwyddorion, a ffyrdd o wella yr hyn rydym yn ei wneud a sut yr ydym yn gweithio, er mwyn rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen.

Byddwn yn cyflwyno strategaeth "Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd" a'i mabwysiadu sy'n dangos ein nod, ein trefniadau a'n ymarfer tuag at osgoi rhag dod a phlant i ofal yn ddi-angen; ond os oes angen gofal yna sicrhau bod y plentyn yn cael gofal mewn lleoliad addas, priodol a lleol; a bod pob ymdrech a chefnogaeth i gael plant yn ôl gyda'u teuluoedd.

Byddwn yn derbyn adborth Llywodraeth Cymru ar ein strategaeth "Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd".

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

5. Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae rhai plant a phobl ifanc sy'n dod i'n gofal gydag anghenion cymhleth a dwys. Mae rhai o'r plant hyn yn gorfod derbyn gofal a chefnogaeth mewn lleoliad drud y tu allan i Wynedd neu Gymru ac ymhell o'u teulu a'u cymuned. Rydym am sicrhau bod gennym amrywiaeth a digon o leoliadau addas ar gael yn lleol, a bod gennym weithwyr a chefnogaeth arbenigol yn lleol ar gyfer anghenion y plant hyn.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- Gweithredu rhaglen hyfforddiant arbenigol i staff fel eu bod yn gallu cynnig cefnogaeth addas i blant gydag anghenion cymhleth a'u teuluoedd
- Datblygu a chytuno achos busnes, ar draws partneriaid lleol, ar gyfer gweithredu ac ymarfer fel un tîm amlddisgyblaethol fel bod cefnogaeth i deuluoedd a phlant yn fwy effeithiol ac effeithlon
- Datblygu cynllun ar gyfer adnabod darpariaeth breswyl yn lleol i blant gydag anghenion cymhleth
- Cynyddu niferoedd gofalwyr maeth drwy recriwtio a rhoi adnoddau i asesu gofalwyr ar gyfer sicrhau digon o leoliadau.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

6. Sicrhau fod teuluoedd a phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae plant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth a gallu sgiliau uchel; a phlant sydd ag awtistiaeth a dim anabledd dysgu, yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt. Mae profiad y plant yma a'u teuluoedd yn dangos bod lle i wella ein trefniadau asesu presennol; bod

bylchau mewn darpariaeth a bod angen help arnynt yn y cyfnod trosglwyddo i wasanaethau eraill megis oedolion ac ieched.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- Lansio Cynllun Awtistiaeth i'r sir ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, partneriaid trydydd sector ac ar draws gwasanaethau'r Cyngor
- Penodi rôl yn y Cyngor ar gyfer gweithio yn y maes gan roi sylw penodol i'r cyfnod trosglwyddo o blentyndod i oedolyn yn y maes
- Adolygu trefniadau mynediad i wasanaeth integredig plant anabl (DERWEN)
- Gwella trefniadau cydweithio, rhannu gwybodaeth a darparu cefnogaeth yn y maes gyda'n partneriaid iechyd a gyda darparwyr arbenigol yn y trydydd sector.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Blaenoriaeth Gwella 7

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor eisoes yn cyflawni amrediad eang o weithgareddau, sy'n ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth sydd gennym. Ond nid da lle gellir gwell, rydym yn cydnabod fod yna enghreifftiau lle nad ydym yn edrych ar bethau drwy lygaid ein trigolion bob tro, ac mae angen sicrhau fod hynny'n digwydd ymhob man o fewn y Cyngor.

Nid yw hynny yn golygu gwneud pob dim i bawb wrth gwrs, gan nad yw adnoddau yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae'n golygu ein bod yn blaenoriaethu'r pethau hynny sydd bwysicaf i'n cymunedau, ac yn sicrhau bod yr adnoddau prin sydd gennym yn cyfrannu at wneud yr hyn sydd bwysicaf i bobl Gwynedd (gan dderbyn y bydd y blaenoriaethu, yn anochel, yn golygu peidio â chyflawni dyheadau pawb).

Mae'r pwysu a mesur yma hefyd yn gorfod digwydd ar adeg pan fo'r arian sydd ar gael i wasanaethau yn lleihau'n sylweddol. Yn hynny o beth, bydd angen sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r pethau pwysicaf.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

I. Gweithredu Rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd (*Arfogi unedau i roi "Ffordd Gwynedd" ar waith*)

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai **anghenion pobl Gwynedd** sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaethau hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen. Rydym eisoes yn herio timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Byddwn yn datblygu hyfforddiant ar gyfer cynorthwyo rheolwyr i ddeall y cyswllt agos rhwng diwylliant Ffordd Gwynedd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyflwyno'r sesiwn honno i'r Rhwydwaith Rheolwyr yn ystod hanner cyntaf 2021, tra'n rhyddhau swydd-ddisgrifiad i arweinyddion tîm a gweddill staff y Cyngor fydd yn cadarnhau'r ymddygiadau disgwylidig ohonynt.

Byddwn yn sefydlu dulliau o fesur cynnydd y diwylliant a geisir trwy gyfuniad o hunan-asesu ac herio cyson.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.

2. Sicrhau bod rheolwyr yn arddel eu rôl lechyd a Diogelwch yn effeithiol Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae angen i ni sicrhau bod ein trefniadau gwarchod lechyd a Diogelwch yn gadarn, a thra bod gennym drefniadau aeddfed o fewn y Cyngor mae gennym bryder bod yna bocedi lle mae yna gyfle i wella trefniadau gweithredol.

Er mwyn ymateb i'r sefyllfa byddwn yn cynnal trafodaeth â phenaethiaid / uwch reolwyr / rheolwyr pob Adran er mwyn deall eu anghenion a chanfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys y sefyllfa.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion Llesiant.

3. Cynllunio'r Gweithlu Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae'r Cynllun Pobl yn blaenoriaethu gwella trefniadau ar gyfer meithrin talent o fewn y Cyngor, gwella ein trefniadau Cynllunio'r Gweithlu, a sicrhau fod ein trefniadau dysgu a datblygu yn canolbwyntio ar y pethau angenrheidiol. Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod gennym y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn. Golyga hynny fod angen i ni hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu eu talent. Mae trefniadau hyfforddi staff yn ffordd bwysig o hybu a lledaenu meddylfryd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor, ac wrth gwrs mae'n hollbwysig fod gan y Cyngor swyddogion sydd â'r sgiliau i gyflawni eu swyddi.

Bydd y gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol, sydd wedi ei gychwyn gyda'r Adran Oedolion, lechyd a Llesiant, yn cael ei ledaenu i weddill y Cyngor yn ystod 2021. Byddwn hefyd yn ymestyn y nifer o brentisiaid ac hyfforddeion presennol ac hynny ar draws nifer cynyddol o wasanaethau ar draws y Cyngor.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion Llesiant.

4. Cyflawni arbedion Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth

Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol da, sydd eisoes wedi adnabod llawer o arbedion effeithlonrwydd er mwyn isafu'r toriadau gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

Mae'r gwaith sydd eisoes wedi ei gyflawni dros nifer o flynyddoedd yn awgrymu ein bod wedi cynaeafu cyfran helaeth o'r arbedion effeithlonrwydd sydd ar gael, ond mae angen parhau i fonitro cynlluniau cymeradwy holl adrannau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y swmp o'r arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Ar ôl cyfnod hir o ddarganfod a chyflawni arbedion, dros £30m yn y cyfnod ers 2015/16, mae'r cynlluniau bellach gymaint yn anoddach i'w gwireddu gyda phrosiectau effeithlonrwydd yn llawer mwy o waith na thorri gwasanaethau. Adolygwyd yr holl gynlluniau arbedion er mwyn asesu pa rai sydd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22. Drwy'r trefniadau cadarn sydd gennym i fonitro sut y mae adrannau yn cyflawni arbedion, byddwn yn sicrhau bod y rhaglen ddiwygiedig yma yn cael ei chyflawni. Byddwn hefyd yn cefnogi adrannau gyda chostau trawsffurfio, wrth iddynt gyflwyno trefniadau gwaith newydd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.

5. Cryfhau cyfathrebu ac ymgysylltu

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn weledol iawn gydag agweddau'r gwasanaethau yn cyffwrdd ar bob trigolyn drwy'r sir. Gellir ychwanegu gwerth at waith yr adran drwy gynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol; er enghraifft ymgyrchoedd atal mân sbwriel neu faw ci, neu ymgyrchoedd a chanllawiau i annog ail ddefnyddio, ail bwrpasu a lleihau gwastraff. Mae hefyd yn hynod bwysig fod trigolion yn hyderus yng ngwasanaethau'r adran a bod eu pryderon ac ymholiadau yn cael eu hymdrin â nhw'n effeithiol. Byddwn yn sicrhau bod trefniadau ymateb amserol ac ystyrlon mewn lle a byddwn yn:

- adolygu trefniadau cyfredol o gyfathrebu ac ymateb i ymholiad
- amlygu ble mae diffygion/llefydd gwella
- sefydlu grŵp tasg gyda chynrychiolaeth o swyddogion ynghyd â Galw Gwynedd
- adnabod mesurau er monitro.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

6. Capasiti Gwarchod y Cyhoedd

Adran Amgylchedd

Yn sgil argyfwng Covid-19, mae wedi dod yn fwy amlwg pa mor bwysig yw rôl ein Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd wrth warchod iechyd ein cymunedau, ond hefyd wrth gynghori a chefnogi busnesau'r sir. Mae hefyd disgwyliad ein bod yn defnyddio ein pwerau gorfodaeth yn sgil honiadau o dorri'r rheoliadau coronafeirws.

Mae'r profiadau yn ystod y cyfnod argyfwng wedi amlygu diffyg gwydnwch yng Ngwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn sgil blynyddoedd o doriadau. Credir fod angen datrysiad byr-dymor yn ogystal â datrysiad hir-dymor er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol i gefnogi a gwarchod trigolion a busnesau Gwynedd.

Bwriedir cynnal adolygiad llawn o strwythurau Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn ystod 2021/22 er mwyn asesu'r anghenion yn llawn ac ystyried y capasiti staff fydd ei angen ar gyfer yr hirdymor (gan

nodi ei bod yn anodd rhagweld pa bryd fydd yr argyfwng presennol yn dod i ben) er mwyn cefnogi a gwarchod trigolion a busnesau Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

7. Cymunedau Glân a Thaclus

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Byddwn yn cydweithio gyda thrigolion a chymunedau Gwynedd drwy ymgysylltu er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu i gyd-fynd â'r flaenoriaeth yma gan ehangu a datblygu partneriaethau cymunedol i wella ansawdd ac edrychiad y sir e.e.

- Strydoedd glân a deniadol
- Ffyrdd a llwybrau cerdded mewn cyflwr da
- Timau gwaith lleol er mwyn cyflawni'r gwaith
- Trafodaeth am yr egwyddorion a chymau gweithredu drwy ymgysylltu â'r gymuned a'r staff
- Llunio cynllun gweithredu, darganfod dyheadau a rhanddeiliaid posib ar lefel cymunedol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

Blaenoriaeth Gwella 8

Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd

Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 bu i'r Cyngor ystyried cynnig yn ymwneud â newid hinsawdd ac fe benderfynwyd y dylid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod. Byddem yn gwneud hyn drwy:

- Ddatgan Argyfwng Hinsawdd
- Ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon
- Chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni targedau di-garbon
- Adrodd yn ôl ymhen 6 mis ar y camau cadarnhaol y mae'r Cyngor wedi eu cymryd i leihau allyriadau carbon; a
- Galw ar Lywodraethau Cymru a San Steffan i ddarparu'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r targed o Wynedd di-garbon erbyn 2030.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd

Adran Amgylchedd

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i ddatgan argyfwng newid hinsawdd rydym wedi bod yn ceisio llunio Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd, ond yn anffodus bu i argyfwng Covid-19 dorri ar draws y gwaith hwnnw.

Mae bwriad sicrhau bod gennym ddogfen gychwynnol yn amlygu'r hyn y mae'r adrannau yn bwriadu ei gyflawni er mwyn i honno fod yn sail i weithdy aelodau i'w gynnal drwy ddulliau rhithwir yn gynnar yn ystod 2021, fel bod hynny yn ei dro yn arwain at fabwysiadu Cynllun Gweithredu cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Unwaith y byddwn wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu byddwn yn ei gyhoeddi ac yn dechrau gweithredu ar y cynlluniau fydd ynddo.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

Yn olaf...

Bydd y Gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2021 yn gosod y sylfaen ar gyfer medru ceisio cyflawni'r Blaenoriaethau Gwella uchod, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau.

Mae'r setliad grant yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 yn decach nag a fu mewn blynyddoedd cyn 2020/21, ac yn cyfarch y lefel chwyddiant sydd oddeutu £6m, ond nid yw'n cyfrannu at y cynnydd sylweddol mewn galw am wasanaethau sydd oddeutu £4m ychwanegol, yn bennaf ym maes gofal cymdeithasol.

Ar ôl gorfod darganfod dros £30m o arbedion ers 2015/16, yn dilyn blynyddoedd blaenorol lle nad oedd grant y Llywodraeth yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, eleni penderfynwyd gohirio neu ddileu gwerth £3m o arbedion hanesyddol nad oedd modd i'w gwireddu. Bydd hyn yn rhoi sail fwy cadarn i gyllideb y Cyngor. Yn gyffredinol, daw'r cyfraniad net £725k o arbedion tuag at fantoli cyllideb 2021/22 o gynlluniau effeithlonrwydd oedd eisoes wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol.

Drwy gynaeafu arbedion hanesyddol a chynyddu 3.7% ar lefel y Dreth Cyngor erbyn 2021/22, gellid sefydlu cyllideb gytbwys a dygymod gyda'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor heb unrhyw doriadau newydd mewn gwasanaethau i drigolion Gwynedd. Unwaith eto, mae'r Cyngor yn amddiffyn gwasanaethau ac yn anelu i gyfarch y materion newydd hynny sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

Wrth lunio Cyllideb y Cyngor erbyn 2021/22, rhoddir ystyriaeth briodol i'r Blaenoriaethau a nodir uchod yng Nghynllun y Cyngor.

Gellir gweld Cyllideb y Cyngor yn llawn ar safle we'r Cyngor drwy ddilyn y ddolen hon – [Cyllideb y Cyngor 2021/22](#)



Cynlluniau Adran



Mae'r rhan gyntaf o'r Cynllun, y Blaenoriaethau Gwella, wedi canolbwyntio ar weledigaeth y Cyngor ynghyd â'n Blaenoriaethau Gwella ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun.

Mae'r rhan nesaf o'r Cynllun yn cynnwys Cynlluniau yr Adrannau o fewn y Cyngor. Maent yn cynnwys disgrifiadau o waith 'dydd i ddydd' yr adrannau, ac mae llawer ohono yn ddyletswydd statudol ac yn orfodol i ni ei wneud, megis diogelu plant ac oedolion neu ddarparu addysg.

Yn ychwanegol at y Blaenoriaethau Gwella a'r gwaith 'dydd i ddydd' yma mae Blaenoriaethau Lleol wedi eu hadnabod gan yr Aelodau Etholedig fel y materion sy'n bwysig i drigolion eu hardal hwy. Trafodwyd y rhain fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun y Cyngor yn wreiddiol, ac mae unrhyw ddatblygiadau arnynt yn cael ei esbonio yn y cynlluniau adran sydd i ddilyn. Mae'r Blaenoriaethau Lleol wedi eu hamlygu o fewn ffrâm sydd â chefnidir lliw iddi.

Ceir rhestr o'r holl Adrannau isod ynghyd â gwybodaeth am eu prif gyfrifoldebau. Mae'r wybodaeth ariannol am gyllidebau pob adran i'w cael gyda'i gilydd ar y diwedd.

Os ydych am gysylltu â'r Adrannau neu'r Pennaeth gallwch ffonio 01766 771000 neu ddilyn y dolenni isod i'n gwefan.

	Pennaeth	Tudalen
1. Adran Addysg	Garem Jackson <u>Manylion Cyswllt</u>	39
<ul style="list-style-type: none">Cefnogi gweithrediad dydd i ddydd Ysgolion GwyneddCefnogi a sicrhau cynnal a gwella safonau addysg mewn cyfleusterau modernDarparu cefnogaeth a gwasanaeth Anghenion Dysgu YchwanegolArwain ar weithrediad y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd		
2. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Aled Davies <u>Manylion Cyswllt</u>	45
<ul style="list-style-type: none">Galluogi Oedolion Gwynedd i "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"Darparu gwasanaethau gofal trwy bartneriaethau a chydweithioCynnig darpariaeth gofal cartref, gofal dydd a gofal preswyl		
3. Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Steffan Jones <u>Manylion Cyswllt</u>	49
<ul style="list-style-type: none">Casglu ailgylchu, gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol trigolion GwyneddCynnal a chadw ffyrdd a strydoedd y sirTorri gwair a chynnal meysydd chwarae		
4. Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd	Marian Parry Hughes <u>Manylion Cyswllt</u>	57
<ul style="list-style-type: none">Diogelu plant a phobl ifanc rhag niwedGweithio i roi sefydlogrwydd i deuluoedd, plant a phobl ifancGwasanaethau leuenctid		

5. Adran Amgylchedd

Dafydd Wyn Williams
Manylion Cyswllt

63

- Gwarchod cefn gwlad a'r mynediad iddo
- Archwiliadau hylendid a safonau bwyd; safonau masnach a thrwyddedu
- Rheolaeth traffig, parcio, cludiant cyhoeddus a datblygu cyfleoedd teithio llesol
- Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu
- Gwarchod y Cyhoedd

6. Adran Economi a Chymuned

Sioned E Williams
Manylion Cyswllt

75

- Datblygu economi Gwynedd trwy gefnogi busnesau, twristiaeth a marchnata ac adfywio cymunedol
- Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau

7. Adran Tai ac Eiddo

Dafydd Gibbard
Manylion Cyswllt

83

- Cefnogi teuluoedd digartref a chanfod llety dros dro a chartrefi fforddiadwy
- Sicrhau cartrefi safonol a diogel i denantiaid tai cymdeithasol a phreifat
- Dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd
- Cynnal, cadw a datblygu eiddo'r Cyngor, gan geisio lleihau ein allyriadau carbon.

8. Ymgynghoriaeth Gwynedd

Huw Williams
Manylion Cyswllt

90

- Gwasanaeth Ymgynghorol Masnachol yn darparu gwasanaeth cynllunio a rheoli prosiectau isadeiledd
- Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu
- Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol

9. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Geraint Owen
Manylion Cyswllt

93

- Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd
- Gwasanaethau Adnoddau Dynol, Cofrestru, Cyfathrebu a datblygu staff
- Gwasanaethau Gweinyddol a Chefnogol y Cyngor

10. Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)

Dafydd L Edwards
Manylion Cyswllt

100

- Cefnogaeth ariannol a chyfrifol i holl wasanaethau'r Cyngor
- Gweinyddu Treth Cyngor a Chronfa Bensiwn Gwynedd
- Cefnogi a datblygu darpariaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor

11. Gwasanaeth Cyfreithiol

Iwan Evans
Manylion Cyswllt

107

- Cefnogaeth gyfreithiol i holl wasanaethau'r Cyngor
- Gweinyddu Etholiadau Gwynedd
- Cefnogi gwasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru



Adran Addysg



Pwrpas yr Adran Addysg yw i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau yn ein hysgolion i'w galluogi i gyrraedd y safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella canlynol:

- Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Strategaeth Dysgu Digidol – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Cydweithio Meirionnydd – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn Arfon – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Dalgylch Bangor – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Dalgylch Cricieth – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Hybu Defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc – (Blaenoriaeth Gwella 5)

GWASANAETH YSGOLION

Cefnogi Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Llywodraethiant Effeithiol Ysgolion

Cyfrifoldeb yr Adran Addysg yw hyrwyddo arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant effeithiol ein hysgolion drwy gefnogi, arfogi a dal cyrff llywodraethol a thimau rheoli ysgolion yn atebol. Gwneir hynny mewn nifer o ffyrdd gwahanol yn ddibynnol ar anghenion ysgolion unigol.

Rhoddir cefnogaeth o safbwynt arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion drwy gyfres o raglenni proffesiynol sy'n cynnig llwybr o ddatblygiad proffesiynol i athrawon, arweinwyr canol ac uwch arweinyddiaeth. Gwneir hyn hefyd drwy raglen gymhelliant a luniwyd ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a Dysgu a Datblygu ar gyfer penaethiaid, timau rheoli a rheolwyr canol mewn ysgol. Yn ogystal mae'r Adran Addysg yn ceisio adnabod cyfleoedd i roi profiadau gwerthfawr i arweinwyr er mwyn adeiladu cyfundrefn wydn.

Rhoddir cefnogaeth gan yr Adran Addysg i lywodraethwyr drwy sicrhau eu bod yn deall eu rôl ac yn gweithredu'n effeithiol, drwy roi cefnogaeth strategol ac ymarferol iddynt yn ôl yr angen, eu cynghori'n briodol, yn ogystal â thrwy ddarparu rhaglen o hyfforddiant bwrpasol ar eu cyfer er sicrhau llywodraethiant effeithiol ein hysgolion. Mae gan yr Adran Addysg hefyd bwerau ymyrryd i'w defnyddio pan nad yw ysgol yn cael ei llywodraethu'n briodol.

Gwasanaeth Gwella Ysgolion

Cyfrifoldeb yr Adran Addysg a GwE mewn partneriaeth gyda'n hysgolion yw addysgu ein plant, ac mae canlyniadau ein hysgolion yn gyson dda. Gwasanaeth gwella ysgolion yw GwE, sydd yn gweithio ar ran chwe Awdurdod Lleol y gogledd, i arwain, trefnu a chydlynu gwelliannau ym mherfformiad ysgolion.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr Adran Addysg a GwE yn rhoi cefnogaeth a her i'n hysgolion er mwyn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu yn y dosbarth, i gefnogi arweinwyr i wella ansawdd yr arweinyddiaeth yn ein hysgolion – a hyn oll er mwyn gwella canlyniadau ymhellach ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

Yng Ngwynedd, mae 80 o ysgolion cynradd, 12 o ysgolion uwchradd, 2 ysgol arbennig a 2 ysgol ddilynol.

Perfformiad

Mae'r ysgolion yn darparu addysg gynhwysol i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed. Yng Ngwynedd, caiff addysg ôl-16 ei darparu mewn partneriaeth gyda'r colegau a'r ysgolion uwchradd yn Arfon, gan Goleg Meirion-Dwyfor (Grŵp Llandrillo Menai) yn Nwyfor a Meirionnydd ac Ysgol Godre'r Berwyn yn ardal Y Bala.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd clir i Awdurdodau Lleol beidio a chyhoeddi canlyniadau addysgol, ac mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r modd y gellir dal Awdurdodau Addysg yn atebol am berfformiad heb ddata cymharol o berfformiad ar draws Cymru.

Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion

Yn dilyn ymgynghori ar gynaliadwyedd y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, ynghyd â phryderon cyffredinol nad yw'r gyfundrefn ysgolion bresennol yn gynaliadwy, bu i Gabinet y Cyngor fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas canlynol fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn i sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sef:

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd.

Yn sgil mabwysiadu'r egwyddorion, bydd y maes hwn yn trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr Adran gan y rhagwelir nad proses gyflym, yn ystod cyfnod y Cyngor hwn, fydd gweithredu'r egwyddorion ar draws y gyfundrefn. Byddwn yn symud ymlaen yn bwyllog i sicrhau fod y gyfundrefn addysg yn gallu ymateb i'r newidiadau enfawr sydd ar y gorwel, megis newidiadau i drefn arolygu ysgolion (Estyn), ynghyd â newidiadau sylweddol iawn i'r cwricwlwm a threfniadaeth ein hysgolion yn sgil argymhellion Yr Athro Donaldson.

TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG

Mae rhai o adeiladau ein hysgolion yn hen ac yn anaddas i gyfarch anghenion dysgu ac addysgu ein plant yn y dyfodol. Pwrpas y gwasanaeth yma ydy cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib i'w galluogi i ffynnu.

Dros y cyfnod 2012-2022 bydd y Cyngor wedi llwyddo i fuddsoddi gwerth £69 miliwn i wella cyflwr ac amgylchedd dysgu yr ysgolion canlynol er lles plant y sir:

- Ysgol yr Hendre, Caernarfon
- Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn
- Ysgol Craig y Deryn, Llanegryn
- Ysgol Penybryn, Tywyn
- Ysgol Bro Llifon, Groeslon
- Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth
- Ysgol Glancegin, Maesgeirchen
- Ysgol Bro Idris, Dalgylch Dolgellau
- Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala
- Ysgol y Garnedd ac Ysgol y Faenol, Bangor
- Ysgol Trefferthyr, Cricieth.

Mae'r Tîm Moderneiddio Addysg yn datblygu modelau darparu addysg hyfyw sy'n ceisio:

- sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant a staff ysgolion Gwynedd
- gwella amodau ac amgylchiadau i benaethiaid er mwyn eu galluogi i arwain a rheoli ysgolion yn effeithiol a effeithlon
- sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithiol o gyllideb yr Adran Addysg.



GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol – sy'n cynnwys meysydd anghenion dysgu penodol, cyfathrebu a rhyngweithio, nam golwg, nam clyw a meddygol/corfforol.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi ymyrraeth gynnar a chymorth wedi ei deilwra ar gyfer pob disgybl unigol drwy dîm o athrawon a chymorthyddion arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cynhaliadau i ysgolion trwy'r Gwasanaeth Seicoleg. Mae pob disgybl yn cael mynediad llawn i ysgolion Gwynedd gan sicrhau, felly, fod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial.

GWASANAETH LLES A CHYNHWYSIAD

Mae'r gwasanaeth lles a chynhwysiad yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Cyflwynir y gefnogaeth yma gan dîm o athrawon arbenigol, swyddogion lles, cwnselwyr ysgol a chymorthyddion arbenigol.

Rydym yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd drwy hyfforddi, cefnogi ar lawr dosbarth a darparu gwasanaeth cynnal ymddygiad y tu allan i ysgolion prif lif. Mae'r gwasanaeth lles yn hyrwyddo presenoldeb drwy weithio gyda disgyblion, ysgolion a theuluoedd. Mae presenoldeb ysgolion Gwynedd dros y dair blynedd ddiwethaf cyn pandemig Covid-19 wedi bod yn gyson dda.

Er bod presenoldeb yn uchel a chyfraddau gwaharddiadau parhaol yn isel, mae'r her o gynnal a hyrwyddo lles a chynhwysiad yn dwysáu gyda nifer cynyddol o ddisgyblion yn arddangos ymddygiad heriol. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod ein hysgolion wedi eu hyfforddi a'u cefnogi'n gywir i gwrdd â'r her. Yn sail i hyn oll, mae'r gwasanaeth yn darparu arweiniad arbenigol ym maes diogelu. Darperir hyfforddiant a chynghor arbenigol i ysgolion ar draws yr awdurdod.

GAGENDOR LLES A CHYRHAEDDIAD

Mae pryder y gall dysgwyr gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu lles a'u cyrhaeddiad yn sgil effaith y cyfnod clo a phandemig Covid-19. Mewn ymateb i hynny, mae pob ysgol yn gweithredu Rhaglen Cyflymu'r Dysgu gydag arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr.

YR IAITH GYMRAEG

Mae'r Gymraeg yn treiddio drwy holl waith a gwasanaethau'r Adran Addysg. Mae dogfen statudol 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' yn gosod disgwyliadau clir i'r Adran ac i'n hysgolion ar gyfer y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu. Yn ystod 2021-22, yn unol â'r rheoliadau newydd a gyhoeddwyd, byddwn yn llunio ac yn ymgynghori ar ddogfen newydd 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' fydd yn disodli'r ddogfen bresennol ym Medi 2022. Bydd y cynllun newydd yn para 10 mlynedd er mwyn cyd-fynd ac ategu targedau Llywodraeth Cymru yn Cymraeg 2050.



Mae Gwynedd wedi arwain ar waith arloesol i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd drwy gyfrwng y Siarter Iaith Gymraeg. Pwrpas y Siarter yw cael y plant i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, gan sicrhau cyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol i wireddu'r nod.

Gwynedd yw'r unig sir ar draws Cymru sydd wedi llunio Strategaeth Iaith Uwchradd fel dilyniant i'r Siarter Iaith, ac roedd yr ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd yn awyddus i weld dilyniant sicr i'r Siarter Iaith. Un gwahaniaeth sylfaenol yng nghyd-destun y Strategaeth Iaith Uwchradd yw ei fod yn ymwneud â hyrwyddo defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg.

Mae'r Adran hefyd yn cynnal Canolfannau Iaith sy'n darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu helpu i ddysgu Cymraeg a chyfrannu i fywyd addysgol a chymdeithasol Gwynedd. Mae'r canolfannau yma yn helpu ein hysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith.

CANOLFAN FUSNES YSGOLION

Ers peth amser, mae cynnydd wedi bod ym mhryderon penaethiaid ysgolion ynglŷn a'u hamodau gwaith wrth iddynt orfod cyflawni nifer o rolau gwahanol; fel arweinwyr, rheolwyr, athrawon a gweinyddwyr. Mae arolygiadau Estyn yn ddieithriad yn dangos mai arweinyddiaeth effeithiol, gyda'r adnoddau ac amser digonol ynghlwm wrthi, sydd yn arwain at addysg dda a safonau uchel.

Ers Medi 2019 sefydlwyd y Ganolfan Fusnes Ysgolion er mwyn datblygu'r gefnogaeth a'r gynhafiaeth i'n hysgolion, a rhesymoli a rhannu'r gofynion rheolaethol. Gwaith craidd y Ganolfan Fusnes Ysgolion yw darparu gwasanaeth rheoli gwybodaeth (SIMS) i'r ysgolion cynradd, a chanolbwyntir hefyd ar osgoi darparu cytundeb lefel gwasanaeth i'r ysgolion cynradd sydd yn sicrhau gwasanaethau megis cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd i ysgolion. Ceir ffocws hefyd ar leihau baich gwaith rheolaethol a gweinyddol penaethiaid ac athrawon.

GWASANAETH ADNODDAU

Pwrpas y gwasanaeth yma ydy rhoi cefnogaeth statudol angenrheidiol i ysgolion Gwynedd allu gweithredu o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys mynediad i ysgolion, cyflogau a chontractau staff, glanhau, arlwyo a chynlluniau bwyta'n iach, a chludiant i ysgolion. Rhoddir hefyd gefnogaeth cyllidol, adnoddau dynol, iechyd a diogelwch a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ysgolion. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi cefnogaeth i Lywodraethwyr ysgolion.

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant



Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn darparu amryw o wasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion 18 oed neu hŷn sydd angen cyngor, gwybodaeth, cymorth neu ofal oherwydd anghenion penodol. Pwrpas yr adran yw i alluogi oedolion Gwynedd i 'fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw'

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth canlynol:

- Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol – (Blaenoriaeth Gwella 6)
- Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal – (Blaenoriaeth Gwella 6)
- Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal – (Blaenoriaeth Gwella 6)


Wrth gwrs, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar holl wasanaethau'r adran. Er ein bod wedi llwyddo i gynnal y rhan helaethaf o'n gwasanaethau, mae hynny wedi bod ar ffurf rhywfaint yn wahanol gydag ambell wasanaeth. Bydd yr her o adfer rhai o'r gwasanaethau hyn yn ein wynebu yn ystod 2021/22, ac fe fydd angen pwysu a mesur ein opsiynau o ran adfer y gwasanaeth ar yr un wedd neu rhoi gwasanaeth newydd yn ei le.

Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anabledd Corff a Synhwyraidd

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i helpu unigolion i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i geisio cyflawni eu hamcanion personol drwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwasanaeth yn asesu anghenion mewn dull sy'n adeiladu ar gryfderau unigolion. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn ffordd syml a hwylus o fewn cymunedau.

Er mwyn parhau i wella ein cynnig ddi-dor, byddwn yn adeiladu ar y berthynas waith rhyngom â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, asiantaethau statudol a'r trydydd sector, a hynny er mwyn cyfarch amcanion personol oedolion.



Gwasanaeth Iechyd Meddwl

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i gynnig cefnogaeth i unigolion dros ddeunaw sy'n profi anawsterau iechyd meddwl gan roi cymorth iddynt i fyw bywyd llawn ac i gefnogi adfywiad.

Rydym yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i gefnogi unigolion ag anawsterau iechyd meddwl o fewn y gwasanaethau cynradd ac yn cefnogi unigolion efo anghenion mwy dwys neu gymhleth, er mwyn hyrwyddo adferiad a'u cefnogi i fyw yn annibynnol. Rydym hefyd yn cynnig asesiad a chefnogaeth i ofalwyr iechyd meddwl.

Gwasanaeth Anableddau Dysgu



Pwrpas y gwasanaeth yw i gyfarch anghenion llesiant corfforol, emosiynol, meddyliol a chymdeithasol unigolion ag anabledd dysgu.

Rydym yn darparu cefnogaeth drwy ganolbwyntio ar lesiant yr unigolyn. Er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn llawn i anghenion unigolion, bydd ystod eang o'n gwasanaethau'n aml yn cael eu cynnig mewn partneriaeth.

Rydym eisiau canolbwyntio ar ddarpariaeth sy'n cynnig cyfleoedd i gymdeithasu a chynnal perthnasoedd. Mae ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol drwy'r hybiau lleol a chynlluniau llesiant lleol.



Gwasanaeth Llesiant

Prif bwrpas y gwasanaeth yw i wella ansawdd bywyd drwy gysylltu pobl, ond mae'r tîm hefyd yn rhoi ffocws ar gefnogi gofalwyr (di-dâl).

Rydym yn gwneud hyn drwy gynlluniau sydd â'r elfennau canlynol yn ganolog iddynt:

- pwyslais ar fod yn gymdeithasol a chymunedol (lleihau unigrwydd)
- hybu iechyd a lles positif
- hyrwyddo cydweithio gyda phobl a rhwng pobl
- cryfhau a datblygu gwasanaethau yn seiliedig ar beth sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

Mae cefnogi gofalwyr yn ganolog i'n gwaith a cheisir gwneud hynny trwy gynnig cyfleoedd newydd ac mae amryw o gynlluniau wedi eu datblygu. Wrth gwrs, rydym wedi gweld mwy o bwysau ar ofalwyr di-dâl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a byddwn yn mynd ati i adolygu trefniadau rhithiol a roddwyd yn eu lle yn sgil argyfwng Covid-19 er mwyn ystyried a oes modd dysgu gwersi ar sut i gefnogi gofalwyr yn well i'r dyfodol.

Mae'r rhan helaeth o waith y gwasanaeth yma'n derbyn sylw o fewn y flaenoriaeth 'Cynllun Llesiant Pobl' sy'n cael ei arwain gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Gwasanaeth Darparu



Rydym yn darparu gofal preswyl, gofal cymunedol a gofal dydd ar gyfer oedolion ag anghenion dwys a chymhleth.

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am y meysydd isod:

- darpariaeth Gofal Preswyl a Gofal Preswyl Dementia
- darpariaeth Gofal Cartref
- darpariaeth Gofal Dydd.

Mae llawer o waith y gwasanaeth yn derbyn sylw o fewn y prosiectau blaenoriaeth y mae'r adran yn arwain arnynt.

Roedd ardal Dolgellau wedi'i adnabod fel blaenoriaeth i ddatblygu darpariaeth gofal pwrpasol, ac mae'r ymdrech i adnabod safleoedd ar gyfer datblygiad yn yr ardal yma'n parhau. Rydym hefyd yn edrych ar ardaloedd eraill ym Meirionnydd yn ehangach.

Roedd galw hefyd am unedau pwrpasol i drigolion Llŷn, ac mae'r gwaith o adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli wedi cychwyn mewn partneriaeth â chymdeithas dai **Adra**. Disgwylir i'r cynllun 28 fflat gael ei gwblhau yn ystod 2022.

Mae'r flaenoriaeth yma yn derbyn sylw o fewn y prosiect flaenoriaeth 'Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol.'

Mae argyfwng Covid-19 wedi creu heriau newydd a gwahanol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn benodol, ac wrth i ni ystyried datblygiad pellach y gwasanaeth fe fydd yn hanfodol ein bod yn sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi sy'n deillio o'r heriau hynny.



Gwasanaethau Diogelu a Diogelwch Cymunedol

Pwrpas y **Gwasanaeth Diogelu** yw diogelu unigolion sydd ag anghenion cefnogaeth ac sydd mewn perygl neu'n dioddef camdriniaeth, a sicrhau ansawdd gwasanaethau'r adran drwy fonitro a chynnal archwiliadau i brofiadau unigolion.

Rydym yn arwain ar achosion o bryderon cynyddol, trefniadau o Ddiogelu Rhag Colli Rhyddid (trefn sy'n cefnogi ac amddiffyn pobl sy'n methu a gwneud penderfyniadau eu hunain na rhoi caniatâd am eu gofal) ac yn ymateb i gwynion a phryderon yn amserol.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am arwain gwaith partneriaeth **Diogelwch Cymunedol**, sy'n bartneriaeth statudol. Rydym yn gweithio dros ddwy sir, sef Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae'r risg wedi ei reoli (gan eithrio'i rhai wrthododd ymyrraeth)



Byddwn yn arwain ar y gwaith ar ran yr holl aelodau cyfrifol, sef y ddau Gyngor, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd i daclo a lleihau trosedd ac anhrefn er budd diogelwch a lles pobl y ddwy sir. Byddwn rŵan yn gweithio ar gynllun y bartneriaeth ar gyfer 2021/22 er mwyn ymateb i flaenoriaethau trosedd ac anhrefn a adnabuwyd yn y ddwy sir.



Gwasanaeth Busnes

Rydym yn darparu cefnogaeth i dimau rheng-flaen yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, a hynny er mwyn eu galluogi i gyflawni eu pwrpas er lles trigolion Gwynedd. Rydym yn gyfrifol am:

- Teleofal
- Datblygu'r Gweithlu
- Cyllid Cleientiaid
- Uned Incwm a Lles
- Contractio a Chomisiynu
- Gwasanaeth Gweinyddol
- Uned Cefnogi Systemau

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol



Mae'r adran hon yn darparu gwasanaethau rheng flaen sy'n bwysig i drigolion Gwynedd, megis casglu gwastraff, gwasanaethau profedigaeth a chynnal a chadw ffyrdd, cynnal fflyd, caeau chwarae a thiroedd gwyrdd. Mae gofalu am amgylchedd arbennig y sir yn ganolog i waith yr adran, ac mae'n cyfrannu at Gynllun Gweithredu Newid Hinsawdd y Cyngor. Mae'r Adran yn ogystal wedi llwyddo cyrraedd Achrediad Bsi 4500I (Iechyd a Diogelwch): 1400I (Amgylcheddol) a 900I (Rheolaeth Ansawdd)

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth ganlynol:

- Cymunedau Glân a Thaclus – (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu - (Blaenoriaeth Gwella 7)

Gwastraff ac Ailgylchu




Mae'r adran yn gyfrifol am dros filiwn o gasgliadau gwastraff o fewn cyfnod o 3 mis. Mae rhai o'r casgliadau yma'n cael eu methu, ac er bod y ffigwr yn isel (llai na 1%) rydym yn cydnabod bod y methiant yn bwysig i'r trigolyn. Mae'r adran bellach yn casglu gwybodaeth er mwyn dod i ddeall pam fod hyn yn digwydd ac i'w galluogi i ymateb i unrhyw broblemau perthnasol.

Rydym yn y broses o gyflwyno trefniadau casglu newydd a fydd yn lleihau'r nifer o gasgliadau sy'n cael eu methu ac yn gwella profiadau pobl Gwynedd o'r gwasanaeth gan sicrhau y bydd yr un criw ar yr un gylchdaith bob tro.

Mae'r newidiadau i drefniadau casglu gwastraff pob tair wythnos, a chasglu gwastraff bwyd a deunyddiau ailgylchu yn wythnosol, wedi arwain at gynnydd mewn ailgylchu, a bu i'r Cyngor gyrraedd targed statudol Llywodraeth Cymru o 64% o wastraff y sir yn cael ei ailgylchu erbyn diwedd Mawrth 2019/20 gyda perfformiad Gwynedd yn 64.74%. Bydd y targed yn codi i **70% erbyn Mawrth, 2025**.

Mae'n hanfodol ymdrin â **gwastraff** mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i'n plant a phlant ein plant. Mae Cyngor Gwynedd yn falch ein bod yn ymdrin â'n gwastraff mewn dull cyfrifol, a'n bod yn uchafu bod mor ecogyfeillgar â phosib yn y broses hon.



Mae claddu gwastraff yn y ddaear yn achosi llygredd i'r tir, dŵr a'r awyr. O 2020/21 ymlaen bydd Cyngor Gwynedd yn anfon prin dim i dirlenwi gan ein bod yn trin ein gwastraff gweddilliol yn y safle gwastraff i drydan, Parc Adfer. Mae'r hen safleoedd tirlenwi o fewn y sir, sydd bellach wedi cau, hefyd yn cynhyrchu trydan gwyrdd.


Rydym hefyd yn gyfrifol am y drefn o gasglu gwastraff gardd drwy'r sir gan ei droi yn gompost/gwrtait. Mae'r Adran yn cynnig y compost er defnydd trigolion Gwynedd ar adegau penodol yn y flwyddyn.

GwyrAD

GwyrAD yw ein safle trin bwyd sydd wedi ei leoli o fewn y sir, ac yn trin yr holl fwyd a gesglir gan drigolion a busnesau Gwynedd. Mae'r safle yn gallu ymdrin ag 11,000 tonnell o wastraff bwyd gan ei droi yn ynni gwyrdd sy'n cael ei gyflenwi i'r grid cenedlaethol. Mae hyn yn ddigon i gynhyrchu trydan i 850 o dai.

Mae capasiti o fewn y safle i gynyddu'r tunnelli o fwyd yr ydym yn ei gasglu er mwyn atal unrhyw wastraff rhag cyrraedd y bin gwastraff gweddilliol, a byddwn yn gweithio tuag at y nod hwnnw yn ystod 2020/21. Casglwyd 9200 tonnell o wastraff bwyd yn 2019/2020.

Gwasanaethau Gwastraff Masnachol



Rydym yn darparu casgliadau gwastraff ac ailgylchu masnachol i dros 2,000 o fusnesau'r sir. Ers peth amser, rydym wedi cyflwyno casgliadau ailgylchu a bwyd fel rhan o'r pecyn sydd ar gael i'r busnesau i sicrhau bod y cwmnïau'n dargyfeirio eu gwastraff o'r bin gweddilliol a manteisio ar y drefn ailgylchu. Mae hyn yn cyfrannu at berfformiad ailgylchu'r cyngor wrth adrodd yn erbyn ein targedau statudol ac mae'r perfformiad wedi codi'n sylweddol ers 2014. Gyda thargedau statudol

yn codi mae peth gwaith i'w wneud er mwyn gwella ymhellach a bydd gofyniad i wahanu deunydd ailgylchu, sydd ar hyn o bryd yn cael eu casglu mewn un bin cymysg gennym, yn dod i rym. Bydd y drefn newydd yn sicrhau fod y gwastraff yn cael ei drin yn gywir er budd yr amgylchedd.


Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- cwblhau'r newid i drefniadau casglu Gwynedd er mwyn gwella'r profiad a'r gwasanaeth i drigolion y Sir, gan leihau'r nifer o gasgliadau sy'n cael eu methu
- datblygu strategaeth wastraff newydd i'r sir

- ystyried dulliau arloesol i annog aildddefnyddio a chynyddu ailgylchu er mwyn sicrhau y gallwn gyrraedd y targed statudol newydd o 70% o wastraff yn cael ei ailgylchu erbyn 2025
- cynyddu ein casgliadau bwyd domestig a masnachol er mwyn ei drin yn GwyrAD a lleihau faint o'r deunydd yma sy'n cyrraedd y bin gweddilliol
- ceisio cyrraedd y nod o anfon dim gwastraff i'w dirlenwi
- hyrwyddo'r economi gylchog yng Ngwynedd (sef economi sy'n hybu aildddefnyddio ac ailgylchu gan leihau gwastraff)
- edrych i gynyddu ein darpariaeth masnachol er mwyn dod a ffrwd incwm i'r Cyngor a sicrhau fod gwastraff y sir yn cael ei ymdrin ag o mewn ffordd gyfrifol ac eco-gyfeillgar
- cynnig casgliadau ailgylchu wedi eu gwahanu i gwsmeriaid masnachol.

Edrychiad Strydoedd a Thiroedd Cyhoeddus

O ran yr amgylchedd lleol, mae'n hynod bwysig bod ein strydoedd yn lân a diogel ac felly mae'n rhaid eu glanhau'n rheolaidd. Mae edrychiad strydoedd a manau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd ac mae tîm bychan o swyddogion yn gyfrifol am ymdrin â throeddau amgylcheddol fel tipio slei bach, graffiti a baw cŵn. Rydym, ar gyfartaledd, yn cymryd 1.76 diwrnod i glirio eitemau sydd wedi eu tipio'n anghyfreithlon ar ôl cael gwybod amdanynt. Rydym yn defnyddio mesur o'r enw 'Mynegai Glendid' (cyfuniad o asesiad mewnol ac allanol) er mwyn asesu safon glendid ac edrychiad strydoedd.



Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolwg i sefydlu faint o 'ddiffygion' fel sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigarets sydd ar unrhyw stryd. Yn ôl yr arolwg annibynnol, mae safon glendid ac edrychiad strydoedd Gwynedd yn parhau i fod yn dda ac mae'n debyg bod newid ymddygiad er gwell yn ddiweddar i atal llanast. Yn ddiweddar, cynhaliodd Cadwch Gymru'n Daclus arolwg glanweithdra ar gyfer 2019-20. Mae'r sgor wedi'i gofnodi ar y chwith.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithio ar brosiect *Delwedd Bangor*, sydd â'r nod o wella edrychiad ac amgylchedd y ddinas. Mae Delwedd Bangor yn bartneriaeth gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Dinas, Ardal Gwella Busnes Bangor, Prifysgol Bangor a sawl mudiad arall, ac yn dempled o sut gellir gweithredu mewn partneriaeth i wella edrychiad cymuned.

Ers sefydlu'r bartneriaeth rydym wedi cyflawni:

- Gwneud ffwrdd ag arwyddion tai ar osod
- Cefnogi ymgyrch *Bangor di-blastig*
- Gwella edrychiad y Stryd Fawr
- Treialu hysbysu ar gylchfannau

Rydym yn awyddus i sefydlu partneriaethau tebyg ledled y sir, er mwyn cydweithio â chymunedau i wella edrychaid ac amgylchedd eu bro.

Cynnal Tiroedd




Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal ymylon ffyrdd a thiroedd agored er mwyn gwella ansawdd amgylchedd ein trefi a'n pentrefi a'u gwneud yn fwy diogel i drigolion. Mae cynilo ariannol wedi arwain at doriadau gwair llai rheolaidd erbyn hyn, ond rydym yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i hybu bioamrywiaeth, tra hefyd yn sicrhau fod ein cyffyrdd a'n mannau cyhoeddus yn aros yn ddiogel a deniadol.

Caeau Chwarae Plant

Mae plant, rhieni a gofalwyr plant yn gwerthfawrogi meysydd chwarae ac rydym yn cynnal 131 ohonynt ledled y sir. Mae offer chwarae yn ddrud iawn ac mae'r arian ar gyfer cael offer newydd yn hynod brin.



Byddwn yn ceisio cynnal meysydd chwarae fel eu bod yn ddiogel i blant a phobl ifanc gael eu mwynhau.



Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- addasu ein patrymau torri gwair er mwyn hybu bioamrywiaeth
- ymchwilio i dulliau eco-gyfeillgar o ymdrin â chwyn, gan geisio osgoi defnyddio chwynladdwr niweidiol lle bynnag y bo'n bosib
- ehangu ar ddatblygu partneriaethau cymunedol i wella ansawdd ac edrychiad y sir
- edrych ar dulliau amgen o gynnal a chadw meysydd chwarae, drwy gydweithio â chymunedau.

Gwasanaeth Profedigaeth



Rydym yn rheoli Amlogfa Bangor ac 16 o fynwentydd prysuraf a mwyaf y sir.


Mae'r gwasanaeth profedigaeth yn un hollbwysig i drigolion a byddwn yn sicrhau gwasanaeth sy'n briodol a pharchus.

Toiledau Cyhoeddus



Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal a glanhau **toiledau cyhoeddus** y sir. Nid oes rhaid i'r Cyngor ddarparu toiledau cyhoeddus, ac fe ddaeth cynllun i gau nifer o doiledau'r sir yn dilyn

ymgyngoriad 'Her Gwynedd'. Serch hynny, creda'r adran fod darpariaeth o doiledau cyhoeddus addas yn bwysig i brofiad unigolion o'r sir, ac fe ddatblygwyd dulliau amgen o gadw cymaint o doiledau a phosib ar agor – drwy bartneriaethu â chynghorau cymuned neu drwy gefnogi toiledau cymunedol o fewn busnesau Gwynedd.



Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi partneriaethu gyda'r Cyngor i gynnal darpariaeth amgen. Drwy weithio ar y cyd, rydym ymhlith y siroedd sydd â'r ddarpariaethau uchaf o doiledau cyhoeddus yng Nghymru.

Teledu Cylch Cyfng



Er mwyn diogelu a gwarchod y gymuned rydym yn gofalu am rwydwaith o gamerâu Teledu Cylch Cyfng (CCTV) ym mannau poblog y sir sef Bangor, Caernarfon a Phyllheli. Mae'r systemau yn cynorthwyo i fonitro digwyddiadau troseddol a gwrthgymdeithasol.

Mae'r Adran wedi gwella'r rhwydwaith o gamerâu teledu cylch cyfng ar draws Gwynedd er mwyn parhau gyda'r gwaith o ddiogelu trigolion ac eiddo'r sir.

Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- cynnig ehangu'r rhwydwaith drwy gydweithio â chymunedau.

Gwasanaeth Fflyd

Mae'r Adran yn gyfrifol am reoli a chynnal holl fflyd y cyngor. Mae'r Gwasanaeth Fflyd yn arwain a rhoi cymorth i adrannau'r cyngor er mwyn sicrhau defnydd priodol, diogel a chyfreithlon o'u cerbydau.

Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am gynnal a chadw dros 400 o gerbydau i safon uchel ac fe wneir hyn dros dri lleoliad gwahanol ar draws Gwynedd gyda gweithdai yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.

Mae'r adran wedi bod yn ceisio lleihau allyriadau carbon y fflyd drwy fuddsoddi mewn cerbydau effeithlon, gan gynnwys cerbydau trydan. Mae allyriadau'r fflyd wedi gostwng 19.8% rhwng 2005/06 a 2018.

Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:


- blaenoriaethu'r gwaith o ddad-garboneiddio'r fflyd
- ymchwilio i'r potensial o ddefnyddio hydrogen fel tanwydd di-garbon i redeg ein fflyd drom
- sefydlu system pŵl cerbydau ar gyfer y Cyngor, gan edrych hefyd ar gynnig defnydd cymunedol.

Priffyrdd a Goleuo Stryd




Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir ac er mwyn sicrhau hyn mae'r Cyngor yn cynnal 2,697 cilomedr o **ffyrdd sirol** ynghyd â 199 cilomedr o **gefnffyrdd** (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru). Ar hyn o bryd mae ein priffyrdd yng Ngwynedd, sef ffyrdd Dosbarth A a B, mewn cyflwr da gyda llai na 4% ohonynt yn ddiffygiol ac angen sylw.

Gyda lleihad yn y gyllideb berthnasol, parhau mae'r dirywiad yng nghyflwr ein ffyrdd Dosbarth C a di-ddosbarth. Oherwydd y pwysau ariannol ar y Cyngor mae'n anorfod y bydd pwysau pellach ar y gyllideb cynnal ffyrdd, a bydd yn her i ni atal dirywiad yn safon ein ffyrdd, yn enwedig y ffyrdd o lai o flaenoriaeth sef Dosbarth C a di-ddosbarth.



Mae Côt Ymarfer cenedlaethol newydd mewn grym erbyn hyn sydd yn rhoi pwyslais ar reoli risg. Mae'r gwasanaeth yn y broses o gyflwyno newidiadau i'r Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd er cysoni a diwygio i sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r côd newydd.

Rydym yn ceisio atal dirywiad sydyn yn safon ein ffyrdd. Drwy wneud hyn byddwn yn adlewyrchu ar yr hyn sydd o fewn y côd ymarfer newydd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn treialu defnydd o ddeunyddiau newydd neu ail-ddefnyddio deunyddiau er mwyn llenwi tyllau. Bydd hyn yn ein cynorthwyo drwy leihau ar waredu gwastraff ac yn cyfrannu at ein gwaith o leihau ein ôl troed carbon.



Cytundeb Cynnal Priffyrdd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am arwain partneriaeth o saith cyngor yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru er mwyn rheoli a chynnal 1,100km o gefnffyrdd (priffyrdd cenedlaethol pwysig Llywodraeth Cymru).



Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

Ein Gwasanaeth Priffyrdd sydd yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw ynghyd â delio â damweiniau a digwyddiadau sy'n deillio o dywydd garw a thu allan i oriau gwaith arferol.



Cynnal a Chadw Pontydd a Strwythurau


Rydym yn cynnal a chadw 631 pont drwy'r sir. Mae 338 pont bwa a 96 pont wedi eu rhestru sydd â gofynion ychwanegol. Yn ogystal, mae gennym 1,618 o waliau cynnal drwy'r sir sydd hefyd yn cael eu cynnal a'u cadw gan yr adran.

Goleuo Stryd

Rydym yn cynnal 18,705 o **oleuadau stryd** a 6,067 o **arwyddion** wedi eu goleuo er mwyn gwneud ein ffyrdd a'n strydoedd yn fwy diogel. Mae goleuadau yn defnyddio ynni trydan sydd ag effaith andwyol ar yr amgylchedd o safbwynt allyriadau carbon a llygredd golau.

Dros y 3 mlynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED (light emitting diode) gyda'r mwyafrif yn pylu neu ddiffodd pan fo'n briodol. Mae hyn i bwrpas lleihau costau ynni, lleihau allyriadau carbon ac atal llygredd golau heddiw ac i'r dyfodol. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cynorthwyo lleihau carbon wrth flaenoriaethu'r gwaith yma.

Allyriadau CO2 o ganlyniad i oleuadau stryd fesul blwyddyn (mewn tonnelli)



Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- cyflwyno Cynllun Cynnal Asedau newydd sydd yn blaenoriaethu ar sail risg
- treialu dulliau eco-gyfeillgar newydd o drin ein ffyrdd gan annog ail-ddefnyddio deunyddiau crai
- cyflwyno trefn electroneg symudol er mwyn i'n gweithwyr dderbyn a chofnodi gwaith. Bydd hyn yn galluogi i ni gyflawni'r gwaith yn fwy effeithlon.
- cwblhau'r gwaith o newid holl oleuadau stryd y sir i LED, sydd wedi sicrhau lleihad o bron i 12,000 tonnelli o garbon hyd yma.

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.



Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd



Ein pwrpas yw sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed; yn profi sefydlogrwydd yn eu bywyd ac yn cael y cyfleoedd gorau o ran eu hiechyd a'u lles.

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella canlynol:

- Cefnogi Llesiant Pobl - (Blaenoriaeth Gwella 3)
- Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd - (Blaenoriaeth Gwella 6)
- Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth - (Blaenoriaeth Gwella 6)
- Sicrhau fod teuluoedd a phlant ag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu - (Blaenoriaeth Gwella 6)

Mae sawl tîm o fewn ein gwasanaeth ac rydym yn gweithio o fewn 3 haen o angen:

1. **Ymyrraeth Gynnar**
2. **Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal**
3. **Timau Arbenigol**

Yng Ngwynedd rydym yn credu y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod plant yn datblygu orau pan maent yn cael eu cefnogi i dyfu a llwyddo o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Mae hyrwyddo llesiant a cefnogi trigolion i ffynnu yn mynd y tu hwnt i wasanaethau adrannau unigol, ac oherwydd hynny rydym am wneud gwaith pellach ar draws holl wasanaethau ataliol y Cyngor er mwyn gwella ein gallu i ymateb i anghenion trigolion Gwynedd, mewn dull cydlynus, integredig ac effeithlon.

Ymyrraeth Gynnar

Mae cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Mae gennym nifer o wasanaethau sy'n ymyrryd yn gynnar boed hynny yn gynnar ym mywyd plentyn er mwyn iddynt gael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu; neu'n

gynnar pan fo her neu bryder yn amlygu gyntaf cyn i bethau waethygu; a byddwn yn gwneud hynny drwy weithio gyda'r teulu cyfan.

Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar

Ein pwrpas yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed drwy gefnogi darpariaethau addysg feithrin, datblygu'r sector gofal plant a chwarae, a darparu pecynnau rhiantu i helpu teuluoedd i fagu plant iach, hapus a diogel.

Rydym hefyd yn darparu pecynnau o gefnogaeth fwy dwys mewn ardaloedd penodol o Wunedd drwy'r rhaglen **Dechrau'n Deg**. Mae'r rhaglen yn cefnogi teuluoedd gyda magu plant a rhiantu, datblygiad iaith a lleferydd plant, a chefnogaeth iechyd a gofal, a hynny mewn timau aml-asiantaethol o fyd addysg, gofal a iechyd.



Tîm o Amgylch y Teulu

Ein pwrpas yw ymyrryd yn gynnar pan fo problemau o fewn teuluoedd yn dod i'r amlwg, ond mae hyn yn digwydd yn wirfoddol gyda chaniatâd y teulu. Byddwn yn helpu drwy ymateb i anghenion a darparu gwasanaethau priodol.

Rydym wedi derbyn 282 o gyfeiriadau i'r Tîm o Amgylch y Teulu yn ystod 2019/20.

Gwasanaeth Ieuencid

Mae cael y cyfle i gymdeithasu, i gymryd rhan mewn gweithgareddau a pharhau i ddysgu a datblygu sgiliau newydd y tu allan i'r ysgol yn bwysig i bobl ifanc y sir. Mae cefnogi pobl ifanc i adeiladu gwydnwch i ddelio gydag unrhyw heriau all eu wynebu yn y dyfodol yn bwysig iawn i'r Gwasanaeth Ieuencid. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod eisiau ein cefnogaeth ni i'w helpu i edrych ar ôl eu hiechyd a lles, i'w helpu i ddatblygu a dysgu sgiliau, ac i'w helpu i fod yn rhan o'u cymunedau.


Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal

Mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn byw bywydau hapus, diogel ac yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu ac i chwarae. Fodd bynnag, mae rhai plant a'u teuluoedd angen cyngor a chymorth mwy ffurfiol ar adegau.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am arwain, ymchwilio a rheoli ymyrraethau diogelu plant y sir. Rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, meddygon, ac ymwelwyr iechyd ayyb i gyflawni'r cyfrifoldeb statudol yma. Mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor.

Mae'r **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth** yn cynnal safonau uchel wrth ymateb yn amserol i gyfeiriadau all fod yn rhai diogelu, ac i gyfeiriadau am ofal a chefnogaeth. Er mwyn diogelu plant a phobl ifanc rydym yn ymateb heb oedi i gyfeiriadau. Pan fo'r cyfeiriadau hynny yn cynnwys pryderon am honiadau o gamdriniaeth, rydym angen ymchwilio i'r honiadau yn unol â'r Canllawiau Amddiffyn Plant. Byddwn yn gwneud penderfyniad ar bob achos o fewn pedair awr ar hugain er mwyn penderfynu ar y ffordd orau i ymateb.

Mae'r **Timau Gwaith Cymdeithasol** yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth ddwys i blant a'u teuluoedd. Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweld plant a'u teuluoedd yn rheolaidd ac yn cadw cysylltiad da gyda hwy gan fod yn effro i faterion o risg i blant a phobl ifanc. Rydym yn sicrhau fod adnoddau ar gael i'w cefnogi a bod eu hanghenion yn glir i ni. Mae cynlluniau yn eu lle wedyn ar gyfer ymateb i'w anghenion. Ar adegau, rydym yn cyfeirio ymlaen i dimau sydd yn cynnig ymyrraeth fwy arbenigol, fel y gwasanaethau yn y Tîm Trobwynt.



Rydym yn cynnal ymchwiliadau amddiffyn plant, ac weithiau mae rhai teuluoedd angen cefnogaeth ddwys iawn ac mae angen i ni ddod â phlant sydd mewn perygl i ofal y Cyngor.


Mae plant yn dod i'n gofal fel arfer o dan amgylchiadau anodd iawn, ac rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun.

Mae lleihad yng nghydymffurfriad cynnal cynadleddau ar amser yn 2019/20 yn bennaf ddeillio o oediadau oherwydd achosion llys a salwch staff. Er yr oediadau, mae

cynadleddau yn cymryd lle ac unrhyw drefniadau amddiffyn plant sydd angen bod yn eu lle yn parhau i ddiogelu plant rhag niwed.


I sicrhau fod plant a phobl ifanc yn profi sefydlogrwydd rydym yn cefnogi plant i fyw gartref gyda chefnogaeth lle bo hynny'n bosibl. Rhoddir pwyslais hefyd ar geisio lleoli plentyn gydag aelodau o'i deulu estynedig neu ffrindiau'r teulu. Lle nad yw hynny'n bosibl, lleolir y plentyn gyda gofawyr maeth cofrestredig, neu ar adegau bydd rhai plant a phobl ifanc angen unedau preswyl arbenigol i gwrdd ag anghenion penodol.

Rôl y **Tîm Maethu** yw sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref.



Rydym yn asesu a chefnogi gofaluwr maeth er mwyn iddynt allu cynnig y gefnogaeth angenrheidiol i blant sy'n dod i'n gofal, ac mae hyn yn flaenoriaeth uchel i'r Adran. Rydym yn ymwybodol bod plant sydd mewn sefyllfaoedd sefydlog yn cael y cyfle gorau i brofi'r ffiniau hynny sydd yn allweddol i ddatblygiad da. Mae hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni'r canlyniadau gorau iddynt.


Tra bo plentyn yng ngofal y Cyngor, ein cyfrifoldeb yw darparu cynllun gofal clir ar ei gyfer sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud er lles y plentyn ac nad oes unrhyw oediad yn ei gynllun.



Mae'r **Tîm Ôl-16** yn cefnogi pobl ifanc sydd un ai angen eu diogelu neu angen gofal a chefnogaeth, ac mae'n cynnwys pobl ifanc sydd wedi gadael gofal hyd at 25 oed. Mae'r gweithwyr yn gweld y bobl ifanc yn rheolaidd ac yn annog iddynt gadw cysylltiad da gyda'u teuluoedd ac yn datblygu eu sgiliau i fyw yn annibynnol. Mae'r Cynllun "Pan Fydda i'n Barod" yn cynnig opsiwn i bobl ifanc nad ydynt yn barod i symud o'u lleoliad maeth ar eu pen-blwydd yn 18 oed i aros hyd nes eu bod nhw'n barod i wneud hynny.

Y Timau Arbenigol

Pwrpas **Gwasanaethau Trobwynt** yw lleihau anghenion drwy gynnig ystod o ymyraethau a chefnogaeth ddwys i blant sydd ar fin dod i ofal, sydd newydd ddod i ofal, neu i ddychwelyd plant adref o ofal yn ddiogel. Wrth gydweithio'n agos a chyd-gynhyrchu cynlluniau gofal gyda'r plant a'u teuluoedd mae anghenion iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol plant a'u teuluoedd yn cael eu diwallu.



Mae anghenion y teuluoedd y bu i ni eu cefnogi yn ystod 2019/20 wedi bod yn fwy cymhleth a dwys; yn arbennig felly y nifer o bobl ifanc yn eu harddegau a oedd yn derbyn cefnogaeth.

Fel rhan o'r ymyraethau hyn mae'r **Tîm Trobwynt** yn cynnig pecynnau cefnogi dwys gyda'r nod o gadw plant yn sefydlog yn eu cartrefi. Mae'r **Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)** yn cynnig ymyrraeth arbenigol i deuluoedd ble mae camddefnydd o alcohol a chyffuriau gan y rhieni a gofaluwr yn ffactor o risg i'r plant. Oherwydd natur ddwys yr ymyrraeth, mae'r gwasanaeth wedi ei flaenoriaethu ar gyfer y teuluoedd ble mae'r risg i blant yn uchel. Mae'r prosiect **Adlewyrchu** yn cynnig cefnogaeth arbenigol i rieni sydd â phlant yn y system gofal yn barhaol. Yn ogystal, mae **Trobwynt** yn

cynnig gwasanaeth arbenigol sy'n canolbwyntio ar ddiwyddu gorchmynion gofal lle mae gwaith dwys eisoes wedi ei gwblhau, a thrwy hynny yn cynnig ffordd allan o ofal i blant a'u teuluoedd.

Mae **Tîm Derwen** yn darparu gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a gwael a'u teuluoedd. Rydym yn darparu cymorth i bobl ifanc anabl i'w helpu i gael eu cynnwys mewn gweithgareddau a bywyd cymunedol a chynyddu sgiliau i'w gwneud yn fwy annibynnol. Rydym yn darparu cyfnodau o ofal seibiant drwy wasanaeth cefnogol i nifer fawr o deuluoedd. Mae'r tîm yn un amlddisgyblaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd. Mae gennym weithwyr cymdeithasol, nyrsys a seicolegwyr yn gweithio yn y tîm ac oherwydd ystod eang o anghenion cymhleth mae ein gweithwyr angen meddu ar sgiliau arbennig i ymateb i anghenion y plant a'u teuluoedd.



Pwrpas y **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid** yw gweithio yn ddwys gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu i'w hatal rhag aildroseddu. Rydym yn cynnig ystod eang o ymyrraethau arbenigol ac yn gweithio gyda'r teulu cyfan er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau i helpu'r plant a phobl ifanc rhag aildroseddu. Rydym hefyd yn gweithio yn ataliol gyda phlant a phobl ifanc i'w hatal rhag troseddu yn y lle cyntaf. Byddwn yn gwneud hyn mewn partneriaeth ag ysgolion ac o fewn cymunedau'r unigolion. Rydym yn dîm amlasiantaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Bwrdd Iechyd, Gyrfa Cymru, Tai Gogledd Cymru ac eraill.

Sut rydym yn sicrhau ansawdd Diogelu

Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn mae gennym **Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd** sydd yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar y maes pwysig hwn. Rydym yn gweithredu'r dyletswyddau statudol i adolygu achosion Plant mewn Gofal, ac yn rhoi arweiniad ar amddiffyn plant, gan gadeirio Cynadleddau Achos a Chyfarfodydd Strategaeth lle mae honiadau yn erbyn pobl broffesiynol.

Byddwn yn cynnal cynadleddau amddiffyn plant mewn partneriaeth â'r teuluoedd a gweithwyr eraill. Mae ymyrryd gyda theulu i ddiogelu'r plentyn yn gallu bod yn anodd iddynt. Yn aml, nid ydynt yn croesawu'r cymorth yma ac yn aml yn cydweithredu trwy orfodaeth. Ein nod yw sicrhau fod llais y plentyn yn fwy amlwg yn y trafodaethau a bod teuluoedd yn cymryd rhan fwy effeithiol yn eu cynllun diogelu.

Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn monitro cynlluniau gofal pob plentyn a pherson ifanc sydd mewn gofal. Maent yn sicrhau fod y cynlluniau gofal wedi rhoi ystyriaeth briodol a phwysau i ddymuniadau a theimladau'r plentyn, a bod y plentyn yn deall ei sefyllfa yn llawn o ystyried ei oed a'i ddealltwriaeth. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu diogelu trwy gydol eu hamser mewn gofal. Maent yn gwranddo ar blant, gwneud yn siŵr eu bod yn hapus gyda'u cynlluniau, sicrhau bod eu barn yn cael llais a bod eu cynlluniau yn cael eu dilyn, a bod yn ddigon grymus i wneud rhywbeth am y peth os nad ydynt yn cael eu dilyn.



Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Adran Amgylchedd



Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar y prif feysydd canlynol:

- Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu
- Gwarchod y Cyhoedd
- Trafnidiaeth a Chefn Gwlad

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella canlynol:

- Capasiti Gwarchod y Cyhoedd - (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd - (Blaenoriaeth Gwella 8)

Yn naturiol, mae argyfwng Covid-19 a'r cyfyngiadau sydd wedi dod gydag o wedi cael effaith sylweddol ar holl wasanaethau'r adran, gyda nifer e.e ein gwasanaethau **Gwarchod y Cyhoedd** yn cyflawni gwaith tra gwahanol i'r arfer, a hynny o dan bwysau. Rydym wedi sefydlu gwasanaeth gwbl newydd, y **Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu**, ac wedi gorfod dod o hyd i atebion gwahanol i sicrhau ein bod yn medru parhau i ddarparu gwasanaethau eraill. Mae hyn oll wedi cael effaith ar rediad arferol yr adran, ac ar ein blaenoriaethau'n ystod 2020/21. Bydd yr her o adfer a sefydlogi yn ein wynebu yn ystod 2021/22, ac fe fyddwn yn defnyddio'r gwersi sydd wedi codi o'r argyfwng wrth ystyried siâp ein gwasanaethau i'r dyfodol.

Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu

- Gwasanaeth Cynllunio
- Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn)
- Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu

Gwasanaeth Cynllunio

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd ein cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol).

Yn ystod 2019/20 derbyniwyd dros 1,000 o ymholiadau cynllunio cyffredinol neu ymholiadau cyn cyflwyno cais. Rydym yn gwneud penderfyniadau ar **geisiadau cynllunio** i ddatblygu tir ac yn ymdrin ag oddeutu 1,100 o geisiadau cynllunio'n flynyddol, gyda dros 91% o geisiadau'n derbyn caniatâd. Mae ceisiadau'n cymryd 68 diwrnod i'w penderfynu ar gyfartaledd gydag oddeutu 86% yn cael eu penderfynu o fewn yr amser gofynnol.



Rydym yn cymryd **camau gorfodaeth** ar ddatblygiadau sydd heb gael caniatâd cynllunio gan ymdrin ag oddeutu 210 o achosion yn flynyddol. Fe ymchwiliwyd i 60% o'r achosion gorfodaeth o fewn 84 diwrnod ac mae nifer o rybuddion gorfodaeth wedi eu cyflwyno.

Rydym yn delio gyda phob math o ddatblygiadau megis tai (yn cynnwys tai fforddiadwy), ysgolion newydd, ffatrioedd a datblygiadau is-adeiledd sylweddol megis cynlluniau gan y Grid Cenedlaethol.

Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn)

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i baratoi dogfennau polisi cynllunio, yn cynnwys paratoi a monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a Chanllawiau Cynllunio Atodol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac mae'n cynnwys mapiau a pholisïau ysgrifenedig a ddefnyddir i benderfynu ceisiadau cynllunio.

Ers mabwysiadu'r **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** (Gwynedd a Môn), mae 8 (allan o gyfres o 17) o Ganllawiau Cynllunio Atodol wedi eu mabwysiadu gydag 2 arall wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r canllawiau yn rhoi cig ar esgyrn polisiau cynllunio, ac yn atgyfnerthu gallu'r Cynllun Datblygu i roi sail gadarn i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i'r dyfodol. Mae Adroddiad Monitro Blynyddol draft wedi cael ei baratoi ar gyfer 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 ac wedi ei drafod efo Aelodau'r Cabinet. Bydd y gwasanaeth angen cyflwyno adroddiad fydd yn adrodd ar gyfnod o 2 flynedd ym mis Hydref 2021 gan nad oedd yn rhaid adrodd yn 2020. Casgliad yr Adroddiad Monitro Blynyddol drafft oedd bod y cynllun yn cyflawni'r strategaeth a bod polisiau'r cynllun yn gweithio.


Rhoddir hefyd arweiniad ar faterion polisi cynllunio i Awdurdod Cynllunio Gwynedd, Awdurdod Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn, sefydliadau allanol a'r cyhoedd.

Yn sgil Deddfwriaeth fydd yn dod i rym yn 2021 i greu Cydbwyllgor Corfforaethol (CJC) ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru (a'r rhanbarthau eraill), bydd gofyn statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Bydd disgwyl i'r Cyngor gyfrannu tuag at y costau o greu Uned Newydd fydd yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, gyda hyn ar adeg lle bydd y Gwasanaeth angen bod yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygieidig neu Newydd.

Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i sicrhau'r safonau gofynnol i sicrhau iechyd a diogelwch pobl o gwmpas adeiladau tra yn gwella cadwraeth tanwydd a phŵer, amddiffyn a gwella'r amgylchedd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Rydym hefyd yn sicrhau bod mynediad a chyfleusterau angenrheidiol yn cael eu darparu ar gyfer pobl ag anableddau mewn adeiladau newydd ac fel rhan o addasiadau.

Mae'n rhaid i waith adeiladu gael ei gyflawni yn unol â gofynion penodol Rheoliadau Adeiladu. Mae hyn yn



bwysig a gwerthfawr i bobl Gwynedd, gan y bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adeiladu yn ddiogel ac o'r safon angenrheidiol.

Yn nhermau adeiladau a strwythurau peryglus, rydym yn cynnig gwasanaeth 24 awr i sicrhau bod iechyd a diogelwch trigolion Gwynedd yn cael ei warchod.

Ar gyfer ceisiadau Rheolaeth Adeiladu Llawn, mae'r gwasanaeth yn anelu i archwilio'r cynlluniau o fewn 15 diwrnod gwaith, gyda'r penderfyniad yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosib, ac yn cynnig cydweithio yn agos gydag adeiladwyr a phenseiri er mwyn i gais gyrraedd safon da.

Yn dilyn adolygiad Ffordd Gwynedd mae'r Gwasanaeth yn canolbwyntio ar geisio cyflawni'r pwrpas o sicrhau fod gwaith adeiladu yn cael ei wneud yn unol â'r gofynion priodol, gyda rheoliadau yn cael eu gorfodi lle bo cyfiawnhad, i ddiogelu iechyd a lles trigolion a'r amgylchedd. Mae hyn hefyd yn golygu fod y Gwasanaeth yn ail edrych ar y model ar gyfer cyllido'r gwaith dydd i ddydd, gan hefyd fwydo mewn i newidiadau sydd yr y gweill yn genedlaethol gyda'r gyfundrefn Rheolaeth Adeiladu.

Gwarchod y Cyhoedd

- **Gwasanaeth Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu**
- **Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch**
- **Gwasanaeth Safonau Masnach**
- **Gwasanaeth Orlhain [rhan o drefn Profi, Orlhain, Diogelu Covid-19]**

Pwrpas cyffredinol y gwasanaethau hyn yw i warchod y cyhoedd mewn perthynas ag amrediad o faterion amgylcheddol ac iechyd.

Gwasanaeth Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu



Pwrpas y gwasanaeth yma yw sicrhau nad yw busnesau neu unigolion yn llygru'r aer, y tir, neu ddyfroedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol drwy ymateb ac ymchwilio i gwynion llygredd a niwsans statudol.




Rydym yn asesu diogelwch dŵr yfed o darddiad preifat ac yn gorfodi gwelliannau fel bo angen, gan asesu 536 sampl dŵr yfed dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd yn archwilio a monitro **prosesau diwydiannol** ar 49 safle ac yn rheoleiddio allyriadau diwydiannol i'r aer (llosgyddion gwastraff olew, malurwyr symudol, peiriannau sment).

Rydym hefyd yn trefnu angladdau lle nad oes teulu - gyda 14 o achosion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn trwyddedu'r meysydd â ganlyn er mwyn gwarchod defnyddwyr, busnesau a chymunedau Gwynedd rhag unrhyw effeithiau andwyol; ac yn cymryd camau gorfodaeth lle mae hynny'n ofynnol er mwyn cadw defnyddwyr y gwasanaethau trwyddedig yn ddiogel.

Gorfodi Trwyddedau	
 1,001 Eiddo Alcohol	 66 Eiddo Gamblo

- Trwyddedau alcohol ac adloniant (yn cynnwys digwyddiadau) a gamblo.
- Trwyddedau anifeiliaid yn cynnwys siopau anifeiliaid anwes, sefydliadau marchogaeth a sefydliadau bridio cŵn.
- Cerbydau, gyrrwyr a gweithredwyr tacsis.
- Safleoedd carafanau, a thrwyddedu delwyr metel sgrap.

 301 Cerbyd a 503 Gyrrwr Tacsî	 35 Trwyddedau Anifeiliaid
 477 Safleoedd Carafanau	 26 Delwyr Metel Sgrap

Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch

Pwrpas y gwasanaeth yma yw;

- Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddsbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yng Ngwynedd yn rhydd o beryglon i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol a labelu
- Atal marwolaethau, anafiadau a chyflyrau sy'n gysylltiedig â manau gwaith
- Gwarchod trigolion ac ymwelwyr i Wynedd rhag afiechydon heintus a chemegau niweidiol
- Cynorthwyo busnesau Gwynedd i gwrdd â'r gofynion statudol sy'n ofynnol ohonynt.

I wireddu ein pwrpas rydym yn addysgu unigolion a busnesau, ac yn cynnal rhaglenni o archwiliadau, yn samlo bwyd ac yn ymgymryd â gwaith ymchwil. Byddwn hefyd yn cwblhau ymyraethau adweithiol fel sydd angen. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at gynnal yr economi'n lleol drwy gynorthwyo busnesau i gydymffurfio â rheoliadau a delio gyda busnesau sy'n dewis peidio, fel nad ydynt yn derbyn mantais dros fusnesau cyfreithlon a pheri risg i iechyd y cyhoedd. Mae ein gwaith yn cynorthwyo'r Cyngor i wireddu ein hamcanion llesiant er mwyn sicrhau fod Gwynedd yn le iach, saff a chynaliadwy i fyw a gweithio ynddo.

Monitro 2019-20



Dros 2,100 o fusnesau bwyd



200 Sampl bwyd



70 o ddamweiniau a chwynion diogelwch



93.23% o fusnesau bwyd â sgôr o 3 (boddhaol) neu uwch



Dros 40 Ymweliad Addysgol



Ymweld â 2,000+ o fusnesau yn flynyddol

Ceisiadau am Wasanaeth



745
Diogelwch Bwyd



125
Iechyd a Diogelwch





320
Afiechydon Heintus

Gwasanaeth Safonau Masnach

Pwrpas y gwasanaeth yma yw hyrwyddo, cynnal a sicrhau amgylchedd teg a chyfiawn tra'n gwarchod buddiannau trigolion a busnesau Gwynedd.

Rydym yn gyfrifol am orfodi amrediad eang o ddeddfwriaeth yn ymwneud â chyflenwi a dosbarthu nwyddau a gwasanaethau ac yn ymdrin ag amryw o bynciau, yn cynnwys:

- diogelwch nwyddau
- codi ymwybyddiaeth o sgamiau a benthyca arian anghyfreithlon
- troseddau stepen drws
- gwerthu nwyddau â chyfyngiadau oed
- cyngor busnes
- nwyddau ffug a throeddau a hawliau eiddo deallusol
- e-fasnach ac ymchwiliadau rhynggrwyd
- cyfraith gwerthwyr tai a disgrifiadau eiddo
- petroliwm a ffrwydrion/tân gwyllt
- iechyd a lles anifeiliaid
- bwyd anifeiliaid
- pwysau a mesurau



Mae dyletswyddau craidd y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd wedi eu cyfyngu i faterion risg uchel ac ymdrechion i drïo parhau i ddarparu'r gwasanaethau craidd, wrth i'r ymdrechion o ymateb i'r pandemig barhau i gymryd blaenoriaeth yn 2021.

Y Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu (Gwasanaeth Newydd)

Sefydlwyd y gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu (TTP) ym mis Mai 2020, a daeth yn weithredol ar 1 Mehefin 2020. Mae'r gwasanaeth bellach yn cyflogi 103 o weithwyr.

Amcanion y gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu yng Ngwynedd yw:

- Lleihau lledaeniad Covid-19 ar draws ein cymunedau drwy gefnogi pobl sydd wedi'u heintio gyda'r feirws i ynysu yn ystod eu cyfnod heintus

- Adnabod y bobl sydd wedi bod mewn cyswllt ag achos positif o Covid-19 a'u cefnogi i ynysu hyd nes i'r symptomau neu gyfnod magu'r haint fynd heibio
- Cefnogi pobl sydd â symptomau i gael mynediad at brawf Covid-19
- Gweithio â phartneriaid arbenigol ym maes rheoli risgiau i reoli unrhyw risgiau i bobl sy'n ynysu ynghyd â chymunedau a busnesau ehangach yng Ngwynedd.

Ers mis Mehefin 2020, mae TTP yng Ngwynedd wedi ymateb i:

- 8,049 o achosion Covid-19 yng Ngwynedd (rhwng 01/06/20-31/12/20)
- 1,420 o achosion (Index cases) Covid-19 wedi eu hadnabod (rhwng 01/06/20-31/12/20)
- 6,513 o gysylltiadau i Index Cases wedi'u creu.

Ar gyfartaledd, yng Ngwynedd mae gan achos positif 'Index Case' 4.67 o gysylltiadau.

Yn ogystal ag ymdrin ag achosion yng Ngwynedd, rydym yn ymgymryd â gwaith sylweddol ar ran awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru – gelwir hyn yn gyd-gymorth. Ers 1 Mehefin 2020, rydym wedi darparu'r gefnogaeth a ganlyn ledled Cymru i awdurdodau lleol eraill:

- Oddeutu 550 achosion positif Covid-19
- Oddeutu 370 o gysylltiadau i achosion positif

Mae hyblygrwydd y model TTP yn ein galluogi i fod yn fwy gwydn ledled Cymru gyfan, i leihau lledaeniad y feirws a sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus a bydd hyn yn parhau yn 2021.

Trafnidiaeth a Chefn Gwlad

- **Gwasanaeth Parcio a Gofal Stryd**
- **Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau**
- **Gwasanaeth Cludiant Integredig a Diogelwch y Ffyrdd**
- **Gwasanaeth Cefn Gwlad a Mynediad**

Nodir y bydd creu'r Cydbwyllgor Corfforaethol (CJC) ar gyfer Gogledd Cymru hefyd yn effeithio ar y gwasanaethau trafndiaeth gan y bydd un o ddyletswyddau'r CJC yn ymwneud a pharatoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd disgwyl i'r Cyngor fod yn cyfrannu tuag at y costau o greu uned newydd a fydd yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Gwasanaeth Parcio a Gwaith Stryd

Ar dro'r flwyddyn hon, adnabuwyd cyfle i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy gyfuno'r unedau Parcio a Gwaith Stryd oherwydd y synergedd rhwng cyfrifoldebau a gweithgareddau'r timau. Ffurfiwyd gwasanaeth newydd oddi fewn i'r Adran Amgylchedd, sef y Gwasanaeth Parcio a Gwaith Stryd.

Pwrpas y gwasanaeth yw sicrhau fod rhwydwaith y sir yn ddiogel a dirwystyr, hwyluso llif trafndiaeth a sicrhau bod safleoedd parcio priodol i bawb.

Rydym yn cwrdd â'n pwrpas drwy gyflawni'r agweddau canlynol:

- sicrhau nad oes rhwystr diangen i'r defnydd o briffyrdd yn sgil gweithgareddau a digwyddiadau, drwy gydgorio a rheolaeth briodol
- gorfodaeth parcio ar ac oddi ar ein strydoedd
- cynnal ein meysydd parcio a sicrhau eu diogelwch
- cynnal ein peiriannau talu ac arddangos.

Rydym yn gyfrifol am gydlynu a monitro'r holl weithgareddau a wneir ar y rhwydwaith briffordd gyhoeddus gan ymgymerwyr statudol (e.e. Dŵr Cymru, BT) neu eu contractwyr. Rydym hefyd yn **trwyddedu gosod sgipiau a sgaffaldau** ar ein ffyrdd yn ogystal â gorfodi perchnogion eiddo i dorri coed, symud rhwystrau oddi ar y ffordd ac yn y blaen.

Ffurfiwyd **Grŵp Tasg Parcio** yn 2019 er mwyn cynnal adolygiad o strategaeth parcio bresennol y Cyngor gan fod llawer iawn wedi newid ers i'r Cyngor gynnal yr adolygiad diwethaf yn 2015. Yn ogystal, mae'r flwyddyn hon wedi gwaethygu'r problemau yn nhermau parcio megis prinder llecynnau parcio ledled y sir o ganlyniad i'r ffaith fod y mwyafrif o bobl wedi aros yn y DU yn hytrach na mentro dramor ar wyliau yn sgil argyfwng Covid-19. Mae hyn yn sicr wedi amlygu'r angen am bwerau ychwanegol i ymdrin â cherbydau sydd yn creu rhwystr a gwell rheolaeth o gartrefi modur. Mae cyfle rwan i adolygu'r trefniadau presennol ac argymhell gwelliannau sydd yn cyrraedd datrysiadau priodol ac ymarferol.

Roedd pryderon wedi eu hamlygu yn ardal Dyffryn Ogwen am y diffyg llefydd parcio i drigolion a gweithwyr yr ardal. Er y bwriad i barhau i fonitro'r sefyllfa yno, oherwydd argyfwng Covid-19 roedd rhaid lleihau'r gwaith monitro yn sylweddol yn ystod 2020/21 ond byddwn yn ailgydio yn y gwaith yma unwaith y bydd sefyllfa'r argyfwng yn gwella.




Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau

Pwrpas y gwasanaeth yma yw galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio ffyrdd Gwynedd mewn modd diogel a dirwystr.

Rydym yn cwrdd â'n pwrpas drwy'r prif weithgareddau canlynol:

- sicrhau bod ein ffyrdd yn ddiogel a dirwystr ar gyfer pob defnyddiwr, a chynnig mesuryddion priodol i'w monitro a'u gwella
- cydymffurfio â'n ddyletswyddau o dan y Ddeddf Teithio Llesol 2013 drwy ddarparu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio, a hyrwyddo teithio llesol
- cyflawni prosiectau sydd yn ymwneud â diogelwch y ffyrdd, gwella'r rhwydwaith a thrafnidiaeth integredig a chynaliadwy mewn modd cost effeithiol, amserol a diogel
- sicrhau bod datblygiadau newydd sy'n cael effaith ar ein rhwydwaith ffyrdd wedi'u dylunio a'i gweithredu'n ddiogel.


Rydym hefyd yn rheoli prosiectau gwella ffyrdd amrywiol ledled y sir a bob amser yn edrych am gyfleoedd i ariannu ein cynlluniau trafndiaeth a diogelwch o ffynonellau allanol.



Gwasanaeth Cludiant Integredig a Diogelwch y Ffyrdd

Pwrpas y gwasanaeth cludiant yw darparu cludiant diogel o ansawdd sy'n gost effeithiol i drigolion Gwynedd. I'r perwyl hwn, yr uned sy'n gyfrifol am yr holl faterion yn ymwneud â chludo trigolion Gwynedd, boed hynny ar gludiant cyhoeddus, cludo dysgwyr i sefydliadau addysgol, cludiant cymunedol neu gludiant ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Mae dros hanner y **llwybrau cludiant cyhoeddus** o fewn Gwynedd yn derbyn cymorth ariannol i'w rhedeg oherwydd nad ydynt yn fasnachol-hyfyw. I hwyluso hyn, rydym yn paratoui contractau cludiant cyhoeddus yn ogystal â pharatoi a chreu amserlenni gweithredu ar gyfer y gwahanol lwybrau. Rydym hefyd yn gyfrifol am drefnu **contractau cludiant addysg** (gan gynnwys cynllun prynu seddau) er mwyn darparu trafndiaeth am ddim i ddisgyblion cymwys.



Mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth cludiant confensiynol ar gael, neu ar gyfer ein trigolion sy'n methu neu'n ei chael hi'n anodd i ddefnyddio cludiant cyhoeddus confensiynol, rydym hefyd yn ystyried cyfleoedd ar gyfer **cludiant cymunedol** e.e. defnyddio cerbyd trydan yn ardal Nebo a Nasareth i gludo teithwyr i gyfarfod bws ym Mhenygroes.

Rhaglen Gwella Bws (Bus Reform Programme)

Mae'r prosiect yma yn anelu i wneud gwelliannau ehangach i'r rhwydwaith ar draws Cymru erbyn diwedd Mawrth 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymgynghorwyr i gyflawni'r gwaith. Y nod yw sefydlogi'r rhwydwaith, cynyddu'r nifer o deithwyr gan ddefnyddio'r gwasanaeth bysiau i annog newid moddol ac ymddygiad teithio. Byddant yn dylunio rhwydwaith newydd yn Ionawr 2021. Does dim son am arian ychwanegol i gyfarch y newidiadau hyn. Bydd Trafnidiaeth i Gymru yn rheoli'r rhwydwaith.

Newid Hinsawdd

Yn unol â Chynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, i ymateb i newid hinsawdd rydym wedi sicrhau £.3.6m gan Llywodraeth Cymru i brynu 6 bws trydan a fydd yn gweithredu rhwng Blaenau Ffestiniog a

Chaernarfon a Blaenau Ffestiniog a Llandudno o Medi 2021. Mae hyn yn cydfynd â dymuniad Llywodraeth Cymru i fysiau cyhoeddus a taccis fod yn garbon niwtral erbyn 2028.

Pwrpas y gwasanaeth diogelwch ffyrdd yw ceisio lleihau anafiadau a damweiniau ar ein ffyrdd drwy ymgymryd â mentrau addysgol, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd.

Rydym yn cwrdd â'r pwrpas drwy ymwneud â'r agweddau canlynol:

- hyfforddiant beicio yn ddiogel (cynradd)
- hyfforddiant croesi'r ffordd fawr yn ddiogel (cynradd)
- ymgyrchoedd cerdded i'r ysgol (cynradd ac uwchradd)
- hyfforddiant 'Pass Plus Cymru' (gyrwyrr ifanc)
- rheolaeth cerbyd (gyrwyrr ifanc)
- byw yn iach - gyrru'n iach (gyrwyrr hŷn)
- ymgyrchoedd ar y cyd ag eraill ar agweddau yfed a gyrru, goryrru, gwregys diogelwch, seddi babis a ffonau symudol (oedolion).

Codwyd pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd tu allan i ysgolion cynradd ac uwchradd Penygroes sy'n gwasanaethu ardal Dyffryn Nantlle. Mae llwybr newydd wedi'i agor sy'n galluogi disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Bro Llew, Penygroes i gerdded i'r ysgol gan osgoi rhannau prysur o'r ffordd fawr. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i wella darpariaeth parcio a bysus ar yr amseroedd prysuraf, a'r gobaith yw i greu maes parcio newydd yn yr ardal.

Yn yr un modd, codwyd pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd tu allan i rai o'r ysgolion yng Nghaernarfon. Bellach, mae cynllun ar y gweill i wella diogelwch defnyddwyr ffyrdd yng nghyffiniau Ysgol y Gelli, Ysgol Syr Huw Owen a Chanolfan Byw'n Iach Arfon. Bydd y cynllun yma'n cynnwys mesurau i dawelu traffig, estyniad i faes parcio, darpariaeth i daccis a llwybr troed newydd.

Gwasanaeth Cefn Gwlad a Mynediad

Gwasanaeth Cefn Gwlad

Pwrpas y gwasanaeth yw gofalu am rwydwaith llwybrau Gwynedd, harddwch y tirlun a byd natur ar dir a môr.

Llwyddwyd i fwrw ymlaen gyda rhai o'r meysydd gweithredu a adnabwyd yn Adolygiad Ffordd Gwynedd y Gwasanaeth yn 2019, a bydd y gwaith yn parhau yn 2021/ 22.

Bioamrywiaeth ac AHNE Llŷn

Rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cyngor i warchod ein bioamrywiaeth yng Ngwynedd, drwy roi cyngor arbenigol ar geisiadau cynllunio, datblygiadau ac ymholiadau.

Mae argaeledd grantiau drwy'r **Bartneriaeth Natur Leol** wedi'n galluogi i gefnogi ac ysgogi gwaith sy'n gwella natur yn lleol ar draws y sir. Mae eu prosiectau ar gyfer 2021/22 yn cynnwys:

- Creu perllan gymunedol a difa planhigion ymledol i wella coridorau i beillwyr yn ardal Blaenau Ffestiniog
- Ym Mhwllheli mae partneriaeth leol sy'n cynnwys y Cyngor Tref ac ysgol Glan y Môr yn mynd ati i wella cysylltiadau cynefin a bioamrywiaeth mewn gwarchodfa leol a chodi ymwybyddiaeth am yr ardal ymysg trigolion lleol
- Cefnogi mudiadau lleol i reoli tir ger Trem yr Wyddfa, Penygroes er budd natur ac fel adnodd cymunedol.

Mae'r adran yn gyfrifol am gyd-gordio'r gwaith o reoli safle Ewropeaidd dynodedig ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau morol o bwysigrwydd Ewropeaidd, sef Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae'r adran hefyd yn gwarchod a cheisio rheoli ansawdd **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn** (AHNE) yn unol â phrotocol. Mae Cynllun Rheoli AHNE yn cael ei weithredu gan y Cyngor a sefydliadau eraill.

Mae **rhwydwaith llwybrau cyhoeddus Gwynedd** oddeutu 3,800km o hyd. Rhoddir blaenoriaeth i gynnal y llwybrau hynny sy'n roi cyfleoedd hamdden a teithio llesol o fewn cyrraedd i gymunedau. Mae'r Adran hefyd yn gyfrifol am gynnal a datblygu'r Llwybr Arfordir cenedlaethol sydd oddeutu 300km o hyd yng Ngwynedd. Rydym yn ymdrin â cheisiadau i wyro a chreu llwybrau ac yn cynnal a diweddarau'r map diffiniol sy'n dangos rhwydwaith hawliau tramwy'r sir.

Mae rhaglen grant i wella mynediad wedi caniatáu gwelliannau i lwybrau ar draws y sir gan gynnwys llwybr Buan rhwng Llanelltyd a Dolgellau oedd wedi'i erydu yn ddrwg. Mae'r llwybr bellach yn gallu cael ei ddefnyddio gan y gymuned gyfan.

Roedd nifer o ddefnyddwyr Lôn Eifion a Lôn Las Menai yn bryderus nad oedd posibl dilyn canllawiau pellhau cymdeithasol oherwydd rhannau cul i'r llwybrau. Bydd gwelliannau'n cael eu gweithredu'n fuan yn 2021/22 i ledi'r llwybrau a gwneud mynedfeydd yn fwy hwylus i bawb eu defnyddio.

Yn dilyn galw lleol i gwblhau'r llwybr beicio rhwng Tywyn ac Aberdyfi, sydd eisoes yn un o flaenoriaethau'r Cyngor, mae'r Adran wedi wedi methu a chanfod arian grant gan Lywodraeth Cymru i'n galluogi i symud ymlaen â'r gwaith. Byddwn yn parhau i geisio canfod cyllid digonol i gwblhau'r linc Teithio Llesol pwysig yma.

Roedd galw hefyd i adeiladu llwybr aml-ddefnydd rhwng Pwllheli a Llanbedrog a fyddai'n galluogi defnyddwyr i gael mynediad rhwydd ar hyd arfordir deheuol Pen Llŷn. Mae gwaith cyfreithiol yn mynd rhagddo i geisio cael hawliau beicio a marchogaeth ar y llwybr er mwyn ehangu ein rhwydwaith Teithio Llesol, a bydd y gwaith yma'n derbyn sylw yn 2021/22.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio tuag at greu llwybrau arfordirol addas i'w pwrpas rhwng Tal y Bont, Bangor a Phorth Penrhyn, ac hefyd rhwng Dinas Dinlle a Threfor yn ystod 2021/2022.

Gwasanaeth Busnes

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i gefnogi gwasanaethau eraill yr Adran i gyflawni eu pwrpas.

Mae ein gwaith yn cynnwys rheoli contractau, cyllid ac incwm; rheoli datblygiad a gweithrediad effeithiol systemau technoleg gwybodaeth; integreiddio darpariaeth tendro a chaffael, pridiannau tir a darparu gwasanaeth cefnogol a gweinyddol i'r gwahanol wasanaethau.

Rydym yn paratoi, gweithredu, a rheoli nifer fawr o gontractau'r Adran; monitro cynnydd a pherfformiad darparwyr a chontractwyr yn nhermau cytundebau, contractau a chyllid y gwasanaethau; dylunio systemau gweithredol a gweithdrefnau'r Adran mewn ffyrdd cost-effeithiol a pharatoi a chyflwyno papurau gwaith yn ymwneud ag arbedion, newidiadau i'r sefydliad staffio a ffioedd a phrisiau.


Mae angen i ni reoli datblygiad a gweithrediad systemau technoleg gwybodaeth, dylunio systemau gweithredol a gweithdrefnau'r holl wasanaethau sy'n cael eu defnyddio ar draws yr Adran mewn ffyrdd cost-effeithiol a fydd yn arwain at arferion gweithio mwy effeithlon ac effeithiol.

Rheolaeth Categori Corfforaethol

Pwrpas y Gwasanaeth yw cydweithio a chefnogi gwasanaethau'r Cyngor i wario arian cyhoeddus mewn modd strategol a chywir.

Mae rheolaeth categori yn darparu dealltwriaeth ddyfnach o'r farchnad, cynhyrchion, cyflenwyr a'r gadwyn gyflenwi i ddatblygu cynlluniau categori strategol trawsadrannol.

Gwerth am Arian - Yn y flwyddyn 2019/20 arbedwyd £165,000 a nodwyd £78,000 arall fel arbedion posibl ynghyd â gwerth ychwanegol anariannol i bob contract corfforaethol a osodwyd yn ystod y flwyddyn. Yn 2020/21, er gwaethaf dargyfeirio staff a bod yn gyfrifol am PPE a nwyddau glanhau o safon am y chwe mis cyntaf, llwyddwyd i arbed £58,000 ac adnabod £23,000 ychwanegol rhwng Ebrill a Thachwedd.



Cadw'r Budd yn Lleol - Trwy ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad leol a chydweithio gyda Busnes Cymru sy'n darparu cyngor a chefnogaeth i baratoi cynnig roedd cynnydd yn y gwariant lleol o 1% o'i gymharu â 2018/19. Mae ymdrech y tîm yn 2019/20 yn parhau i wella canran lleol, a rhwng Ebrill a Thachwedd **2020** mae'r gwariant lleol wedi codi eto o 1%. Yn ogystal â'r cynnydd mewn gwariant uniongyrchol gyda'r farchnad leol, rydym yn annog cyflenwyr i gynyddu eu gwariant lleol o fewn eu cadwyni cyflenwi.

Am weddill 2020/21 mae rhaglenwyr datblygu cynlluniau strategol pellach yn ogystal â darparu cefnogaeth ymarferol i roi'r cynlluniau hynny ar waith. Rhoddir ffocws arbennig lle bo hynny'n bosibl ar gyd-ddatblygu a gweithredu arferion caffael gwerth cymdeithasol i alluogi chwarae teg i fusnesau bach a chanolig.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.



Adran Economi a Chymuned



Mae'r Adran Economi a Chymuned yn cynnwys ystod o wasanaethau sydd yn anelu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth ganlynol:

- 1) Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 2) Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £28,500 neu fwy) - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 3) Arloesi Gwynedd Wledig - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 4) Hybu Canol Trefi - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 5) Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 6) Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 7) Twristiaeth – llunio cynllun twristiaeth cynaliadwy - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 8) Adfywio: Llunio cynlluniau adfywio ar gyfer ein hardaloedd - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 9) Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith -(Blaenoriaeth Gwella 3)

Dyma fraslun o waith yr Adran yn 2021/22:

Gwasanaeth Datblygu Economaidd

Mae perfformiad yr economi yn effeithio ar ansawdd bywyd trigolion Gwynedd gan ddylanwadu ar gostau byw ac incwm aelwydydd. Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i greu'r amodau i fusnesau a mentrau sefydlu, cystadlu a datblygu yng Ngwynedd gan greu a chynnal swyddi o ansawdd ar draws y sir.

Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar gyflogwyr a busnesau Gwynedd yn 2020 - mae nifer busnesau, cynhyrchiant a gwerth busnesau wedi gostwng. Mae'r nifer sydd yn ddi-waith wedi cynyddu yn sylweddol a'r economi wedi mynd i ddirwasgiad. Mae Brexit hefyd wedi creu ansicrwydd i nifer o fusnesau, yn enwedig busnesau yn y sector amaeth a rhai sydd yn ddibynnol ar allforio a mewnfario nwyddau allweddol.

Roedd economi Gwynedd yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn llawer is na rhannau eraill o Gymru ac mae gwerth cynhyrchiant busnesau Gwynedd yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'n bwysig felly fod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau rhagweithiol i greu'r amodau fydd yn sbarduno twf yn yr economi a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd.

Roedd 16,010 o fusnesau, mentrau a chwmnïau cymunedol yng Ngwynedd yn 2019. Mae'r Adran yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol i'w helpu i sefydlu, sefydlogi a datblygu er mwyn cynnal a chreu swyddi. Mae'r Gwasanaeth yn rhoi sylw arbennig i gefnogi busnesau drwy ddarparu gwahanol becynnau cymorth busnes a hyrwyddo arloesedd i

1,200



o grantiau wedi eu rhannu i fusnesau Gwynedd yn 2020 gwerth £2.6 m

fusnesau gan eu hannog i wneud gwell defnydd o dechnoleg yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf gwledig.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ddatblygu prosiectau i wella cynhyrchiant economaidd y rhanbarth a chreu swyddi gwerth uwch yn y sir. Yn sgil y cynnydd sylweddol mewn diweithdra rydym hefyd yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn cefnogi busnesau i gyflogi a phobl Gwynedd i gael mynediad i swyddi.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn ceisio deall effaith hir dymor Covid-19 a Brexit ar fusnesau Gwynedd gan godi ymwybyddiaeth o ffynonellau cymorth er mwyn galluogi busnesau i ymdopi â'r newid.

Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o dros £1.35 biliwn, roedd dros 18,200 o bobl yn gweithio yn y maes yn 2019. Ond mae'r economi ymweld wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan Covid-19 gyda busnesau wedi bod ar gau drwy'r rhan fwyaf o 2020 a digwyddiadau wedi cael eu hatal. Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio



dros gyfnod yr haf gwelwyd nifer ymwelwyr i brif gyrchfannau ymwelwyr yn cynyddu yn sylweddol gan roi pwysau ar gymunedau lleol. Er mwyn gallu ymateb i bryderon cymunedau a busnesau, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o'r maes a mabwysiadu cyfres o egwyddorion er mwyn galluogi'r sector i adfer a datblygu'n gynaliadwy i'r dyfodol er budd a lles pobl Gwynedd.

Yn 2021/22 bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar gefnogi economi ymweld sy'n:

- dathlu a pharchu ein cymunedau, iaith a'n diwylliant;
- cynnal a pharchu ein hamgylchedd;
- sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd yn fwy nac unrhyw anfanteision

Gwasanaethau Morwrol

Gan fod tirwedd ac amgylchedd naturiol Gwynedd mor bwysig i ffyniant y sir, mae'r adran yn ceisio sicrhau **adnoddau diogel o ansawdd yn ein harbyrau, ein marinas ac ar draethau** Gwynedd er mwyn creu atyniadau hamdden i bobl leol ac ymwelwyr. Mae'r adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, 4 harbwr a 2 marina gan gynnwys Hafan Pwllheli sy'n cynnig llety i 400 o gychod.



1,777 o gychod a **923** o fadau dŵr personol wedi eu cofrestru yn ystod 2018/19

Yn 2021/22 byddwn yn:

- diweddarau Cynllun Rheolaeth Traethau Gwynedd
- gweithredu Strategaethau Carthu Harbwr Pwllheli a Doc Fictoria
- sefydlu trefniadau rheoli Hafan a Harbwr Pwllheli i'r dyfodol

Gwasanaeth Adfywio

Mae nifer o ffactorau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn cyfuno i wneud Gwynedd yn le arbennig i fyw, gweithio a mentro. Ond mae rhai o'r cymunedau lle nad ydi grym y farchnad yn gryf angen hwb ar adegau er mwyn gwyrddroi dirywiad, ac er mwyn ymateb i heriau sy'n eu hwynebu cyn gallu cyflawni potensial i'r dyfodol. Adfywio ydi'r broses yma ac mae'n **ymdrech fwriadol i gydweithio gyda phobl Gwynedd a phartneriaid i wella ardaloedd** er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gyda lle amlwg a chanolog i'r iaith Gymraeg.

Nid oes modd i un adran gyflawni amcanion agenda Adfywio Gwynedd ar ei phen ei hun. Er mwyn gwneud gwahaniaeth hirdymor a gwneud y defnydd gorau o adnoddau rhaid cydweithio ar draws adrannau'r Cyngor a chydag amrywiaeth o bartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae Bwrdd Adfywio trawsadrannol wedi cael ei sefydlu ac yn ystod 2021/22 bydd yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol gan roi sylw arbennig i raglenni gwella canol tref.

Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Mae'r adran yn darparu gwasanaethau er mwyn i bobl Gwynedd wneud ein cymunedau yn llefydd gwell i fyw. **Mae'n bwysig bod grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol yn cael eu cefnogi i ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol.** Mae gan y Cyngor rwydwaith o swyddogion i gefnogi cymunedau a 'CIST' o grantiau i gefnogi prosiectau cymunedol penodol.



Byddwn yn targedu rhai cymunedau yn fwy na'i gilydd gan roi sylw arbennig i gynllunio cefnogaeth i ardaloedd gyda'r anghenion mwyaf.

Yn 2021/22 byddwn yn:

- cefnogi rhwydweithiau cymunedol i gefnogi'r unigolion mwyaf bregus yn sgil Covid-19
- mesur y galw am gymorth gan gymunedau ac ystyried opsiynau i ddarparu'r gwasanaeth i'r dyfodol
- cyfrannu at waith Bwrdd Adfywio'r Cyngor drwy arwain ar y gwaith o ymgysylltu gyda chymunedau i geisio adnabod blaenoriaethau lleol.

Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth mewn 9 prif lyfrgell, 4 llyfrgell gymunedol a 3 dolen clicio a chasglu ar draws y sir. Mae'n bwysig i bobl Gwynedd eu bod yn gallu benthyg llyfrau a llyfrau llafar, a lawrlwytho e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac e-gylchgronau o'u dewis. Benthywyd 463,370 o eitemau gan bobl Gwynedd yn 2019/20. Ond nid yw holl drigolion Gwynedd yn gallu cyrraedd eu llyfrgell leol felly mae'r Cyngor hefyd yn darparu Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref sy'n ymweld â 479 o unigolion yn fisol. Mae Llyfrgelloedd Gwynedd hefyd yn cael eu comisiynu gan yr Adran Addysg i ddarparu gwasanaeth Lori Ni sy'n ymweld â phob Ysgol Gynradd, Arbennig a Dilydol ddwywaith y flwyddyn i fenthyg llyfrau darllen i blant 3-11 oed.

Mae pobl Gwynedd yn defnyddio'r llyfrgelloedd ar gyfer llawer iawn mwy na benthyg llyfrau. Maent yn llefydd croesawgar i bobl eu defnyddio ar gyfer amryw o anghenion - i gael gwybodaeth am wasanaethau, ynghyd â chymorth a chefnogaeth i gyrchu gwybodaeth ar-lein. Trwy'r Bartneriaeth Addysg Oedolion Gwynedd a Môn, rydym yn gallu trefnu a chynnig nifer o gyrsgiau byr a sesiynau blasu, megis sesiynau digidol, meddwlgarwch, a sesiynau crefft. Rydym hefyd yn cynnal gweithgareddau i Ddysgwyr Cymraeg, ac yn cynnal sesiynau i fabanod ac amseroedd stori i blant. Trwy ein Casgliadau Darllen yn Well, gellir cael mynediad at wybodaeth gellir ymddiried ynddo ar faterion iechyd a lles, yn cynnwys Dementia ac lechyd Meddwl. Mae trigolion Gwynedd hefyd yn gallu defnyddio un o'r 96 o gyfrifiaduron, neu'r wi-fi, sydd yn y llyfrgelloedd yn rhad ac am ddim i chwilio am waith, neu gael at wasanaethau lleol, yn ogystal â gallu llungopio a sganio.

Derbyniodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd adroddiad ardderchog ar ei berfformiad yn 2019/20, sy'n dangos fod y gwasanaeth yn perfformio'n dda oddi mewn i Fframwaith Asesu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Yn sgil Covid-19 mae'r llyfrgelloedd wedi bod ar gau i'r cyhoedd am gyfnodau helaeth, ond mae gwasanaethau amgen, gan gynnwys clicio a chasglu wedi bod ar gael.

Yn 2021/22 byddwn yn:

- parhau i gydweithio gyda chymunedau a hyrwyddo mynediad diogel i'r gwasanaeth
- dysgu o brofiad cyfnod Covid-19 ac yn adolygu trefniadau'r gwasanaeth llyfrgell deithiol
- ail agor Neuadd Dwyfor i'r cyhoedd a pharatoi achos busnes i'w chynnal i'r dyfodol

35,596
o bobol Gwynedd yn
aelodau o Lyfrgell



Gwasanaeth Archifau

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i **warchod ein cofnodion cyhoeddus a gwneud yn siŵr fod gan bobl fynediad atynt.** Rydym yn gwneud hyn trwy ddau archifdy yng Ngwynedd - Archifdy Caernarfon ac Archifdy Meirionnydd yn Nolgellau.



9,843

o ddogfennau wedi eu gweld
gan y cyhoedd yn 2019-20

Mae gan Archifdai Gwynedd ystod eang o ddogfennau, lluniau, mapiau a phapurau newydd, gyda'r ddogfen hynaf yn dyddio'n ôl i 1176. Ceir amrediad o gasgliadau cyhoeddus, swyddogol a phreifat sy'n adlewyrchu diwylliant a threftadaeth cymunedau Gwynedd. Mae'r Archifdai yn darparu sesiynau blasu, a chyrtsiau hanes teulu ac yn cydweithio gydag ysgolion cynradd Gwynedd.

Yn 2021/22 byddwn yn:

- cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac archifau eraill ar draws gogledd Cymru i adnabod cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o adnoddau archifau yn y rhanbarth
- gweithio gyda'r Adran Addysg i drafod cynnal y Gwasanaeth Addysg Archifau ac Amgueddfeydd i'r dyfodol
- adnabod cost digideiddio'r casgliadau a chydweithio i adnabod systemau i alluogi mynediad i gasgliadau digidol

Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Mae'r gwasanaeth yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am edrych ar ôl casgliadau a chreu arddangosfeydd yn y ddwy, sef Storiell ym Mangor ac Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy.

Mae llawer o'n gwaith yn y maes celfyddydau cymunedol yn targedu **prosiectau iechyd, lles, addysg a thaclo unigrwydd**. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am ddyrannu grantiau celfyddydol er mwyn cefnogi safon a chyfleoedd celfyddydol i bawb.

Mae'r amgueddfeydd wedi bod ar gau am gyfnodau helaeth yn y flwyddyn ddiwethaf a'r gweithgareddau celfyddydol wedi cael ei ddarparu yn rhithiol a thrwy gyfryngau amrywiol.

Ein nod fydd parhau i gyfoethogi bywydau trigolion Gwynedd trwy hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw.

Yn 2021/22 byddwn yn:

- gweithio gyda Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George i greu ffordd newydd o reoli'r Amgueddfa
- sicrhau llwyddiant cynllun Storiell a sefydlu Ymddiriedolaeth Ddatblygu ar ei chyfer allai weithio gyda'r sector gelfyddydol a threftadaeth yng Ngwynedd yn y dyfodol
- gweithio gyda'r sector gelfyddydol i wireddu amcanion ein strategaeth newydd i'r celfyddydau



64.000

o bobl wedi ymgysylltu
gydag ein hamgueddfeydd
yn 2019/20

Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gwledig

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn ysbrydoli, cefnogi a galluogi pobl Gwynedd i fod yn egniol a byw eu bywydau yn iach.

Mae tueddiadau iechyd trigolion Gwynedd ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gyda lefelau gordewdra plant 4 oed yng Ngwynedd ymysg yr uchaf yng Nghymru, mae'n allweddol fod Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn ymateb a chreu'r amodau i hyrwyddo byw'n iach.

Mae gan Gyngor Gwynedd rwydwaith o 12 o ganolfannau hamdden ar draws Gwynedd sy'n denu 1.3 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yma yn galluogi trigolion Gwynedd o bob oedran i ddysgu sgiliau newydd a mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau egniol mewn lleoliadau diogel.



Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i barhau i ddarparu'r cyfleusterau hyn ac wedi sefydlu Cwmni Byw'n Iach Cyf. er mwyn rhedeg y canolfannau ar ei rhan i'r dyfodol. Mae'r adran wedi gosod cytundeb i'r cwmni i reoli'r gwasanaeth o 1 Ebrill 2019 a byddwn yn monitro'r cytundeb yn rheolaidd er mwyn

sicrhau ansawdd y gwasanaeth. O ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19 mae'r canolfannau wedi gorfod bod ar gau am gyfnodau helaeth yn ystod 2020 a 2021.

Mae'r Cyngor hefyd yn rheoli parciau gwledig yng Nglynllifon a Phadarn. Mae'r parciau hyn yn safleoedd treftadaeth bwysig ac yn atyniadau poblogaidd i ymwelwyr. Ond mae'r parciau hefyd yn asedau gwerthfawr i wella llesiant trigolion Gwynedd a hyrwyddo byw'n iach. Bydd yr adran yn ceisio sicrhau mwy o fudd lleol i'r cymunedau o'r asedau hyn i'r dyfodol.

Yn ogystal â'r cyfleusterau hyn mae'r Cyngor yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod rhaglen o weithgareddau egniol cynhwysol ar gael i bobl ifanc drwy'r tîm Chwaraeon am Oes mewn canolfannau, ysgolion, clybiau ac yn y gymuned. Mae rhaglen o weithgareddau Cyfeirio i Ymarfer hefyd ar gael yng Ngwynedd i helpu lleihau effaith cyflyrau sy'n atal trigolion Gwynedd rhag ymarfer a gwella eu hiechyd. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd y cleientiaid ar gyfer y gwasanaeth yma, yn arbennig yn y meysydd dementia a chyflyrau cronig, ac mae tystiolaeth glir yn dangos effaith y buddsoddiad ar ansawdd bywyd ac iechyd. Darperir y 2 raglen yma yng Ngwynedd drwy gytundeb gyda chwmini Byw'n Iach.



Yn 2021/22 byddwn yn:

- cefnogi Cwmni Byw'n Iach i reoli canolfannau hamdden ar draws Gwynedd
- sefydlu trefniadau i uwchraddio a buddsoddi yn ein cyfleusterau hamdden
- cydweithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu model newydd i ddarparu gwasanaeth Chwaraeon am Oes ar draws gogledd Cymru a sefydlu gwasanaeth datblygu chwaraeon newydd ar y cyd â Chwmini Byw'n Iach yng Ngwynedd

- cydweithio gyda Chyrff Llywodraethol Chwaraeon er mwyn cynnig ystod o weithgareddau cynhwysol sy'n ymateb i'r galw yng Ngwynedd a'r cyfleoedd arbennig sydd ar gael yn y sir drwy ein hadnoddau naturiol
- cydweithio gyda Chwmni Byw'n Iach i ddarparu'r gwasanaeth Cyfeirio i Ymarfer ar ran y Cyngor i'r dyfodol
- datblygu opsiynau rheoli Parciau Gwledig Glynllifon a Pharc Padarn i'r dyfodol.

Mae blaenoriaethau lleol wedi cael eu nodi yng Nghynllun y Cyngor ers 2018/19 gan ymateb i'r anghenion oedd wedi eu codi gan Gynghorwyr lleol. Mae'r adran wedi defnyddio'r blaenoriaethau hyn wrth ddatblygu eu rhaglenni gwaith ehangach, ac felly mae nifer o'r anghenion yn cael eu cyfarch drwy waith sydd eisoes wedi ei ddisgrifio yn y Cynllun Adran hwn.

Isod rydym yn rhestru'r blaenoriaethau lleol ochr yn ochr â'r rhaglen neu brosiect sydd wedi ei chynllunio er mwyn ymateb i'r angen lleol a sirol hwnnw.

Blaenoriaethau Lleol	Rhaglen
<p>Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr lleol ardaloedd Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn yn ôl yn haf 2017, nodwyd dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflogau da er mwyn gwella sefyllfa economaidd trigolion lleol. Mae'r flaenoriaeth Creu Swyddi Gwerth Uchel yn datblygu cyfleoedd newydd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr fydd yn elwa'r cymunedau hyn. Yn ardal Porthmadog, nodwyd yn ogystal fod pryder ymysg y cynghorwyr lleol ynglŷn â chyflwr rhai safleoedd segur yn yr ardal ac mewn ymateb i hyn byddwn yn effro i unrhyw gyfleoedd i gefnogi gwella neu aildefnyddio'r safleoedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddi Gwerth Uchel • Hybu Canol Tref
<p>Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Dolgellau daeth i'r amlwg fod cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn llesteirio trigolion a busnesau'r ardal. Rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru • Arloesi Gwynedd Wledig
<p>Yn ardaloedd Dyffryn Ogwen a Dyffryn Nantlle, nododd y cynghorwyr lleol fod hyrwyddo ac adfywio'r stryd fawr yn flaenoriaeth leol, ac rydym wedi gwneud ceisiadau amlinellol ar gyfer peth gweithgaredd adfywio yn yr ardaloedd yma.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Hybu Canol Tref

<p>Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Bangor, nodwyd dyhead i wella edrychiad yr ardal leol ac i ymateb i siopau gwag, gan nodi dymuniad i gydweithio â phartneriaid megis busnesau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned i greu incwm er mwyn cyfrannu at y gwaith. Gallai hyn yn ei dro gefnogi busnesau a chrefftwyr lleol. Rydym yn ystyried y cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith a wneir eisoes ar y cyd ag Ardal Gwella Busnes Bangor a'n partneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn llunio ymateb. Mae arian grant ychwanegol i uchafu budd y Cynllun Benthyciadau di-log wedi ei sicrhau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Hybu Canol Tref
<p>Mae cyswllt hefyd gyda'r flaenoriaeth sirol ar gyfer rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith. Dylai adfywio'r ardaloedd yma wella unrhyw ddelwedd negyddol sy'n deillio o fod yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol gan ryddhau eu potensial.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith
<p>Yn ystod sesiwn ymgynghori yn ardal Ffestiniog fe ddaeth i'r amlwg fod pryderon ymysg cynghorwyr lleol ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol a'r gwasanaethau a leolir yno. Cynhaliodd y tîm Adfywio arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol. Mae cyfle yma, mewn cyfnod o gynni ariannol, i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.



Adran Tai ac Eiddo



Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn adran newydd a sefydlwyd yn ystod 2019 gyda'r nod o hwyluso gallu'r Cyngor i wynebu un o'r heriau mwyaf yn y Sir, sef sicrhau digon o dai pwrpasol a safonol i gyfarch anghenion poblogaeth sydd yn newid.

Mae'r Adran hefyd yn gyfrifol am reoli asedau eiddo'r Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer darparu gwasanaethau i drigolion y sir.

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r Adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth ganlynol:

- 1) Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu – (Blaenoriaeth Gwella 4)
- 2) Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai: Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai - (Blaenoriaeth Gwella 4)
- 3) Gosod tai cymdeithasol i bobl leol: Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol - (Blaenoriaeth Gwella 4)

Materion Tai

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru i hwyluso gallu'r Cymdeithasau Tai i adeiladu mwy o dai i bobl leol. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai yn gosod her i geisio adeiladu 500 o dai cymdeithasol newydd erbyn 2026. Mae gennym bellach Bolisi Gosod Tai Lleol newydd felly bydd trigolion Gwynedd yn cael blaenoriaeth am denantiaeth yn y tai newydd hyn.


Nifer o unedau newydd a ddatblygwyd gyda'r Grant Tai Cymdeithasol



Digartrefedd

Mae'r Gwasanaeth Digartrefedd yn darparu cyngor a chymorth i bobl sydd yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae'r tîm yn cyflawni dyletswydd statudol y Cyngor er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae eu gwaith yn cynnwys:

- helpu i atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd
- asesu anghenion llety ac anghenion cefnogaeth unigolion a theluoedd sydd dan fgythiad o fod yn ddigartref
- helpu i ffeindio rhywle arall i fyw pan fo unigolyn neu deulu yn wynebu dod yn ddigartref
- darparu llety dros dro mewn achosion o argyfwng, a sicrhau llety ar gyfer y rhai sydd mewn blaenoriaeth angen.



Llety Dros Dro

Nifer o bobl ddigartref y darparwyd llety dros dro ar eu cyfer ar yrder



2017/18 - 289

2018/19 - 339

2019/20 - 401

Mae'r gwasanaeth yn darparu nifer o lety dros dro nes bod eiddo parhaol ar gael i bobl ddigartref, gan gynnwys dwy hostel ym mherchnogaeth y Cyngor, 68 eiddo wedi eu prydlesu gan berchnogion preifat, a 31 eiddo wedi eu prydlesu gan Gymdeithasau Tai. Darparwyd llety ar gyfer 401 o deuluoedd/unigolion yn 2019/20. Mae'r niferoedd digartref wedi cynyddu'n gyson ers rhai blynedd ac mae pwysau cynyddol ar y gwasanaeth i ddelio gyda'r angen i gartrefu pobl ar fyr rybudd.

Cefnogaeth tenantiaeth



Gan fod nifer o bobl ddigartref yn fregus, darperir cefnogaeth i sicrhau fod unigolion yn gallu cynnal eu tenantiaeth ac osgoi dod yn ddigartref eto. Mae cymorth yn cael ei rhoi ar nifer o faterion megis hawlio budd-daliadau, cymorth ar gyfer cynnal a chadw llety, deall hawliau a chyfrifoldebau, a cheisio am grantiau ar gyfer dodrefnu eiddo.

Cofrestr Tai Cymdeithasol



Mae'r tîm Opsiynau Tai Gwynedd yn gweinyddu'r Gofrestr Tai Cyffredin ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r darparwyr tai cymdeithasol yn y sir sef Adra, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru. Prif nod y tîm ydi blaenoriaethu mynediad at dŷ cymdeithasol ar sail y mwyaf anghenus yn ein cymunedau ac i ddarparu cyngor i drigolion ar yr opsiynau tai

Nifer o deuluoedd y rhoddyd tenantiaeth o'r newydd iddynt mewn tŷ cymdeithasol yn ystod y flwyddyn



2017/18 - 573

2018/19 - 621

2019/20 - 696

sydd ar gael yng Ngwynedd. Gyda chymorth Opsiynau Tai Gwynedd llwyddodd dros 690 o deuluoedd i gael tenantiaeth gymdeithasol newydd yn 2019/20.

Cynllun ail leoli ffoaduriaid

Ers 2016 mae Gwynedd wedi cyfrannu at gynllun Llywodraeth y DU i Ailsefydlu Pobl Fregus o Syria. Ymrwymodd y Cyngor i groesawu a chartrefu hyd at 40 o unigolion oedd wedi gorfod ffoi o Syria yn dilyn y rhyfeloedd yno. Bellach rydym wedi cyflawni ein haddewid fel Cyngor ac yn ymfalchïo ein bod wedi gallu helpu 8 teulu i ymgartrefu yng Ngwynedd.



Yn sgil llwyddiant y cynllun hwn, mae'r Cyngor bellach wedi ymrwmo i groesawu hyd at 20 o ffoaduriaid mwyaf bregus sy'n cael eu hadnabod gan Uchel Gomisiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR) fel rhan o'r cynllun Ffoaduriaid Byd Eang dros y tair blynedd nesaf.

Safle teithwyr

Mae gofyn statudol ar bob Awdurdod Lleol i gwrdd â'r angen am safleoedd addas ar gyfer teithwyr. Mae safle pwrpasol yn cael ei rheoli gennym yn Llandygái ers blynyddoedd lawer ac yn dilyn derbyn cymorth grant gan Lywodraeth Cymru bu buddsoddiad o £1.8m yno yn ddiweddar i wella'r cyfleusterau ac ymestyn y ddarpariaeth i gwrdd â'r gofyn o fewn y sir.

Gorfodaeth Tai



Pwrpas y Tîm Gorfodaeth yw sicrhau cartrefi safonol, cynnes a diogel i denantiaid o fewn y sir. Rydym yn gyfrifol am orfodi safonau mewn 9,000 o dai rhent preifat a 8,500 o dai cymdeithasol yng Ngwynedd.

Rydym hefyd yn gofalu am Gynllun Trwyddedu Tai Aml Ddaliadaeth (HMO's) sydd yn gwirio fod tai o'r fath yn cyrraedd y safonau disgwylidig. Ar hyn o bryd mae 900 o dai aml ddeiliadaeth wedi derbyn trwydded gennym yn dilyn proses archwilio fanwl.

Mae'r Uned hefyd yn gweithio ar y cyd gyda Rhentu Doeth Cymru i gynnal cofrestr cenedlaethol o dai rhent, yn archwilio anheddau ar gyfer achosion y Swyddfa Gartref, delio gyda dros 300 o gwynion blynyddol yn ymwneud ag achosion o niwsans, ymdrin â phroblemau yn deillio o dai gwag ac yn ymdrin ag oddeutu 20 achos blynyddol o ddadfeddiannu anghyfreithlon.

Nifer o bobl a gynorthwywyd drwy ddatrys peryglon yn eu tai

2017/18 - 1,077

2018/19 - 1,454

2019/20 - 807



Addasiadau i Dai

Mae'r uned hon yn gyfrifol am hybu annibyniaeth a lles trigolion Gwynedd drwy ddarparu addasiadau prydlon a safonol i dai oedolion a phlant sydd ag anableddau corfforol. Buddsoddir oddeutu £1.3m y flwyddyn ar gynlluniau megis creu ystafelloedd ymolchi hygrych, gosod rampiau y tu allan i'r tŷ, codi estyniadau ayb. Mae oddeutu 30 o'r rhain yn gyfeiriadau a dderbynnir gan ysbytai er mwyn galluogi i gleifion allu dychwelyd adref. Rydym hefyd yn ariannu oddeutu 900 y flwyddyn o fân addasiadau megis gosod canllawiau, rampiau symudol ac addasiadau bychain eraill.



Mae'r uned yn gweinyddu benthyciadau di-log ar gyfer atgyweirio tai mewn cyflwr gwael sydd mewn perchnogaeth trigolion ar incwm isel, mae galw sylweddol a chyson ar y benthyciadau hyn.

Tai Gwag




Mae oddeutu 1,300 o dai gweigion yng Ngwynedd ar hyn o bryd, ac mae gennym rôl bwysig wrth geisio dod a'r tai yma yn ôl i ddefnydd er mwyn cyfrannu at y nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael i bobl leol. Ers 2008 mae dros 600 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd drwy ddulliau megis cynnig grantiau i brynwyr tro cyntaf, darparu benthyciadau i landlordiaid a defnyddio pwerau gorfodaeth. Mae hyn wedi arwain at allu cartrefu dros 1,000 o bobl leol mewn tai oedd

yn arfer bod yn wag ers peth amser. Yn ystod 2019/20 buom yn ffodus i ddenu grant ychwanegol ar gyfer dod a tai gwag yn ôl i ddefnydd sy'n egluro'r naid mewn niferoedd y flwyddyn hon.

Tlodi Tanwydd

Mae rhan fwyaf o adnoddau'r Llywodraeth yn y maes yma'n cael ei gyfeirio tuag at y Cymdeithasau Tai ond mae'r Cyngor wedi gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr yn y maes pwysig yma hefyd. Mae gennym nifer o gynlluniau sy'n cael eu hariannu o wahanol ffynonellau gyda'r nod o gynorthwyo'r rhai sydd fwyaf tebygol o ddiodef o dlodi tanwydd.



Materion Eiddo

Pwrpas y Gwasanaethau Eiddo yw sicrhau fod gennym eiddo sy'n addas i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a rheoli'n asedau eiddo yn effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Cyngor yn berchen ar 965 o adeiladau wedi eu lleoli ar 477 o safleoedd ledled y sir. Mae'r rhain yn bennaf yn adeiladau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd ond rydym hefyd yn berchen ac yn defnyddio eiddo anweithredol i hyrwyddo amcanion y Cyngor e.e. datblygu'r economi, darparu gofal cymdeithasol ayb. Mae nifer o'r eiddo anweithredol yma'n cael eu prydlesu i fusnesau lleol a sefydliadau eraill, sydd yn creu incwm refeniw blynyddol o oddeutu £1.1m i'r Cyngor.

Cynnal a Chadw



Mae'r uned Cynnal a Chadw adeiladau yn darparu desg gymorth 24/7 er mwyn delio gyda oddeutu 8,000 o alwadau y flwyddyn am waith trwsio adeiladau. Mae nifer o'r rhain yn alwadau am waith lle bo angen ymateb brys er mwyn osgoi cau adeilad.

Er mwyn cyflawni'r gwaith hwn rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o gontractwyr lleol ond rydym hefyd wedi datblygu tîm mewnol o grefftwyr sy'n gallu delio gyda gwaith adeiladu, gwaith coed, gwaith trydanol a gwaith plymio.

Diogelwch Eiddo

Rydym yn sicrhau fod ein hadeiladau yn ddiogel i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd drwy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r llu o gyfrifoldebau statudol a sicrhau fod gennym raglen cynnal a chadw effeithiol. Rydym yn rheoli risgiau asbestos, Clefyd y Lleng Filwyr, Radon a risgiau tân ac yn sicrhau fod systemau trydanol, nwy, olew, dŵr ayb yn ddiogel ar gyfer y miloedd o drigolion y sir sy'n treulio amser yn ein hadeiladau bob dydd.

Datblygu Eiddo



Dyluniad cysyniadol o'r Ysgol newydd yng Nghricieth fydd yn agor ym Medi 2023

Pwrpas yr uned yw datblygu adeiladau newydd neu addasu ac adnewyddu adeiladau presennol i wella'r gwasanaeth a roddir i drigolion Gwynedd.


Drwy gydweithio'n agos gyda'r Tîm Moderneiddio Addysg bu i'r Uned Datblygu Eiddo gwblhau rhaglen £60m o adeiladau ysgol newydd dros y 7 mlynedd ddiwethaf a bellach mae rhaglen newydd £47m wrthi'n cael ei datblygu ar gyfer y pedair mlynedd nesaf.

Mae'r tim hefyd wrthi'n cyflawni rhaglen o welliannau ac estyniadau i gartrefi gofal y sir ynghyd â rhaglen o unedau blynyddoedd cynnar i gyfarch yr angen mewn nifer o gymunedau unigol ledled Gwynedd. Yn ogystal, mae'r tîm wedi dechrau cyflawni rhaglen o ddatblygiadau'r Cynllun Gweithredu Tai, sy'n ymateb i angenion tai pobl Gwynedd.

Rheoli Stadau

Ein pwrpas yw sicrhau fod y Cyngor yn derbyn y gwerth gorau wrth reoli ei bortffolio asedau eiddo a sicrhau mai dim ond yr asedau hynny sydd wirioneddol eu hangen arnom sydd yn cael eu cadw. Dros y degawd diwethaf rydym wedi gallu lleihau maint stad eiddo'r Cyngor dros 25% gan sicrhau fod ein gwariant ar gynnal a darparu adeiladau cyn lleied â phosib er mwyn rhyddhau adnoddau ariannol ar gyfer darpariaeth gwasanaethau rheng flaen. Bydd hyn yn parhau pan fydd cyfleon yn codi ond byddwn hefyd yn ystyried unrhyw asedau nad oes bellach eu hangen i wireddu cynnwys y Cynllun Gweithredu Tai.

Incwm cronus o werthu eiddo



Y Tîm Stadau sydd hefyd yn gyfrifol am reoli holl brydlesi'r Cyngor gan gynnwys y Stâd Manddaliadau a'r portffolio Eiddo Diwydiannol gan gynnwys Canolfannau Menter Intec ac Mentec gan greu incwm rhent blynyddol o dros £1.1m.

Rheoli Swyddfeydd



Mae'r Tîm Swyddfeydd yn darparu gofod swyddfa ar gyfer oddeutu 1,500 o staff mewn 7 adeilad sylweddol, gan gynnwys yr holl wasanaethau perthnasol y mae hynny yn ei olygu fel gofalu, glanhau a threfniadau diogelwch ar gyfer yr adeiladau a'u defnyddwyr. Rydym hefyd yn gosod gofod swyddfa i denantiaid allanol.

Gwasanaeth Glanhau



Rydym hefyd yn darparu **gwasanaeth glanhau** ar gyfer nifer sylweddol o adeiladau amrywiol a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau rheng flaen y Cyngor. Rydym hefyd yn ddarparwr i sefydliadau allanol.

Uned Cadwraeth Ynni

Yn dilyn mabwysiadu ein Cynllun Rheoli Carbon, mae'r Tîm Ynni yn gweithredu nifer o brosiectau i **leihau allyriadau carbon**. Ers mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Carbon yn 2010, rydym wedi llwyddo i leihau'r allyriadau carbon o'n gweithgareddau 46.6%. Mae gwaith y tîm i leihau ein defnydd wedi creu

arbedion refeniw blynyddol o dros £1.1m i'r Cyngor. Rydym wedi cychwyn y gwaith o adnabod sut allwn ni gyfrannu ymhellach tuag at ddyhead y Cyngor i wynebu'r argyfwng hinsawdd.



Mae'r Uned Cadwraeth Ynni wedi llwyddo i sefydlu fframwaith prynu ynni, sy'n ein galluogi i sicrhau pris rhatach am ein trydan a nwy. Drwy wneud hyn rydym yn arbed oddeutu £200,000 dros bum mlynedd.

Mae rhaglen i godi ymwybyddiaeth ymysg plant ysgol wedi bod yn rhan bwysig o'r gwaith hwn gan ddefnyddio cymeriadau megis Sbarci a Fflic. www.sbarciafflic.org



Rheoli Pla a Wardeiniaid Cŵn



Rydym yn cynnig gwasanaeth rheoli a difa pob math o bla drwy gontractau a thrwy ymateb i alwadau dyddiol gan y cyhoedd am gymorth i reoli pla yn eu cartrefi neu fusnesau.



Rydym hefyd yn cyflawni'r gwasanaeth statudol i ofalu am gŵn strae.

Teleofal



Rydym yn darparu gwasanaeth gosod a chynnal a chadw offer Teleofal i drigolion Gwynedd. Mae hwn yn wasanaeth poblogaidd tu hwnt gan unigolion bregus a'u teuluoedd gyda'r defnydd o Dechnoleg Gynorthwyol yn galluogi i bobl barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartref.

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd ,gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.



Mae Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu fel adran fasnachol sy'n dod ag incwm i'r Cyngor, tra hefyd yn ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd. Drwy gyfuno'r masnachol a'r statudol mae YGC yn gallu cynnal swyddi safon uchel wrth gadw arbenigedd o fewn y sir. Mae'r Adran yn arbenigo mewn meysydd peirianyddol, adeiladu a newid hinsawdd mewn perthynas â llifogydd ac erydiad arfordirol.

Dŵr a Llifogydd

O ganlyniad i Newid Hinsawdd, mae bygythiadau erydiad arfordirol a llifogydd yn gwaethgu. Ein bwriad yw, lle yn bosib, i reoli a lleihau effeithiau'r bygythiadau hyn ar bobl Gwynedd. Mae hefyd deddfwriaethau cenedlaethol sy'n gosod cyfrifoldebau statudol ar y Cyngor.

Blaengynllunio ac Adnabod Risg

Yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), mae'n hanfodol ein bod yn blaengynllunio i gadw'n cymunedau yn ddiogel, yn iach ac yn hyfyw i'r dyfodol. Mae newid hinsawdd yn creu heriau penodol, ac mae'r maes llifogydd wedi'i gydnabod fel maes blaenoriaeth yn rhyngwladol.

Er mwyn blaengynllunio am yr heriau hyn, rydym yn mynd ati i greu darlun o berygl llifogydd ar draws Gwynedd drwy ddadansoddi'r data sy'n cael ei gasglu gennym; yn ogystal â data allanol swyddogol arall megis rhagolygon hinsawdd a lefelau'r môr. Hyn oll sydd, wedyn, yn sail i'n Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn annog cydweithrediad rhwng y Cyngor cyfan a rhanddeiliaid amrywiol (megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, a'n cymunedau) i sicrhau ein bod yn cymryd pob cyfle posib i gydweithio ac addasu i amddiffyn rhag llifogydd. Mae ceisiadau grant llwyddiannus yn sicrhau buddsoddiad yn isadeiledd Gwynedd sy'n cynyddu gwytnwch ein cymunedau yn wyneb risgiau llifogydd. Rydym wedi adnabod bod angen cefnogaeth barhaus ymhob cymuned er mwyn sicrhau gwytnwch cynaliadwy i liniaru'r risgiau yma i'r dyfodol.

Isod, fe welwch grynodeb o'r gwaith casglu data sy'n bwydo i mewn i'r gwaith hwn.

Archwiliadau i Achosion o Llifogydd



Mae ymchwilio i ddigwyddiadau o lifogydd yn ddyletswydd arnom o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Ers i'r Ddeddf ddod yn weithredol yn 2010 mae YGC wedi ymchwilio i 42 digwyddiad o lifogydd mewnol bob blwyddyn, ar gyfartaledd. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth wrth ddarganfod diffygion, neu dderbyn unrhyw bryderon gan drigolion Gwynedd sy'n gysylltiedig â llifogydd. Ein nod yw ymateb i'r rhain yn yr amser byrraf posib.

Cynnal a Chadw Asedau Atal Llifogydd



Rydym yn gyfrifol am gynnal 229 o asedau arfordirol sy'n ymestyn ar hyd 21km o amddiffynfeydd arfordirol, a 52 o asedau sy'n rheoli'r risg o lifogydd o gyrsgiau dŵr cyffredin. Mae arolygu a chynnal yr asedau hyn yn hanfodol wrth warchod cymunedau Gwynedd. Rydym yn rhoi sgôr o 1 i 5 (gydag 1 yn golygu 'fel newydd') i

bob ased, ac yn gosod targed cyflwr i bob un. Ein nod yw i bob ased yng Ngwynedd gyrraedd ei darged cyflwr i sicrhau eu bod yn lliniaru risgiau llifogydd i bobl Gwynedd. Rydym hefyd yn cynnal ac yn gweithredu rhaglen fonitro arfordirol sy'n asesu newidiadau i'r arfordir. Bydd hyn, oherwydd effaith newid hinsawdd, yn effeithio ar ein cymunedau arfordirol fwyfwy yn y blynyddoedd i ddod.

Ein Rôl yn y Drefn Gynllunio

Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Llifogydd Arweiniol Lleol, ac felly mae gan YGC rôl i atal datblygiadau a gweithgareddau a allai gyfrannu at berygl llifogydd. Mae'r rhain yn bennaf yn cynnwys:

- Rhoi cyngor ar geisiadau cynllunio o ran risg llifogydd dŵr wyneb.
- Cyngor i'r gwasanaeth cynllunio.
- Cynghori ar waith mewn cyrsiau dŵr a chaniatáu ceisiadau perthnasol - ar gyfartaledd yn flynyddol, rydym yn derbyn 50 cais sy'n cael effaith ar neu yn rhwystro'r llif mewn cwrs dŵr cyffredin. Rydym yn sicrhau bod y gwaith adeiladu'n cael ei wneud mewn modd sydd â'r effaith lleiaf posib i berygl llifogydd a'r amgylchedd. Mae gofyniad statudol arnom i ymateb mewn 28 diwrnod, ond y nod ym mhob achos yw cymeradwyo ceisiadau cyn gynted ag y bo modd.

Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy

Ers Ionawr 2019 mae angen i fathau penodol o ddatblygiadau dderbyn caniatâd Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS). Cyn cychwyn adeiladu, mae angen i ddatblygwyr ystyried sut y byddent yn rheoli dŵr ar y safle, er mwyn sicrhau ansawdd y dŵr a lleihau'r risg o lifogydd i'r dyfodol.

Rydym yn gorff cymeradwyo SuDS ac yn cynnig cymorth cyn cais i helpu datblygwyr i gwrdd â'r gofynion.

Yn 2021/22, byddwn yn:

- Parhau i ddatblygu cynlluniau er mwyn denu buddsoddiadau i lliniaru risgiau llifogydd i drigolion Gwynedd.

Gwasanaethau Ymgynghorol




Mae YGC yn dylunio a rheoli prosiectau sy'n ymwneud â ffyrdd, strwythurau, adeiladau ac ati yng Ngwynedd a thrwy Gymru. Rydym yn creu a chynnal swyddi o ansawdd na fyddent yn y sir fel arall, a thrwy ddenu ffioedd am ein gwaith rydym yn cyfrannu tuag at gostau cynnal Cyngor Gwynedd.

Rydym yn darparu gwasanaethau ymgynghorol amrywiol yn y meysydd isod:

- adeiladu ac isadeiledd,
- dŵr ac amgylchedd,
- technegol, a
- busnes a rheoli prosiectau.

Perfformiad Cyllidol



Fel rhan o'r gwasanaethau yma, gallwn wneud gwaith pensaernïol, syrfeio, dylunio, archwilio ac asesu, modelu hydroleg, geodechnegol a llawer mwy.

Mae'r gwaith yma'n chwarae rôl hanfodol yn ein gallu i wireddu ein gofynion statudol mewn perthynas â llifogydd ac erydiad arfordirol. Mae ein gallu i ddenu ffioedd am ein gwaith ymgynghorol yn ein galluogi i adeiladu arbenigedd technegol a gwyddonol o fewn y Cyngor, a dal ein gafael ar yr arbenigedd hwnnw.

Yn ei dro, mae'r arbenigedd yma'n darparu'r seiliau i ni allu denu grantiau'n llwyddiannus drwy ddatblygu cynlluniau gwaith rheoli risg llifogydd sy'n arloesol ac yn gynaliadwy. Mae'r gwasanaethau ymgynghorol felly yn allweddol i'n caniatáu ni i warchod pobl Gwynedd yn wyneb effeithiau newid hinsawdd.

Yn 2021/22 byddwn yn canolbwyntio ar ychwanegu i'n rhestr o gleientiaid er mwyn cynyddu'r buddsoddiad rydym yn ei ddenu tra hefyd yn ymestyn yr amrediad o wasanaethau proffesiynol y gallwn eu cynnig.

Mae gwaith dydd i ddydd yr adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.



Adran Cefnogaeth Gorfforaethol



Mae'r adran yn atgyfnerthu gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau i drigolion Gwynedd trwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol, arbenigol a rheng-flaen. Mae hyn yn rhoi cyfle i weddill y Cyngor ganolbwyntio ar y gwasanaethau eraill a ddarperir yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella canlynol:

- Cadw'r Budd yn Lleol – (Blaenoriaeth Gwella 1)
- Merched mewn Arweinyddiaeth – (Blaenoriaeth Gwella 3)
- Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb (Sicrhau Tegwch i Bawb) – (Blaenoriaeth Gwella 3)
- Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig – (Blaenoriaeth Gwella 5)
- Hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau'r Cyngor – (Blaenoriaeth Gwella 5)
- Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus – (Blaenoriaeth Gwella 5)
- Sicrhau fod rheolwyr yn arddel eu rôl lechyd a Diogelwch yn effeithiol – (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Cynllunio'r Gweithlu – (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Gweithredu rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd (Arfogi unedau i roi 'Ffordd Gwynedd' ar waith) – (Blaenoriaeth Gwella 7)

Cyswllt Cwsmer



Mae Galw Gwynedd, o'i ganolfan ym Mhenrhyndeudraeth, yn ymateb i alwadau ffôn, negeseuon e-byst a cheisiadau am wasanaeth ar-lein ar ran gwasanaethau'r Cyngor. Mae Siop Gwynedd yn Nolgellau, Pwllheli a Chaernarfon yn gweithredu fel siop-un-stop a derbynfa i'r un pwrpas, yn ogystal â gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y Gwasanaethau Trethi a Budd-dal.

Ateb galwadau
ffôn, ar
gyfartaledd o
fewn 49 eiliad



Derbynnir tua 190,000 galwad ffôn yn Galw Gwynedd bob blwyddyn, a daw o leiaf 20,000 o ymwelwyr i Siopau Gwynedd yn flynyddol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- adolygu a chyflwyno trefniadau newydd i'r gwasanaeth switsfwrdd er mwyn gwella gwasanaeth i gwsmeriaid,

- ail-strwythuro er mwyn sicrhau y gellir darparu yr ystod llawn o wasanaethau ymhob un o'n Canolfannau Cyswilt Cwsmer,
- datblygu'r defnydd presennol o "web-chat" ac ymestyn y gefnogaeth i ddefnyddwyr ein gwasanaethau ar-lein.


Cofrestru



Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cofrestru o bedwar lleoliad ar draws y sir.

Cofrestrwyd dros 5,600 o briodasau, partneriaethau sifil, genedigaethau a marwolaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a derbyniwyd dros 3,000 o geisiadau am dystysgrifau. I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu hunan wasanaeth ar gyfer ceisiadau am dystysgrifau,
- cryfhau ein trefniadau parhad gwasanaeth.



Cyfathrebu ac Ymgysylltu



Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn hwyluso deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd, staff a chynghorwyr.

Mae'r cyfathrebu yma yn cynnwys cynnal perthynas ragweithiol gyda'r cyfryngau, cynnal gwefan a chyfrifon gwefannau cymdeithasol y Cyngor, cyhoeddi Newyddion Gwynedd, cydgorio cyfleoedd i bobl Gwynedd leisio barn ar waith y Cyngor a chynnal trefniadau cyfathrebu mewnol y Cyngor.

I'r dyfodol byddwn yn:

- gwella'r drefn o adnabod a blaenoriaethu'r prif negeseuon a'r prif faterion er mwyn sicrhau bod pobl Gwynedd yn derbyn yr wybodaeth maent ei angen
- ymgymryd â gwaith datblygu i sicrhau bod gwefan y Cyngor yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd
- cryfhau ac ymestyn ein trefniadau cyfathrebu mewnol.



Cefnogi Busnes y Cyngor



Mae'r gwasanaeth hwn yn cydlynu trefniadau ar gyfer cyhoeddi Cynllun y Cyngor, Cynllun Cydraddoldeb ac adroddiadau perfformiad y Cyngor yn ogystal â darparu cefnogaeth weithredol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, cyngori ar drefniadau prosiect a rheoli prosiectau, adolygiadau gwasanaeth ac ymchwiliadau craffu. Byddwn yn helpu gwasanaethau'r Cyngor i roi ystyriaeth deg i gydraddoldeb a hawliau pob unigolyn, ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cynorthwyo swyddogion a chynghorwyr i herio cynlluniau ac arferion gwaith.

Elfen arall o waith y gwasanaeth yw cefnogi gwaith y *Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus* lle mae cyngorau Gwynedd ac Ynys Môn yn ogystal â'r *Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Tân* ac *Achub* yn cydweithio er mwyn gwella lles trigolion mewn sawl maes.

I'r dyfodol byddwn yn:

- gweithredu ar y rhaglen waith o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb wedi'i wreiddio yn holl waith y Cyngor
- adolygu a diweddarau'r asesiadau llesiant a gyhoeddwyd ar gyfer yr 14 ardal llesiant sydd yng Ngwynedd a Môn.

Ymchwil a Gwybodaeth



Er mwyn i bob gwasanaeth yn y Cyngor fod yn gweithio'n llwyddiannus yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd maent angen deall beth ydi anghenion eu cwsmeriaid, yn gallu mesur os ydyn nhw'n cyflawni yr hyn sy'n bwysig i'w cwsmeriaid, ac yn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth o'r effaith ar bobl Gwynedd. I wneud hyn i gyd mae gwybodaeth – ei gasglu, ei gadw, a'i ddadansoddi – yn hollbwysig. Mae'r gwasanaeth yma i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor i wneud hyn.

Gan bod cymaint o wybodaeth yn cael ei ddal ar gyfer darparu gwasanaethau'r Cyngor, yn cynnwys gwybodaeth am bobl, mae angen gwneud yn siŵr fod y trefniadau ar gyfer creu, cadw, rhannu a defnyddio'r wybodaeth yma yn gweithio'n iawn ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth.



I'r dyfodol byddwn yn:

- cydweithio hefo'r Gwasanaeth Cefnogi Busnes i wella'r dystiolaeth sydd ar gael i wasanaethau'r Cyngor ynglŷn â natur ac anghenion ardaloedd lleol yng Ngwynedd
- datblygu'r wybodaeth a dadansoddiadau mae rheolwyr y Cyngor yn ei gael ynglŷn â'u gweithlu a gwneud yr wybodaeth yma yn haws i gael mynediad ato
- gwneud y mwyaf o botensial system rheoli dogfennau a chofnodion newydd y Cyngor (iGwynedd), gan helpu gwasanaethau i ddatblygu pethau sy'n hwyluso ffyrdd o weithio a dileu camau diangen
- sicrhau bod trefniadau ac arferion gwaith cadw a rhannu gwybodaeth yn sicrhau bod y defnydd o ddata yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar bob adeg.


Caffael



Mae'r Cyngor yn gwario dros £118m y flwyddyn ar gaffael, neu brynu, gwahanol nwyddau a gwasanaethau o gyllidebau refeniw. Yn 2019/20, roedd pryntiant o nwyddau a gwasanaethau lleol gyfwerth â £71m i'r economi leol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael o fewn y Cyngor ac adolygu'r hyn yr ydym yn ei brynu ar hyn o bryd
- mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chyflwyno cynlluniau pellach i gefnogi'r farchnad
- datblygu'n systemau pwrcasu electroneg er mwyn ymateb i ofynion newydd.



Democratiaeth ac Iaith



Mae'r Gwasanaeth Democratiaeth ac iaith yn gyfrifol am dri maes penodol, sef democratiaeth, cyfieithu ac iaith. Rydym yn gyfrifol am gynnal y drefn bwyllgorau a chynnig cefnogaeth amrywiol i'r 75 cynghorydd.




Iaith weithredol y Cyngor yw'r Gymraeg, ond mae holl wasanaethau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Felly rydym yn hybu ac yn galluogi'r defnydd o'r Gymraeg trwy'n holl wasanaethau. Cefnogir hyn trwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar bapur ac ar lafar i staff, cynghorwyr a thrigolion y sir.



Mae'r Cyngor eisiau gweld sefyllfa lle mae Gwynedd yn parhau i fod yn gadarnle i'r iaith a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar draws y sir.

I'r dyfodol byddwn yn:

- adeiladu ar y trefniadau mynychu o bell a gwe ddarlledu pwyllgorau presennol
- adolygu sut yr ydym yn hybu'r Gymraeg yn y gymuned
- hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg.



Gwasanaeth Cefnogol



Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol megis trefnu penodiadau, archebu nwyddau, argraffu, talu biliau a dosbarthu post i staff y Cyngor.

Yn 2019/20, mae'r gwasanaeth wedi canolbwyntio ar symleiddio trefniadau gweinyddol, lleihau gwaith papur diangen a galluogi staff a rheolwyr i gael mynediad at wasanaeth a gwybodaeth yn uniongyrchol ac yn amserol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- mewnosod trefniadau recriwtio a phenodi er mwyn lleihau gweinyddiaeth fewnol a hefyd hwyluso'r dasg i unigolion wrth ymgeisio am swydd efo'r Cyngor
- newid y drefn o gyfathrebu a gweinyddu trwy bapur i fod yn gweithio'n electroneg.

Cynlluniau Argyfwng

Mae gan y Cyngor rôl i baratoi cynlluniau ar gyfer ymdrin ag argyfwng ac i gydweithio efo'r gwasanaethau brys, asiantaethau a gwirfoddolwyr er mwyn gofalu am les y cyhoedd. Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu'r rôl allweddol honno fwy nag erioed o'r blaen.

Mae darparu cyfleusterau bwyd a gorffwys, llety dros-dro a diogelwch ffyrdd yn enghreifftiau amlwg o'r cyfrifoldebau penodol sydd gan y Cyngor wrth ymateb i amrywiol argyfyngau.

Mae'r Grŵp Gweithredol Cynlluniau Argyfwng, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob Adran, yn cyd-gordio trefniadau i baratoi ar gyfer argyfyngau tra bo Grŵp Strategol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn cadw trosolwg ac yn herio'r trefniadau hynny yn ôl yr angen. Cefnogir hyn oll gan y Gwasanaeth Cynlluniau Argyfwng Rhanbarthol sydd wedi'i gytundebu i ddarparu'r arweiniad arbenigol yn y maes hwn.

I'r dyfodol byddwn yn:

- adolygu a chryfhau ein trefniadau parhad gwasanaeth gan gynnal ymarferion lleol i sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn effeithiol i'r amrywiol argyfyngau a wynebir .

Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol



Mae'r tîm o ymgynghorwyr a swyddogion adnoddau dynol yn gyfrifol am gynghori rheolwyr a phenaethiaid ysgolion ar ystod eang o faterion cyflogi staff. Mae hynny'n cynnwys dehongli yr amodau gwaith, materion cyflog cyfartal, ailstrwythuro neu dorri ar wasanaethau, ymdrin â disgyblaethau a chwynion, rheoli absenoldebau a chynllunio'r gweithlu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn arwain ar raglen sy'n canolbwyntio ar adolygu a datblygu amodau gwaith y Cyngor ac yn chwarae rôl ganolog mewn cynnal perthynas waith adeiladol efo'r undebau llafur.

I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu a gweithredu model busnes y gwasanaeth, fel bo'r pwyslais cynyddol ar roi cyngor a chefnogi rheolwyr i gymryd perchnogaeth o faterion cyflogaeth dydd i ddydd
- gweithredu rhaglen o adolygu a datblygu'r amodau gwaith lleol fel eu bod nhw'n adlewyrchu a chefnogi'r ffordd y mae'r Cyngor am i'w staff weithio.

Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant



Mae'r gwasanaeth yn cyflawni rôl statudol o roi cyngor cymwys i'r cyflogwr ar faterion iechyd, diogelwch a llesiant. Mae hyn yn cynnwys cyngori ar safonau cyfreithiol ym maes diogelwch, ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau eraill, monitro, archwilio a chynnal rhaglen hyfforddi.

Yn ychwanegol, rydym yn cefnogi staff trwy gyfnodau o absenoldebau, yn rhoi cyngor i reolwyr ar iechyd eu staff ac asesu addasrwydd i weithio yn dilyn anaf neu salwch, yn sgrinio iechyd gweithwyr, yn cynnal gwyliadwriaeth iechyd ar staff yn ogystal â chynllunio a gweithredu rhaglen hybu iechyd a llesiant.

I'r dyfodol byddwn yn:

- prif ffrydio iechyd a llesiant meddyliol o fewn y gweithlu, gan godi ymwybyddiaeth ac arfogi staff ar draws y Cyngor ac hyrwyddo diwylliant o rannu profiadau a chefnogi unigolion
- datblygu a gweithredu model busnes newydd ar gyfer y gwasanaeth er mwyn annog perchnogaeth yn y gwasanaethau o faterion iechyd a diogelwch dydd i ddydd o fewn y Cyngor gan flaenoriaethu adnodd ar gyfer y risgiau uchaf.



Dysgu a Datblygu'r Sefydliad



Mae'r gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu arloesol a pherthnasol, drwy ymgynghori ac ymateb i anghenion unigolion a thimau, helpu i ddatblygu diwylliant ac awyrgylch waith a buddiannau fel bod pawb yn rhoi o'u gorau, helpu gwasanaethau i adnabod cyfleoedd i wella a datblygu talent i lenwi bylchau'r dyfodol.

Darperir rhaglenni *Dysgu a Datblygu* i staff (ar bob lefel) ac Aelodau Etholedig, sy'n cynnwys datblygu'r arweinyddiaeth. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau a swyddogion i sicrhau perthnasedd ac ansawdd yr arlwy, i 'lenwi bylchau' yn y ddarpariaeth a theilwra teitlau i gyfarfod eu hanghenion. Mae'r gwasanaeth yn hybu a chefnogi unigolion i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain, a chynigir amrediad o ddulliau dysgu sy'n cynnwys y 'traddodiadol' yn ogystal â dulliau arloesol megis *cymhelliant a mentora* a dysgu trwy brofiad.

Mae pwyslais arbennig ar ddatblygu dulliau dysgu o bell ('rhithiol'), ac mae'r rhaglen ddysgu yn adlewyrchu hyn, gyda mwy gyfleon dysgu yn cael eu hychwanegu'n rheolaidd.

Amcan y gwaith *Datblygu'r Sefydliad* yw meithrin ymddygiadau a diwylliant sy'n creu a chynnal awyrgylch waith lle mae staff ar eu gorau i wasanaethu pobl Gwynedd. Mae rhoi llais i staff, gyda chyfle i gyfrannu barn a syniadau yn rhan allweddol o hyn tra bo ffocws hefyd ar ddatblygu gweithlu'r dyfodol trwy gynlluniau *Adnabod a Datblygu Talent*. Cynigir amrediad cynyddol o fuddiannau sydd yn cyfrannu at lesiant a bodlonrwydd staff.

Elfen bwysig arall yw *Gwella Gwasanaeth* drwy ymateb yn gadarnhaol i gwynion, gan hwyluso trefniadau i wasanaethau gymryd perchnogaeth drostynt, a dysgu ohonynt. Hefyd i ddathlu llwyddiannau.

I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu ac ymestyn y ddarpariaeth dysgu o bell
- cyfrannu at gynllun i sicrhau bod holl staff y Cyngor yn meddu ar sgiliau technoleg gwybodaeth briodol er mwyn defnyddio systemau hunan-wasanaeth a manteisio ar y ddarpariaeth dysgu
- ymestyn y gwaith (ymgynghorol ac ymarferol) i gefnogi adrannau i ddatblygu timau a sgiliau arwain
- datblygu a chydgordio amrediad o becynnau cefnogol i helpu staff a rheolwyr ymdopi.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg



Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)



Bwriad yr Adran Cyllid yw cyfrannu at gyflawni'r nod o geisio'r gorau i bobl Gwynedd mewn cyfnod anodd drwy:

- sicrhau'r gefnogaeth briodol i weithrediad busnes y Cyngor a'i wasanaethau wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, er mwyn sefydlu cymuned gynaliadwy mewn modd agored, ymatebol a blaengar
- sicrhau arweiniad cefnogol proffesiynol a thechnoleg o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor ac annog mentergarwch
- darparu gwasanaethau rheng-flaen (fel casglu refeniw a thalu budd-daliadau) o ansawdd addas i'r cwsmer, gan ddarparu tegwch i bobl a chymunedau, a rhoi ffocws ar drigolion.


Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiect blaenoriaeth gwella canlynol:

- Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes: pwysu am newid deddfwriaeth perthnasol – (Blaenoriaeth Gwella 4)

Gwasanaeth Budd-daliadau

Mae'r Cyngor yn gweinyddu cymorth budd-daliadau i tua 7,500 o denantiaid i dalu eu rhent, ac i tua 10,000 o unigolion, cyplau neu deuluoedd i dalu eu bil Treth Cyngor, gan anelu i wneud hynny'n brydlon a chywir.

Fe welir o'r graff bod y nifer o ddiwrnodau mae'n ei gymryd i dalu wedi lleihau yn 2019/20 ar ôl ychydig flynyddoedd o gynyddu'n raddol. Mae hyn yn ganlyniad ymdrechion parhaus i adolygu trefniadau gwaith.




Bydd 2021/22 yn flwyddyn allweddol wrth i Lywodraeth y DU gynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau ariannol. Byddwn yn llobio'r Llywodraeth fod lefel y galw am wasanaeth gan y Cyngor am barhau'n uwch na'u rhagdybiaethau. Er fod awdurdodau lleol wedi colli'r grant 'sybsidi' roedd yn ariannu cefnogaeth i gyllidebu personol a chefnogaeth ddigidol, disgwylir i ymholiadau gan y cyhoedd barhau.

Ar y cyfan, mae trefniadau yn gweithredu'n llyfn ac felly mae'r tebygolrwydd o ddirywiad yn y gwasanaeth a roddir gan y Cyngor yn gymharol isel erbyn hyn. Rydym hefyd wedi llobio'r Llywodraeth, ac wedi llwyddo i'w argyhoeddi eto i gynnal yr elfen wledig o Daliadau Tai Dewisol, fydd yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i bobl Gwynedd yn 2021/22.

Gwasanaeth Trethi

Heb Dreth Cyngor a Threthi Busnes, ni fyddai'n bosib i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau. Mae'r gwasanaeth yma yn gweinyddu a chasglu Treth Cyngor dros 61,500 eiddo, a Threth Busnes (Treth Annomestig) tua 8,000 eiddo busnes yn y ffordd fwyaf prydlon ac effeithlon bosib, gan gynnwys gweinyddu'r amrywiaeth o ddisgowntau, eithriadau a chynlluniau rhyddhad sydd ar gael.



Ar ôl ychydig o flynyddoedd o ostyngiadau ymylol yn y gyfradd gasglu Treth Cyngor, arhosodd y gyfradd yn lled gyson yn 2019/20.


Deallwn yn iawn nad yw hi'n hawdd i bawb dalu'r trethi yma, ac yng nghyd-destun cyfyngiadau'r pandemig bydd y gyfradd gasglu yn gostwng eto yn 2020/21. Ar ôl atal trefniadau adennill am 3 mis yn Mawrth i Mehefin 2020, mae'r gwasanaeth Trethi yn hyblyg (e.e. annog trefniadau a chytundebau talu) a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion. Mae staff Trethi'r Cyngor yn ceisio cymell unigolion i ofyn am gyngor ar gyllido personol a chyngor dyledion ehangach.

Mae trosglwyddiad unedau gwyliau o'r drefn Treth Cyngor i drethi annomestig yn parhau'n risg ariannol. Yn 2021/22 byddwn yn anelu i gyfarfod gyda'r Gweinidog er mwyn rhoi pwysau ar y Llywodraeth i newid deddfwriaeth yn ymwneud â thai haf ac unedau gwyliau, ac yn cynnal ymgyrch ehangach i hyrwyddo deddfwriaeth addas.


Gwasanaeth Incwm

Mae'r Cyngor yn derbyn incwm (e.e. grantiau, taliadau am wasanaeth) o bob math, ac mae'r Gwasanaeth Incwm yn prosesu'r incwm yma, gan gasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn gwneud yn fawr o'r incwm. Mae'r gwasanaeth yn ystyried anghenion adrannau'r Cyngor a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr wrth gyflawni ei waith.

Roedd ffigwr y dyledwyr dros 6 mis oed ar 31 Mawrth 2020 yn uwch nag ar y dyddiad cyfatebol mewn blynyddoedd blaenorol, yn rhannol oherwydd cyfyngiadau'r pandemig.



% Anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod



Gwasanaeth Taliadau

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am dalu credydwyr y Cyngor yn gywir ac ar amser. Mae dros 105,000 o anfonebau yn cael eu talu'n flynyddol, gyda 92% ohonynt wedi'u talu o fewn 30 diwrnod ar gyfartaledd, gan anelu i dalu cyflenwyr lleol yn brydlon.

Mae'r gwasanaeth wedi symud i drefn o dderbyn anfonebau yn electroneg, gyda dros 95% o'n taliadau bellach yn daliadau trwy'r banc, yn hytrach na thrwy sieciau.


Gwasanaeth Cyflogau

Mae dros 7,200 o unigolion gwahanol yn gweithio i'r Cyngor er mwyn ei alluogi i wasanaethu ar ran pobl Gwynedd, a phwrpas y Gwasanaeth Cyflogau ydi sicrhau eu bod yn cael eu talu yn gywir ac ar amser. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC).

Gwasanaeth Pensiynau

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gyfrifol am weinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ar ran dros 40 o gyflogwyr gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r gronfa yn cynnwys dros 18,000 o aelodau actif, 12,000 o aelodau gohiriedig a 10,000 o bensiynwyr. Mae dyletswyddau'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yn cynnwys sefydlu record i aelodau newydd; gwneud newidiadau i gofnodion aelodau; cyfrifo buddion gohiriedig; trosglwyddo hawliau pensiwn i mewn ac allan o'r CPLIL, a thalu buddion ar ôl ymddeoliad a marwolaeth aelodau'r cynllun.

Cyfartaledd nifer dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol



Yn ystod 2021/22, bydd y Gwasanaeth Pensiynau yn canolbwyntio ar wella'r ohebiaeth a darpariaeth hunan wasanaeth i aelodau. Hefyd, bwriedir gweithio gyda chyflogwyr y Gronfa Bensiwn i dderbyn manylion perthnasol ar gyfer ail gyfrifo buddion aelodau yn dilyn yr achos 'McCloud'.


Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys

Mae'r gwasanaeth yma'n buddsoddi arian y Cyngor er mwyn ennill llog, i gyfrannu at ariannu gwasanaethau. Maent hefyd yn rheoli buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn, er mwyn sicrhau'r gallu i dalu pensiynau rŵan ac i'r dyfodol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r gwasanaeth yn cynllunio a threfnu benthyciadau hir-dymor.

Amcan yr uned yw cadw'r arian yn ddiogel, ennill llog a sicrhau fod arian ar gael i dalu am wariant dyddiol.

Yn ystod 2020/21 arhosodd gweithgarwch benthycy'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. £546,000 oedd cyfanswm y llog a difidendau a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau'r Cyngor, sydd yn uwch na'r £406,000 oedd yn y gyllideb. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd y Cyngor wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu talu.

Mae cronfeydd pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru yn cyd-fuddsoddi yn gynyddol er mwyn cael y budd gorau i aelodau'r cynllun pensiwn. Mae Cronfa Gwynedd wedi pwlio'r buddsoddiadau ecwiti ac incwm sefydlog, gyda marchnadoedd datblygol i ddod yn haf 2021. Roedd 2020/21 yn flwyddyn heriol, yn sgil cwmp y marchnadoedd stoc ym Mawrth 2020 oherwydd y pandemig, ond mae'r marchnadoedd wedi bownsio yn ôl gydag adferiad yng ngwerth y Gronfa Bensiwn i £2.2 biliwn erbyn 30 Medi 2020.



Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg (yn cynnwys unedau datganoledig)

Darperir gwasanaeth cyllid a chyfrifeg i wasanaethau'r Cyngor, i'w cynorthwyo a'u cefnogi i fod yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r gwasanaeth:

- Yn gosod cyllideb gytbwys flynyddol ar gyfer y Cyngor
- Yn monitro ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad ariannol y Cyngor
- Yn darparu cefnogaeth ariannol gyda chyllideb gros o dros £431 miliwn
- Yn gyfrifol am gynhyrchu cyfrifon terfynol ar gyfer Cyngor Gwynedd, GwE, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, Harbyrau a Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru
- Yn cynorthwyo'r adrannau i wireddu dros £30 miliwn o arbedion ers 2015 (allan o gyfanswm o £36 miliwn).



Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad archwiliad diamod ar ddatganiadau ariannol 2019/20, sef bod y cyfrifon wedi eu paratoi'n briodol ac yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ariannol.


Yn sgil effaith y pandemig ar y Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol a cholledion incwm gwerth dros £13 miliwn erbyn diwedd Tachwedd 2020, byddwn yn darparu mwy o gyngor ariannol i holl ddeiliaid cyllidebau'r Cyngor, yn ogystal â chyngor "busnes" i adrannau.

Yn gyffredinol, nid yw'r arian mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i dalu am y gwasanaethau allweddol mae'r Cyngor yn ddarparu. Felly, er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, byddwn hefyd yn parhau i wireddu'r arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo, a hefyd yn cynllunio, fel bo angen, i ddarganfod a dethol yr arbedion er mwyn ymateb i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol.

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Mae'r gwasanaeth yn adolygu trefniadau llywodraethu a gweinyddol y Cyngor er mwyn rhoi hyder i'r awdurdod ac i'r dinesydd fod y trefniadau yma'n gadarn. Adroddir yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac i gyd-bwyllgorau mae Gwynedd yn lletya.

Ym Mawrth 2020 bu'n rhaid dargyfeirio adnoddau Archwilio Mewnol dros dro i ddelio gyda'r argyfwng Covid-19, felly ni chafodd pob archwiliad ei gwblhau yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig.



Gwasanaeth Risg ac Yswiriant


Mae angen i holl adrannau'r Cyngor asesu'r bygythiadau a chyfleoedd all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau, a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Rôl y Gwasanaeth Risg ac Yswiriant yw cynghori a chefnogi'r adrannau wrth wneud hyn. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn amddiffyn buddiannau trethdalwyr, drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â thua 250 o hawliadau'r flwyddyn.

Mae gwaith yn parhau i sicrhau fod adrannau'r Cyngor yn cofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd. Bydd y Gwasanaeth Risg ac Yswiriant yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, ac fod asesiadau o risgiau yn cael eu diweddarau'n barhaus. Law yn llaw â hynny, bydd ystyriaeth gynyddol o gynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau.

Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth

Gweithredir Strategaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor er mwyn helpu pobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor, ac i staff weithio'n effeithlon.

Wyneb y gwasanaeth yw'r *Gwasanaeth Cefnogol a'r Ddesg Gymorth* sy'n cefnogi 2,550 o ddefnyddwyr ac yn diwallu oddeutu 20,000 cais am wasanaeth yn flynyddol. Mae 2020/21 wedi bod yn heriol iawn, gyda 600 o liniaduron wedi eu paratoi yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn - nifer 33% yn uwch na'r cyfanswm arferol sy'n cael eu darparu mewn blwyddyn gyfan.



Roedd newidiadau sylweddol wedi eu rhaglennu cyn i'r pandemic gyrraedd, ac mae newidiadau megis cyswllt 'VPN', 'Microsoft Teams' ac 'Office 365' wedi bod yn arwyddocaol yn ymdrechion y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i gynnal gwasanaethau'r Cyngor.

Mae'r *Uned Isadeiledd, Diogelwch a Rhwydwaith* yn sicrhau bod gwasanaethau technoleg yn cael eu cyflwyno ar seiliau cadarn gan ymledu i 300 adeilad, 1,400 o bwyntiau mynediad di-wifr a 2,700 o gysylltiadau ffôn, ac yn cefnogi'r holl systemau yn y ganolfan data, ar 440 gweinyddwr a thros 1,000TB o storfa. Cysylltir y ddwy ganolfan ddata gyda chyswllt ffibr cyflym ac mae buddsoddiad diweddar mewn generadur yn y Pencadlys yn golygu bydd gwelliannau pellach i wytnwch isadeiledd y Cyngor.

Gyda hyd at 2,450 o swyddogion yn gweithio adref, roedd rhaid gwneud newidiadau sylweddol ar gychwyn y flwyddyn i alluogi'r ddarpariaeth, gan ddyblu'r cyswllt i'r rhyngrwyd, adeiladu dwy wal dân newydd, a darparu cyfarpar arbenigol i alluogi canolfannau cyswllt Galw Gwynedd, Y Ddesg Gymorth TG, a llinell flaen Treth Cyngor i wasanaethu'n llawn o gartrefi'r staff unigol.

Mae'r *Uned Datblygu a Gwasanaeth Gwybodaeth Ddaearyddol* yn darparu systemau sydd wedi eu datblygu o amgylch anghenion pwrpasol y defnyddiwr, gan gynnwys systemau sy'n cael eu defnyddio gan yr adrannau i wasanaethu'r cyhoedd, rhyngwynebau uniongyrchol i'r cyhoedd, a hunan-wasanaeth i staff. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol ar gyflwyno systemau newydd yn ystod 2020/21, gan gynnwys darparu nifer o systemau ar frys mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys darpariaeth i archebu apwyntiadau Siop Gwynedd a'n canolfannau ailgylchu, system profi, olrhain a diogelu ar gyfer awdurdodau lleol gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â systemau hawlio a phrosesu amrywiol grantiau i fusnesau'r sir.

Mae'r *Uned Rheoli Rhaglen ac Arloesi* yn darparu cefnogaeth i'r adrannau ar gyfer diwallu eu hanghenion TG, gan gynnwys archebu cyfarpar a deunyddiau TG, gweithredu a monitro cytundebau a dadansoddi anghenion.

Paratowyd Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd, gyda'r ddarpariaeth bellach ar waith, a byddwn yn cyflwyno Strategaeth Ddigidol Corfforaethol newydd yn ystod 2021/22 gyda golwg ar alluogi trawsnewid gwasanaethau'r Cyngor ymhellach.

Yn ystod 2021/22 bydd y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn cynnal ymarferion gwytnwch ar isadeiledd y Cyngor, cyflwyno gwelliannau sylweddol o fewn yr ysgolion, a rhoi'r Strategaeth Ddigidol newydd ar waith.



Gwasanaethau Cyfreithiol



Mae'r adran yn cefnogi gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau i drigolion Gwynedd drwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol a rheng-flaen.

CYFREITHIOL

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth gyfreithiol ar draws holl ystod gwaith y Cyngor, o amddiffyn plant ac erlyn i baratoi gorchmynion traffig a thrafodion tir ac eiddo.

Yn ogystal â bod ar gael i ymdrin ag ymholiadau dyddiol, mae'r tîm yn ymdrin â thua 900 o achosion a thrafodion yn flynyddol ar gyfartaledd. Rydym hefyd yn cefnogi prif flaenoriaethau'r Cyngor, yn benodol felly gweithredu y Strategaeth Tai ac adolygiad cyfundrefn Addysg ôl 16.

PRIODOLDEB

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro i weithredu eu cyfrifoldebau am briodoldeb gweithrediad y Cyngor, y Cyfansoddiad a chwynion ynghyd â'r trefniadau ar gyfer cynnal safonau ymddygiad aelodau'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned.

Rydym yn parhau i gefnogi cyfundrefn priodoldeb Cyngor Gwynedd ynghyd â'r gyfundrefn foesebol i Gynghorau Tref a Chymuned y sir. Mae hyn hefyd yn golygu rhoi cyngor a sicrwydd cyfreithiol ar benderfyniadau a chyfundrefnau penderfynu. Darperir gwasanaeth Swyddog Monitro a chefnogaeth gyfreithiol hefyd i brosiectau cyd-weithio, GwE, Cyd-Bwyllgor Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 fydd:

- Cydweithio yn lleol ac yn rhanbarthol i gynllunio ac ymateb i newidiadau i lywodraethu ac i'r Cyfansoddiad fydd yn deillio o ddyfodiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020.

ETHOLIADAU

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth i'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Rydym fel tîm yn gweinyddu'r gofrestr etholwyr ynghyd â chynnal etholiadau ac isetholiadau lleol a chenedlaethol, refferenda neu boliau o fewn y sir.

Holiadur Bodlonrwydd
Cwsmeriad
- sgor 10 allan o 10



Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 fydd:

- Ymateb i ehangu a diwygio yr etholfraint, yn benodol ar gyfer etholwyr rhwng 16 ac 18 oed, a ddaw yn sgil Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020 drwy hyrwyddo cofrestru a chyfranogiad mewn etholiadau perthnasol.
- Ymateb i ardrawiad ac oblygiadau Covid-19 ar etholiadau ac isetholiadau all gael eu heffeithio drwy gynllunio trefniadau sydd yn sicrhau cynnal etholiadau effeithiol a phriodol.

CRWNER


Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth i Wasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.

Rydym yn cefnogi a gweinyddu trefniadau'r Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r tîm wedi ei sefydlu o fewn y Cyngor ac yn derbyn cefnogaeth uniongyrchol o fewn yr adran bellach.

Ein blaenoriaeth ar gyfer 2021/22 fydd:

- Ymdrin â threfniadau penodi Uwch Grwner ar gyfer yr ardal all olygu cynnal adolygiad o'r ardal Grwnerol bresennol.

Gwybodaeth Ariannol 2021/22



Mae **Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd** yn denu incwm ac felly'n cychwyn y flwyddyn ariannol gyda chyllideb o -£133,880

Adran Addysg 2021/22

Maes	Cyllideb Net £
Ysgolion - Datganoledig	79,173,330
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	2,712,530
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol	8,828,400
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a Lles	4,841,940
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,234,770
Cyfanswm	97,790,970

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant 2021/22

Maes	Cyllideb Net £
Pobl Hŷn	24,800,530
Anabledd Corfforol	3,662,080
Anabledd Dysgu	20,598,500
Iechyd Meddwl	3,808,620
Rheolaeth, Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Eraill	3,788,040
Cyfanswm	56,657,770

Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol 2021/22

Maes	Cyllideb Net £
Gwastraff ac Ailgylchu	11,129,926
Cynnal Ffyrdd	8,338,480
Glendid Strydoedd	2,511,372
Goleuadau Stryd	1,687,960
Toiledau Cyhoeddus	749,880
Cynnal Tiroedd a Meysydd Chwarae	517,032
Amlogfa a Mynwentydd	-95,000*
Teledu Cylch Cyfyng	55,270
Rheolaeth Fflyd	370,220
Eraill	436,560
Cyfanswm	25,701,680

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd 2021/22

Maes	Cyllideb Net £
Rheolaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd	591,690
Gwasanaethau Gweithredol	2,082,810
Gwasanaethau Lleoliadau	11,722,230
Gwasanaethau Derwen	1,832,830
Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid	253,200
Tîm Trothwy Gofal, Tîm Nos a Gwasanaethau Eraill	1,850,350
Uned Blynnyddoedd Cynnar	149,150
Gwasanaethau Ieuenctid	890,240
Cyfanswm	19,372,500

Adran Amgylchedd 2021/22	
Maes	Cyllideb Net £
Rheolaeth a Chategori Corfforaethol	659,380
Gwasanaethau Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	176,700
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd	215,710
Diogelwch, Glendid a Safonau Bwyd	714,330
Iechyd yr Amgylchedd	461,900
Safonau Masnach	491,280
Gwasanaethau Cleient Gwarchod y Cyhoedd	-57,510*
Traffig, Diogelwch y Ffyrdd a Gorfodaeth	338,020
Cynllunio Ymlaen	77,360
Parcio a Gorfodaeth	-1,858,660*
Cludiant	1,375,170
Tocynnau Teithio Rhad	497,640
Gwasanaethau Cefn Gwlad	625,930
Cyfanswm	3,717,250

Adran Economi a Chymuned 2021/22	
Maes	Cyllideb Net £
Rheolaeth yr Adran	374,640
Rhaglenni Adfywio	120,690
Cefnogi Cymunedau	256,520
Morwrol a Pharciau Gwledig	263,820
Cytundebau Hamdden	1,470,690
Rhaglenni Chwaraeon	52,260
Rhaglenni Datblygu Economaidd	-112,390*
Twristiaeth a Marchnata a Digwyddiadau	289,420
Llyfrgelloedd	1,642,510
Amgueddfeydd a'r Celfyddydau	544,730
Archifau	349,850
Cyfanswm	5,252,740

Adran Tai ac Eiddo 2021/22

Maes	Cyllideb Net £
Rheolaeth a Gweinyddiaeth	296,300
Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol	1,340,010
Gofalwyr	58,010
Swyddfeydd	1,368,900
Cynnal a Chadw	1,892,010
Arlwyo, Glanhau a Gofalu	-2,320*
Ynni	-158,410*
Canolfannau Cymuned, Adeiladau Amrywiol	230
Mân-ddaliadau	-138,200*
Unedau Diwydiannol, Intec a Mentec	109,870
Difa Pla a Rheoli Cŵn	10,960
Gwasanaethau Tai	665,160
Digartrefedd	1,236,850
Cyfanswm	6,679,370

Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd 2021/22

Maes	Cyllideb Net £*
Peirianeg	-551,480*
Uned Dŵr ac Amgylchedd	-158,740*
Uned Adeiladu	-13,620*
Rheoli Risg Llifogydd	589,960
Cyfanswm	-133,880*

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol 2021/22

Maes	Cyllideb Net £
Rheolaeth Adrannol	418,160
Cynlluniau Argyfwng (yn ymddangos yng nghynllun adrannol Cefnogaeth Gorfforaethol)	111,040
Uned Cefnogi Busnes y Cyngor	492,730
Cyfathrebu ac Ymgysylltu	448,310
Ymchwil a Gwybodaeth	421,160
Gwasanaethau Democratiaeth	2,147,980
Gwasanaethau Iaith Gymraeg	365,470
Caffael	264,200
Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol	490,720
Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant	469,280

Gwasanaeth Cefnogol	550,720
Dysgu a Datblygu'r Sefydliad	351,240
Siop Gwynedd, Galw Gwynedd, Bathodynau Glas, Cofrestrydd	688,370
Cyfanswm	7,219,380

Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth 2021/22	
Maes	Cyllideb Net £
Rheolaeth Adrannol	360,810
Cyllid a Chyfrifeg	1,180,360
Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys	127,530
Archwilio Mewnol	314,240
Cyflogau	340,670
Taliadau	178,820
Incwm	348,540
Refeniw Canolog	299,590
Trethi	171,680
Budd-daliadau	344,450
Technoleg Gwybodaeth - Corfforaethol	869,970
Technoleg Gwybodaeth - Rheoli Rhaglen	258,030
Technoleg Gwybodaeth - Datblygu	655,960
Technoleg Gwybodaeth - Isadeiledd	837,470
Technoleg Gwybodaeth - Cefnogol	328,230
Cyfanswm	6,616,350

Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol 2021/22	
Maes	Cyllideb Net £
Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr a chyllidebau cynlluniau penodol	709,660
Swyddog Monitro a Phriodoldeb	124,660
Gwasanaeth Cyfreithiol	602,370
Cofrestru Etholwyr	164,620
Crwner	332,830
Etholiadau	23,540
Cyfanswm	1,957,680

* ffigyrau negyddol gan fod incwm yn fwy na'r gwariant.



Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2021/22 - Blaenoriaethau Gwella





	Tudalen
Rhagair Arweinydd y Cyngor	3
Cyflwyniad i'r Cynllun	4
Blaenoriaethau Gwella	9

Mae'r adroddiad yn rhoi darlun o'r prif faterion y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod 2021/22, sef ein Blaenoriaethau Gwella, tra fod y Cynllun yn ei gyfanrwydd hefyd yn rhoi mwy o wybodaeth am holl ystod gwaith y Cyngor a'n cyllidebau.

Er mwyn gweld fersiynau electronig o unrhyw un o'r dogfennau yma, dilynwch y ddolen hon i wefan y Cyngor:

www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunYCyngor

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn iaith neu fformat arall ffoniwch 01766 771000 neu anfonwch e-bost i cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am y Cynllun hwn cysylltwch â

Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor drwy ffonio 01766 771000;
Ymweld â'r wefan – www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunYCyngor;
Neu anfonwch e-bost i cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru



@CyngorGwyneddCouncil



@CyngorGwynedd



01766 771000



www.gwynedd.llyw.cymru

Rhagair Arweinydd y Cyngor

Wrth gyflwyno'r adolygiad hwn o Gynllun Cyngor Gwynedd ar gyfer 2021/22 i chi mae'n amhosibl peidio ag edrych yn ôl ar y flwyddyn ddigynsail a fu. Byddai'n ffôl, os nad yn anghyfrifol, i beidio ymateb i effeithiau pellgyrhaeddol pandemig Covid-19 wrth i ni gynllunio ein gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bu 2020/21 yn flwyddyn na welwyd mo'i thebyg o'r blaen yn ein hoes ni, gydag unigolion a theuluoedd wedi dioddef profedigaethau a gwaeledd, colli gwaith neu incwm, a busnesau wedi eu taro yn ddigynsail. Rydw i, a'r Cyngor, yn cydymdeimlo â phob un ohonoch yn ddiffuant. Er na fedr y Cyngor ddatrys yr holl broblemau y mae Covid-19 wedi ei luchio atom fe wnawn bopeth o fewn ein gallu ein hunain i ymateb.



Mae'r Cynllun hwn felly'n cynnwys nifer o flaenoriaethau a phrosiectau sydd wedi eu datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, a rhai newydd ar gyfer 2021/22. Pwy fyddai wedi rhagweld flwyddyn yn ôl y byddem wedi darparu Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu sydd wedi, ac a fydd yn parhau, i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r frwydr yn erbyn y feirws? Gyda sefyllfa Covid-19 mor anwadal mae angen i ni fedru ymateb yn gyflym i anghenion pobl Gwynedd, ac os fydd angen i ni ddargyfeirio i wneud gwaith gwahanol yna mae angen bod yn realistig ynghylch yr hyn y mae'n bosib i ni ei gyflawni o fewn y Cynllun hwn.

Wedi dweud hynny, mae yna waith pellach sydd angen ei wneud mewn rhai meysydd i ddeall gwir effaith Covid-19, megis ar les ac addysg ein plant, ond fe wnawn y gwaith hwnnw a gweithredu yn ôl yr angen. Yn yr un modd rydym am addasu rhai prosiectau oedd yn rhedeg yn barod, megis 'twristiaeth gynaliadwy' a chynllun gweithredu cyffrous ac uchelgeisiol ar gyfer darparu cartrefi i bobl Gwynedd.

Byddwn yn cychwyn ail-adeiladu ar gyfer y dyfodol drwy edrych ar wahanol anghenion cymunedau lleol. Mae angen cychwyn wrth ein traed. Mae'n naturiol na fydd anghenion Bangor, Y Bala a'r Bermo yr un fath, felly bydd y gwaith yn cychwyn drwy greu Cynlluniau Adfywio Lleol a dwi'n edrych ymlaen i weld ffrwyth y gwaith hwn.

Cofiwch nad oedd effaith Covid-19 yn gwbl negyddol. Mae hefyd wedi amlygu yr holl elfennau rhagorol hynny oedd eisoes yn bodoli o dan yr wyneb ym mhobl Gwynedd. Drwy galedi y flwyddyn a fu mae pobl wedi helpu pobl. Mae cymunedau wedi dod at ei gilydd ac wedi lapio blanced ddiogel o amgylch y rhai mwyaf bregus yn ein plith. Mae angen diolch a dathlu yr ymdrech honno, ac mae gennym gynlluniau fydd yn ceisio cynnal y momentwm hwnnw i'r dyfodol, megis Cefnogi Llesiant Pobl.

Fedr Cyngor Gwynedd ddim ateb gofynion pawb a fedrwn ni ddim gwneud popeth ar ein pennau ein hunain. Yn fwy nag erioed mae Covid-19 wedi dangos pa mor ddibynnol ydym ni ar ein gilydd; a thrwy gydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill, y trydydd sector, busnesau a chymunedau, dwi'n obeithiol wrth edrych ymlaen at 2021/22 yn i'r sir arbennig hon.



Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,
Arweinydd Cyngor Gwynedd.

Cyflwyniad i'r Cynllun

Cafodd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018 (a'i adolygu yn flynyddol wedyn). Fe'i lluniwyd ar sail tystiolaeth o fewn yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd ag adborth o ymgynghori efo cymunedau, aelodau etholedig, staff a phartneriaid.

Yn unol â gofynion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf)** mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant, sydd yn syml yn crynhoi uchelgais y Cyngor o weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu. Mae hyn yn golygu bod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y Sir.

Mae'r amcanion yma wedi eu cyhoeddi eisoes yn ein **datganiad llesiant**, sydd hefyd yn egluro sut y maent yn cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol a osodwyd gan Llywodraeth Cymru yn y Ddeddf. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut mae gwaith y Cyngor yn cyfrannu tuag at wireddu'r uchelgais hon drwy gyfuniad o waith ddydd i ddydd Adrannau'r Cyngor a phrosiectau penodol sydd wedi eu hadnabod er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd hynny lle mae angen y mwyaf o'm hymdrech i'w datblygu. Mae'r prosiectau hyn wedi eu crynhoi o dan yr hyn a elwir yn Flaenoriaethau Gwella. Mae pob un o'r blaenoriaethau gwella yn cyfrannu at sawl un o'n hamcanion llesiant, ac mae'r cynllun yn nodi pa rai fesul prosiect.

Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ystyried y tymor hir, atal rhag digwydd, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio, "Ffordd Gwynedd", sydd â'i ffocws ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r cynllun yn cyfeirio at sawl enghraifft lle rydym yn gweithio'n ataliol, yn cynnwys pobl Gwynedd drwy ymgynghori a chydweithio â'n cymunedau a lle rydym yn ystyried anghenion y dyfodol. Mae hefyd enghreifftiau lle'r ydym yn cydweithredu ac yn gweithio yn integredig i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd - megis drwy ein gwaith fel aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, neu'n fewnol drwy brosiectau ein byrddau rhaglen e.e. y Bwrdd Cefnogi Pobl.

Er bod camau eisoes wedi eu cymryd i ddangos sut yr ydym yn cyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf rydym yn cydnabod fod gwaith pellach angen ei wneud er mwyn tystiolaethu hyn a'r effaith a geir ar drigolion Gwynedd. O ganlyniad, byddwn yn edrych i gryfhau ein trefniadau herio ac adrodd ar berfformiad er mwyn amlygu ein cyfraniad i egwyddorion y Ddeddf.

Bu i ni adolygu cynnwys y Cynllun dros y misoedd diwethaf er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i wneud y pethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sy'n dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar bobl Gwynedd i'r dyfodol. Wrth gwrs, mae rhai newidiadau sylweddol yn anghenion ein cymunedau yn sgil argyfwng Covid-19 ac mae bywyd bobl Gwynedd ar hyn o bryd yn edrych yn dra gwahanol i'r hyn yr oedd y tro diwethaf i ni adolygu'r cynllun hwn.

Rydym fel Cyngor felly wedi bod yn adolygu cynnwys y cynllun a'r blaenoriaethau a oedd wedi eu gosod gennym eisoes. Mae adolygiad 2021-22 o Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 yn cynnwys parhad o gynlluniau sydd eisoes yn y cynllun, yn ogystal â chasgliad o flaenoriaethau newydd; nifer ohonynt wedi codi yn uniongyrchol o ganlyniad i argyfwng Covid-19, ac eraill wedi codi'n anuniongyrchol wrth i'r argyfwng, yr amodau byw a'r cyfyngiadau a ddaeth gydag o ddod ag anghenion eraill fwy i'r wyneb. Mae llawer o'r meysydd sydd wedi eu cynnwys o fewn rhai o'r prosiectau, megis 'Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes' ac 'Enwau llefydd cynhenid Cymreig', wedi bod yn derbyn sylw fel rhan o waith y cyngor ers rhai blynyddoedd wrth gwrs. Fodd bynnag, mae heriau penodol sydd wedi codi yn sgil argyfwng Covid-19 wedi amlygu'r problemau fwyfwy, ac felly mae rhai pethau oedd eisoes ar waith bellach wedi eu cynnwys ymysg prif flaenoriaethau'r Cynllun.

Bydd y fersiwn hon o'r Cynllun, 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2021/22', yn disodli'r fersiwn gyfredol. Isod, ceisir grynhai'r prif addasiadau a wnaed yn dilyn yr adolygiad:

Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu o'r newydd:

- Adfywio: llunio cynllun adfywio ar gyfer ein hardaloedd
- Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc
- Strategaeth Dysgu Digidol
- Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes
- Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig
- Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol
- Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd
- Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth
- Sicrhau fod teuluoedd a plant ag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd angen arnynt i ffynnu
- Capasiti Gwarchod y Cyhoedd
- Sicrhau fod rheolwyr yn arddel eu rôl lechyd a Diogelwch yn effeithiol
- Cyflawni Arbedion
- Cymunedau Glân a Thaclus
- Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Yn ogystal, mae sgôp neu gynnwys y prosiectau canlynol wedi newid:

- Elwa o Dwristiaeth bellach wedi ei ehangu a'i ail-enwi yn Twristiaeth – llunio Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy
- Sgôp prosiect **Busnesau'n cael Cymorth i Ffynnu** wedi'i ehangu yn sgil yr angen am gefnogaeth ychwanegol i fusnesau'n dilyn heriau argyfwng Covid-19
- Darpariaeth Ôl-16, Dalgylch Bangor, Dalgylch Trefferthyr (Cricieth), Cydweithio Meirionnydd wedi ei rannu yn bedwar prosiect unigol sef:
 - Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn Arfon
 - Dalgylch Bangor
 - Dalgylch Cricieth; a
 - Cydweithio Meirionnydd
- Sgôp prosiect Cefnogi Llesiant Pobl wedi'i ehangu yn sgil anghenion gwahanol yn dod i'r amlwg ymysg ein cymunedau'n ystod argyfwng Covid-19
- Sgôp prosiect **Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith** wedi'i ehangu yn sgil cynnydd mewn diweithdra yn dilyn argyfwng Covid-19
- **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24** wedi ei newid i fanylu ar dri prosiect ychwanegol sydd yn dod o dan faner y strategaeth, sef:
 - Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwraeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu;
 - Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai : Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai; a
 - Gosod tai cymdeithasol i bobl leol: Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol
- Sgôp prosiect **Hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc** wedi'i newid oherwydd yr angen i ystyried sgil effaith y cyfnod clo ar sgiliau a hyder dysgwyr yn y Gymraeg
- Mae'r prosiect **Gwydnwch Cymunedol** wedi ei ymgorffori fel rhan o brosiect Cefnogi Llesiant Pobl
- Sgôp prosiect **Cynllun Prentisiaethau** wedi ei ehangu a'i ail-enwi yn Cynllunio'r Gweithlu
- Mae'r prosiect **Busnesau Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg** erbyn hyn yn derbyn sylw fel rhan o waith ddydd i ddydd yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Adran Economi a Chymuned.

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch yr hyn yr ydym wedi ei wneud mewn ymateb i'r materion a amlygwyd gan Gyngorwyr fel Blaenoriaethau Lleol yn ôl yn hydref 2017. Bydd unrhyw newidiadau neu addasiadau i'r blaenoriaethau, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu y bwriedir eu cynnal i'r dyfodol, yn cael eu cyfarch o fewn y Cynlluniau Adran perthnasol.

Mae sefyllfa ariannol ansicr Cymru a Phrydain yn gosod cryn her i ni fel Cyngor wrth i ni gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Mae cynnydd annigonol mewn grant gan y Llywodraeth yn golygu bod parhau i ddarparu nifer o wasanaethau yn anodd. Rhaid, felly, bod yn greadigol ac ystyried pob ffordd posib o ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl Gwynedd yn eu haeddu. Rydym yn datgan yn glir fodd bynnag y bydd unrhyw newid yn seiliedig ar yr angen i weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu ac i wella lles ein trigolion i'r dyfodol.

Ers i'r Cynllun gwreiddiol gael ei fabwysiadu mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu eu **Cynllun Llesiant** yn ystod gwanwyn 2018. Mae'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau a amlygir o fewn y Cynllun Llesiant yn gyson â'r rhai sydd o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023. Mae Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio ar y gwasanaethau dydd i ddydd a'r materion y mae'r Cyngor wedi eu blaenoriaethu tra bydd y Cynllun Llesiant yn canolbwyntio ar y meysydd lle y teimlir y gall sefydliadau cyhoeddus wneud mwy o wahaniaeth i lesiant pobl yr ardal trwy weithio ar y cyd.

Ein uchelgais yw gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'n bod fel pobl yn...

Amcanion Llesiant

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

Cael manteisio ar harddwch naturiol y sir

Byddwn yn gwneud hyn drwy arloesi a bod ar flaen y gad ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, gan ganolbwyntio ar...

Blaenoriaethau Gwella

Creu economi hyfyw a ffyniannus

Roi cyfle i bob disgybl gael y cyfle i gyflawni ei botensial

Leihau anghydraddoldeb o fewn y sir

Sicrhau mynediad at gartref addas

Helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg

Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant

Roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud

Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd

...fydd yn cael ei gynnal gan holl waith dydd i ddydd Adrannau'r Cyngor.

Blaenoriaethau Gwella

Ein Blaenoriaethau Gwella yw'r meysydd y credwn mae angen i ni ganolbwyntio arnynt oherwydd bod angen cynyddu neu wella'r sefyllfa bresennol. Isod, fe welwch ddisgrifiadau o'r 8 Blaenoriaeth Gwella, ac yna'r prosiectau unigol fydd yn cyfrannu at bob un ohonynt.

Mae yna rai prosiectau blaenoriaeth lle y bydd yn gwbl angenrheidiol i ni eu cyflawni ac, wrth gwrs, mae'r Cyngor yn bwriadu gwireddu pob un o'r prosiectau o fewn y cynllun hwn ac yn ymrwymo i roi pob ymdrech i wneud hynny. Fodd bynnag, dylid nodi fod argyfwng Covid-19, fel yr ydym wedi ei weld ers mis Mawrth 2020, yn achosi anawsterau a all gyfyngu ar ein gallu i gyflawni'n llawn ar rai pethau. Byddwn yn adrodd ar unrhyw anawsterau o'r fath yn ein hadolygiad nesaf o'r cynllun hwn ac mewn adroddiadau perfformiad perthnasol.

Blaenoriaeth Gwella 1

Creu economi hyfyw a ffyniannus.

Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod yna swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru Adran Economi a Chymuned

Mae diffyg twf yn wendid yn economi Gogledd Cymru gyfan, a'r gogledd orllewin yn arbennig. Er mwyn ceisio gwyrddroi'r sefyllfa daeth chwe sir y gogledd, a rhanddeiliaid eraill megis sefydliadau addysg y rhanbarth a'r sector breifat, ynghyd i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Prif gynllun y Bwrdd yw 'Cais Twf Gogledd Cymru' ac yn Rhagfyr 2020 arwyddwyd cytundeb rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu'r Cais Twf. Bydd y cais yn arwain at £945m o fuddsoddiad yn rhanbarth y Gogledd dros y pymtheg mlynedd nesaf gan greu hyd at 4,000 o swyddi ledled y Gogledd.

Fel aelod o'r Bwrdd Uchelgais, ein nod fel Cyngor yw sicrhau y bydd pobl a busnesau Gwynedd yn elwa i'r eithaf o'r buddsoddiad ariannol hwn, yn enwedig mewn cyfnod pan fydd angen ymateb i sgil-ffeithiau Covid-19 a Brexit.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i gyfrannu at raglen waith y Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys gwella argaeledd band eang cyflym, datblygu safle Atomfa Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Gwledig yng Nglynllifon. Byddwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru sy'n cael ei pharatoi gan Lywodraeth Cymru i adnabod prif raglenni buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Cymraeg.



2. Cadw'r Budd yn Lleol

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn **aros yn lleol**.

Nid yw'r farchnad leol yn gallu ymateb i gyfleon bob amser oherwydd cyfyngiadau o ran maint neu rwystrau eraill sy'n bodoli. Mae hynny wedyn yn arwain at fusnesau lleol yn colli'r awydd a'r gallu i gystadlu am waith gyda'r canlyniad nad oes modd uchafu gwariant y Cyngor a gedwir yn lleol.

Rydym yn ceisio cefnogi busnesau lleol gyda'r newidiadau i'r rheoliadau caffael yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd gan fanteisio ar y cyfleoedd hefyd i gaffael yn lleol.

Byddwn yn rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

1. Cwblhau prosiect er mwyn asesu ymarferoldeb cyflwyno **'Social Value Portal'** neu debyg i Wynedd h.y. rhannu y dull o asesu tendrau sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd trwy fesur Pris ac Ansawdd i un sy'n mesur Pris, Ansawdd a Gwerth Lleol.
2. Cynlluniau i **ddatblygu gallu'r farchnad** i ennill cytundebau caffael y Cyngor - Ymateb i gwestiynau y Ddeddf Llesiant mewn tendrau, cefnogaeth i ennill achrediadau iechyd a diogelwch.
3. Asesu cyfleon i osod tendrau i gwmnïau lleol yn sgil **Brexit** a'r rhyddid i weithredu tu allan i reoliadau caffael Ewrop.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



3. Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £28,500 neu fwy) Adran Economi a Chymuned

Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol yn y sir bron yr isaf yng Nghymru yn 2020 (£500 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418 – yr isaf ym Mhrydain). Mae cyflogau isel, yn anorfod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.

Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, gan sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr, gweithredu cynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda, ac wedi dylanwadu ar benderfyniad i barhau'r gwaith dadgomisiynu ar safle Atomfa Trawsfynydd.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau hyn, ac hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis cefnogi datblygiad sector diwydiannau creadigol a digidol, cefnogi datblygiad sector iechyd a meddygol a datblygu cynllun gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i baratoi Safle Atomfa Trawsfynydd er mwyn cynhyrchu ynni carbon isel ac isotopau meddygol i'r dyfodol. Cynlluniau o'r fath fydd yn sicrhau parhad swyddi gwerth uchel yn lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



4. Arloesi Gwynedd Wledig

Adran Economi a Chymuned

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 79% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fygythiadau o ran cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig gyda'r heriau hyn wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws a Brexit.

Mae'r Cyngor yn ceisio cryfhau sail yr economi wledig gan annog mentrau lleol i ddatblygu, creu a chynnal swyddi ar draws Gwynedd. Mae pecyn ariannol wedi'i ganfod trwy Ewrop i weithredu Rhaglen Datblygu Gwledig yn yr ardal sydd yn cynnwys pecyn o brosiectau i hyrwyddo mentergarwch.

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi WiFi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol. Rydym hefyd yn rhan o raglen ARFOR, sef buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i greu mwy a gwell swyddi mewn ardaloedd yng ngorllewin Cymru ble mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod, ynghyd â gweithio i ddatblygu'r economi sylfaenol a chefnogi ein busnesau gwledig i addasu a datblygu yn sgil Covid-19 a Brexit.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



5. Hybu Canol Trefi Adran Economi a Chymuned

Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol gan gynnig ystod o wasanaethau i'n cymunedau.

Ond mae ardaloedd "stryd fawr" ein canol trefi yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd gyda nifer o siopau cadwyn cenedlaethol yn cau a masnachu yn cael ei gyfyngu yn sgil Covid-19. Mae angen hybu a chefnogi datblygiad canol trefi i sicrhau eu bod yn gallu addasu a ffynnu i'r dyfodol; i gynnal a chreu gwaith; darparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr a darparu unedau preswyl newydd.

Rydym eisoes wedi bod yn cydweithio â busnesau ym Mangor a Chaernarfon i hyrwyddo'r Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) ac i ddenu adnoddau Rhaglen Adfywio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Buom yn llwyddiannus yn sefydlu rhaglen fenthyg i uwchraddio adeiladau segur yn ardaloedd Caernarfon, Bangor, Bethesda a Phenygroes a bydd y rhaglen yn ymestyn i holl drefi Gwynedd yn ystod 2021.

Yn ystod 2020 sefydlwyd grŵp traws-adrannol ar gyfer datblygu rhaglen o welliannau a mesurau tymor byr mewn ymateb i argyfwng Covid-19. I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith yma ac yn paratoi cynlluniau ar gyfer 13 o ddalgylchoedd yng Ngwynedd a hynny ar sail yr hyn sydd yn bwysig i drigolion o fewn y cymunedau hyn.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



6. Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith Adran Economi a Chymuned

Yn ystod 2020 cyflwynwyd enwebiad llawn o Wynedd i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ac i Unesco ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd i Dirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r enwebiad yn rhoi cyfle i ni gydnabod cyfraniad y diwydiant llechi traddodiadol ar blatfform rhyngwladol, ac i ddathlu a gwarchod y diwylliant Cymraeg sydd ynghlwm â'r ardaloedd hynny.

Rydym eisoes wedi defnyddio enwebiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi ac i gynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr. Mae £1m o adnoddau ychwanegol wedi eu denu i'r sir trwy'r Gronfa Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru, Yr Undeb Ewropeaidd a Pharc Cenedlaethol Eryri trwy brosiect LleCHI.

I'r dyfodol byddwn yn cydweithio gyda'r cymunedau llechi, trwy brosiect LleCHI, i greu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn gwella gwedd a golwg cymunedau, gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr, ac yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, iaith a diwylliant.

Bydd y Pwyllgor Treftadaeth Byd yn cyfarfod fis Mehefin / Gorffennaf 2021 a byddwn yn parhau i ymgysylltu a chydweithio efo cymunedau, tirfeddianwyr, busnesau a phartneriaid i sicrhau ein bod yn barod i fanteisio ar y cyfleon a ddaw yn sgil y dynodiad er budd pobl Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

7. Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu Adran Economi a Chymuned

Mae'n gyfnod ansicr i fusnesau ar hyn o bryd o ganlyniad i Covid-19 a Brexit gyda newidiadau mewn trefniadau masnachu a chystadlu. Mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o helpu mentrau lleol i addasu ac ymateb i'r her ac rydym eisoes wedi gwneud ymdrech ddigynsail i gefnogi busnesau lleol drwy ddarparu cymorth ariannol, cyngor a gwybodaeth.

Mae busnesau'r sir yn ymwneud â nifer o adrannau'r Cyngor neu'n derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Rydym eisoes wedi ymgynghori â busnesau'r sir i weld a yw'r cymorth a'r gefnogaeth y maent yn ei gael gan y Cyngor y gorau y gall fod.

Rydym eisoes wedi cefnogi a chydweithio gyda Swyddfa Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar becyn o brosiectau Cais Twf er mwyn creu cyfleoedd i fusnesau o fewn economi Gwynedd i'r dyfodol. Yn ogystal, rydym wedi cydweithio gyda thîm Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i ddatblygu rhaglen i hyrwyddo prynu lleol, ac wedi adolygu'r angen am ofod gan fusnesau (cyn Covid-19).

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i flaenoriaethu adnoddau ac ymdrech i gefnogi ein busnesau lleol gan sicrhau fod pob rhan o'r Cyngor yn ystyried sut gallent gynnig cymorth i gefnogi busnesau. Byddwn hefyd yn annog busnesau Gwynedd i wneud y gorau o'r cymorth sydd ar gael gan eraill, ac i leisio anghenion busnesau Gwynedd yn rymus wrth drafod gyda'n partneriaid, yn enwedig yng ngoleuni'r pandemig a Brexit.

Byddwn hefyd yn gweithredu:

- Rhaglen Swyddi Gwerth Uchel ac o Ansawdd er mwyn diogelu a chreu swyddi ar safle Trawsfynydd, Llanbedr a sectorau allweddol sydd yn creu swyddi o ansawdd ar draws Gwynedd
- Rhaglen Arloesi Gwynedd Wledig ac ARFOR er mwyn annog busnesau bach yn yr economi sylfaenol i arloesi a ffynnu
- Rhaglen Gwella Busnes i Bawb ar draws gwasanaethau Cyngor Gwynedd
- Rhaglen Cyfathrebu Busnes er mwyn ymgysylltu gyda busnesau a rhannu gwybodaeth.

Yn ogystal, byddwn yn gweinyddu Pecynnau Cymorth Busnes ar ran Llywodraeth Cymru er mwyn cynnig cymorth ariannol i fusnesau Gwynedd mewn ymateb i gyfyngiadau masnachu Covid-19.

I'r dyfodol byddwn angen gwerthuso rhaglenni blaenoriaeth Cynllun y Cyngor ar gyfer datblygu'r economi a chefnogi busnesau a hynny yn sgil effaith Covid-19 a Brexit. Byddwn hefyd angen adolygu rôl y Cyngor yn y maes gyda phartneriaid yn lleol a rhanbarthol a chytuno ar flaenoriaethau gwaith i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**

8. Twristiaeth – llunio cynllun twristiaeth cynaliadwy Adran Economi a Chymuned

Mae gennym bryder nad yw pobl Gwynedd yn elwa cymaint ag y dylent o dwristiaeth, gyda'r argyfwng Covid-19 wedi tanlinellu sut y gall effeithiau negyddol y diwydiant weithiau orbwyo'r manteision.


Mae yna waith wedi ei wneud er mwyn deall y newid mewn tueddiadau twristiaeth dros y blynyddoedd ac adnabod y buddion a'r risgiau i Wunedd, yn cynnwys effaith ar gymunedau, iaith a diwylliant yr ardal ac ail-gartrefi.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae yna waith wedi ei wneud er mwyn llunio egwyddorion twristiaeth cynaliadwy ar gyfer Gwynedd fydd yn sail i gynllun rheoli i'r dyfodol.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer twristiaeth i'r dyfodol ac yn datblygu Cynllun Rheoli Economi Ymweld Gwynedd mewn cydweithrediad efo cymunedau a'r sector er mwyn sicrhau y budd gorau i bobl Gwynedd o ymwelwyr. Bydd y Cynllun yn gosod cyfeiriad i bolisiau a gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor i'r dyfodol, ond bydd hefyd yn cydnabod yr angen tymor byr i ymateb i effaith Covid-19.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



9. Adfywio: Llunio cynlluniau adfywio ar gyfer ein hardaloedd

Adran Economi a Chymuned

Mae risg fod pob gwasanaeth yn gweithredu eu rhaglenni eu hunain yn unol a'u canllawiau grant, ond efallai ddim yn ymateb i wir anghenion a chyfleoedd adfywio Gwynedd. Rydym wedi sefydlu Bwrdd Adfywio gyda'r bwriad o ddatblygu Rhaglen Adfywio ar gyfer cymunedau'r sir. Bydd y Rhaglen yn ymgorffori gweithgareddau traws-adrannol ynghyd â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor.

Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio newydd ac yn datblygu 13 Cynllun Adfywio ar gyfer ardaloedd Gwynedd.

Byddwn yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid er mwyn deall sut mae cymunedau yn dymuno gweld eu hardaloedd yn datblygu yn y 10-15 mlynedd nesaf, ac yn adnabod blaenoriaethau lleol. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi sylw arbennig i anghenion canol trefi a dyfodol y 'stryd fawr' ar draws Gwynedd i'r dyfodol.

Byddwn yn sicrhau fod gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor yn cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad y Cynlluniau Adfywio hyn.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



Blaenoriaeth Gwella 2

Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial.

Os am fanteisio ar unrhyw gyfleoedd fydd yn codi, mae'n allweddol fod gan Wynedd gyfundrefn addysg gynaliadwy o ansawdd, sy'n rhoi'r sgiliau i'n trigolion fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Darpariaeth Ôl-16 yn Arfon

Adran Addysg

Mae amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon yn effeithio ar ddeilliannau a llwybrau dysgu.

Mae'r Cabinet eisoes wedi rhoi caniatâd i gychwyn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd yr ymgysylltu anffurfiol yn ystod Tymor yr Hydref 2020.

Yn 2021/21, byddwn yn defnyddio casgliadau'r ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i symud ymlaen i sefydlu cynigion drafft fydd yn arwain at gynnig opsiwn ffafredig i Gabinet y Cyngor yn yr Hydref.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



2. Dalgylch Bangor Adran Addysg

Mae amgylchedd dysgu'r plant yn anaddas gan fod nifer o ysgolion cynradd ym Mangor (ac yn ardal Penrhosgarnedd yn benodol) yn llawn neu'n orlawn.

Mae gwaith adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd fydd â chapasiti i dderbyn hyd at 420 o ddysgwyr wedi ei gwblhau erbyn Tachwedd 2020. Yn ystod 2021/22 byddwn yn cwblhau'r gwaith o adeiladu estyniad a sicrhau gofal cymunedol ar safle Ysgol y Faenol ym Mhenrhosgarnedd gyda chapasiti i dderbyn 315 o ddysgwyr.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



3. Dalgylch Cricieth

Adran Addysg

Mae cyflwr adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Trefferthyr yng Nghricieth yn wael, sy'n effeithio ar brofiad y dysgwr. Byddwn felly'n adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu.

Yn 2021/22, yn sgil y broses o gyhoeddi rhybudd statudol, byddwn yn symud ymlaen i ymgysylltu ar gynlluniau, sicrhau caniatâd cynllunio ac apwyntio contractwyr.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

4. Cydweithio Meirionnydd

Adran Addysg

Mae risg fod materion yn ymwneud â'r drefn bresennol yn effeithio ar brofiadau dysgwyr ym Meirionnydd, e.e. mae ysgolion uwchradd Meirionnydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Os na fydd datrysiad i'r sefyllfa, bydd yr effaith ar wydnwch y gyfundrefn addysg a'r amodau arweinyddiaeth yn yr ardal yn parhau.

Mae gwaith wedi ei gomisiynu i ymchwilio i ganfod datrysiadau creadigol fydd yn arwain at gydweithio rhwng ysgolion uwchradd Meirionnydd er mwyn sicrhau bod ansawdd yr addysg yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn sefydlu trefn ddiwygiedig ar y cyd gyda Chadeiryddion, Is gadeiryddion a Phenaeithiaid Meirionnydd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

5. Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Adran Addysg

Mae yna risg y byddwn yn methu a darparu yn addas ar gyfer pob disgybl gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) oherwydd na chafwyd adnoddau gan y Llywodraeth i gwrdd â'r cynnydd mewn angen am ddarpariaeth statudol (Deddf ADY a Tribiwnlys, 2018).

Mae'n bosibl hefyd na fydd plant a phobl ifanc yn cael y mynediad cywir at staff arbenigol (e.e. Seicolegwyr Addysg dwyieithog, Athrawon Synhwyradd) a rolau allweddol o ran swyddi statudol o fewn y cod (Swyddog Arweiniol y Blynyddoedd Cynnar, Cydlynnydd ADY) oherwydd cyfuniad o anawsterau recriwtio, cyllido, a chynnydd mewn llwyth gwaith.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- Parhau i baratoi at y newid deddfwriaethol gan roi ffocws ar y blynyddoedd cynnar, Ôl-16, partneriaeth gyda rhieni ac asiantaethau, a'r dull cyllido mwyaf addas ar gyfer y gofyn deddfwriaethol
- Sefydlu prosesau a darpariaethau yn y blynyddoedd cynnar, ac mae hyn yn cynnwys mapio'r galw mewn llwyth gwaith (e.e. nifer o blant fydd angen sylw arbenigol/cymorth)
- Sefydlu prosesau a darpariaethau yn y sector Ôl-16, gan gydweithio'n agos gyda'r Colegau Addysg Bellach
- Sefydlu dull ariannu - adolygu'r dull ariannu er mwyn cael model sydd yn rhoi gwell sefydlogrwydd o ran darpariaeth
- Parhau â thrafodaethau cenedlaethol, gan barhau i drosglwyddo'r neges ynglŷn â phryder hyfforddi a recriwtio staff arbenigol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**

6. Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc Adran Addysg

Mae pryder y gall rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y bu angen help ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw ynghyd â chefnogaeth gyda'u lles.

Mae rhieni yn bryderus ynglŷn a'u gyrru i'r ysgol neu yn penderfynu addysgu gartref, ac mae cynnydd mewn pryderon diogelu.

Rydym yn ymwybodol fod pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar. Yn ystod 2021/22 byddwn yn canolbwyntio ar ddeall effeithiau y cyfnod clo ar les plant bach ac yn adolygu ein trefniadau a'n darpariaethau er mwyn sicrhau y cychwyn gorau i deuluoedd a phlant 0-5 oed. Yn ystod 2021/22 byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gyfer y grŵp oedran 5-16 drwy gefnogi'r ysgolion i weithredu Rhaglen Cyflymu'r Dysgu gydag arian gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ein caniatáu i ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr.

Tu hwnt i'r ysgol rydym hefyd yn sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 oed wedi eu heffeithio yn anghymesur gan yr argyfwng, fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae mwy o gyfeiriadau am gymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd ymysg y grŵp oedran hwn. Law yn llaw gyda'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg nac hyfforddiant mae bwriad felly i roi sylw penodol i'r maes hwn er mwyn lliniaru unrhyw sgil-ffeithiau gan sicrhau fod ein pobl ifanc yn cael cefnogaeth a darpariaeth briodol i'w galluogi i ffynnu.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**

7. Strategaeth Dysgu Digidol

Adran Addysg

Mae risg o ddarparu addysg is-safonol i blant Gwynedd oherwydd methiant i uchafu'r cyfleoedd y mae dysgu digidol yn ei gynnig. Bwriad y strategaeth yw rhoi'r ddarpariaeth ddigidol orau i gefnogi ein dysgwyr a'n hathrawon i feithrin ystod o sgiliau i ddefnyddio technoleg yn hyderus, creadigol ac yn feirniadol.

Yn sgil diwygio'r cwricwlwm mae cymhwysedd ddigidol yn gyfrifoldeb statudol ar draws pob maes dysgu ac mae angen ei ystyried ym mhob agwedd wrth ddyfunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae amrywiaethau mewn ansawdd rhwydweithiau ysgolion, a chyflwr a nifer ac argaeledd dyfeisiadau i athrawon a dysgwyr. Mae amrywiaeth yn nealltwriaeth y cyfrwng ymysg athrawon. Nid yw'r drefn o gynnal offer yn sicrhau mynediad di- dor.

Mae gwaith yn digwydd i lunio strategaeth o'r newydd ac erbyn 2021/22 byddwn wedi cyhoeddi'r strategaeth ac yn ei rhoi ar waith yn ystod 2021/22.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Blaenoriaeth Gwella 3

Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.

Rhaid cydnabod hefyd, ar hyn o bryd, nad yw pob un yn ein cymdeithas yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial. Yn sicr, fel ym mhob sir yng Nghymru, mae yna anghydraddoldeb yn bodoli o fewn y sir ar wahanol lefelau, gyda'r anghydraddoldeb a grëir gan tlodi yn sylweddol o ran y niwed sy'n cael ei greu.

Mae'n amlwg fod tlodi hefyd yn gallu cael effaith andwyol sylweddol ar lesiant, ac yn arbennig felly y dyfodol a gynigir i blant. Tra bod gennym wasanaethau sy'n ceisio meirioli effeithiau tlodi, mae'n ddyletswydd arnom i ystyried a oes mwy y gallwn ei wneud.

Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i gynnal gwasanaethau o safon ar gyfer edrych ar ôl y plant hynny sy'n canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae angen i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Yn y pen draw, nid oes unrhyw un ohonynt eisiau bod yn y fath sefyllfa.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith

Adran Economi a Chymuned

Mae nifer fawr wedi colli eu gwaith yng Ngwynedd dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil Covid-19. Mae lefelau diweithdra wedi codi yn sylweddol a rhagolygon yn dangos y bydd yn cynyddu eto dros y misoedd nesaf. Mae nifer o bobl Gwynedd hefyd yn methu â chyflawni eu llawn botensial gan eu bod wedi eu tangyflogi neu wedi eu heithrio o gyflogaeth.

Gall diweithdra a lleihad mewn incwm aelwydydd effeithio ar iechyd a lles unigolion a theuluoedd a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus. Mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.

Rydym eisoes wedi gwyro blaenoriaethau er mwyn gallu ymateb o fewn adnoddau presennol gan:

- ymestyn rhaglen Cymunedau i Waith er mwyn cefnogi mwy o unigolion di-waith sydd wedi eu cyfeirio gan asiantaethau Llywodraeth i dderbyn cymorth i oresgyn rhwystrau i waith
- weithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau fod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, ac yn cefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith
- gefnogi gweithluoedd sydd yn cael eu diswyddo er mwyn iddynt gael mynediad at wybodaeth berthnasol gan wahanol wasanaethau, a hynny mewn cyfnod lle mae cyfyngiadau Covid-19
- gydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen 'Kickstart' y Llywodraeth yng Ngwynedd i gefnogi busnesau a chyflogwyr lleol i gyflogi pobl ifanc am gyfnod o 6 mis a datblygu eu sgiliau gwaith.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau uchod ac yn cydweithio yn agos gyda'n partneriaid ledled Gogledd Cymru a chydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i wella cydlynid ein gwasanaethau. Byddwn yn darparu rhaglen i gynnig profiadau gwaith i bobl ifanc di-waith mewn busnesau ar draws Gwynedd a bydd tasglu a sefydlwyd yn ystyried os oes camau pellach gall Cyngor Gwynedd ei gymryd i ymateb i'r her anferthol o gefnogi pobl Gwynedd yn ôl i waith cyn gynted â phosibl.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

2. Cefnogi Llesiant Pobl

Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd

Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd yn sgil argyfwng Covid-19, ac mae sefyllfa fregus rhai trigolion eraill wedi gwaethygu yn ystod yr argyfwng. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel ac yn iach.

Mae trigolion yn ei chael hi'n anodd i gael mynediad at wasanaethau a chanfod gwybodaeth am be sydd ar gael i'w helpu, yn arbennig drwy gyfryngau rhithiol ac ar-lein ac felly'n wynebu eu allgau yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Mae rhai trigolion yn wynebu caledi ariannol, yn wynebu colli gwaith a cholli cartref. Mae trigolion yn ei chael hi'n anodd cael yr help sydd ei angen arnynt i ddelio gyda'r heriau hyn a chynnal eu llesiant yn lleol, ac yn amserol.

Mae gennym rwydwaith eang a niferus drwy gymunedau'r sir sy'n helpu a chefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

1. Blaenoriaethu ein ymdrechion a byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi trigolion:-
 - sy'n wynebu digartrefedd
 - sy'n gofalu am anwyliaid yn ddi-dâl
 - sy'n wynebu tlodi ariannol a thlodi bwyd
 - sy'n cael eu allgau'n ddigidol.
2. Byddwn yn gweithio ar draws gwasanaethau a gyda'n partneriaid ar:
 - ymyraethau llesiant i blant, pobl ifanc a phobl o bob oed
 - cefnogi cymunedau
 - cynnal gwydnwch cymunedau a chefnogi gwirfoddolwyr/ysbryd cymunedol.
3. Byddwn hefyd yn edrych ar fodolau ar gyfer sicrhau fod trigolion yn cael mynediad i'r ystod eang a newydd o gefnogaeth sydd ar gael yn amserol, yn gydlynus ac yn lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

3. Merched mewn Arweinyddiaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Er yn gadarn ei fod yn talu cyflog ar sail cyfartal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad o fewn y gweithlu cyfan - h.y. 70% merched 30% dynion.

Byddwn yn cyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



4. Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb (Sicrhau Tegwch i Bawb)

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Rydym yn awyddus i sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor er mwyn gwella ein gwasanaethau ar gyfer pawb o bobl Gwynedd.

Erbyn diwedd 2020/21 byddwn wedi cynnal ymchwiliad trylwyr o farn pobl Gwynedd sydd â nodweddion gwarchodedig (fel maent yn cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010) am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu cynnig, gan hefyd adnabod unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd canlyniad yr ymchwiliad hwn yn sail i nifer o'r gweithgareddau pellach o fewn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y 5 Amcan o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24.

Yn ystod 2021/22 fe fyddwn yn:

- Datblygu rhaglen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth i staff a rheolwyr er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o anghenion pobl Gwynedd a'r Ddeddf ar gyfer ei chyflwyno o Fedi 2021 ymlaen
- Byddwn hefyd yn parhau i gynnig cymorth a hwyluso gallu rheolwyr i gynnal Asesiadau Cydraddoldeb
- Annog staff i gwblhau'r holiadur monitro er mwyn cael tystiolaeth ddibynadwy i'n helpu i wella amrywiaeth ein gweithlu, ac i leihau unrhyw fylchau tâl.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Blaenoriaeth Gwella 4

Mynediad at gartrefi addas

Mae gan y maes tai rôl allweddol i helpu'r Cyngor gyflawni ein huchelgais. Gwyddwn fod cael cartref sydd yn addas ac o safon yn arwain at well iechyd, cymunedau mwy gwydn a phoblogaeth sy'n gallu cyfrannu yn llawn i gymdeithas. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu cynigion tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd y gall pobl fyw ynddynt trwy gydol eu hoes yn ogystal â chynnig cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen.

Fel Awdurdod Lleol, byddwn yn ymyrryd i annog ystod o opsiynau cefnogaeth a llety er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Law yn llaw â hyn, rhaid sicrhau fod y camau a gymerir yn parchu diwylliant cymunedau'r sir.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu Adran Tai ac Eiddo

Er mwyn cyrraedd uchelgais ein Strategaeth Tai i "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd", rydym wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynnwys dros 30 o gynlluniau penodol a buddsoddiad o £77 miliwn.

Bydd y cynlluniau hyn yn anelu i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn cychwyn gweithredu ar y cynlluniau hyn er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartrefi addas o fewn eu cymunedau.

Mae'r galw ar ein gwasanaeth digartrefedd wedi cynyddu yn y misoedd diwethaf o ganlyniad i bandemig Covid-19 a byddwn yn anelu i flaenoriaethu nifer o'r cynlluniau a fyddai'n cynyddu'r cyflenwad o dai ar gael i'r gwasanaeth digartrefedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**



2. Mynediad rhwydd a chlr at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai: Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai


Adran Tai ac Eiddo

Ar hyn o bryd, mae nifer o bwyntiau cyswllt o fewn yr Adran i'r cyhoedd gael mynediad at wahanol wasanaethau yn y maes Tai ac Eiddo. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys prosiect i sefydlu un pwynt cyswllt drwy greu Desg Gymorth Tai.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn ymchwilio i fodolau gwahanol o ddarparu desg gymorth a chychwyn ar y gwaith o sefydlu math o Ddesg Gymorth Tai all gynghori'r cyhoedd sut orau i ddatrys eu hanghenion tai.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



3. Gosod tai cymdeithasol i bobl leol: Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol

Adran Tai ac Eiddo

Rydym wedi cyflwyno Polisi Gosod Tai newydd sydd wedi bod yn weithredol ers Haf 2020. Mae'r polisi hwn yn blaenoriaethu pobl leol, ac yn disodli'r hen system pwyntiau i ddyrannu tai.

Mae'r drefn newydd yn golygu fod ceisiadau am dai cymdeithasol yn cael eu rhoi mewn un o 4 'band' yn ddibynnol ar eu hanghenion tai a'u cysylltiad gyda Gwynedd neu beidio.

Yn ystod 2021/22 byddwn angen sicrhau fod trefniadau effeithiol ar gyfer gweithredu'r polisi gosod newydd a sefydlu trefn i fonitro fod y polisi hwn yn cael ei weithredu drwy'r sir i sicrhau'r cyfleoedd gorau i bobl Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



4. Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes

Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth

Ers sawl blwyddyn, mae'r Cyngor wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i newid Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn rheoli trosglwyddiad cartrefi domestig i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar sy'n destun ardrethi annomestig. Mae'r mwyafrif helaeth yn osgoi unrhyw drethiant lleol am eu bod yn derbyn rhyddhad ardrethi busnesau bychain. Rydym yn bwriadu parhau i bwysu am ddiwygio'r drefn yn y maes yma yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan ddefnyddio tystiolaeth rydym yn ei gasglu yn barhaus, er mwyn cael Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ddeall maint y broblem sy'n bodoli yng Ngwynedd. Siomedig fu'r ymateb hyd yma gyda'r Llywodraeth yn canolbwyntio mwy ar yr effaith niweidiol honedig ar dwristiaeth yn hytrach na'r effaith niweidiol go iawn ar drigolion Gwynedd.

Byddwn hefyd yn parhau â'r gwaith o bwysu ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref i gynnwys dosbarth defnydd penodol ar gyfer tai preswyl a ddefnyddir fel llety gwyliau, ynghyd â chyflwyno trefn trwyddedu gorfodol er mwyn gallu gweithredu'r busnes. O ganlyniad, ni ddylai unrhyw eiddo heb ganiatâd priodol ar gyfer ei ddefnyddio fel llety gwyliau tymor byr fod yn gymwys i drosglwyddo o fand Treth Cyngor i'r rhestr ardrethi annomestig.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi'r incwm a geir o'r premiwm Treth Gyngor yn ein Cynllun Gweithredu Tai er mwyn ceisio lleddfu rhywfaint ar yr effaith andwyol y mae ail gartrefi yn ei gael ar argaeledd tai i bobl leol. Wrth i eiddo drosglwyddo i fod yn unedau gwyliau mae posibilrwydd y bydd llai o eiddo yn destun y premiwm.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Blaenoriaeth Gwella 5

Byw bywydau trwy
gyfrwng y Gymraeg.

Un nodwedd unigryw sydd gan Wunedd fel sir hefyd yw ei Chymreictod. Mae Cyngor Gwynedd ei hun wedi ymrwymo i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ni fydd hynny yn ddo'i hun yn ddigonol os ydym am gadw natur unigryw'r sir yn fyw.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol


Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

I'r dyfodol fe fyddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda gweddill gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig y rhai rheng flaen, i gwblhau'r asesiad a datblygu sgiliau staff newydd.

Byddwn hefyd yn datblygu cynllun prentisiaethau i ddenu a datblygu staff gyda'r gallu ieithyddol briodol ac yn parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth dysgu sydd eisoes yn ei le (gyda hyblygrwydd i addasu i anghenion timau penodol).

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



2. Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo gyrff cyhoeddus.

Trwy Is-Grŵp y Gymraeg o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus byddwn yn llunio cynllun ar y cyd gyda'n partneriaid ar y Bwrdd er mwyn ceisio symud i sefyllfa lle mae defnyddio'r Gymraeg yn naturiol ar y cyfle cyntaf bosib, ac i annog pobl i wneud hynny.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

3. Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae gennym bryder fod enwau llefydd cynhenid Cymreig yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddifffyg defnydd o'r enwau Gymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg.

Byddwn yn llunio rhaglen waith gan flaenoriaethu'r meysydd i gael sylw ac ym mha drefn. Byddwn hefyd yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud fel rhaglen waith ym meysydd adeiladau'r Cyngor, enwau strydoedd ac enwau llefydd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

4. Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc Adran Addysg

Mae sgiliau a hyder dysgwyr (o gartrefi di-Gymraeg yn arbennig) yn y Gymraeg wedi dirywio yn sgil y cyfnod clo a Covid-19.

Yn 2021/22 byddwn yn sefydlu gwaelodlin o sefyllfa bresennol y Gymraeg yn sgil effaith y cyfnod clo a Covid-19, ac yn llunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu mewn ymateb i'r sefyllfa.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**



Blaenoriaeth Gwella 6

Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant.

Rydym fel Cyngor yn darparu gofal yn uniongyrchol i blant a'u teuluoedd a phobl sydd angen cymorth arbenigol, ond ein gweledigaeth yw bod pawb o bob oedran yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen yn y ffordd fwyaf addas a chyfleus iddyn nhw.

Gan fod anghenion pob unigolyn a theulu yn siŵr o fod yn wahanol, er mwyn iddynt barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant mae angen i ni fel Cyngor addasu ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth. Er mwyn llwyddo, bydd angen i ni barhau i gydweithio â darparwyr eraill, megis y Bwrdd Iechyd, gan gofio rhoi anghenion yr unigolyn yn ganolog bob tro.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu nifer o ffactorau a all effeithio ar ein gallu i **barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd**. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau byddwn yn ystod 2021/22 yn:

- ceisio deall "gwir gost gofal" er mwyn ystyried opsiynau posib ar gyfer ein trefniadau comisiynu gofal i'r dyfodol
- sicrhau ein bod yn deall yr angen am ddarpariaeth gwelyau nyrsio yn y sir, a symud ymlaen gyda phrosiect Safle Penrhos er mwyn cyfarch y prinder ym Mhen Llŷn
- gweithio tuag at gynyddu nifer y gwelyau dementia yn y sir ymhellach
- ystyried a yw'n gwasanaethau cefnogol e.e. gofal dydd ac ysbaid yn parhau'n addas er mwyn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd, neu os oes angen i ni wneud rhywbeth yn wahanol
- ystyried sut allwn ni wella addasrwydd ein hadeiladau darparu gofal wrth geisio cwrdd â mesurau rheoli haint ychwanegol.

Rydym hefyd wedi ymrwmo i **wella safon ein darpariaeth gofal ar draws y sir**. Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- agor uned dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog, ond sydd heb allu agor oherwydd argyfwng Covid-19
- cwblhau'r gwaith o adeiladu uned dementia ychwanegol yn ein cartref yn y Bermo
- cwblhau addasiadau i'n cartref yn Nolgellau er mwyn medru cynnig gofal mwy pwrpasol ar gyfer unigolion ag anghenion corfforol dwys
- cydweithio gyda chymdeithas tai Adra ar ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli a cheisio adnabod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir, gyda blaenoriaeth i ardal Dolgellau a Meirionnydd yn ehangach
- cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**

2. Ail-Ddylunio ein Gwasanaethau Gofal Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae anghenion gofal y sir yn newid, ac rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i drawsnewid ein gwasanaethau cymunedol. Mae angen i ni hwyluso gallu ein staff ni a staff y Bwrdd Iechyd i gydweithio fel un tîm o fewn ardaloedd penodol. Bydd hyn yn arwain at sicrhau mai un pwynt cyswllt fydd gan unigolion sydd angen cymorth iechyd a gofal yn y gymuned er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau a gwasanaeth di-dôr. Rydym hefyd yn gweithio i newid ein ffordd o ddarparu gofal cartref ar draws y sir er mwyn hwyluso'n gallu i sicrhau fod y gofal wedi'i deilwro yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

Yn ystod 2021/22, byddwn yn:

- arfogi'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal yn ogystal â staff iechyd) i allu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar hyfforddiant priodol a dileu unrhyw rwystrau technolegol
- dyfarnu cytundebau gofal cartref newydd ymhob ardal gyda'r nod o weithredu'r model newydd yn fuan yn 2022/23
- cryfhau'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, yn cynnwys datblygu gwasanaeth symud a thrin arbenigol i alluogi unigolion i fyw mor annibynnol â phosib
- ychwanegu at y rhwydwaith o hybiau cymunedol sy'n cefnogi a chreu cyfleon i unigolion gydag anabledau dysgu drwy ddatblygu cynlluniau ar gyfer Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau
- ailagor ein hwb iechyd meddwl cymunedol ym Mhwllheli, yn dilyn iddo orfod cau yn sgil argyfwng Covid-19 ac edrych ar opsiynau i ddatblygu hybiau pellach ar draws y sir
- edrych ar opsiynau i ddatblygu darpariaeth cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i garfan iau ardal Arfon.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



3. Y Gweithlu a Recriwtio yn y Maes Gofal Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae recriwtio i'r maes gofal yn heriol am amryw o resymau. Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ac mae hyn wedi ei amlygu yn arbennig yn ystod argyfwng Covid-19. Ond, mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Yn ystod 2021/22, byddwn yn:

- adolygu trefniadau'r ymgyrch recriwtio diweddar #GalwGofal er mwyn ystyried sut fyddwn ni'n mynd ati i recriwtio i'r dyfodol
- ystyried ein trefniadau cofrestru ac hyfforddi yn ogystal â threfniadau datblygu staff er mwyn cynyddu hyblygrwydd a chadernid yn y maes
- datblygu cynllun Meithrin Talent i fynd i'r afael â phrinder arbenigedd mewn rhai meysydd e.e. Therapi Galwedigaethol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



4. Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae rhai teuluoedd angen cefnogaeth benodol ar adegau i'w helpu i fagu plant fel bod y plant hynny yn gallu aros gyda'u teulu, yn ffynnu, yn iach, ac yn ddiogel. Nid oes plant yn dod i ofal yn ddi-angen yng Ngwynedd ac rydym am sicrhau nad yw hynny yn digwydd. Weithiau, mae'n orfodol fod plentyn yn dod i'n gofal oherwydd ei bod yn beryglus iddynt aros gartref. Mae ein trefniadau a'n penderfyniadau pan fo hynny'n digwydd yn seiliedig ar risg ac anghenion y teulu. Pan mae plentyn yn dod i ofal mae angen gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn derbyn gofal briodol, addas a lleol; a'u bod nhw a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi fel bod y plentyn yn gallu dychwelyd at ei deulu.

Bydd Rhaglen Trawsffurfio "Amddiffyn Plant yn Effeithiol" yn weithredol yng Ngwynedd, yn cael ei gwerthuso'n barhaus a byddwn yn rhannu'r model gydag Awdurdodau eraill Gogledd Cymru.

Byddwn yn cwblhau y gwaith Ffordd Gwynedd gan weithio ar draws gwasanaethau'r adran ac ar y cyd gyda'r Adran Addysg i ddeall yr hyn sy'n bwysig i deuluoedd Gwynedd ac yn cytuno ar egwyddorion, a ffyrdd o wella yr hyn rydym yn ei wneud a sut yr ydym yn gweithio, er mwyn rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen.

Byddwn yn cyflwyno strategaeth "Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd" a'i mabwysiadu sy'n dangos ein nod, ein trefniadau a'n ymarfer tuag at osgoi rhag dod a phlant i ofal yn ddi-angen; ond os oes angen gofal yna sicrhau bod y plentyn yn cael gofal mewn lleoliad addas, priodol a lleol; a bod pob ymdrech a chefnogaeth i gael plant yn ôl gyda'u teuluoedd.

Byddwn yn derbyn adborth Llywodraeth Cymru ar ein strategaeth "Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd".

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**

5. Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae rhai plant a phobl ifanc sy'n dod i'n gofal gydag anghenion cymhleth a dwys. Mae rhai o'r plant hyn yn gorfod derbyn gofal a chefnogaeth mewn lleoliad drud y tu allan i Wynedd / Cymru ac ymhell o'u teulu a'u cymuned. Rydym am sicrhau bod gennym amrywiaeth a digon o leoliadau addas ar gael yn lleol, a bod gennym weithwyr a chefnogaeth arbenigol yn lleol ar gyfer anghenion y plant hyn.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- Gweithredu rhaglen hyfforddiant arbenigol i staff fel eu bod yn gallu cynnig cefnogaeth addas i blant gydag anghenion cymhleth a'u teuluoedd
- Datblygu a chytuno achos busnes, ar draws partneriaid lleol, ar gyfer gweithredu ac ymarfer fel un tîm amlddisgyblaethol fel bod cefnogaeth i deuluoedd a phlant yn fwy effeithiol ac effeithlon
- Datblygu cynllun ar gyfer adnabod darpariaeth breswyl yn lleol i blant gydag anghenion cymhleth
- Cynyddu niferoedd gofalwyr maeth drwy recriwtio a rhoi adnoddau i asesu gofalwyr ar gyfer sicrhau digon o leoliadau.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



6. Sicrhau fod teuluoedd a phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae plant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth a gallu sgiliau uchel; a phlant sydd ag awtistiaeth a dim anabledd dysgu, yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt. Mae profiad y plant yma a'u teuluoedd yn dangos bod lle i wella ein trefniadau asesu presennol; bod bylchau mewn darpariaeth a bod angen help arnynt yn y cyfnod trosglwyddo i wasanaethau eraill megis oedolion ac ieched.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- Lansio Cynllun Awtistiaeth i'r sir ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, partneriaid trydydd sector ac ar draws gwasanaethau'r Cyngor
- Penodi rôl yn y Cyngor ar gyfer gweithio yn y maes gan roi sylw penodol i'r cyfnod trosglwyddo o blentyndod i oedolyn yn y maes
- Adolygu trefniadau mynediad i wasanaeth integredig plant anabl (DERWEN)
- Gwellu trefniadau cydweithio, rhannu gwybodaeth a darparu cefnogaeth yn y maes gyda'n partneriaid ieched a gyda darparwyr arbenigol yn y trydydd sector.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Blaenoriaeth Gwella 7

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor eisoes yn cyflawni amrediad eang o weithgareddau, sy'n ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth sydd gennym. Ond nid da lle gellir gwell, rydym yn cydnabod fod yna enghreifftiau lle nad ydym yn edrych ar bethau drwy lygaid ein trigolion bob tro, ac mae angen sicrhau fod hynny'n digwydd ymhob man o fewn y Cyngor.

Nid yw hynny yn golygu gwneud pob dim i bawb wrth gwrs, gan nad yw adnoddau yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae'n golygu ein bod yn blaenoriaethu'r pethau hynny sydd bwysicaf i'n cymunedau, ac yn sicrhau bod yr adnoddau prin sydd gennym yn cyfrannu at wneud yr hyn sydd bwysicaf i bobl Gwynedd (gan dderbyn y bydd y blaenoriaethu, yn anochel, yn golygu peidio â chyflawni dyheadau pawb).

Mae'r pwysu a mesur yma hefyd yn gorfod digwydd ar adeg pan fo'r arian sydd ar gael i wasanaethau yn lleihau'n sylweddol. Yn hynny o beth, bydd angen sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r pethau pwysicaf.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Gweithredu Rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd (Arfogi unedau i roi "Ffordd Gwynedd" ar waith)

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai **anghenion pobl Gwynedd** sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaethau hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen. Rydym eisoes yn herio timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Byddwn yn datblygu hyfforddiant ar gyfer cynorthwyo rheolwyr i ddeall y cyswllt agos rhwng diwylliant Ffordd Gwynedd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyflwyno'r sesiwn honno i'r Rhwydwaith Rheolwyr yn ystod hanner cyntaf 2021, tra'n rhyddhau swydd-ddisgrifiad i arweinyddion tîm a gweddill staff y Cyngor fydd yn cadarnhau'r ymddygiadau disgwylidig ohonynt.

Byddwn yn sefydlu dulliau o fesur cynnydd y diwylliant a geisir trwy gyfuniad o hunan-asesu ac herio cyson.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.



2. Sicrhau bod rheolwyr yn arddel eu rôl lechyd a Diogelwch yn effeithiol

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae angen i ni sicrhau bod ein trefniadau gwarchod lechyd a Diogelwch yn gadarn, a thra bod gennym drefniadau aeddfed o fewn y Cyngor mae gennym bryder bod yna bocedi lle mae yna gyfle i wella trefniadau gweithredol.

Er mwyn ymateb i'r sefyllfa byddwn yn cynnal trafodaeth â phenaethiaid / uwch reolwyr / rheolwyr pob Adran er mwyn deall eu anghenion a chanfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys y sefyllfa.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion Llesiant.

3. Cynllunio'r Gweithlu

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae'r Cynllun Pobl yn blaenoriaethu gwella trefniadau ar gyfer meithrin talent o fewn y Cyngor, gwella ein trefniadau Cynllunio'r Gweithlu, a sicrhau fod ein trefniadau dysgu a datblygu yn canolbwyntio ar y pethau angenrheidiol. Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod gennym y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn. Golyga hynny fod angen i ni hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu eu talent. Mae trefniadau hyfforddi staff yn ffordd bwysig o hybu a lledaenu meddylfryd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor, ac wrth gwrs mae'n hollbwysig fod gan y Cyngor swyddogion sydd â'r sgiliau i gyflawni eu swyddi.

Bydd y gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol, sydd wedi ei gychwyn gyda'r Adran Oedolion, lechyd a Llesiant, yn cael ei ledaenu i weddill y Cyngor yn ystod 2021. Byddwn hefyd yn ymestyn y nifer o brentisiaid ac hyfforddeion presennol ac hynny ar draws nifer cynyddol o wasanaethau ar draws y Cyngor.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion Llesiant.

4. Cyflawni arbedion

Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth


Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol da, sydd eisoes wedi adnabod llawer o arbedion effeithlonrwydd er mwyn isafu'r toriadau gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

Mae'r gwaith sydd eisoes wedi ei chyflawni dros nifer o flynyddoedd yn awgrymu ein bod wedi cynaeafu cyfran helaeth o'r arbedion effeithlonrwydd sydd ar gael, ond mae angen parhau i fonitro cynlluniau cymeradwy holl adrannau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y swmp o'r arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Ar ôl cyfnod hir o ddarganfod a chyflawni arbedion, dros £30m yn y cyfnod ers 2015/16, mae'r cynlluniau bellach gymaint yn anoddach i'w gwireddu gyda phrosiectau effeithlonrwydd yn llawer mwy o waith na thorri gwasanaethau. Adolygwyd yr holl gynlluniau arbedion er mwyn asesu pa rai sydd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22. Drwy'r trefniadau cadarn sydd gennym i fonitro sut y mae adrannau yn cyflawni arbedion, byddwn yn sicrhau bod y rhaglen ddiwygiedig yma yn cael ei chyflawni. Byddwn hefyd yn cefnogi adrannau gyda chostau trawsffurfio, wrth iddynt gyflwyno trefniadau gwaith newydd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion Llesiant.



5. Cryfhau cyfathrebu ac ymgysylltu Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn weledol iawn gydag agweddau'r gwasanaethau yn cyffwrdd ar bob trigolyn drwy'r sir. Gellir ychwanegu gwerth at waith yr adran drwy gynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol; er enghraifft ymgyrchoedd atal mân sbwriel neu faw ci, neu ymgyrchoedd a chanllawiau i annog ail ddefnyddio, ail bwrpasu a lleihau gwastraff. Mae hefyd yn hynod bwysig fod trigolion yn hyderus yng ngwasanaethau'r adran a bod eu pryderon ac ymholiadau yn cael eu hymdrin â nhw'n effeithiol. Byddwn yn sicrhau bod trefniadau ymateb amserol ac ystyrlon mewn lle a byddwn yn:

- adolygu trefniadau cyfredol o gyfathrebu ac ymateb i ymholiad
- amlygu ble mae diffygion/llefydd gwella
- sefydlu grŵp tasg gyda chynrychiolaeth o swyddogion ynghyd â Galw Gwynedd
- adnabod mesurau er monitro.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



6. Capasiti Gwarchod y Cyhoedd Adran Amgylchedd

Yn sgil argyfwng Covid-19, mae wedi dod yn fwy amlwg pa mor bwysig yw rôl ein Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd wrth warchod iechyd ein cymunedau, ond hefyd wrth gynghori a chefnogi busnesau'r sir. Mae hefyd disgwyliad ein bod yn defnyddio ein pwerau gorfodaeth yn sgil honiadau o dorri'r rheoliadau coronafeirws.

Mae'r profiadau yn ystod y cyfnod argyfwng wedi amlygu diffyg gwydnwch yng Ngwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn sgil blynyddoedd o doriadau. Credir fod angen datrysiad byr-dymor yn ogystal â datrysiad hir-dymor er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol i gefnogi a gwarchod trigolion a busnesau Gwynedd.

Bwriedir cynnal adolygiad llawn o strwythurau Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn ystod 2021/22 er mwyn asesu'r anghenion yn llawn ac ystyried y capasiti staff fydd ei angen ar gyfer yr hirdymor (gan nodi ei bod yn anodd rhagweld pa bryd fydd yr argyfwng presennol yn dod i ben) er mwyn cefnogi a gwarchod trigolion a busnesau Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel



7. Cymunedau Glân a Thaclus


Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Byddwn yn cydweithio gyda thrigolion a chymunedau Gwynedd drwy ymgysylltu er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu i gyd-fynd â'r flaenoriaeth yma gan ehangu a datblygu partneriaethau cymunedol i wella ansawdd ac edrychiad y sir e.e.

- Strydoedd glan a deniadol
- Ffyrdd a llwybrau cerdded mewn cyflwr da
- Timau gwaith lleol er mwyn cyflawni'r gwaith
- Trafodaeth am yr egwyddorion a chymunedau gweithredu drwy ymgysylltu â'r gymuned a'r staff
- Llunio cynllun gweithredu, darganfod dyheadau a rhanddeiliaid posib ar lefel cymunedol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



Blaenoriaeth Gwella 8

Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.

Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 bu i'r Cyngor ystyried cynnig yn ymwneud â newid hinsawdd ac fe benderfynwyd y dylid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod. Byddem yn gwneud hyn drwy:

- Ddatgan Argyfwng Hinsawdd
- Ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon
- Chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni targedau di-garbon
- Adrodd yn ôl ymhen 6 mis ar y camau cadarnhaol y mae'r Cyngor wedi eu cymryd i leihau allyriadau carbon; a
- Galw ar Lywodraethau Cymru a San Steffan i ddarparu'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r targed o Wynedd di-garbon erbyn 2030.

1. Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd

Adran Amgylchedd

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i ddatgan argyfwng newid hinsawdd rydym wedi bod yn ceisio llunio Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd, ond yn anffodus bu i argyfwng Covid-19 dorri ar draws y gwaith hwnnw.

Mae bwriad sicrhau bod gennym ddogfen gychwynnol yn amlygu'r hyn y mae'r adrannau yn bwriadu ei gyflawni er mwyn i honno fod yn sail i weithdy aelodau i'w gynnal drwy ddulliau rhithwir yn gynnar yn ystod 2021, fel bod hynny yn ei dro yn arwain at fabwysiadu Cynllun Gweithredu cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Unwaith y byddwn wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu byddwn yn ei gyhoeddi ac yn dechrau gweithredu ar y cynlluniau fydd ynddo.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.





Bydd y Gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2021 yn gosod y sylfaen ar gyfer medru ceisio cyflawni'r Blaenoriaethau Gwella uchod, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau.

Mae'r setliad grant yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 yn decach nag a fu mewn blynyddoedd cyn 2020/21, ac yn cyfarch y lefel chwyddiant sydd oddeutu £6m, ond nid yw'n cyfrannu at y cynnydd sylweddol mewn galw am wasanaethau sydd oddeutu £4m ychwanegol, yn bennaf ym maes gofal cymdeithasol.

Ar ôl gorfod darganfod dros £30m o arbedion ers 2015/16, yn dilyn blynyddoedd blaenorol lle nad oedd grant y Llywodraeth yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, eleni penderfynwyd gohirio neu ddileu gwerth £3m o arbedion hanesyddol nad oedd modd i'w gwireddu. Bydd hyn yn rhoi sail fwy cadarn i gyllideb y Cyngor. Yn gyffredinol, daw'r cyfraniad net £725k o arbedion tuag at fantoli cyllideb 2021/22 o gynlluniau effeithlonrwydd oedd eisoes wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol.

Drwy gynaeafu arbedion hanesyddol a chynyddu 3.7% ar lefel y Dreth Cyngor erbyn 2021/22, gellid sefydlu cyllideb gytbwys a dygymod gyda'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor heb unrhyw doriadau newydd mewn gwasanaethau i drigolion Gwynedd. Unwaith eto, mae'r Cyngor yn amddiffyn gwasanaethau ac yn anelu i gyfarch y materion newydd hynny sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

Wrth lunio Cyllideb y Cyngor erbyn 2021/22, rhoddir ystyriaeth briodol i'r Blaenoriaethau a nodir uchod yng Nghynllun y Cyngor.

Gellir gweld Cyllideb y Cyngor yn llawn ar safle we'r Cyngor drwy ddilyn y ddolen hon – [Cyllideb y Cyngor 2021/22](#)



Asesiad Effaith

1 Manylion

1.1 Beth yw enw'r Cynllun dan sylw?

Cynllun y Cyngor 2018 – 23, *Adolygiad 2021/22*

1.2 Beth ydi pwrpas y Cynllun sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2018 a 2023. Cafodd fersiwn wreiddiol y Cynllun ei fabwysiadu gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2018. Roedd y Cynllun, yn ei flwyddyn gyntaf, yn datgan ein gweledigaeth am 5 mlynedd, ac yna mae pob adolygiad blynyddol yn cynnig diweddariad sy'n crynhoi yn fyr ble yr ydym wedi ei gyrraedd ar y siwrnai, a beth fydd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Caiff y Cynllun ei adolygu'n flynyddol a'i ail-gyhoeddi gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o flaenoriaethau gwella'r cynllun presennol, y materion o flaenoriaeth sydd angen sylw yn y tymor byr, ac unrhyw faterion eraill ar gyfer sefydlogi ac ail adeiladu yn dilyn y cyfnod COVID-19 sydd angen eu cynnwys o fewn y blaenoriaethau.

Bydd y fersiwn hon o'r Cynllun, Adolygiad 2021/22, yn disodli'r fersiwn gyfredol.

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob cynllun unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynllun unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

27 Mehefin 2017, fersiwn 1 yn ymwneud â'r ymgysylltiad
13 Rhagfyr 2017, fersiwn 2, asesiad llawn o'r Cynllun
4 Chwefror 2019 – fersiwn 3, asesiad llawn o adolygiad 2019-20
31 Ionawr 2020 – fersiwn 4, asesiad llawn o adolygiad 2020-21

Hwn yw fersiwn 5 – 16 Chwefror 2021, asesiad llawn o adolygiad 2021-22

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Aelodau Etholedig, defnyddwyr gwasanaeth, trigolion Gwynedd, partneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

Ymgynghoriad 6 wythnos yn ystod gaeaf 2017/18 i gyflwyno ac egluro'r blaenoriaethau drafft i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur byr ar-lein ar www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori. Roedd copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd leol.

Anogwyd cymaint â phosib o bobl Gwynedd i gwblhau a dychwelyd yr holiadur gan ddefnyddio gwefan y Cyngor, y wasg leol, rhaeadru'r neges trwy ein partneriaid, gwefannau cymdeithasol ac e-newyddlen aelodau etholedig Rhaeadr.

Cysylltwyd â cymaint a phosib o grwpiau diddordeb a grwpiau sy'n cynrychioli neu'n gweithio hefo pobl a/neu blant hefo nodweddion cydraddoldeb i roi gwybod iddynt am yr ymgysylltiad ac i ofyn iddynt hysbysu eu defnyddwyr am yr holiadur.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Derbyniwyd 197 o holiaduron.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau cwestiynau am eu nodweddion cydraddoldeb (yn ddewisol) a roedd yr wybodaeth a gasglwyd fel a ganlyn:

1) Cwblhau'r holiadur fel:

- Unigolyn - 159
- Sefydliad neu fusnes – 5
- Dim ateb – 33

2) Rhyw:

- Gwryw - 84
- Benyw - 65
- Gwell gennyf beidio â dweud – 9
- Dim ateb – 39

3) Grŵp oedran:

- 18-29 - 8
- 30-39 - 23
- 40-49 - 29
- 50-59 - 34
- 60-69 - 31
- 70 neu'n hyn - 25
- Gwell gennyf beidio â dweud - 9
- Dim ateb – 38

4) Hunaniaeth genedlaethol:

- Cymro / Cymraes – 77
- Sais / Saesnes – 22
- Prydeiniwr / Prydeinwraig – 46
- Arall – 9
- Gwell gennyf beidio â dweud – 8
- Dim ateb – 35

5) Tarddiad Ethnig:

- Gwyn - 141
- Cymysg / sawl grwp ethnig – 4
- Du / Affricanaidd / Caribiaidd – 1
- Gwell gennyf beidio â dweud – 11
- Arall – 3

- Dim ateb – 37

6) Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

- Ydw - 15
- Nac Ydw - 129
- Gwell gennyf beidio â dweud – 15
- Dim ateb – 38

7) Crefydd:

- Christian (pob enwad) – 72
- Hindw – 2
- Dim crefydd – 52
- Anffyddiwr – 5
- Tyst Jehova – 1
- Dyniaethwr -1
- Vasinava – 1
- Wicca - 1
- Arall – 7
- Gwell gennyf peidio â dweud – 17
- Dim ateb – 38

8) Cyfeiriadedd Rhywiol:

- Heterorywiol / Strêt - 127
- Dyn hoyw – 1
- Deurywiol – 1
- Arall – 8
- Gwell gennyf beidio â dweud - 20
- Dim ateb – 40

9) Rhywedd adeg geni:

- Gwryw - 79
- Benyw – 61
- Rhyngrywiol - 1
- Gwell gennyf beidio â dweud - 15
- Dim ateb – 41

10)Y ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun:

- Gwryw - 77
- Benyw - 59
- Arall – 8
- Gwell gennyf beidio â dweud - 13
- Dim ateb - 40

Nid oedd yn bosib adnabod patrwm yn ymatebion unrhyw un o'r nodweddion

cydraddoldeb.

Dylai cynlluniau unigol ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwd ac ymgysylltu ymhellach â thrigolion Gwynedd yn ôl yr angen.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23 yn 2017 cynhaliwyd cyfres o 8 cyfarfod ardal yn ystod mis Gorffennaf er mwyn rhoi cyfle i aelodau lleol amlygu unrhyw faterion oedd angen sylw o fewn yr ardaloedd hynny. Yn ogystal, bu i aelodau'r Pwyllgorau Craffu adnabod materion yr oeddent hwy o'r farn y dylid eu cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor i'r dyfodol.

Cynhaliwyd 4 sesiwn gweithdy pellach gydag aelodau ym mis Medi 2017 yng Nghaernarfon, Penrhyndeudraeth, Dolgellau a Phwllheli. Bwriad y gweithdai hyn oedd rhoi cyfle iddynt adnabod y blaenoriaethau sirol i'w cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor a chynnig sylwadau pellach ar y blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod fesul ardal.

Disgwylir i unrhyw brosiect newydd fod â thystiolaeth gadarn am yr angen amdano. Wrth gynllunio unrhyw brosiect newydd dylid mesur yr effaith ar bobl Gwynedd, a llunio Asesiad Effaith Cydraddoldeb penodol yn ôl yr angen (gweler 1.2).

Er bod Cynllun 2021/22 yn ddilyniad, mae yna lawer o newidiadau oherwydd y pandemig Covid ac felly penderfynwyd gwneud gweithdai pellach gyda Chynghorwyr Gwynedd. Bydd yr wybodaeth o'r cyfarfodydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror, cyn iddyn nhw wneud eu penderfyniad.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Bydd hyn yn cael ei adnabod yn asesiadau'r cynlluniau unigol

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Beth yw'r effaith fydd y Cynllun newydd yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb.

Nodweddion	Sut fath o effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedl-igrwydd)	Dim wedi ei adnabod	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.</p> <p>Bydd angen ystyried rhai o'r sylwadau isod ar y Gymraeg dan y nodwedd yma, a bydd yn fwy o bwysigrwydd mewn rhai prosiectau mewn meysydd fel twristiaeth, addysg ayb nag eraill.</p> <p>Mae'r newidiadau cymdeithasol ac yn arferion teithio a symudoledd pobl a welwyd yn sgil Covid yn ystod 2020 wedi amlygu materion ym meysydd twristiaeth a tai (cynydd tai haf a gwyliau) a sut y mae'r newidiadau hynny yn effeithio ar y gymuned gynhenid.</p> <p>Mae cynlluniau newydd Blaenoriaeth 4 a 5 yn ymwneud â'r maes yma.</p> <p>Bydd yn bwysig hefyd i'r cynlluniau ystyried effaith Covid ar gymunedau ac unigolion lleiafrif ethnig oherwydd fod rhai carfannau llawer mwy tebygol o ddioddef o'r effeithiau. Bydd hefyd angen ystyried y ffactorau a amlygwyd gan y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys.</p>
Yr iaith Gymraeg	Positif	<p>Mae hwn yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg. Disgwylir i bob cynllun unigol i edrych ar yr effaith ar yr iaith wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Wrth sôn am flaenoriaethu'r Gymraeg yn benodol yn yr ymgynghoriad, roedd 18 o'r sylwadau yn cefnogi'r angen i flaenoriaethu'r Gymraeg ac 14 yn dweud na ddylid gwario arian ar yr iaith.</p> <p>Derbyniwyd nifer o sylwadau am ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned neu thu allan i'r ystafell ddosbarth hefo mudiadau fel Clwb Ffermwyr Ifanc yn cael eu crybwyll gan nifer yn sgil cynnig i ad-drefnu'r Gwasanaeth Ieuenctid.</p> <p>Yn ychwanegol adnabuwyd yr anghenion canlynol - i'r Cyngor helpu'r sector breifat i gynnig darpariaeth Cymraeg, mwy o arwyddion dwyieithog, a sicrhau</p>

		<p>swyddi neu dai addas er mwyn cadw pobl ifanc yn yr ardal. Credai un fod y Gymraeg yn sgil i ddenu swyddi i'r ardal.</p> <p>Roedd pryder fod blaenoriaethu'r Gymraeg yn gelyniaethu'r di-Gymraeg a thwristiaid.</p> <p>Roedd pryder hefyd am gostau, gyda nifer yn credu nad oedd eisiau gohebu'n ddwyieithog ond yn hytrach yn newis iaith y derbynnydd ac nad oes angen cyfieithu ar y pryd os yw pawb yn gallu siarad Saesneg. Nodwyd y gallai polisi staffio'r Cyngor elyniaethu pobl di-Gymraeg a gallai'r Cyngor golli allan ar staff sy'n fwy galluog/profiadol. Credwyd fod hyn yn arbennig o debygol mewn meysydd fel gofal. Awgrymwyd y dylid cael cyfle i ddysgu'r Gymraeg 'on the job' a hefyd y dylai'r Cyngor annog, nid gorfodi, staff i siarad yr iaith.</p> <p>Roedd galw gan un person i'r ohebiaeth gan ysgolion fod yn ddwyieithog yn hytrach nag uniaith Gymraeg.</p> <p>Yn ôl yr ymatebwyr, y pethau pwysig am wersi Cymraeg oedd eu cost, eu cyfleuster (trafnidiaeth ayb) a'u haddasrwydd.</p> <p>Derbyniwyd nifer o sylwadau am y Gymraeg wrth drafod materion plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ogystal. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau hynny'n erbyn rhoi ffafriaeth i'r iaith Gymraeg. Mae pryder y byddai'n effeithio safonau addysg a recriwtio staff a hefyd am y gost. Dywedwyd y dylid gadael i athrawon ddatblygu sgiliau iaith tra yn y swydd. Ar y llaw arall derbyniwyd sylwadau am yr angen i datblygu deunyddiau e.e. apps, a rhoi gwersi Cymraeg am ddim.</p> <p>Er nad yn sôn am yr iaith Gymraeg yn benodol, mae nifer o sylwadau yn ymwneud â'r angen am dai fforddiadwy a thai i bobl lleol.</p> <p>Nodwyd yr angen am Gymraeg clir wrth gyfathrebu hefo'r cyhoedd, yn arbennig adroddiadau addysg. Nodwyd hefyd yr angen i wella safon yr iaith mewn gohebiaeth ayb a'r angen i'w wirio cyn ei anfon. Roedd yr ymatebydd yn derbyn mai oherwydd fod y Gymraeg yn iaith naturiol roedd y gwallau'n digwydd.</p> <p>Mae cyfnod Covid wedi arwain at nifer o newidiadau</p>
--	--	--

		<p>sydd a photensial i gael effaith negyddol ar y Gymraeg, gan gynnwys lleihad yn nifer y digwyddiadau a gweithgareddau sydd yn annog defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, ysgolion wedi cau yn arwain at lai o ddefnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, straen ar fusnesau lleol sydd yn cynnal cyfleoedd cyflogaeth, lleihad yn y cyfleoedd cyflogaeth newydd, cynydd mewn twristiaeth yn arwain at bryderon am gynydd mewn ail gartrefi a gwarchod enwau lleoeddd cynhenid.</p> <p>Mae nifer o brosiectau'r Cynllun yn mynd i'r afael a'r materion hyn.</p>
<p>Anabledd</p>	<p>Positif</p>	<p>Mae gofal yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith positif. Disgwylir i bob cynllun unigol arall edrych ar yr effaith ar anabledd wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Mae'r ymatebion i'r ymgysylltiad yn dangos cefnogaeth mawr i'r gweithlu gofal gyda nifer eisiau iddynt gael codiad yn eu cyflog, amodau gweithio gwell, mwy o hyfforddiant a'r siawns i symud ymlaen yn eu gyrfa. Roedd pryder am y trosiant yn y gweithlu. Mae galw hefyd am wella safonau o fewn cartrefi gofal ac i ddenu mwy o bobl ifanc i fewn i'r maes.</p> <p>Neges gryf arall yw'r angen i wneud gwaith ataliol er mwyn sicrhau nad yw pobl angen gofal iechyd a dysgu o ymarfer da mannau eraill. Dangoswyd cefnogaeth gryf i adnoddau fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden fel adnoddau ar gyfer hyn a byddai toriadau yn y meysydd hyn yn "false economy". Pwysleisiwyd hefyd yr angen am drafnidiaeth.</p> <p>Hefyd mae'r angen i'r Cyngor gydweithio mwy, yn fewnol a gyda mudiadau allanol fel iechyd a'r trydydd sector, yn neges gryf gan y rhai sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Dylid hefyd rhoi cefnogaeth i gymunedau a darparu adnoddau fel gofal iechyd a cartrefi gofal ychwanegol yng nghefn gwlad yn ogystal â'r trefi mawrion.</p> <p>Adnabuwyd y camddefnydd o fannau parcio hygyrch i bobl anabl. Dau berson o blaid pobl anabl yn talu am barcio, un ohonynt yn berson anabl. Dywedodd un person anabl fod ceir wedi parcio ar y pafin yn broblem iddo.</p>

		<p>Mae'r angen am amrywiaeth o dai wedi ei adnabod gan gynnwys rhai hygyrch.</p> <p>Dau berson yn poeni nad oeddynt yn cyrraedd meini prawf am ofal er ei bod yn anabl.</p> <p>Nodwyd fod pobl anabl a hefo rhai cyflyrau iechyd fwy o angen toiledau cyhoeddus.</p> <p>Credai nifer o Feirionnydd nad oedd ansawdd gofal yn wastad ar draws y sir hefo un person yn gofyn am ganolfan i bobl ag Alzheimers yn y rhanbarth ac un arall yn nodi pryder am fethu cael gofal yn y Gymraeg yno. Nododd un person anabl nad oedd yn bosib cael pobl i lanhau yn Meirionnydd. Roedd wedi derbyn rhestr gan y Cyngor ond nid oedd neb arno o'i ardal. Credai fod hyn oherwydd yr angen i siarad Cymraeg. Roedd yn pryderu oherwydd yr effaith ar anghenion iechyd.</p> <p>Mae'r cyfnod Covid wedi bod yn heriol iawn i bobl anabl a'r gwasanaethau cymdeithasol fel eu gilydd. Mae yna gynlluniau newydd ym mlaenoriaeth 6 sy'n ymateb i hyn.</p> <p>Yn ychwanegol, bydd angen i'r cynlluniau ystyried yr effaith y bydd y bandemig Covid ar gael ar bobl hefo cyflyrau penodol, yn enwedig y rhai sydd wedi gorfod ynysu am gyfnodau hir. Bydd rhai pobl sy'n dioddef o Covid hir yn dod i mewn i'r categori yma. Yn fwy cyffredinol mi fydd y pandemig wedi cael effaithiau ar iechyd meddwl pobl mewn amrywiol ffyrdd.</p>
Rhyw	Positif	<p>Ceir un cynllun unigol yn y benodol yn y maes yma sef "Merched mewn Arweinyddiaeth" felly disgwylir effaith positif yma. Wedi dweud hynny nid yw'n bosib adnabod effaith y Cynllun yn ei gyfanrwydd heb gwblhau asesiadau effaith ar y cynlluniau unigol eraill.</p> <p>Yn fwy cyffredinol, bydd angen adnabod yr effaith mae Covid wedi ei gael ar iechyd meddwl gofalwyr – un ai gofalwyr pobl anabl neu fel rhieni. Mae'r ystadegau yn dangos fod merched yn fwy tueddol o ymgymryd â rolau gofal. Hefyd bydd angen cofio am deuluoedd un rhiant, ac mae'r nifer helaethaf o'r rhain hefo merch fel penteulu.</p>

		<p>Mae hefyd yn arbennig o bwysig ystyried yr effaith ar bobl, yn ferched neu ddynion, sydd wedi dioddef trais yn y cartref yn ystod y pandemig.</p>
Oedran	Positif	<p>Mae oedran yn cael ei flaenoriaethu mewn nifer o feysydd felly disgwylir cael effaith positif ar faes plant, pobl ifanc a phobl hŷn.</p> <p>Disgwylir i bob cynllun unigol i edrych ar yr effaith ar oeddrannau gwahanol wrth wneud Aseiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Roedd yr ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i waith ym maes Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, yn enwedig cymorth ac ymyrraeth cynnar, cryfhau addysg a rhoi hyfforddiant i bobl ifanc er mwyn iddynt cael swyddi. Roedd pryder fod pwyslais ar yr iaith Gymraeg yn effeithio recriwtio ac ansawdd addysg o fewn yr ysgolion. Nodwyd pwysigrwydd darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd nifer yn mynegi nad oeddynt eisiau gweld toriadau ym maes gofal plant. Dywedodd un person ei bod yn bwysig i gefnogi pobl ifanc ar ôl iddynt adael gofal.</p> <p>Mae pryder ein bod yn colli pobl ifanc dawnus. Swyddi tymhorol twristiaeth ddim yn cadw pobl ifanc yn yr ardal. Diffyg gobaith a dyhead yn broblem i bobl ifanc ym Meirionnydd yn ôl un person. Pobl ifanc angen gwaith i dalu am dai.</p> <p>Mae'r Cyngor yn adnabod y bydd newid mewn demograffeg, hefo'r gymuned yn mynd yn hŷn. Mae'r ymateb i'r ymgysylltiad yn dangos fod pobl yn pryderu am ddarpariaeth i'r dyfodol, e.e. cartrefi gofal, oherwydd y newidiadau hyn. Mae galw i bobl allu byw yn annibynnol yn eu cymunedau ac i roi cefnogaeth i'r cymunedau hynny er mwyn lleihau'r angen am ofal. Mae un ymatebwr eisiau prentisiaethau i bobl hŷn nid yn unig pobl ifanc ac un arall yn nodi'r ffaith fod pobl hŷn angen parcio mewn llefydd agosach at y canol i dref.</p> <p>Gwelir galw hefyd am feithrin perthynas da rhwng y cenedlaethau, gyda'r rhaglen deledu Hen Blant Bach yn cael ei enwi. Un person yn cynnig y dylidparu pobl hŷn unig hefo pobl ifanc digartref.</p> <p>Adnabuwyd fod ceir yn parcio ar y pafin yn broblem i bobl hŷn a theuluoedd hefo plant bychan mewn</p>

		<p>pramiau.</p> <p>Carfan o bobl sydd efallai ddim yn cael llawer o sylw wrth baratoi Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yw pobl oed gwaith ond mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod hawliau pobl o bob oed. Mae'r sylwadau am swyddi ayb yn berthnasol i'r oedran yma. Roedd cefnogaeth gref i greu a chadw swyddi yng Ngwynedd a gwella'r isadeiledd er mwyn gwneud hynny. Roedd yna hefyd negeseuon am wella sgiliau'r trigolion, denu cwmnïau mawr, peidio bod yn or ddibynol ar dwristiaeth, a chefnogi datblygiadau tu allan i'r sir. Gall diffyg trafnidiaeth cyhoeddus ar yr adegau iawn greu problemau i bobl sydd eisiau gweithio.</p> <p>Mae'r angen am amrywiaeth o dai wedi ei adnabod, gyda anghenion pobl ifanc a phobl hŷn yn cael eu hadnabod. Ond eto ni ddylid anghofio anghenion pobl o oedran arall, gyda'r galw am dai fforddiadwy a thai i bobl lleol. Roedd sylwadau hefyd am gael tai yn agos at gyfleon gwaith a chysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus, llacio'r rheolau cynllunio yng nghefn gwlad, edrych ar dai gwag a'r angen am dai cymdeithasol. Teimlai un person mai'r broblem oedd fod y cartrefi sydd ar gael ddim yn y lle iawn i deuluoedd ifanc (h.y. mewn trefi wrth ymyl ysgolion a siopau).</p> <p>Roedd nifer o bobl yn adnabod pwysigrwydd llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ar gyfer plant, pobl ifanc a phobl hŷn ar gyfer cymdeithasu, iechyd a rhywle i fynd oddi ar y stryd. Nodwyd hefyd yr angen am ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc e.e. clybiau ieuenctid, Clwb Ffermwyr Ifanc.</p> <p>Gan fod pobl hŷn yn llawer mwy tueddol o gael problemau hefo Covid mae'n rhaid, wrth i'r cynlluniau symud yn eu blaenau, ystyried yr effaith mae Covid wedi ei gael ar bobl hŷn. Mae hynny'n arbennig o wir o'r rhai sydd wedi gofod hunan-ynysu am adegau hir.</p> <p>Mae'r pademig hefyd wedi cael effaith gwael iawn ar fywydau a lles plant a phobl ifanc ac mae'n bwysig ystyried hynny hefyd wrth symud ymlaen. Mae cynlluniau newydd wedi eu hychwnaegu blwyddyn yma i ddelio â hyn sef Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc.</p>
--	--	---

		Yn wir mae Covid wedi effeithio ar les pawb ac mae newidiadau wedi eu gwneud i rai cynlluniau yn ateb hynny. Bydd angen ystyried hyn o fewn pob cynllun.
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim wedi ei adnabod	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.</p> <p>Bydd rhaid cofio hefyd am yr effaith ar iechyd meddwl pobl sydd wedi methu cyfarfod hefo'u partneriaid os nad ydynt yn byw hefo nhw.</p> <p>Mae hefyd yn arbennig o bwysig ystyried yr effaith ar bobl, yn ferched neu ddyonion, sydd wedi dioddef trais yn y cartref yn ystod y pandemig.</p>
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim wedi ei adnabod	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.</p> <p>Dywedodd un person nad oedd lle i grefydd o fewn addysg.</p>
Ailbennu rhywedd	Dim wedi ei adnabod	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim wedi ei adnabod	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.</p> <p>Mae wedi bod yn amser anodd iawn i famau beichiog a theuluoedd ifanc oherwydd y pandemig. Mae cynlluniau newydd i helpu teuluoedd o fewn blaenoriaeth gwella 6.</p>
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim wedi ei adnabod	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.

3.2 Ydi'r Cynllun yn ateb y Dyletswyddau Cyffredinol yma? Mae'n rhaid i'r Cynngor roi sylw dyledus i'r dyletswyddau yma

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	Ydi'r polisi'n cael effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. Oherwydd Covid mae pobl wedi methu cael eu gwasanaethau arferol ac mae'n bosib fod hyn wedi effeithio rhai carfanau'n fwy na'u gilydd. Rhaid sicrhau nad ydynt yn cael eu camwahaniaethu yn eu herbyn wrth symyd ymlaen.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. Fel dywedodd un ymatebwr, mae'n bwysig cofio nodweddion cydraddoldeb unigolion wrth ddarparu gwasanaethau, yn enwedig ym maes gofal. Mae hyn yn arbennig o wir wrth i ni symud ymlaen yn sgil Covid.
Meithrin perthnasau da	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. Rhaid cydnabod fod gwaith i'w wneud yn y maes yma yn sgil Covid.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r Cynllun felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'n ymddangos y dylai'r meysydd blaenoriaeth gael effaith sylweddol bositif ar o leiaf rai o'r nodweddion cydraddoldeb. Mae pob asesiad effaith cydraddoldeb unigol yn edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder. Mae hyn yn arbennig o wir os ydi ystyriaethau Covid am gael eu hystyried yn llawn yn eu hasesiadau effaith.

4.2 Ydi'r Cynllun felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes effeithiau sylweddol negyddol wedi eu hadnabod hefo'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae pob asesiad effaith unigol yn edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder. Wedi dweud hynny mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol iawn ar bob rhan o gymdeithas ac mae cryn waith i'w wneud ym mhob maes er mwyn delio hefo'r heriau yma.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewisiwch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r cynllun gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r cynllun i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r cynllun gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r cynllun oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r asesaiadau unigol yn adnabod unrhyw effeithiau negyddol a'r camau i'w liniaru.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Nid yw'n berthnasol i'r Cynllun yn ei gyfanrwydd.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y cynllun (cynllun gweithredu)?

Mae Adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau unigol o fewn Cynllun y Cyngor. Mae prosesau herio perfformiad y Cyngor, ble fydd yr Aelod Cabinet ac aelodau o bwyllgorau craffu yn herio twf a datblygiad y gwaith sy'n cael ei gyflawni ar y Cynllun, yn waith parhaus drwy'r flwyddyn. Mae'r adroddiadau ar y cyfarfodydd herio perfformiad hyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o bapurau cyfarfod y Cabinet.

Os oes angen newid cynnwys neu gyfeiriad unrhyw brosiect unigol bydd angen ail ymweld â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y prosiect hwnnw. Oherwydd Covid bydd yn bwysig gwneud hynny ar bob un cynllun.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn ei chraffu ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

Eitem 11

Cyfarfod:	Y Cyngor llawn
Dyddiad:	4 Mawrth 2021
Pwnc:	Cyllideb 2021/22
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid
Swyddog Cyswllt:	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid
Pwrpas:	Gosod Cyllideb y Cyngor a phennu lefel Treth Cyngor 2021/22

CYLLIDEB 2021/22

Argymhellion y Cabinet i'r Cyngor llawn yw y dylid:

- 1. Sefydlu cyllideb o £271,751,360 ar gyfer 2021/22 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £194,793,140 a £76,958,220 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.7%.**

Pe bai'r Cyngor llawn yn cynyddu'r Premiwm Treth Cyngor o 50% i 100%, yna byddai'r ffigyrau yn argymhelliad 1 uchod yn newid fel a ganlyn, gyda'r cynnyrch premiwm Treth Cyngor ychwanegol wedi'i neilltuo i gronfa benodol.

Sefydlu cyllideb o £275,669,610 ar gyfer 2021/22 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £194,793,140 a £80,876,470 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.7%.

- 2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £47,085,960 yn 2021/22 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.**

Byddai cynyddu'r Dreth Cyngor **3.7%** yn gynydd wythnosol o £1.02, neu £52.92 yn flynyddol, gyda threth 'Band D' o **£1,483.23** am 2021/22 (mae'r elfennau hyn yn aros yr un fath gyda Premiwm o nail ai 50% neu 100%).

Mae effaith manwl hyn wedi'i osod allan yn **y penderfyniad ffurfiol sy'n Atodiad 11.**

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2021/22.
- 1.2 Eleni, erbyn 2021/22, mae'r Cyngor wedi derbyn cynnydd grant sy'n cyfarch chwyddiant, ac yn setliad mwy teg na fu mewn blynyddoedd cyn 2020/21. Er hynny, rhaid cymryd rhai penderfyniadau i ariannu cynnydd sydd bron yn anorfod yng nghost rhai gwasanaethau craidd ynghyd â chodi'r Dreth 3.7%.
- 1.3 Argymhellir codi'r Dreth 3.7% yn 2021/22 er mwyn amddiffyn gwasanaethau hanfodol i bobl Gwynedd, gan fyddai'n anymarferol i weithredu cynlluniau arbedion ychwanegol eleni.
- 1.4 Wedi ymgynghori gyda mwyafrif aelodau'r Cyngor mewn cyfres o weithdai yn Ionawr, a gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (11 Chwefror), mae'r Cabinet (16 Chwefror) wedi argymhell cyllideb cytbwys a phriodol i'r Cyngor (4 Mawrth) ar gyfer 2021/22.

- 1.5 Erbyn 2021/22, byddai angen cynyddu ein gwariant craidd o £10.6m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod), gan gynnwys £3.6m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).
- 1.6 Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol, amcangyfrifir gellid cynaeafu £725k yn 2021/22 o'r cynlluniau arbedion cynllunwyd eisoes (mae manylion yn rhan 4 isod a'r cynlluniau unigol wedi'u rhestru yn Atodiad 3), ond wedyn rhaid cynyddu'r Dreth Cyngor 3.7% (mae manylion yn rhan 5 isod, ac yn Atodiad 6).
- 1.7 Bu adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau yn 2019, a adolygwyd yn 2020, ac eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £47,085,960 yn 2021/22, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.
- 1.8 Bwriedir modelu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (am 2021/22 – 2023/24) yn ystod haf 2021, ar ôl Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Canghellor Llywodraeth y DU, gan fod risg y bydd newid sylfaenol yng ngynlluniau'r Llywodraeth. Mae'n bosib y bydd angen trefniadau hyblyg er mwyn gallu gwireddu mwy o arbedion mewn blynyddoedd dilynol, ond bwriedir ystyried hynny ar ôl derbyn mwy o wybodaeth.
- 1.9 Mae cyllideb 2021/22 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymhell cynnydd 3.7% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Mae'r cynlluniau arbedion a gynlluniwyd yn flaenorol wedi'u dethol yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl, ond gwelir fod darganfod a chyflawni arbedion yn fwy heriol erbyn hyn.
- 1.10 Mater i'r Cyngor llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2021/22 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2021/22, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2020/21.

2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

- 2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad dangosol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2021/22. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol 'debyg-wrth-debyg' gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod, ynghyd â'r gwir ffigyrau "cash":

Grant Cynnal Refeniw 2020/21 – 2021/22	Cyfanswm Awdurdodau Cymru £	Cyngor Gwynedd swyddogol £	Cyngor Gwynedd "cash" £
Grant y Llywodraeth 2020/21	4,479,570,160	188,409,170	187,579,040
Grant y Llywodraeth 2021/22	4,651,494,400	194,793,140	194,793,140
Cynnydd £	171,924,240	6,383,970	7,214,100
Cynnydd %	+3.8%	+3.4%	-

Mae manylion pellach ar gael yma –

[Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2021 i 2022 | LLYW.CYMRU](#)

- 2.2 Mae ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn y tabl uchod yn dangos yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £6.4m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr cymharol 2020/21 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n gynydd 3.4%, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru yn 3.8%.

- 2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis poblogaeth y sir, nifer disgyblion yn ein ysgolion, a nifer hawl wyr cymorth incwm. Eleni, bu dipyn mwy o gynnydd yn y niferoedd hyn mewn awdurdodau eraill.
- 2.4 Derbyniwyd cynnydd sylweddol mewn "cash" oherwydd addasiad sylfaen trethiannol sy'n ail-ddosbarthu grant rhwng awdurdodau lleol Cymru. Roedd hyn oherwydd gostyngiad cymharol mewn eiddo treth cyngor yng Ngwynedd (gwneud i fyny am effaith mudo 'tai gwyliau' i'r rhestr treth busnes), o'i gymharu â chynnydd cyffredinol arferol mewn eiddo treth cyngor ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru.
- 2.5 Bydd Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r setliad grant terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar yr 2il o Fawrth, ynghyd â chyllideb terfynol Llywodraeth Cymru eu hunain, a bydd dadl perthnasol yn y Senedd ar y 9fed o Fawrth. Wedi trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ni ddisgwylir newid arwyddocaol o'r ffigyrau grant 'dangosol' yn y setliad drafft.
- 2.6 Os bydd y ffigwr grant yn newid i fyny neu i lawr ar adeg cyhoeddi'r Setliad Terfynol, mor hwyr yng nghylch gosod y gyllideb a treth 2021/22, byddai'n rhy hwyr i newid ffigyrau'r Dreth Cyngor. Felly, byddwn naill ai'n defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor i gysoni gostyngiad mewn cyllid grant, neu'n cyfrannu at falansau cyffredinol i gysoni cynnydd mewn cyllid grant.
- 2.7 Ar y wyneb, mae setliad awdurdodau lleol Cymru am 2021/22 yn un go rhesymol, ond mae hynny wedi'i wrthbwysu gan gostau ychwanegol. Yn fyr, fel trafodwyd yn y gweithdai aelodau eleni, mae'r cynnydd grant yn ddigonol ar gyfer cwrdd â chwyddiant, ond annigonol ar gyfer cyfarch hefyd y cynnydd mewn galw am wasanaethau'r Cyngor.

3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2021/22

- 3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd mewn gwariant fydd angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2021/22.

Gofynion Gwario Ychwanegol

	£	£
Cyllideb Sylfaenol		261,837,750
Chwyddiant Cyflogau Staff	3,498,200	
Chwyddiant Arall (cyflenwyr)	2,560,210	
Ardollau (Tân, APCE a CNC)	334,870	
Demograffi	250,280	
Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau	3,587,520	
Addasiadau Cyllideb Amrywiol	232,550	
Cost Benthycia / Llog ar Falansau	<u>174,910</u>	
Cyfanswm net yr ychwanegiadau		<u>10,638,540</u>
Cyfanswm gofynion gwario 2021/22 cyn arbedion		<u>272,476,290</u>

Pe bai'r Cyngor yn cynyddu'r Premiwm Treth Cyngor i 100%, yna byddai addasiad i'r ffigyrau uchod, gyda £3,918,250 o gynnyrch premiwm ychwanegol i'w neilltuo i gronfa

benodol, cyfanswm net yr ychwanegiadau yn £14,556,790 a chyfanswm gofynion gwario 2021/22 cyn arbedion felly yn £276,394,540.

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2020/21**

Er mai £262m yw gwariant net 2020/21, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £430m, oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £109m ac yn codi incwm cyffredinol bron i £59m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau £3.5m**

Er gwaethaf dyhead Canghellor Llywodraeth y DU i 'rewi cyflogau', darperir ar gyfer cynnydd tâl o £250 pro rata i staff ar gyflogau £24,000 neu is, ynghyd â darpariaeth darbodus ar gyfer holl staff y Cyngor, rhag ofn bydd cyfaddawd ar y cytundebau tâl cenedlaethol fydd yn weithredol o Ebrill 2021.

Ymhellach, darperir yma ar gyfer cynnydd tâl 3.1% i athrawon ysgolion Gwynedd am y cyfnod Ebrill – Awst 2021 (effaith blwyddyn llawn cytundeb tâl Medi 2020). Hefyd wedi'i gynnwys yma, mae cost incrementau net o drosgiant sydd eleni yn golygu dyrannu £116,500 ychwanegol i ysgolion cynradd, a £96,000 ychwanegol i ysgolion uwchradd (cyfanswm £212,500).

3.4 **Chwyddiant Arall £2.6m**

Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw' (isafswm tâl) ar gostau a ffioedd sy'n daladwy i'n cyflenwyr preifat (yn cynnwys £305k ar gyfer cartrefi gofal preswyl annibynnol, a £328k ar gyfer cwmnïau gofal di-breswyl), ynghyd â chynnydd chwyddiant ar gyllidebau tanwydd ac ynni (£182k) a chynnydd prisiau yn dilyn ail-dendro (tacsis ysgolion £207k, ac yswiriant £229k).

3.5 **Ardollau £335k**

Yn Rhagfyr 2020, penderfynodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru godi'r ardoll 3.15% ar yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2021/22, sy'n cynyddu'r gofyn ar Cyngor Gwynedd o £233k. Am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, mae cynnydd o £96k yn ardoll Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac hefyd amcan cynnydd o £6k mewn ardoll draenio arbennig i 'Cyfoeth Naturiol Cymru'.

3.6 **Demograffi £250k**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu +£187k oherwydd cynnydd net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion, +£30k i'r Adran Gofal Oedolion i gyfarch y nifer cynyddol o bobl fydd angen gofal mewn poblogaeth sy'n heneiddio, a +£33k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Theuluoedd.

Mae'r ffigwr net o +£187k i ysgolion yn cuddio sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£447k a cynradd -£260k.

3.7 **Pwysau ar Wasanaethau £3.6m**

'Bidiau' anorfod – gweler Atodiad 2 am fanylion pob 'bid' unigol, yn cynnwys £3.59m refeniw a £296k cyfalaf.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £3.59m a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor am adnoddau parhaol ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Hefyd, argymhellir cymeradwyo bidiau 'un-tro' gwerth £1,348,500 ac i ariannu'r rhain o gyllideb Corfforaethol (tua £1m neilltuwyd yn benodol ar gyfer gwariant un-tro yng nghyllideb 2020/21), gyda'r balans (£345k) i'w ariannu yn 2021/22 o falansau cyffredinol y Cyngor.

Cofier fod nifer o brif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân i hyn (fesul un drwy benderfyniadau'r Cabinet), drwy 'Gynllun y Cyngor' (i'w ariannu o'r Gronfa Trawsffurfio y Cyngor).

Beth gyflwynir yn y "bidiau" yma'n Atodiad 2 yw ymrwymadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

Rhoddir yr hawl i bob adran i adnabod unrhyw wariant rhaid i'r Cyngor gyflawni er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r drefn yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hun wrth i ni adolygu patrymau gwariant y flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, ac wedyn y Cyngor gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau cyflwynir yma yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet, cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Ymhellach, trafodwyd yr holl 'bidiau' yma pryd y'i cyflwynwyd ar 'sleids' i'r gyfres o 'Weithdai Cyllideb' ar 25-28 Ionawr 2021, lle roedd y mwyafrif o aelodau'r Cyngor yn cydsynio fod y gwariant yn anorfod.

3.8 **Addasiadau Cyllideb Amrywiol £233k**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor, ond yn bennaf addasiadau i leihau targed incwm ffioedd a phrisiau y Gwasanaeth Morwrol.

3.9 **Costau Benthycia a Llog ar Falansau £175k**

Rhagamcan o ostyngiad (£145k) mewn llog taladwy ar fenthyciadau yn 2021/22, wrth i hen fenthyciadau hir-dymor ddirwyn i ben, ynghyd â lleihad £320k mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor.

3.10 **Covid-19**

Yn yr adroddiad Adolygiad o Gyllideb Refeniw 2020/21 i gyfarfod y Cabinet 26 Ionawr 2021, nodwyd fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi digolledu Cyngor Gwynedd gyda hawliadau grant gwerth £12m o'u Cronfa Caledi yn y 9 mis cyntaf, a disgwyliar bydd cyfanswm y cymorth gan y Llywodraeth yn sgil argyfwng Covid19 oddeutu £20m erbyn diwedd 2020/21. Wedi nodi dyraniad arian yng nghyllideb 2021/22 Llywodraeth Cymru ar gyfer Covid19, ac agwedd gefnogol Gweinidogion a swyddogion yno i awdurdodau lleol Cymru, mae'n ragdybiaeth cyllidebu rhesymol fod Llywodraeth Cymru am barhau i'n digolledu am gostau ychwanegol a cholledion incwm yn y flwyddyn ariannol nesaf. Felly, yng nghyllideb 2021/22 Cyngor Gwynedd, rydym wedi peidio cynnwys darpariaeth ychwanegol i ddygymod â chostau a colledion o barhad yr argyfwng, gan gymryd (ar wahân i arbedion heb eu gwireddu) bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido hyn.

4. **ARBEDION**

4.1 Mae Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd. Ers 2015/16, mae dros £30m o gynlluniau arbedion wedi'u gwireddu gan Cyngor Gwynedd, ond amcangyfrif na fydd gwerth £3.3m o arbedion yn cael eu gwireddu.

- 4.2 Ar 13 Hydref, ddaru'r Cabinet nodi fod cynllunio ariannol yn hynod heriol, ac felly os bydd bwllch cyllido i fantoli cyllideb 2021/22, bydd y Cyngor yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, yn hytrach na rhuthro i ddarganfod cynlluniau arbedion newydd ychwanegol yng nghanol yr argyfwng.
- 4.3 Yn dilyn ystyriaeth o adroddiadau 'Trosolwg Arbedion 2020/21' a 'Strategaeth Cyllideb 2021/22' gan y Cabinet ar 13 Hydref 2020, ddaru'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid gyfarfod pob Aelod Cabinet unigol gyda'u penaethiaid adran i drafod sut i symud ymlaen efo'u arbedion arfaethedig, er gwaethaf yr argyfwng.
- 4.4 Ar 26 Ionawr 2021, adroddwyd yn ôl o'r cyfarfodydd gyda'r adrannau mewn adroddiad 'Sefyllfa Arbedion' i'r Cabinet, lle penderfynwyd gohirio neu dileu arbedion hanesyddol nad oedd modd i'w gwireddu – fel amlinellir yn y tabl 'Gohirio / Dileu' isod (mae mwy o fanylion yn Atodiad 3, ac yn yr adroddiad Cabinet 26 Ionawr).

Arbedion	Gohirio i 2022/23 £	Dileu £
Cynlluniau 2017/18-2020/21	1,037,750	848,040
Cynlluniau 2021/22	511,250	595,450
CYFANSWM	1,549,000	1,433,490

- 4.5 Felly, bydd gwerth £1,106,700 o arbedion a gynlluniwyd yn wreiddiol erbyn 2021/22 bellach ddim yn cyfrannu at gau bwllch cyllidebol 2021/22. Ymhellach, defnyddiwyd £1.6m o ddarpariaeth yn y gyllideb i ariannu'r £1.9m o gynlluniau hanesyddol sydd heb eu gwireddu, gyda'r bwllch gweddilliol £242,790 i ddod o'r arbedion bwriedir cyflawni yn 2021/22.
- 4.6 Wedi'r addasiadau uchod i'r rhaglen arbedion, mae'r holl gynlluniau unigol sydd i'w gweithredu gan yr adrannau yn 2021/22 wedi'u rhestru yn Atodiad 3 er gwybodaeth, ac mae'r cyfansymiau adrannol wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol.

Arbedion i ddygymod gyda Bwllch Ariannu 2021/22	
	£
Adran Addysg ac Ysgolion	65,000
Adran Plant a Chefnogi Teulueodd	23,170
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	78,750
Adran Tai ac Eiddo	302,050
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol	117,750
Adran Cyllid (a T.G.)	100,000
Adran Amgylchedd	73,750
Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol	206,250
Cyfanswm Arbedion Blaenorol Cymeradwy 2021/22	966,720
Llai: Ariannu balans gohirio a dileu cynlluniau	241,790
Arbedion net ar gael i leihau bwllch Cyllideb 2021/22	724,930

- 4.7 Er mwyn dygymod gyda bwllch ariannu cyllideb 2020/21, gellid cynhaeafu £967k o arbedion sydd eisoes wedi'u cymeradwyo, ond penderfynwyd eisoes i ddefnyddio £242k ohono ar gyfer ariannu cost gohirio a dileu cynlluniau arbedion hanesyddol 2017/18 - 2020/21 nad oedd modd i'w gwireddu.
- 4.8 Ar wahân i'r arbediad effeithlonrwydd caffael Ynni yn rhatach (£150,790) cymeradwyodd y Cabinet yn ystod 2020, mae'r holl gynlluniau arfaethedig sydd i'w gwireddu yn 2021/22 (gyda'r arbedion i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau perthnasol) eisoes wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor mewn blynyddoedd blaenorol.
- 4.9 O ganlyniad, yn y gyllideb hon argymhellir i'r Cyngor llawn, bydd cyfanswm net o £725k o arbedion i'w ddefnyddio i leihau bwllch ariannu cyllideb 2020/21.

5. BWLLCH ARIANNU 2021/22, A'R DRETH CYNGOR

- 5.1 Fe welir o ran 2 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2021/22 yn £272.5m (gyda premiwm 50%) / £276.4m (gyda premiwm 100%). Nodwyd yn rhan 2 uchod fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £194.8m.
- 5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £725k o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwllch ariannu.

Sefydlu Cyllideb 2021/22		
	Premiwm Treth Cyngor 50%	Premiwm Treth Cyngor 100%
	£	£
Cyllideb Sylfaenol 2020/21	261,837,750	261,837,750
Gofynion Gwario Ychwanegol	<u>10,638,540</u>	<u>14,556,790</u>
Gofynion Gwario 2021/22 cyn Arbedion	272,476,290	276,394,540
llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru	-194,793,140	-194,793,140
llai Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwllch	<u>-724,930</u>	<u>-724,930</u>
Bwllch gweddilliol o'r Dreth Cyngor	<u>76,958,220</u>	<u>80,876,470</u>

- 5.3 Golygai hynny fod bwllch gweddilliol o £77m (gyda premiwm 50%) / £81m (gyda premiwm 100%), ac argymhellir cyfarch y bwllch hwnnw drwy'r Dreth Cyngor. Bydd angen codi'r Dreth 3.7% er mwyn cynhyrchu incwm digonol.
- 5.4 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth (ynghyd â manylion y Premiwm ar ail gartrefi a tai gwag) wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.
- 5.5 Felly, argymhellir codi'r dreth 3.7%, fydd yn cynhyrchu £77m / £81m o dreth erbyn 2021/22, sydd yn £2.7m o incwm ychwanegol tuag at y bwllch. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £52.92 i eiddo mewn Band D, neu £1.02 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan yr Awdurdod Heddlu (cynnydd o 5.14% ar gyfer 2021/22) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
- 5.6 Yn 2020/21 roedd lefel Band D Gwynedd yn £1,430, tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,354. Fodd bynnag, mae hynny am resymau hanesyddol, gan fod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd ers 2014/15 yn 4.2% ar gyfartaledd, sy'n llai na'r cynnydd 4.4% a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru yn ystod yr un cyfnod (gwelir y ffigyrau blynyddol yn Atodiad 6).

- 5.7 Pe bai aelodau'r Cyngor awydd cynnydd llai na 3.7% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid gwario llai ar wasanaethau Yr opsiwn drafodwyd yn y gweithdai aelodau oedd i beidio ariannu rhai o'r bidiau refeniw parhaol 'Categori 2' a geir yn Atodiad 2b. Mae'r bidiau 'Categori 1' bron yn anorfod, ond mae ychydig mwy o ddisgresiwn gyda'r bidiau 'Categori 2'. Nodir yn y golofn dde yn Atodiad 2b faint byddai'r Dreth Cyngor ar gyfer 2021/22 yn gostwng drwy beidio cymeradwyo'r bidiau 'Categori 2' unigol.
- 5.8 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a cafwyd sawl sgwrs am hyn yn y gweithdai aelodau eleni. Ar gyfer 2021/22 mae'r cyfartaledd o gynnydd treth yr awdurdodau lleol eraill ledled Cymru yn debygol o fod tua 4.1%, ac mae'r cynnig gerbron i godi'r dreth 3.7% yn lefel tebyg i fwyafrif yr awdurdodau yn y gogledd.

6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2021/22

- 6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2021/22 ac er gwaethaf cynnydd grant digonol ar gyfer cwrdd â chwyddiant eleni, mae'n cadarnhau rhaid parhau i gynhaefu arbedion hanesyddol a chodi lefel y dreth ar gyfer dygymod gyda'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.
- 6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £271.8m (gyda premiwm Treth Cyngor o 50%) / £275.7m (gyda premiwm 100%), wedi ychwanegu £10.6m (50%) / £14.5m (100%), sy'n cynnwys darparu £3.6m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.
- 6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £194.8m a dibynnu ar £725k o arbedion, bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 3.7% i gynhyrchu £77m (50%) / £81m (100%) o incwm er mwyn cau bwloch ariannu 2021/22.

Cyllideb gytbwys ar gyfer 2021/22		
	Premiwm Treth Cyngor 50%	Premiwm Treth Cyngor 100%
	£	£
Gofynion Gwario 2021/22 cyn Arbedion	272,476,290	276,394,540
Cyfanswm Arbedion 2021/22	-724,930	-724,930
Cyllideb 2021/22	<u>271,751,360</u>	<u>275,669,610</u>
<i>I'w ariannu drwy -</i>		
Incwm Grant	194,793,140	194,793,140
Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 3.7%)	<u>76,958,220</u>	<u>80,876,470</u>
Cyllideb 2021/22	<u>271,751,360</u>	<u>275,669,610</u>

- 6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o £271,751,360 (gyda premiwm 50%) / £275,669,610 (100%). Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiadau 1a (Premiwm Treth Cyngor 50%) ac 1b (Premiwm Treth Cyngor 100%).

7. CYFALAF

- 7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau 2019/20 – 2028/29 gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn ychwanegu at hwnnw erbyn 2021/22. Mae manylion yn Atodiad 4.
- 7.2 Mae'r 2 dabl yn Atodiad 4 yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, ar gyfer gosod cyllideb 2021/22 i 2023/24, ac er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £47,085,960 yn 2021/22, i'w ariannu o'r ffynonellau wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.
- 7.3 Yn y tabl yn Atodiad 4 nodir bod £500k ar gael yn flynyddol ar gyfer cyllido Bidiau Cyfalaf, ar gyfer 2021/22, £296k yw cyfanswm y 6 bid cyfalaf perthnasol a fanylir yn Atodiad 2ch. Wedi gwrandao ar adborth aelodau yn y gweithdai cyllideb a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo'r 6 bid, a bydd y £204k sydd yn weddill yn cael ei ychwanegu at ddarpariaeth 2022/23 ar gyfer cyllido bidiau cyfalaf.

8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

- 8.1 Mewn rhai blynyddoedd blaenorol, cynhwyswyd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyda'r adroddiad cyllideb. Eleni, fel llynedd, mae mwy o ansicrwydd am y dyfodol cyn adolygiad gwariant cynhwysfawr Canghellor Llywodraeth San Steffan yn ystod haf 2021.
- 8.2 Rhaid i awdurdodau lleol Cymreig ddarogan polisi / bwriad Llywodraeth Cymru yn ogystal, ac wrth gwrs bydd setliad grant awdurdodau lleol ar gyfer 2022/23 a thu hwnt yn ddibynnol ar ganlyniad etholiad y Senedd ar 6 Mai 2021.
- 8.3 Nid yw'n eglur eto pryd cawn arwydd o ganlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr.
- 8.4 Felly, byddaf yn cyflwyno Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i gyfarfod dilynol o'r Cabinet yn ystod yr haf, er mwyn adnabod y risg o fod angen ystyried strategaeth arbedion i'r dyfodol.

9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIAU

- 9.1 Mae'r gyllideb yma'n argymhell defnydd o £345k o'r balansau er mwyn ariannu swm gweddilliol y bidiau refeniw un tro. Mae'r lefel gyfredol o falansau cyffredinol y Cyngor yn £8m, ac ar ôl defnyddio'r £345k uchod a chyfarch effaith Covid-19 ar gyfrifon diwedd blwyddyn 2020/21, ystyrir bydd lefel y balansau yn briodol i'w gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir wybodaeth manwl am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.
- 9.2 Mae Atodiad 5, 'Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2021/22', yn egluro sefyllfa teg 'bargen' cyllideb ysgolion Gwynedd.
- 9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn ysgafnach eleni, gan nad ydym yn cyflwyno unrhyw gynlluniau arbedion newydd ychwanegol. Fodd bynnag, yn unol â'r drefn arferol, mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, gan gynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb cyfan o safbwynt cydraddoldeb.

- 9.4 Mae'r Cyngor yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Yn unol â'r drefn arferol, rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.
- 9.5 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.

Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

Barn y Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro:

Mae'r argymhelliad gan y Cabinet ar gyfer y gyllideb yn anorfod yn ganlyniad proses fanwl sydd yn dwyn at eu gilydd ystyriaethau statudol, cyllidol a blaenoriaethu. Yn unol a threfniadau llywodraethu'r Cyngor mae hyn yn cynnwys trosolwg y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Dylai'r Cyngor ddal sylw at y cyfan o'r asesiadau ac ymgynghoriadau a gyfeirir atynt a'r canfyddiadau sydd yn deillio wrth ystyried cymeradwyo'r argymhelliad. Bydd mabwysiadu'r Gyllideb yn sefydlu fframwaith gyllidol fydd yn caniatáu y Cabinet i symud ymlaen a blaenoriaethu'r Cyngor.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma yn unol â phenderfyniad Cabinet 16 Chwefror ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2021/22 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

ATODIADAU

- 1a Cyllidebau Arfaethedig (Premiwm Treth Cyngor 50%)
- 1b Cyllidebau Arfaethedig (Premiwm Treth Cyngor 100%)

- 2 Crynodeb Bidiau
- 2a Bidiau Refeniw Parhaol Categori 1
- 2b Bidiau Refeniw Parhaol Categori 2
- 2c Bidiau Refeniw Un-tro
- 2ch Bidiau Cyfalaf

- 3 Arbedion

- 4 Cyfalaf

- 5 Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2021/22

- 6 Treth Cyngor

- 7 Balansau

- 8 Aseiad Effaith Cydraddoldeb

- 9 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 10 Cadernid yr Amcangyfrifon

- 11 Penderfyniad Ffurfiol

	Teitl y Bid	Parhaol (£)	Un tro (£)	Cyfalaf (£)
	Adran Addysg			
Bid 1	Prydau Ysgol am Ddim	124,080		
Bid 2	Cludiant Taccis a Threnau Ysgolion	145,440		
Bid 15	Cryfhau darpariaeth ADY Blynnyddoedd Cynnar	225,740		
Un tro 1	Cludiant Taccis a Threnau Ysgolion		145,000	
Un tro 2	Cymorth Adrannol Band B		42,500	
	Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd			
Bid 3	Lleoliadau Plant Mewn Gofal	1,620,000		
Bid 4	Llety a Chefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal	100,000		
Bid 5	Swyddog Adolygu Annibynnol ac Amddiffyn Plant	54,000		
Bid 16	Strategaeth Gadael Gofal	50,000		
Un tro 3	Cynllun Hyfforddai Gwaith Cymdeithasol		72,000	
	Adran Amgylchedd			
Un tro 8	Gorwariant Cludiant Cyhoeddus (Gwasanaeth Bysiau)		128,000	
	Adran Economi a Chymuned			
Un tro 9	Amgueddfa Lloyd George		27,000	
Cyf 4	Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd)			50,000
	Adran Ymgynghoriaeth			
Cyf 5	Atal Llifogydd arian cyfatebol i Gynllun Tremadog			45,000
Cyf 6	Atal Llifogydd arian cyfatebol i ariannu cyfleoedd i wneud qwelliannau bach ar draws v Sir			45,000
	Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol			
Bid 13	Strategaeth Wastraff	62,000		
Bid 14	Gwywiad yr Onnen	105,220		
Un tro 10	Gwywiad yr Onnen		150,000	
Un tro 11	Ymateb y Cyngor i ddifrod i asedau Pontydd a Waliau Cynnal wedi llifoavdd		90,000	
Cyf 2	Flare ar gyfer delio gyda nwyon safle tirlenwi Cilgwyn			60,600
Cyf 3	Pwll Archwilio Gweithdy Dolgellau			65,000
	Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant			
Bid 6	Swyddog Hyfforddi / Ansawdd Gofal Anabledd Dysgu	39,250		
Bid 7	Tim Gwaith Cymdeithasol Anabledd Dysgu	46,300		
Bid 8	Cryfhau Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol (Anableddau Dysgu)	23,150		
Bid 9	Oed Trosglwyddo: Oedolion Ifanc Anableddau Dysgu	514,340		
Bid 10	Cefnogi unigolyn bregus	98,500		
Bid 17	Adnoddau ychwanegol er mwyn sefydlu Tîm 'Symud a Thrin'	229,500		
Un tro 4	Cynllun Gweithlu Gwasanaethau Gofal Oedolion		390,000	
Un tro 5	Cryfhau Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol		50,000	
Un tro 6	Rhaglen Datblygu Gweithlu'r Dyfodol (Hyfforddeion)		222,000	
Un tro 7	Costau Uwch Galw Gofal		32,000	
Cyf 1	Adnewyddu Caledwedd Cenedlaethol WCCIS			30,000
	Corfforaethol			
Bid 11	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	50,000		
Bid 12	Costau Benthycu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	100,000		

BIDIAU REFENIW PARHAOL 2021/22 - CATEGORI 1 BRON YN ANORFOD

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a Argymhellir (£)
	ADDYSG		
Bid 1	Prydau Ysgol am Ddim - cynnydd yn niferoedd sydd yn hawlio	Cynnydd yn niferoedd plant sydd yn gymwys i dderbyn cinio am ddim, rhagwelir cynnydd o 1,060 rhwng Medi 2019 a Medi 2021.	124,080
Bid 2	Cludiant Tacsis a Threnau Ysgolion	Cytundebau diweddaraf ar sail nifer dyddiau blwyddyn gyllidol 2021/22, yn dangos gwariant o £2,681,460 yn erbyn cyllideb o £2,391,020 (yn cynnwys cyfraniad o £100k o'r Grant Gwella Addysg EIG tuag at gostau tacsis Canolfannau Iaith) yn gadael diffyg o £290,440. Mae'r gorwariant yn gysylltiedig â diffyg o £160,240 yn y bid a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. (Cyflwynwyd bid am £310,240 a derbyniwyd £150k). Noder fod y gyllideb eleni (2020/21) wedi gostwng £104,160 o ganlyniad i ail-dendro cytundebau ardal Meirionnydd yn Ebrill 2020.	145,440
	PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD		
Bid 3	Lleoliadau Plant Mewn Gofal	Cynnydd yn y nifer o leoliadau maeth efo teulu, galw am leoliadau maeth drwy asiant oherwydd diffyg capasati mewnol ac achosion dwys a chymleth sy'n gwneud lleoliad preswyl allsirol yn anorfod. Ariannu - Lleoliadau all-sirol £1.07m, Lleoliadau Maethu Asiant £380k a Lleoliadau Maethu Mewnol £170k.	1,620,000
Bid 4	Llety a Chefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal	Mae cynnydd dros blynnyddoedd diwethaf yn y nifer plant mewn gofal ac un o sgil effeithiau hynny yw bod cynnydd yn y nifer o bobl ifanc sy'n dod yn gymwys am wasanaeth ôl-ofal. Yn benodol mae cynnydd yn y nifer o bobl ifanc sydd ag anghenion uwch yn gadael gofal ac yn anorfod mae hynny wedi golygu darparu pecynnau cefnogaeth lefel uwch a chostus ar eu cyfer. Dros y 2 flynedd diwethaf mae gwariant ar y maes hwn wedi cynyddu a bellach yn gorwario'n sylweddol. Rhagwelir gorwariant o £378k erbyn diwedd 2020/21.	100,000
Bid 5	Swyddog Adolygu Annibynnol ac Amddiffyn Plant - creu swydd llawn amser ychwanegol	Yn ôl Deddf 2014, mae disgwyliadau ar yr Awdurdod Lleol i glustnodi swyddog i bob plentyn mewn gofal i adolygu gofal yr Awdurdod ohono a sicrhau eu hawliau. Mae cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal, felly nid yw'r swyddogion yn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Byddai deilydd y swydd yn gyfrifol am adolygu plant mewn gofal a chynnal y rôl o Gadeirio Cynadleddau Amddiffyn Plant yn achlysurol.	54,000

Tuo. 316

OEDOLION, IECHYD A LLESIANT			
Bid 6	Swyddog Hyfforddi / Ansawdd Gofal Anabledd Dysgu	Yn hanesyddol mae'r swydd wedi ei ariannu drwy grantiau. Mae'r swydd wedi ein galluogi i ddatblygu'r gweithlu a sefydlu diwylliant Cefnogaeth Actif 'Positive Behaviour Support'. Ac yn golygu y gallwn ddarparu hyfforddiant mewnol heb orfod prynu hyfforddiant allanol (cost o hyd at £1k y diwrnod). Cais er mwyn ariannu'r swydd yn barhaol yn hytrach na defnydd grantiau.	39,250
Bid 7	Tim Gwaith Cymdeithasol Anabledd Dysgu	Mae'r galw ar y Gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi cynyddu yn sylweddol; 535 unigolyn ar y gofrestr yn 2010/11, wedi cynyddu i 647 o unigolion erbyn hyn. Nid yn unig mae nifer yr achosion wedi cynyddu, ond mae cymhlethdod anghenion yr unigolion ar y gofrestr hefyd wedi trawsnewid. Cais i ariannu 3 swydd gweithiwr cymdeithasol mewn swyddi dros dro yn rhai parhaol. Nid oedd y swyddi hyn ar strwythur staffio'r Adran ac felly wedi cyfrannu tuag at orwariant yr Adran.	46,300
Bid 8	Cryfhau Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol (Anableddau Dysgu)	Newid swydd o fod yn un rhan amser i un llawn amser o fewn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu, gan nad oes modd llenwi'r swydd rhan amser a dyma'r unig swydd Therapydd Galwedigaethol o fewn y Gwasanaeth.	23,150
Bid 9	Oed Trosglwyddo: Oedolion Ifanc Anableddau Dysgu	Bydd unigolion sydd wedi derbyn gwasanaeth gan yr Adran Plant a Theuluoedd yn cychwyn derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaeth Oedolion yn ystod 2021/22. Bydd angen cwrdd ag anghenion yr unigolion a'u teuluoedd yn unol â'r asesiad anghenion, er mwyn cwrdd ac allbynnau llesiant penodol.	514,340
Bid 10	Cefnogi unigolyn bregus	I dalu am leoliad addas all-sirol i ddarparu gofal arbenigol i unigolyn ifanc a chyflyrau corfforol a meddyliol dwys, sydd yn golygu eu fod yn ddibynnol iawn ar eraill i gwrdd a'i anghenion gofal corfforol. Gwasanaeth Oedolion sydd wedi ariannu'r gost, ond mae trafodaethau parhaus gyda gwahanol adrannau o'r Bwrdd Iechyd i ofyn am gefnogaeth.	98,500
CORFFORAETHOL			
Bid 11	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Cyfraniad Cyngor Gwynedd tuag at y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.	50,000
Bid 12	Costau Benthycu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Costau benthycu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.	100,000

PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL			
Bid 13	Strategaeth Wastraff	Gostyngiad yn y grant Rheoli Gwastraff Cynladwy sy'n cael ei ddyrannu dros yr Awdurdodau Lleol gan Llywodraeth Cymru.	62,000
Bid 14	Gwywiad yr Onnen (Ash Dieback)	Parhau gyda ymateb y Cyngor i drin coed sy'n dioddef o'r clwy. Dylid nodi fod profiadau awdurdodau eraill yn awgrymu cyfnod o leiaf 5 mlynedd i gael rheolaeth ar y sefyllfa. Gyda chostau staffio blynyddol o £181,550 (penodi 4 aelod o staff) a chostau torri coed blynyddol.	105,220
CYFANSWM BIDIAU REFENIW PARHAOL CATEGORI 1			3,082,280

BIDIAU REFENIW PARHAOL 2021/22 - CATEGORI 2 YN AMODOL AR GYNYNDDU TRETH CYNGOR o 3.7%

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a Argymhellir (£)	% ar y Dreth
	ADDYSG			
Bid 15	Cryfhau darpariaeth ADY Blynnyddoedd Cynnar mewn paratoad at y ddeddfwriaeth ADY newydd	Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn rhoi cyfrifoldeb ar yr Awdurdod i roi cymorth i blant oedran 0-25 (dyletswydd presennol ar gyfer oedran 3-19 oed). Gwneir cais i greu'r swyddi isod er mwyn cyfarch y gofynion newydd: * Athrawes Arbenigol * Cymhorthydd Arbenigol * 9 Cymorthydd 0-3 oed	225,740	0.30%
	PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD			
Bid 16	Strategaeth Gadael Gofal	Ariannu ail swydd o fewn y Gwasanaeth Trothwy, fydd yn gweithio gyda'r achosion hynny sydd wedi eu hadnabod fel rhai addas i wneud gwaith pellach i weithio tuag at ddi-ddymu Gorchmynion Gofal neu i sicrhau lleoliad tymor hir i'r plentyn heb statws cyfreithiol o fod mewn gofal. Ac felly osgoi sefyllfa o gael rhestr aros i gwblhau'r gwaith a thrwy hynny cynorthwyo'r Adran i weithredu'n gynt ar achosion priodol.	50,000	0.07%
	OEDOLION, IECHYD A LLESIANT			
Bid 17	Adnoddau ychwanegol er mwyn sefydlu Tîm 'Manual Handling'	Sefydlu Tîm 'Symud a Thrin'— * 1 Uwch Ymarferydd i arwain, * 2 naill ai OT / Nyrs / Ffisio, * 2 weithiwr cymdeithasol gydag 1 aelod ym mhob ardal Tîm Cymunedol, i sicrhau bod arweiniad ac offer priodol yn cael ei ddarparu er mwyn lleihau risg o niwed i unigolion bregus a gofalwyr.	229,500	0.31%
	CYFANSWM BIDIAU REFENIW PARHAOL CATEGORI 2		505,240	

Iud. 319

BIDIAU REFENIW UN TRO 2021/22

Tud. 320

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a Argymhellir (£)
	ADDYSG		
Un tro 1	Cludiant Tacsis a Threnau Ysgolion	Cytundebau diweddaraf ar sail nifer dyddiau blwyddyn gyllidol 2021/22, yn dangos gwariant o £2,681,460 yn erbyn cyllideb o £2,391,020 (yn cynnwys cyfraniad o £100k o'r Grant Gwella Addysg EIG tuag at gostau tacsis Canolfannau Iaith) yn gadael diffyg o £290,440. Mae'r gorwariant yn gysylltiedig â diffyg o £160,240 yn y bid a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. (Cyflwynwyd bid am £310,240 a derbyniwyd £150k). Noder fod y gyllideb eleni (2020/21) wedi gostwng £104,160 o ganlyniad i ail-dendro cytundebau ardal Meirionnydd yn Ebrill 2020.	145,000
Un tro 2	Cymorth Adrannol Band B Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif	Sicrhau adnodd priodol ar gael i barhau ar y gefnogaeth arbenigol (Adnoddau Dynol, Cyfreithiol a Chyllid) i wireddu gwaith Band B o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif ar gyfer 2021/22.	42,500
	PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD		
Un tro 3	Cynllun Hyfforddai Gwaith Cymdeithasol	I gefnogi 2 weithiwr mewnol i gwblhau'r cwrs gradd Gwaith Cymdeithasol trwy'r Brifysgol Agored am gyfnod o 2 flynedd, er mwyn ymateb i'r cyflenwad anigonnol o weithwyr cymdeithasol i lenwi swyddi gwaith cymdeithasol yng Ngwynedd. Byddai angen £36k yn 2021/22 a £36k pellach yn 2022/23.	72,000

OEDOLION, IECHYD A LLESIANT			
Un tro 4	Cynllun Gweithlu Gwasanaethau Gofal Oedolion	Mae angen cynyddu maint y gweithlu gofal ym maes Oedolion er mwyn ymateb i brinder gweithlu i sicrhau parhad gwasanaeth yn y tymor byr, ac er mwyn medru cynllunio i ymateb i ail don o'r feirws Covid19. Cabinet yn ei gyfarfod ar 13/10/20 wedi cymeradwyo gwariant un tro hyd at £390k i'r Adran.	390,000
Un tro 5	Cryfhau Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol	Ariannu swyddog a fan dros dro er mwyn cludo'r offer i Dde Gwynedd ac ar ddau ddiwrnod bydd swyddog ychwanegol ar gael er mwyn cynorthwyo gyda symud offer trwm. Ac ariannu 2 swyddog rhan amser dros dro (2 a 3 diwrnod) er mwyn lleihau'r rhestr aros gyda un swyddog i ganolbwyntio ar ardal Meirionnydd ar llall i weithio ar draws Wunedd.	50,000
Un tro 6	Rhaglen Datblygu Gweithlu'r Dyfodol (Hyfforddeion)	Bid am arian parhaol ar gyfer cynllunio ymlaen a datblygu gweithlu'r dyfodol yn ddibynnol ar ein blaenoriaethau a'r bylchau fydd yn amlygu eu hunain dros y blynyddoedd. Pe byddai'r bid yn llwyddiannus byddai'r buddsoddiad ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn cael ei glustnodi i dair swydd hyfforddai proffesiynol yn unol â'r bylchau sydd wedi eu hadnabod: <ul style="list-style-type: none"> • Gweithiwr Cymdeithasol sy'n arbenigo yn y maes Iechyd Meddwl, • Dau Therapydd Galwedigaethol i weithio ar draws gwasanaethau. 	222,000
Un tro 7	Costau Uwch Galw Gofal	Cyfraniad y Cyngor wedi cynnyddu'n sylweddol eleni, ac hynny yn sgil y newid sydd wedi bod yn nefnydd y partneriaid a mae'r gytundeb oedd mewn lle i wasanaethu Sir y Fflint wedi dod i ben. Mae'r Adran wedi codi ffi wythnosol pecyn sylfaenol Teleofal yn 2019/20 o £3.30 yr wythnos i £4.50. Ystyriwyd ein cyfraniad i Galw Gofal fel rhan o osod y ffi newydd hwn ar y pryd ond mae cynnydd sy'n cael ei ragweld o £32k yn ychwanegol i'r gwaith wnaethpwyd o ran hyn.	32,000

AMGYLCHEDD			
Un tro 8	Gorwariant Cludiant Cyhoeddus (Gwasanaeth Bysiau)	<p>Cynhaliwyd dwy adolygiad ar gludiant cyhoeddus yn ystod y flwyddyn 2019/20, cyntaf adolygiad ar rhwydwaith Cludiant Cyhoeddus Gwynedd – mewn cydweithrediad a Llywodraeth Cymru, ond yn anffodus oherwydd yr argyfwng Covid nid yw'n ymarferol cychwyn y gwaith o ehangu y gwasanaeth TrawsCymru.</p> <p>A'r ail adolygiad ar deithiau sydd yn derbyn cymhorthdal yng Ngwynedd, cynhaliwyd mewn cydweithrediad a Phrifysgol Bangor. Eto yn sgil Covid ni fu bosib parhau gyda'r gwaith o ymgynghori gyda'r teithwyr.</p> <p>Mae'r argyfwng wedi rhwystro'r Adran rhag cwblhau'r dasg o ail strwythuro'r Gwasanaeth Bysiau ac felly mae'n hanfodol ein bod yn parhau gyda'r gwasanaethau sydd ar hyn o bryd yn cael eu darparu.</p>	128,000
ECONOMI A CHYMUNED			
Un tro 9	Amgueddfa Lloyd George	<p>Mae dyfodol yr Amgueddfa yn parhau'n ansicr ers i gyllideb o £27k gael ei thorri yn 2016 yn sgil Her Gwynedd. Ers hynny cafwyd grant gan Llywodraeth Cymru i lenwir blwch am 3 blynedd, a'r Cyngor wedi llenwi'r blwch yn 2020/21.</p> <p>Mae prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn edrych ar werthuso opsiynau ar gyfer dyfodol yr amgueddfa ond yn sgil Covid-19 mae cryn oedi wedi bod ar y gwaith. Heb yr arian yma, ni fydd modd agor yr amgueddfa a bydd costau ynghlwm a chau a chynnal yr adeilad am gyfnod amhenodol wrth i'r opsiwn a ffafrir gael ei ddatblygu.</p>	27,000

ud. 322

PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL			
Un tro 10	Gwywiad yr Onnen (Ash Dieback)	Parhau gyda ymateb y Cyngor i drin coed sy'n dioddef o'r clwy. Dylid nodi fod profiadau awdurdodau eraill yn awgrymu cyfnod o leiaf 5 mlynedd i gael rheolaeth ar y sefyllfa. Gyda chostau staffio blynyddol o £181,550 (penodi 4 aelod o staff) a chostau torri coed blynyddol.	150,000
Un tro 11	Ymateb y Cyngor i ddifrod i asedau Pontydd a Waliau Cynnal wedi llifogydd	Cais am £490k dros gyfnod o 5 mlynedd, yn unol â'r proffil isod: 2021/22 £90k 2022/23 £100k 2023/24 £100k 2024/25 £100k 2025/26 £100k er mwyn ymateb i ddifrod i pontydd a waliau cynnal yn dilyn llifogydd. Amcangyfrif yn y flwyddyn gyntaf y byddai angen £90k i adolygu'r holl strwythurau fel rhan o'r asesiadau lefel 1. Gydag amcangyfrif cost adolygiad lefel 2 o £5k y strwythur yn ddibynnol ar pa mor gymhleth yw'r gwaith adeiladu.	90,000
CYFANSWM BIDIAU REFENIW UN TRO			1,348,500

BIDIAU CYFALAF 2021/22 - I'W ARIANNU O'R GYLLIDEB O FEWN Y CYNLLUN RHEOLI ASED AU

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a Argymhellir (£)
	OEDOLION, IECHYD A LLESIANT		
Cyf 1	Adnewyddu Caledwedd Cenedlaethol WCCIS	Mae angen adnewyddu isadeiledd cenedlaethol WCCIS yn unol â'r gontract. Hyn yn cynnwys serfys, trwyddedau CRM, a.y.b. Mae pob Awdurdod a Bwrdd Iechyd sydd yn defnyddio'r system yn gorfod cyfrannu at y swm o £1.93m yn seiledig ar fforwmla, gyda Llywodraeth Cymru yn cyfrannu dros £600k.	30,000
	PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL		
Cyf 2	Flare ar gyfer delio gyda nwyon safle tirlenwi Cilgwyn	Am y 15+ mlynedd diwethaf, roedd rheolaeth nwy tirlenwi y safle wedi ei contractio allan, erbyn hyn mae rheolaeth nwy yn cael ei reoli'n fewnol unwaith eto. Mae cyfaint a safon y nwy wedi lleihau i lefel lle mai dim ond fflêr llosgi calorig isel sydd a'r gallu rheoli'r nwy sy'n weddill yn ddigonol. Bwriedir prynu offer penodol i losgi nwy tirlenwi o ansawdd gwael - dyma'r dechneg orau sydd ar gael i ddelio a rheoli ansawdd tir / cyfaint gwael o nwy tirlenwi yn effeithiol.	60,600
Cyf 3	Pwll Archwilio Gweithdy Dolgellau	Mae cyfleusterau archwilio cerbydau wedi dirywio yn sylweddol yn y Depo sydd yn creu risg o anafiad a pharhad gwasanaeth yn ardal Meirionnydd. Ac felly gwneir cais i brynu dau bwll archwilio pwrpasol i'r gweithdy er mwyn diogelu ein staff a sicrhau parhad gwasanaeth.	65,000
	ECONOMI A CHYMUNED		
Cyf 4	Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd)	Mae CIST Gwynedd yn darparu grantiau refeniw a chyfalaf i grwpiau gwirfoddol ar draws y sir i ddatblygu a gwireddu prosiectau cymunedol.	50,000

Tud. 324

YMGYNGHORIAETH			
Cyf 5	Atal Llifogydd arian cyfatebol i Gynllun Tremadog	<p>Lleihau'r risg llifogydd i dros 30 eiddo yn Nhremadog, gan ddarparu mesurau newydd fel trapiau graean a sgriniau newydd. Cynnwys gwaith dal graean a choed cyn iddynt fynd at y cwlfwr a gwaith gosod drysau llifogydd ar eiddo yn Nhremadog.</p> <p>Byddai £45k yn ein cynorthwyo i ariannu hyd at werth £300k o waith.</p>	45,000
Cyf 6	Atal Llifogydd arian cyfatebol i ariannu cyfle fydd yn codi i wneud gwelliannau bach ar draws y Sir	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu'r cyfyngiadau cyllidebol ar gynlluniau graddfa fach, ac felly gallwn wneud cais am nifer o gynlluniau anghyfyngedig am werth hyd at £100k yr un.</p> <p>Yn dilyn llifogydd mis Mawrth 2020, mae oddeutu 80 eiddo wedi ei effeithio a gellir lleihau'r risg i nifer gyda gwelliannau bach (megis trwsio clwferi, sgrinniau, giatau llifogydd arfordirol, falfiau fflap). Bwriedir cwblhau gwaith yn yr ardaloedd canlynol: Caernarfon, Bangor, Clynnog Fawr, Llandygai, Blaenau Ffestiniog a Llanberis. Gan hefyd gwblhau gwelliannau i asedau'r Cyngor yn Waunfawr, Penisarwaun a Thal Y Bont. Gyda'r gwaith yn yr ardaloedd uchod yn lleihau risg o lifogydd i tua 150 o dai.</p> <p>Byddai £45k yn ein cynorthwyo i ariannu hyd at werth £300k o waith.</p>	45,000
CYFANSWM BIDIAU CYFALAF			295,600

ATODIAD 3

ARBEDION

1. Ers 2015/16, mae dros £30m o gynlluniau arbedion wedi'u gwireddu gan Cyngor Gwynedd, ond amcangyfrif na fydd gwerth £3.3m o arbedion yn cael eu gwireddu.
2. Ar y 13eg o Hydref 2020, bu i'r Cabinet ystyried adroddiad 'Trosolwg Arbedion' yn nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2020/21, 2019/20 a blynyddoedd blaenorol.
3. Nodwyd bod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth dilyffethair i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng, a hynny wedi golygu na fu modd parhau efo rhai o'r trefniadau arbedion dros gyfnod yr argyfwng.
4. Cefnogwyd bwriad y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i drefnu i gyfarfod pob Aelod Cabinet gyda'u Penaethiaid Adran, i drafod sut bydd modd ail afael yn y drefn o gyflawni'r arbedion arfaethedig, fel bydd modd i'r Cyngor symud ymlaen efo cyfran o'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.
5. Yn ogystal, ar 13 Hydref 2020 bu i'r cabinet ystyried adroddiad 'Strategaeth Cyllideb' a oedd yn ceisio darogan y sefyllfa ariannol y byddwn yn ei wynebu yn 2021/22.
6. Cymeradwywyd trefn ac amserlen llunio Cyllideb 2021/22, tra'n nodi fod cynllunio ariannol yn hynod heriol, ac felly os bydd bwlch cyllido i fantoli cyllideb 2021/22, bydd y Cyngor yn defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, yn hytrach na rhuthro i ddarganfod cynlluniau arbedion newydd ychwanegol yng nghanol yr argyfwng.
7. Wrth gwrs, mae hyn yn dilyn blynyddoedd blaenorol lle nad oedd y grant yr oeddem wedi bod yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a chan fod galwadau mewn amrywiol feysydd fel gofal oedolion a phlant yn cynyddu hefyd, roeddem wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.
8. Oherwydd hynny, tra byddai yna gyfleoedd cyfyngedig i geisio darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd, roeddem bellach wedi cyrraedd sefyllfa lle y byddai unrhyw angen am arbedion o sylwedd yn debygol o olygu toriadau i wasanaethau.
9. Ar 26 Ionawr 2021, wedi i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid gyfarfod yr Aelodau Cabinet a'u Penaethiaid Adran perthnasol, bu i'r Cabinet ystyried adroddiad 'Sefyllfa Arbedion' lle penderfynwyd gohirio neu dileu arbedion hanesyddol nad oedd modd i'w gwireddu – fel amlinellir yn y tabl 'Gohirio / Dileu' isod.

10. Cyfeirir yma at yr arbedion a ddewiswyd yn wreiddiol at ddibenion cwrdd ag elfen o'r galwadau ychwanegol am wasanaethau'r Cyngor wrth osod cyllideb 2021/22. O'r cynlluniau arbedion oedd i'w gwireddu yn 2021/22, cytunwyd dylid symud proffil cyflawni gwerth £511k ohonynt i 2022/23, a chydabod bod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni gwerth £595k o gynlluniau arbedion 2021/22.

Arbedion	Gohirio i 2022/23 £	Dileu £
Cynlluniau 2017/18 - 2020/21	1,037,750	848,040
Cynlluniau 2021/22	511,250	595,450
CYFANSWM	1,549,000	1,433,490

11. Yn amlwg felly, bydd gwerth £1,106,700 o arbedion a gynlluniwyd yn wreiddiol erbyn 2021/22 bellach ddim yn cyfrannu at gau bwch cyllidebol 2021/22.

12. Ymysg nifer o gynlluniau llai, y penderfyniadau gohirio a'r dileu amlycaf gan y Cabinet ar 26 Ionawr 2021 oedd:

- dileu'r cynllun 'Dechrau i'r Diwedd' gwerth £1,128k o arbedion o gyllideb yr Adran Plant (£668k wedi ddileu o gynlluniau 2017 – 2021, a £460k pellach o gynlluniau 2021/22), a
- gohirio'r cynllun 'Trawsnewid Gwasanaethau i Oedolion' 2017 - 2021 gwerth £935k o arbedion o gyllideb yr Adran Oedolion.

13. Wrth osod cyllideb 2020/21, roedd darpariaeth wedi'w neilltuo er mwyn dygydd â'r risg o fethu gwireddu'r cynlluniau arbedion (gweithred hynod ddoeth gyda synnwyr trannoeth).

14. Er mwyn ariannu'r cynlluniau hanesyddol sydd heb eu gwireddu, defnyddiwyd £1.644m o'r ddarpariaeth yma, a penderfynwyd cyfarch y bwch gweddilliol drwy ddefnydd cyntaf o £241,790 o'r arbedion bwriedir cyflawni ar gyfer 2021/22.

Gohirio Arbedion i 2022/23	£1,037,750
Dileu Arbedion	£848,040
CYFANSWM	£1,885,790
Llai:	
Darpariaeth yng nghyllideb 2020/21 ar gyfer methiant gwireddu arbedion 2017–21	£1,644,000
Balans i'w ariannu yn 2021/22	£241,790

15. Mae'r arbedion sydd i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn **2021/22** wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol ac eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor. Wrth gwrs, maent hefyd wedi dilyn prosesau statudol priodol, ond rhestrir rheiny isod **er gwybodaeth**.

Arbediad	Swm £
ADRAN ADDYSG AC YSGOLION	
Arbedion ychwanegol ysgolion	65,000
ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUEODD	
Lleihau'r gyllideb Lwfans Cynllun Cynnal	23,170
ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT	
Gwella trefniadau cydgordio gyda'r Adran Plant a Theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo	45,000
Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran	33,750
CYFANSWM	78,750
ADRAN TAI AC EIDDO	
Cynllun Arbed Ynni Salix	33,380
Dileu swydd o'r Gwasnaeth Diogelwch Eiddo	22,500
Cynyddu ffioedd archwilio a thrwyddedu tai mewn amldeiliadaeth	20,380
Lleihau dibyniaeth ar lety dros dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol	75,000
Arbedion Ynni	150,790
CYFANSWM	302,050
ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL	
Trosglwyddo i system swyddfa gefn cyswllt cwsmer newydd	17,250
Dileu swydd swyddog adnoddau dynol a swydd ymgynghorydd adnoddau dynol	60,000
Dileu'r Gwasanaeth Datblygu'r Sefydliad	40,500
CYFANSWM	117,750
ADRAN CYLLID (a T.G.)	
Creu incwm drwy werthu system tracio fflyd	5,000
Cynhyrchu incwm drwy atal twyll	20,000
Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol	75,000
CYFANSWM	100,000

ADRAN AMGYLCHEDD	
Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach	20,000
Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rhai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio	15,000
Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio	37,500
Lleihau'r gyllideb ar gyfer yr Uned Gorchmynion Traffig	1,250
CYFANSWM	73,750
ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL	
Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'	105,000
Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau	75,000
Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont	26,250
CYFANSWM	206,250
CYFANSWM ARBEDION 2021/22	966,720
Llai: Ariannu Balans Dileu Cynlluniau 2017 - 2021	-241,790
CYFANSWM	724,930

16. Bydd gwireddu'r cynlluniau a nodir yn y rhestr uchod yn cynhyrchu cyfraniad arbedion net o £725k yn 2021/22. Nodaf eto fod y cynlluniau arbedion yma eisoes wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol, ac felly ddim yn destun penderfyniad eleni. Penderfynodd y Cyngor llawn, wrth osod cyllideb 2020/21 ar y 5ed o Fawrth 2020, ni ddylai'r arbedion "effeithlonrwydd" yma gael effaith o sylwedd ar drigolion Gwynedd.

ATODIAD 4

CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlgygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

RHAGLEN GYFALAF			
	2021/22	2022/23	2023/24
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Asedau'r Cyngor :			
Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif	2,987	1,303	3,854
Cynlluniau Tai	2,525	2,225	1,300
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes	1,750	1,000	0
Cartrefi/ Canolfannau Oedolion	1,493	450	625
Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol	896	1,145	1,640
Cynlluniau Eraill	4,768	2,215	1,573
Bidiau Cyfalaf	500	500	500
Cynlluniau Eraill :			
Adnoddau Grant Cyfalaf Cyffredinol Ychwanegol i'w ddyrannu	1,554	0	0
Grant Cynnal Ffyrdd 2021/22	1,323	0	0
Strategaeth Dai – Cronfa Premiwm Treth y Cyngor	0	0	2,550
Strategaeth Dai - Prynu i Osod	1,000	2,880	2,880
Cynlluniau Eraill Eisoed wedi eu Cymeradwyo :			
Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif (LIC)	12,051	3,327	0
Atal Llifogydd Arfordirol	4,796	0	0
Cynlluniau/Strategaeth Tai	2,550	2,550	0
Cynlluniau Eiddo	2,406	0	0
Cerbydau Adrannol	1,396	3,081	0
Eraill	5,091	350	0
CYFANSWM Y RHAGLEN	47,086	21,026	14,922

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF			
	2021/22	2022/23	2023/24
	£'000	£'000	£'000
Benthyca Gyda Chefnogaeth	4,077	4,077	4,077
Benthyca Arall	6,159	2,891	2,880
Grantiau a Chyfraniadau	15,433	5,810	2,533
Derbyniadau Cyfalaf	227	13	0
Refeniw Adrannol	508	0	0
Cronfa Cyfalaf	5,145	0	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	15,537	8,235	5,432
CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN	47,086	21,026	14,922

4. Sefydlwyd strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.
5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu proffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2022/23 ymlaen.
6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2021/22 i 2023/24, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.
7. Mae'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn uwch yn 2021/22 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau. Mae'n fwriad dod ag adroddiad dilynol gerbron y Cabinet i adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Asedau a sicrhau'r defnydd o'r adnodd ychwanegol hwn.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £47,085,960 ar gyfer 2021/22, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

ATODIAD 5

YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2021/22

- Cefndir:** Adroddwyd i gyfarfod 25 Ionawr 2021 o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar elfennau perthnasol o gyllideb ddrafft y Cyngor ar gyfer 2021/22, lle nodwyd y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi yn anrhydeddus.
- Chwyddiant:** Tra mae Canghellor Llywodraeth San Steffan yn annog rhewi cyflogau staff gwasanaethau eraill o Ebrill 2021, bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£1.1m** eleni drwy ychwanegu darpariaeth ar gyfer chwyddiant tâl athrawon. Bydd hyn yn cyfarch cost cynnydd cyfartalog o 3.1% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn llawn cytundeb tâl Medi 2020. Wrth gwrs, bydd dyraniadau ysgolion am ynni hefyd yn codi gyda lefel chwyddiant perthnasol.
- Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £262k tuag at gyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22 oherwydd incrementau net o drosiant staff. Bydd **£212,500** o'r ychwanegiad yma'n mynd i gyllidebau ysgolion: £116,500 i'r sector Gynradd a £96,000 i'r sector Uwchradd.
- Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2020 i gyfrifo dyraniadau 2021/22. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn codi **£187k**, sy'n cynnwys lleihad -£260k i'r sector Gynradd a chynnydd +£447k i'r sector Uwchradd.
- Bidiau Argymhellir Cymeradwyo:** Gwelir yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu 'bidiau' parhaol 2021/22 i'r Adran Addysg gwerth cyfanswm o **£495k**, er mwyn ariannu cost uwch cludiant tacsis a trennau i ddisgyblion (£145k parhaol a £145k arall un-tro), prydau ysgol am ddim (£124k) ac i gryfhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol blynyddoedd cynnar (£226k).
- Gofynion Ychwanegol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):** Deallaf fod yr Adran Addysg yn ystyried ymgynghori ag ysgolion ar y posibilrwydd i'r cwantwm arian dirprwyedig gyllido gwerth **£163,080** o gyllideb adrannol ar gyfer y maes ADY, sef £63,580 am 'Gydlynnydd / Swyddog Ansawdd ADY', a £99,500 am 'Ddatrys Anghytundebau ADY'. Mae £163,080 cyfwerth â tua 0.2% o'r cwantwm arian dirprwyedig, felly erbyn 2020/21 ni ddylai fod newid o sylwedd i'r gymhareb disgybl:athro cyfredol yn y fformiwla dyrannu cyllidebau ysgolion o ganlyniad i hyn.

7. **Dim Arbedion Newydd:** Unwaith eto eleni, wrth ddatblygu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22, cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi gofyn i ysgolion Gwynedd am arbedion newydd ychwanegol. Rhwng 2015/16 a 2021/22, bydd Cyngor Gwynedd wedi gwireddu £31m o gynlluniau arbedion, gyda £4.3m ohono (14% o'r arbedion) wedi'i gynhaefu o'r ysgolion (sy'n cynrychioli 30% o wariant net y Cyngor).
8. **Arbedion Hanesyddol:** Ymysg £966,720 (cyfanswm gros) o arbedion hanesyddol mae'r Cyngor yn gobeithio gwireddu yn 2020/21, mae **£65,000** o 'arbedion trefniadaeth pellach' gan yr Adran Addysg i ddod allan o gyllideb ysgolion 2021/22. Mae'r £65k yma'n cyfrannu at yr arbedion £4.3m penderfynwyd arnynt yn 2016 fel strategaeth ariannol ar gyfer y dair blynedd 2016/17 - 2018/19. Roedd yr arbedion yma wedi'u seilio ar flaenoriaethau a nodwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus 'Her Gwynedd', pryd roedd Gwynedd, fel mwyafrif cynghorau Cymru, yn wynebu bwlch ariannol sylweddol. Yn hytrach na thorri dyraniadau'r holl ysgolion, yn 2016 caniatwyd gohirio'r elfen yma o'r arbedion £4.3m tan ar ôl 2018/19, i'w gynhaefu rwan pryd mae'r effeithlonrwydd trefniadaeth ar gael. Mae'r arbediad effeithlonrwydd £65,000 yma rwan yn deillio o foderneiddio ysgolion yn ardal y Bala.
9. **Grant Ôl-16:** Erbyn 2021/22, yn gyffredinol, bydd cynnydd go sylweddol mewn dyraniadau grant ôl-16 i ysgolion uwchradd Gwynedd sydd â 6ed dosbarth. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r 6ed dosbarth yn uniongyrchol ers tro bellach, ac mae cynnydd ffafriol Gwynedd eleni yn dilyn rhai blynyddoedd diweddar pryd bu'r dyraniadau grant yma'n llai ffafriol i'n ysgolion uwchradd perthnasol ni.
10. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2021/22 ar lefel tebyg i 2020/21.
11. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion dipyn uwch yn 2021/22 na lefel 'cash' 2020/21, ond yn eithaf tebyg mewn termau 'real'.

ATODIAD 6

TRETH CYNGOR

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor llawn wneud, yn sgil yr ystyriaethau cyflwynir yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2021/22. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.
2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Erbyn 2019/20, roedd setliad grant Llywodraeth Cymru yn siomedig, ac roedd raid codi'r dreth 5.8%, pryd roedd cynnydd treth cyfartalog ar draws siroedd Cymru o 6.2%. Erbyn 2020/21, roedd cynnydd treth Gwynedd yn 3.9%, yng nghyd-destun cynnydd cyfartalog 4.6% ar draws Gymru.
3. Eleni, erbyn 2021/22 argymhellir codi'r dreth 3.7%, fydd yn cynhyrchu £77m o dreth, yn cynnwys £2.7m o gynnyrch Premiwm a £2.7m o incwm ychwanegol tuag at y bwllch. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £52.92 i eiddo mewn Band D, neu £1.02 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan yr Awdurdod Heddlu (cynnydd o 5.14% ar gyfer 2021/22) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
4. Mae dros 15.6% o dai sy'n atebol i dalu treth yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 0.1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwllch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £74,210. Felly, byddai 0.5% yn golygu addasu'r bwllch ariannol tua £371,060 tra byddai 1% yn golygu addasu'r bwllch ariannol o tua £742,120.
5. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2014/15:

Blwyddyn	Gwynedd	Cymru
2020/21	3.9%	4.6%
2019/20	5.8%	6.2%
2018/19	4.8%	5.0%
2017/18	2.8%	3.1%
2016/17	4.0%	3.7%
2015/16	4.5%	4.3%
2014/15	3.9%	4.2%
Cyfanswm 2014-21	29.7%	31.1%
Cyfartaledd 2014-20	4.2%	4.4%

Yn 2020/21 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,430, tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,354.

<https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-03/council-tax-levels-in-wales-april-2020-march-2021-942.pdf>

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2021/22, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yw bydd y cyfartaledd ar draws Cymru tua 4%. Felly, mae'r cynnig gerbron i godi'r dreth 3.7%, am fod yn is na lefel tebygol cyfartaledd Cymru erbyn 2021/22, ac felly yn cadw at y polisi hir-dymor.
7. Pe bai aelodau'r Cyngor awydd cynnydd llai na 3.7% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid gwario llai ar wasanaethau. Yr opsiwn drafodwyd yn y gweithdai aelodau oedd i beidio ariannu rhai o'r bidiau refeniw parhaol 'Categori 2' a geir yn Atodiad 2b. Mae'r bidiau 'Categori 1' bron yn anorfod, ond mae ychydig mwy o ddisgresiwn gyda'r bidiau 'Categori 2'. Nodir yn y golofn dde yn Atodiad 2b faint byddai'r Dreth Cyngor ar gyfer 2021/22 yn gostwng drwy beidio cymeradwyo'r bidiau 'Categori 2' unigol.
8. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol yn y gweithdai aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 3.7%, fyddai'n gynydd wythnosol o £1.02, neu £52.92 yn flynyddol, gyda threth 'Band D' o £1,483.23 am 2021/22.**

CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI

9. Roedd yr adroddiad blaen am Gyllideb y Cyngor i'r Cabinet wedi'i baratoi'n seiliedig ar senario lle byddai'r premiwm o 50% ar ail gartrefi ac ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy yn parhau am 2021/22.
10. Fodd bynnag, yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 3 Rhagfyr 2020, penderfynwyd gohirio penderfyniad ynglŷn â chaniatáu disgowntiau a chodi premiwm, gan ofyn i'r Cabinet ystyried priodoldeb cynyddu y lefel i hyd at 100%.
<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=4214&ver=4&>
11. Yn dilyn penderfyniad yng nghyfarfod y Cabinet 15 Rhagfyr 2020, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i gynyddu'r Premiwm ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.
<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=4168&ver=4&>
12. Wedi ystyried ymatebion a'r ffactorau perthnasol, mae adroddiad arall ar raglen cyfarfod 16 Chwefror 2021 y Cabinet, gyda golwg ar gyflwyno argymhelliad perthnasol i'r Cyngor llawn ar 4 Mawrth 2021. Gall y Cyngor benderfynu parhau am 2021/22 gyda'r premiwm o 50% ar ail gartrefi ac eiddo gwag, neu ei newid i unrhyw lefel rhwng 0% hyd at 100%.
13. Pe bai'r Cyngor yn penderfynu parhau gyda premiwm o 50%, amcangyfrifir bydd y Cyngor yn derbyn £2.7m o incwm yn 2021/22 o'r cynnyrch treth premiwm, a penderfynwyd neilltuo'r arian hwnnw mewn cronfa er mwyn gweithredu'r Strategaeth Tai, sy'n anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau. Cafodd y Strategaeth Tai ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cabinet 15 Rhagfyr 2020.

14. Pe bai'r Cyngor yn penderfynu cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag i 100%, byddai raid ymgorffori'r holl incwm a chyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2021/22. Fodd bynnag, i bwrpas gosod Cyllideb 2021/22 y Cyngor, am y tro, bydd y cynnyrch treth ychwanegol yn cael ei neilltuo mewn cronfa, i'w ystyried eto gan y Cabinet yng nghyswllt ehangu'r Strategaeth Tai.
15. Felly, yn sgil penderfyniad posib gan y Cyngor llawn ar 4 Mawrth 2021 i gynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag i 100%, byddai raid dewis yr ail set o ffigyrau allweddol / yr ail fersiwn o'r penderfyniad a geisir am Gyllideb 2021/22 y Cyngor.

ATODIAD 7

BALANSAU

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithio' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o tua £8m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.8% o wariant refeniw gros y Cyngor.
2. 'Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gyda phroblemau allasai godi.
3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, gyda'r cynnydd parhaus mewn galw am wasanaethau gofal, her sylweddol yr argyfwng Covid-19 ac ansicrwydd gydag adolygiad gwariant cynhwysfawr ar y gweill gan Lywodraeth San Steffan yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol.
4. Wedi medru ariannu tua £1m o'r bidiau un-tro o fewn darpariaethau'r gyllideb, **argymhellir defnyddio £344,500 o falansau er mwyn ariannu gweddill bidiau refeniw un tro 2021/22.**
5. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 16 Mehefin 2020 a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 28 Mehefin 2020, pryd cymeradwywyd trosglwyddo £825k o gronfeydd a darpariaethau i gynorthwyo'r adrannau roedd wedi gorwario yn 2019/20. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad eto erbyn Mai/Mehefin 2021**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.
6. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (2014), mae **Archwilio Cymru wedi datgan** (ym mharagraff 1.8):

*"Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwysu eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, **ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn.** Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."*

7. Ategwyd y neges yma mewn cyfarfodydd diweddar gydag Archwilio Cymru, sydd wedi adrodd yn Hydref 2020 ar gynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol Cymru o ganlyniad i bandemig Covid-19. Tra mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy Cyngor Gwynedd ymysg chwartil uchaf yr amrediad o awdurdodau lleol Cymru (yn nhermau maint eu cronfeydd defnyddiadwy), **barn Archwilio Cymru yw:**

*"(9) fod rhai cynghorau mewn sefyllfa well o lawer na'i gilydd i ddod drwy her ariannol fel y pandemig. Enghreifftir hyn yn fwyaf amlwg gan y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan gynghorau", a (18) **bod "lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ar gael i gyngor yn un o ddangosyddion allweddol cydnerthedd a chynaliadwyedd ariannol"**.*

[Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19 | Audit Wales](#)

8. Rwy'n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o falansau er mwyn ariannu £344,500 o bidiau refeniw un tro 2021/22, a defnydd y Cabinet o'r Gronfa Trawsffurfio i ariannu gofynion un-tro fel bydd rheiny yn codi, yn weithredoedd cwbl briodol-
9. Wrth gwrs, gallai sefyllfa ariannol 2021/22 wedi bod yn wahanol. Eleni, ar ganol argyfwng, mae balansau'r Cyngor wedi bod yn arf allweddol roedd yn caniatáu i ni aros i weld beth oedd sefyllfa'r setliad grant, cyn hyd yn oed gofyn i wasanaethau'r Cyngor adnabod cynlluniau arbedion newydd ychwanegol. Roedd gwasanaethau Gwynedd yn medru canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng Covid-19, sy'n wahanol i'r sefyllfa mewn rhai awdurdodau lleol eraill.
10. Yn ogystal â rhoi'r hyder i ni weithredu'n ddilyffethair yn wyneb costau'r argyfwng, roedd bodolaeth ein balansau yn 'prynu amser' ac osgoi 'hel bwganod' am doriadau ychwanegol nad oedd eu hangen erbyn 2021/22. Gan mai cyfran cymharol isel o'r balansau rydym wedi gorfod defnyddio eleni, byddwn wedi cadw'r swmp o'r balansau wrth gefn eto, rhag ofn bydd angen rheiny i 'bontio' hyd nes byddai cynlluniau arbedion ychwanegol wedi'u cymeradwyo a'u gweithredu erbyn cyllideb 2022/23.

ATODIAD 8

ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

1. Mae'r gyllideb a amlinellir yma'n ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan fod ein cynnydd grant yn annigonol i gwrdd â'r galw am wasanaethau yn ogystal â chwyddiant, mae'n rhaid gweithredu'r cynlluniau arbedion 'hanesyddol' sy'n Atodiad 3. Ar wahân i'r arbediad caffael Ynni cymeradwyodd y Cabinet yn ystod 2020, mae'r holl gynlluniau arfaethedig sydd i'w gwireddu yn 2021/22 eisoes wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn mewn blynyddoedd blaenorol.
2. Gydag arbedion, mae posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchoddedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar yr arbedion wedi cynnig cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau. Hefyd, mae'r cynlluniau arbedion unigol wedi bod yn destun asesiadau effaith priodol mewn blynyddoedd blaenorol sy'n cefnogi'r penderfyniadau ariannol gerbron yma.
3. Ein nod oedd sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:
 - Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
 - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.Wrth asesu, roeddem wedi ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau ein gallu.
4. Wrth gynllunio ein cyllidebau ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor, mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol mewn blynyddoedd blaenorol, mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi dadansoddi effaith cynlluniau ar wasanaethau, a monitro'r effaith yn briodol.
5. Mae'r gyllideb a argymhellir yn gwneud mwy na chwrdd â chostau chwyddiant. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau (oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau, disgyblion, a.y.b.) hefyd yn cael eu cyfarch trwy wneud penderfyniadau cyllidebol cydwybodol a rhesymol (gweler y gofynion gwario ychwanegol, gan gynnwys 'demograffi', yn rhan 3 o'r adroddiad).
6. Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol (£2.8m) o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol (£3.6m) yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol (yn cynnwys £1.6m ar gyfer lleoliadau plant mewn gofal a £514k ar gyfer oedolion ifanc ag anableddau dysgu), a bod mwyafrif y gweddiill (£495k) ohono'n mynd i'r maes ysgolion (yn cynnwys prydau ysgol am ddim ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel, cludiant tacsis i ddisgyblion ADY, a cryfhau darpariaeth ADY blynyddoedd cynnar).

ATODIAD 9

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd o fewn cyd-destun gofynion y Ddeddf uchod. Er bod yr argymhellion yn deillio o ddewisiadau ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth benderfyniadau a dewisiadau o safbwynt darparu adnoddau digonol er mwyn cynnal lefel briodol o wasanaethau.
2. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio canlynol y mae'r Cyngor yn ystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.
 - Edrych i'r tymor hir – Mae gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, a chymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
 - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r gyfres o Weithdai Aelodau wedi hwyluso dealltwriaeth o'r strategaeth ariannol.
 - Cymryd agwedd integredig – Mae polisiâu ac arferion cyllidebu Cyngor Gwynedd, a'r cynigion cyllideb eleni wedi'u ystyried o safbwynt yr holl nodau llesiant.
 - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, a gweithio gyda phartneriaid, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn, yn fewnol ac allanol, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
 - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu a'r strategaeth arbedion hir-dymor wedi cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.
3. Prif gasgliadau am gyllideb 2021/22 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:
 - Llewyrchus – Niwtral (ychwanegu at adnoddau gwasanaethau sy'n rhoi diwedd ar dlodi)
 - Cydnerth - Positif (agwedd darbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau a galluogi Cynllun y Cyngor)
 - Iachach – Positif (ariannu gofynion ychwanegol gwasanaethau 'gofal')
 - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
 - Cymunedau Cydlynus – Niwtral (parhau i ariannu gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel)
 - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwy-ieithog)
 - Byd-eang Gyfrifol – Niwtral (parhau i ariannu prosiectau digidol, amgylcheddol, cydweithredol)
4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o'r gyfundrefn arbedion gorfforaethol ac adrannol mewn blynyddoedd blaenorol pryd cymeradwywyd y cynlluniau arbedion, lle'n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol, ac ystyriaeth o hynny yn y pwyllgorau craffu trefnwyd i'w ystyried ac i flaenoriaethu arbedion i'w gweithredu.
5. Yn gyffredinol, wedi'i gyplu gyda Chynllun y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.

ATODIAD 10

CADERNID YR AMCANGYFRIFON

1. Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig. Mae Atodiad 7 yn amlinellu sefyllfa'r balansau a chronfeydd wrth gefn, tra mae'r atodiad yma'n cadarnhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol sy'n sail i'r gyllideb.
2. Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'n anochel eu bod yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.
3. Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml os ydynt wedi'u cyfrifo yn gywir. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, a bydd elfen o risg ynghylch gwireddu cynlluniau a chyflawni targedau. Ystyrir gwahanol risgiau i'r gyllideb isod:
4. **Risg Chwyddiant** - Mae risg gall chwyddiant droi allan yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2021/22, caniatawyd chwyddiant ar sail y wybodaeth ddiweddaraf am tâl a phrisiau, ond mae risg y bydd chwyddiant yn codi eto yn ystod 2021/22 ac ansicrwydd ynghylch y lefel tebygol. Gall cynnydd mewn chwyddiant ychwanegu at gostau'r Cyngor, ond gellir lleddfu hyn drwy ddefnyddio cyllideb wrth gefn fel bo'r angen.
5. **Risg Cyfraddau Llog** - Gall cyfraddau llog effeithio'r gyllideb refeniw drwy'r llog a enillir - h.y. byddai cynnydd yn y gyfradd llog yn golygu mwy o incwm. Yn unol â Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor (mewn eitem ddilynol ar raglen y cyfarfod hwn), nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar ddychweliadau rhy uchel. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod ar eu hisaf erioed ac nid ydynt yn debygol o godi cyn o leiaf 2022/23. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel a byddai'n digolledu'r risg chwyddiant, oherwydd bod un yn debygol o gynyddu gyda'r llall.
6. **Risgiau Grantiau Penodol** - Mae'r risgiau ynghlwm â'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, a chyrrff eraill sy'n cefnogi cyfran o wariant y Cyngor. Gall rhai o'r rhain ostwng, neu cael eu torri, ac nid oes gennym ddarlun cyflawn wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Bydd rhaid i'r gwariant cysylltiedig orffen pan daw grant i ben, ond mae'n bosibl fydd telerau contract yn golygu na all gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r grant, neu bod costau diswyddo i'w hariannu. Ymhellach, efallai bydd gweithgaredd a ariennir mor bwysig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, a'r Cyngor yn penderfynu parhau â'r gwariant. Byddwn yn lliniaru'r risg hon drwy sicrhau bod gennym yr wybodaeth orau sydd ar gael am grantiau, ond mae'r cyrrff ariannu (Llywodraeth, ayb) yn rheoli'r sefyllfa hyn.
7. **Risgiau Incwm** - Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd penodol mewn incwm ffioedd sydd cyfwerth â'r cynnydd mewn costau perthnasol. Os bydd galw am wasanaethau'r Cyngor yn disgyn, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau adrannol. Bydd angen monitro gwir sefyllfa'r gyllideb yn ofalus yn ystod y flwyddyn ac, os oes angen, torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm. Bydd hynny ddim yn bosib gyda rhai cyllidebau mawr corfforaethol, lle rhaid gosod amcangyfrifon incwm ar lefel darbodus.

8. **Risg gyda Covid-19** – Erbyn diwedd 2020/21, oherwydd yr argyfwng Covid-19, disgwylir y bydd Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru wedi digolledu Cyngor Gwynedd gyda chymorth grant gwerth cyfanswm oddeutu £20m. Felly, yng nghyllideb 2021/22 Cyngor Gwynedd, rydym wedi peidio cynnwys darpariaeth ychwanegol i ddygymod â chostau a cholledion o barhad yr argyfwng, gan gymryd (ar wahân i arbedion heb eu gwireddu) bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido hyn. Mae posibilrwydd bydd costau a cholledion sylweddol ynghlwm â pharhad yr argyfwng, ond wedi nodi dyraniad arian sylweddol yng nghyllideb 2021/22 Llywodraeth Cymru ar gyfer Covid-19, ac agwedd gefnogol Gwenidogion a swyddogion yno i sefyllfa berthnasol awdurdodau lleol Cymru, mae'n ragdybiaeth cyllidebu rhesymol (ac felly yn risg derbyniol) fod Llywodraeth Cymru am barhau i'n digolledu am gostau ychwanegol a cholledion incwm yn y flwyddyn ariannol nesaf. Yn 2020/21, cyn cadarnhad o'r cymorth grant yn wyneb costau sylweddol yn gynnar yn yr argyfwng, roedd bodolaeth balansau'r Cyngor wedi rhoi'r hyder i ni weithredu'n ddilyffethair er lles pobl Gwynedd. Yn y pen draw, cyfran cymharol isel o'r balansau byddwn wedi gorfod defnyddio eleni, a gellid cadw'r swmp o'r balansau wrth gefn eto (tua £8m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon), rhag ofn bydd angen ysgwyddo cyfran o gostau ychwanegol a cholledion incwm o barhad yr argyfwng yn 2021/22.
9. **Risg ag Arbedion** – Er fod y Cyngor wedi dileu neu gohirio gwerth £2.9m o arbedion yn ystod 2020/21, un risg sylweddol yn yr amgylchiadau presennol yw bod y Cyngor yn parhau i fod yn or-optimistaidd o ran gwireddu cynlluniau arbedion. Petai'r prosiectau hyn yn rhedeg i drafferthion ac yn methu cyflawni'r arbedion a gymerwyd allan o'r gyllideb, gallai hynny arwain at orwario sylweddol. Yn unol â'r drefn arferol, byddwn yn lliniaru'r risg drwy sicrhau fod cynlluniau arbedion ym mherchnogaeth adrannau ac aelodau'r Cabinet, a monitro'r cynnydd perthnasol yn rheolaidd. Hefyd, erbyn 2021/22, rydym wedi gwneud amcangyfrif darbodus o'r gwerth (£967k) arbedion cymeradwy o flynyddoedd blaenorol y bydd modd i ni gynhaeafu.
10. **Costau Diswyddo Staff** - Mae rhai gwasanaethau yn ailstrwythuro eu staff er mwyn cyflawni arbedion, a staff yn cael eu rhyddhau drwy ddiswyddiad. Ni fydd llawer o achosion eleni, ond lle'n briodol caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa wrth gefn ganolog, ac mae swm addas wedi cael ei neilltuo i'r perwyl hyn, sy'n lliniaru'r risg.
11. **Premiwm y Dreth Cyngor** - Wrth benderfynu ar y Sylfaen Drethiannol, aseswyd nifer yr ail gartrefi a thai gwag i'w cynnwys yn y ffigyrau yn ddarbodus. Mae risg bod nifer yr eiddo fydd yn talu wedi'i or-amcan a'r incwm a gesglir yn is na'r swm amcangyfrifwyd (oherwydd eiddo'n trosglwyddo i'r rhestr treth fusnes). Rydym yn rheoli'r risg drwy gyflogi arolygwyr sy'n gwirio'r ffeithiau, a thrwy beidio ymrwymo'r holl gynnyrch treth posibl o'r Premiwm cyn daw'r sefyllfa'n fwy eglur. Ymhellach, pe bai'r Cyngor llawn ar 4 Mawrth 2021 yn cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag i 100%, byddwn yn rheoli'r risg fod mwy o eiddo'n trosglwyddo i'r rhestr treth fusnes drwy neilltuo, yn hytrach nac ymrwymo, elfen o'r cynnyrch treth ychwanegol o'r Premiwm uwch.
12. **Barn y Swyddog Cyllid Statudol** - Wedi ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) o'r farn bod y cyllidebau yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

(i) Penderfyniad drafft y Dreth Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor ar gyfer ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2021 (ar sail cynnydd o 3.7%)

(ii) Tablau yn dangos lefel y Dreth Cyngor a'r cynnydd fesul cymuned

.....

(i) Draft Council Tax resolution based on the Cabinet's recommendation to the Council for its meeting on 4 March 2021 (on the basis of a 3.7% increase)

(ii) Tables showing the level of Council Tax and increases by community

Penderfynwyd

1. Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynir gan y Cabinet fel y nodir yn yr adroddiad.
2. Nodi fod yr Aelod Cabinet dros Gyllid, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 18 Tachwedd 2020, wedi cymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2021/22 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf"):-
 - (a) 51,885.56 yw'r swm a gyfrifwyd fel Sylfaen drethiannol Gwynedd yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Cyngor am y flwyddyn.
 - (b) Rhan o ardal y Cyngor – Sylfaen drethiannol Cymuned –

Aberdaron	542.74	Llanddeiniolen	1,832.32
Aberdyfi	980.22	Llandderfel	496.58
Abergwyngregyn	117.00	Llanegryn	157.54
Abermaw (Barmouth)	1,148.25	Llanelltyd	288.90
Arthog	617.37	Llanengan	2,105.34
Y Bala	771.50	Llanfair	311.58
Bangor	3,844.96	Llanfihangel y Pennant	223.75
Beddgelert	296.64	Llanfrothen	224.08
Betws Garmon	130.44	Llangelynnin	407.39
Bethesda	1,696.45	Llangywer	137.01
Bontnewydd	433.07	Llanllechid	336.00
Botwnnog	448.54	Llanllyfni	1,407.84
Brithdir a Llanfachreth	426.50	Llannor	905.46
Bryncrug	325.38	Llanrug	1,127.82
Buan	224.84	Llanuwchllyn	304.53
Caernarfon	3,596.36	Llanwnda	789.27
Clynnog Fawr	446.26	Llanycil	198.76
Corris	296.99	Llanystumdwy	864.34
Criccieth	931.77	Maentwrog	283.93
Dolbenmaen	603.77	Mawddwy	346.60
Dolgellau	1,233.10	Nefyn	1,458.93
Dyffryn Ardudwy	831.65	Pennal	215.54
Y Felinheli	1,136.66	Penrhyndeudraeth	779.36
Ffestiniog	1,713.50	Pentir	1,260.20
Y Ganllwyd	86.79	Pistyll	259.32
Harlech	769.40	Porthmadog	2,016.47
Llanaelhaearn	449.24	Pwllheli	1,729.10
Llanbedr	336.30	Talsarnau	325.03
Llanbedrog	720.36	Trawsfynydd	499.20
Llanberis	768.82	Tudweiliog	457.21
Llandwrog	1,027.80	Tywyn	1,624.58
Llandygai	1,000.88	Waunfawr	558.03

sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu cyfrifo yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2021/22 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf:-

	Premiwm Treth Cyngor 50%	Premiwm Treth Cyngor 100%	
(a)	£405,472,010	£409,390,260	Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf (gwariant gros).
(b)	£131,672,530	£131,672,530	Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf (incwm).
(c)	£273,799,480	£277,717,730	Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn (cyllideb net).
(ch)	£194,297,483		Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.
(d)	£1,532.26		Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3(ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn (treth Cyngor Gwynedd a threth cyfartalog cynghorau cymuned).
(dd)	£2,543,780		Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf (praeseptau'r cynghorau cymuned).
(e)	£1,483.23		Sef y swm yn 3(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3(dd) uchod â'r swm yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol (Band D ar gyfer treth Cyngor Gwynedd yn unig).

(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor –

Aberdaron	1,510.87	Llanddeiniolen	1,500.59
Aberdyfi	1,521.33	Llandderfel	1,501.35
Abergwyngregyn	1,508.87	Llanegryn	1,518.14
Abermaw (Barmouth)	1,535.48	Llanelltyd	1,509.19
Arthog	1,504.29	Llanengan	1,509.35
Y Bala	1,518.23	Llanfair	1,534.58
Bangor	1,584.18	Llanfihangel y Pennant	1,534.74
Beddgelert	1,518.63	Llanfrothen	1,524.73
Betws Garmon	1,503.16	Llangelynnin	1,507.29
Bethesda	1,557.61	Llangywer	1,514.25
Bontnewydd	1,525.95	Llanllechid	1,529.21
Botwnnog	1,497.72	Llanllyfni	1,518.75
Brithdir a Llanfachreth	1,511.37	Llannor	1,503.29
Bryncrug	1,522.75	Llanrug	1,536.43
Buan	1,499.91	Llanuwchllyn	1,529.20
Caernarfon	1,538.42	Llanwnda	1,519.77
Clynnog Fawr	1,523.57	Llanycil	1,503.35
Corris	1,514.65	Llanystumdwy	1,504.06
Criccieth	1,528.31	Maentwrog	1,504.54
Dolbenmaen	1,513.04	Mawddwy	1,510.64
Dolgellau	1,540.00	Nefyn	1,536.18
Dyffryn Ardudwy	1,543.35	Pennal	1,512.74
Y Felinheli	1,518.42	Penrhyndeudraeth	1,536.48
Ffestiniog	1,617.46	Pentir	1,526.87
Y Ganllwyd	1,517.80	Pistyll	1,529.50
Harlech	1,574.21	Porthmadog	1,514.27
Llanaelhaearn	1,538.88	Pwllheli	1,530.08
Llanbedr	1,527.83	Talsarnau	1,550.92
Llanbedrog	1,514.46	Trawsfynydd	1,523.29
Llanberis	1,524.85	Tudweiliog	1,500.73
Llandwrog	1,547.44	Tywyn	1,538.83
Llandygai	1,509.57	Waunfawr	1,504.73

sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3(e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn **Atodiad 1**, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3(f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.

4. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2021/22 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praecept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:

Band A	Band B	Band C	Band D	Band E	Band F	Band G	Band H	Band I
203.70	237.65	271.60	305.55	373.45	441.35	509.25	611.10	712.95

5. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3(ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn **Atodiad 2** ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2021/22 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.

Resolved

1. To approve the recommendations of the Cabinet as noted in the report.
2. It be noted that the Cabinet Member for Finance, in a decision notice dated 18 November 2020, approved the calculation of the following amounts for 2021/22 in accordance with Regulations made under Section 33 (5) of the Local Government Finance Act 1992 ("The Act"):-
 - (a) 51,885.56 being the amount calculated in accordance with the Local Authorities (Calculation of Council Tax Base) (Wales) Regulations 1995 as amended, as its Council Tax base for the year.
 - (b) Parts of the Council's Area – Communities Tax Base -

Aberdaron	542.74	Llanddeiniolen	1,832.32
Aberdyfi	980.22	Llandderfel	496.58
Abergwyngregyn	117.00	Llanegryn	157.54
Abermaw (Barmouth)	1,148.25	Llanelltyd	288.90
Arthog	617.37	Llanengan	2,105.34
Y Bala	771.50	Llanfair	311.58
Bangor	3,844.96	Llanfihangel y Pennant	223.75
Beddgelert	296.64	Llanfrothen	224.08
Betws Garmon	130.44	Llangelynnin	407.39
Bethesda	1,696.45	Llangywer	137.01
Bontnewydd	433.07	Llanllechid	336.00
Botwnnog	448.54	Llanllyfni	1,407.84
Brithdir a Llanfachreth	426.50	Llannor	905.46
Bryncrug	325.38	Llanrug	1,127.82
Buan	224.84	Llanuwchllyn	304.53
Caernarfon	3,596.36	Llanwnda	789.27
Clynnog Fawr	446.26	Llanycil	198.76
Corris	296.99	Llanystumdwy	864.34
Criccieth	931.77	Maentwrog	283.93
Dolbenmaen	603.77	Mawddwy	346.60
Dolgellau	1,233.10	Nefyn	1,458.93
Dyffryn Ardudwy	831.65	Pennal	215.54
Y Felinheli	1,136.66	Penrhyndeudraeth	779.36
Ffestiniog	1,713.50	Pentir	1,260.20
Y Ganllwyd	86.79	Pistyll	259.32
Harlech	769.40	Porthmadog	2,016.47
Llanaelhaearn	449.24	Pwllheli	1,729.10
Llanbedr	336.30	Talsarnau	325.03
Llanbedrog	720.36	Trawsfynydd	499.20
Llanberis	768.82	Tudweiliog	457.21
Llandwrog	1,027.80	Tywyn	1,624.58
Llandygai	1,000.88	Waunfawr	558.03

being the amounts calculated as the amounts of its Council Tax base for the year for dwellings in those parts of its area to which one or more special items relate.

3. That the following amounts be now calculated by the Council for the year 2021/22 in accordance with Sections 32 to 36 of the Act:-

	Council Tax Premium 50%	Council Tax Premium 100%	
(a)	£405,472,010	£409,390,260	Being the aggregate of the amounts which the Council estimates for the items set out in Section 32(2)(a) to (e) of the Act (gross expenditure).
(b)	£131,672,530	£131,672,530	Being the aggregate of the amounts which the Council estimates for the items set out in Section 32(3)(a) to (c) of the Act (income).
(c)	£273,799,480	£277,717,730	Being the amount by which the aggregate at 3(a) above exceeds the aggregate at 3(b) above, calculated by the Council, in accordance with Section 32(4) of the Act, as its budget requirement for the year (net budget).
(ch)	£194,297,483		Being the aggregate of the sums which the Council estimates will be payable during the year into its fund in respect of the National Non-Domestic Rates and Revenue Support Grant, less the estimated cost to the Council of discretionary non-domestic rate relief granted.
(d)	£1,532.26		Being the amount at 3(c) above less the amount at 3(ch) above, all divided by the amount at 2(a) above, calculated by the Council, in accordance with Section 33(1) of the Act, as the basic amount of its council tax for the year. (Gwynedd Council tax and average community council tax).
(dd)	£2,543,780		Being the aggregate amount of all special items referred to in Section 34(1) of the Act (community council precepts).
(e)	£1,483.23		Being the amount at 3(d) above less the result given by dividing the amount at 3(dd) above by the amount at 2(a) above, calculated by the Council, in accordance with Section 34(2) of the Act, as the basic amount of its Council Tax for the year for dwellings in those parts of its area to which no special item relates (Band D for Gwynedd Council tax only).

(f) Parts of the Council's Area – Community

Aberdaron	1,510.87	Llanddeiniolen	1,500.59
Aberdyfi	1,521.33	Llandderfel	1,501.35
Abergwyngregyn	1,508.87	Llanegryn	1,518.14
Abermaw (Barmouth)	1,535.48	Llanelltyd	1,509.19
Arthog	1,504.29	Llanengan	1,509.35
Y Bala	1,518.23	Llanfair	1,534.58
Bangor	1,584.18	Llanfihangel y Pennant	1,534.74
Beddgelert	1,518.63	Llanfrothen	1,524.73
Betws Garmon	1,503.16	Llangelynnin	1,507.29
Bethesda	1,557.61	Llangywer	1,514.25
Bontnewydd	1,525.95	Llanllechid	1,529.21
Botwnnog	1,497.72	Llanllyfni	1,518.75
Brithdir a Llanfachreth	1,511.37	Llannor	1,503.29
Bryncrug	1,522.75	Llanrug	1,536.43
Buan	1,499.91	Llanuwchllyn	1,529.20
Caernarfon	1,538.42	Llanwnda	1,519.77
Clynnog Fawr	1,523.57	Llanycil	1,503.35
Corris	1,514.65	Llanystumdwy	1,504.06
Criccieth	1,528.31	Maentwrog	1,504.54
Dolbenmaen	1,513.04	Mawddwy	1,510.64
Dolgellau	1,540.00	Nefyn	1,536.18
Dyffryn Ardudwy	1,543.35	Pennal	1,512.74
Y Felinheli	1,518.42	Penrhyndeudraeth	1,536.48
Ffestiniog	1,617.46	Pentir	1,526.87
Y Ganllwyd	1,517.80	Pistyll	1,529.50
Harlech	1,574.21	Porthmadog	1,514.27
Llanaelhaearn	1,538.88	Pwllheli	1,530.08
Llanbedr	1,527.83	Talsarnau	1,550.92
Llanbedrog	1,514.46	Trawsfynydd	1,523.29
Llanberis	1,524.85	Tudweiliog	1,500.73
Llandwrog	1,547.44	Tywyn	1,538.83
Llandygai	1,509.57	Waunfawr	1,504.73

being the amounts given by adding to the amount at 3(e) above the amounts of the special item or items relating to dwellings in those parts of the Council's area mentioned above divided in each case by the amount of 2(b) above, calculated by the Council, in accordance with Section 34(3) of the Act, as the basic amounts of its Council Tax for the year for dwellings in those parts of its area to which one or more special items relate.

- (ff) In respect of parts of the Council's area, the figures noted in **Appendix 1**, being the amounts given by multiplying the sums specified in 3(f) above by the number which, in the proportion set out in Section 5 (1) of the Act, is applicable to dwellings listed in a particular valuation band divided by the number which in that proportion is applicable to dwellings listed in valuation band D, calculated by the Council, in accordance with Section 36(1) of the Act, as the amounts to be taken into account for the year in respect of categories of dwellings listed in different valuation bands.

4. That it be noted that for the year 2021/22 the Police and Crime Commissioner for North Wales have stated the following amounts in a precept issued to the Council, in accordance with Section 40 of the Local Government Finance Act, 1992, for each of the categories of dwellings shown below.

Band A	Band B	Band C	Band D	Band E	Band F	Band G	Band H	Band I
203.70	237.65	271.60	305.55	373.45	441.35	509.25	611.10	712.95

5. That, having calculated the aggregate in each case of the amounts at 3(ff) and 4 above, the Council, in accordance with Section 30(2) of the Local Government Finance Act, 1992, hereby sets the amounts noted in **Appendix 2** as the amounts of Council Tax for the year 2021/22 for each of the categories of dwellings shown therein.

Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned
Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council

	Band A	Band B	Band C	Band D	Band E	Band F	Band G	Band H	Band I
Aberdaron	1,007.25	1,175.12	1,343.00	1,510.87	1,846.62	2,182.37	2,518.12	3,021.74	3,525.36
Aberdyfi	1,014.22	1,183.26	1,352.29	1,521.33	1,859.40	2,197.48	2,535.55	3,042.66	3,549.77
Abergwyngregyn	1,005.91	1,173.57	1,341.22	1,508.87	1,844.17	2,179.48	2,514.78	3,017.74	3,520.70
Abermaw (Barmouth)	1,023.65	1,194.26	1,364.87	1,535.48	1,876.70	2,217.92	2,559.13	3,070.96	3,582.79
Arthog	1,002.86	1,170.00	1,337.15	1,504.29	1,838.58	2,172.86	2,507.15	3,008.58	3,510.01
Y Bala	1,012.15	1,180.85	1,349.54	1,518.23	1,855.61	2,193.00	2,530.38	3,036.46	3,542.54
Bangor	1,056.12	1,232.14	1,408.16	1,584.18	1,936.22	2,288.26	2,640.30	3,168.36	3,696.42
Beddgelert	1,012.42	1,181.16	1,349.89	1,518.63	1,856.10	2,193.58	2,531.05	3,037.26	3,543.47
Betws Garmon	1,002.11	1,169.12	1,336.14	1,503.16	1,837.20	2,171.23	2,505.27	3,006.32	3,507.37
Bethesda	1,038.41	1,211.47	1,384.54	1,557.61	1,903.75	2,249.88	2,596.02	3,115.22	3,634.42
Bontnewydd	1,017.30	1,186.85	1,356.40	1,525.95	1,865.05	2,204.15	2,543.25	3,051.90	3,560.55
Botwnnog	998.48	1,164.89	1,331.31	1,497.72	1,830.55	2,163.37	2,496.20	2,995.44	3,494.68
Brithdir & Llanfachreth	1,007.58	1,175.51	1,343.44	1,511.37	1,847.23	2,183.09	2,518.95	3,022.74	3,526.53
Bryncrug	1,015.17	1,184.36	1,353.56	1,522.75	1,861.14	2,199.53	2,537.92	3,045.50	3,553.08
Buan	999.94	1,166.60	1,333.25	1,499.91	1,833.22	2,166.54	2,499.85	2,999.82	3,499.79
Caernarfon	1,025.61	1,196.55	1,367.48	1,538.42	1,880.29	2,222.16	2,564.03	3,076.84	3,589.65
Clynnog Fawr	1,015.71	1,185.00	1,354.28	1,523.57	1,862.14	2,200.71	2,539.28	3,047.14	3,555.00
Corris	1,009.77	1,178.06	1,346.36	1,514.65	1,851.24	2,187.83	2,524.42	3,029.30	3,534.18
Criccieth	1,018.87	1,188.69	1,358.50	1,528.31	1,867.93	2,207.56	2,547.18	3,056.62	3,566.06
Dolbenmaen	1,008.69	1,176.81	1,344.92	1,513.04	1,849.27	2,185.50	2,521.73	3,026.08	3,530.43
Dolgellau	1,026.67	1,197.78	1,368.89	1,540.00	1,882.22	2,224.44	2,566.67	3,080.00	3,593.33
Dyffryn Ardudwy	1,028.90	1,200.38	1,371.87	1,543.35	1,886.32	2,229.28	2,572.25	3,086.70	3,601.15
Y Felinheli	1,012.28	1,180.99	1,349.71	1,518.42	1,855.85	2,193.27	2,530.70	3,036.84	3,542.98
Ffestiniog	1,078.31	1,258.02	1,437.74	1,617.46	1,976.90	2,336.33	2,695.77	3,234.92	3,774.07
Y Ganllwyd	1,011.87	1,180.51	1,349.16	1,517.80	1,855.09	2,192.38	2,529.67	3,035.60	3,541.53
Harlech	1,049.47	1,224.39	1,399.30	1,574.21	1,924.03	2,273.86	2,623.68	3,148.42	3,673.16
Llanaelhaearn	1,025.92	1,196.91	1,367.89	1,538.88	1,880.85	2,222.83	2,564.80	3,077.76	3,590.72
Llanbedr	1,018.55	1,188.31	1,358.07	1,527.83	1,867.35	2,206.87	2,546.38	3,055.66	3,564.94
Llanbedrog	1,009.64	1,177.91	1,346.19	1,514.46	1,851.01	2,187.55	2,524.10	3,028.92	3,533.74
Llanberis	1,016.57	1,185.99	1,355.42	1,524.85	1,863.71	2,202.56	2,541.42	3,049.70	3,557.98
Llandwrog	1,031.63	1,203.56	1,375.50	1,547.44	1,891.32	2,235.19	2,579.07	3,094.88	3,610.69
Llandygai	1,006.38	1,174.11	1,341.84	1,509.57	1,845.03	2,180.49	2,515.95	3,019.14	3,522.33
Llanddeiniolen	1,000.39	1,167.13	1,333.86	1,500.59	1,834.05	2,167.52	2,500.98	3,001.18	3,501.38
Llandderfel	1,000.90	1,167.72	1,334.53	1,501.35	1,834.98	2,168.62	2,502.25	3,002.70	3,503.15
Llanegryn	1,012.09	1,180.78	1,349.46	1,518.14	1,855.50	2,192.87	2,530.23	3,036.28	3,542.33
Llanelltyd	1,006.13	1,173.81	1,341.50	1,509.19	1,844.57	2,179.94	2,515.32	3,018.38	3,521.44
Llanengan	1,006.23	1,173.94	1,341.64	1,509.35	1,844.76	2,180.17	2,515.58	3,018.70	3,521.82
Llanfair	1,023.05	1,193.56	1,364.07	1,534.58	1,875.60	2,216.62	2,557.63	3,069.16	3,580.69
Llanfihangel y Pennant	1,023.16	1,193.69	1,364.21	1,534.74	1,875.79	2,216.85	2,557.90	3,069.48	3,581.06
Llanfrothen	1,016.49	1,185.90	1,355.32	1,524.73	1,863.56	2,202.39	2,541.22	3,049.46	3,557.70
Llangelynnin	1,004.86	1,172.34	1,339.81	1,507.29	1,842.24	2,177.20	2,512.15	3,014.58	3,517.01
Llangywer	1,009.50	1,177.75	1,346.00	1,514.25	1,850.75	2,187.25	2,523.75	3,028.50	3,533.25
Llanllechid	1,019.47	1,189.39	1,359.30	1,529.21	1,869.03	2,208.86	2,548.68	3,058.42	3,568.16
Llanllwfi	1,012.50	1,181.25	1,350.00	1,518.75	1,856.25	2,193.75	2,531.25	3,037.50	3,543.75
Llannor	1,002.19	1,169.23	1,336.26	1,503.29	1,837.35	2,171.42	2,505.48	3,006.58	3,507.68
Llanrug	1,024.29	1,195.00	1,365.72	1,536.43	1,877.86	2,219.29	2,560.72	3,072.86	3,585.00
Llanuwchllyn	1,019.47	1,189.38	1,359.29	1,529.20	1,869.02	2,208.84	2,548.67	3,058.40	3,568.13
Llanwnda	1,013.18	1,182.04	1,350.91	1,519.77	1,857.50	2,195.22	2,532.95	3,039.54	3,546.13
Llanycil	1,002.23	1,169.27	1,336.31	1,503.35	1,837.43	2,171.51	2,505.58	3,006.70	3,507.82
Llanystumdwy	1,002.71	1,169.82	1,336.94	1,504.06	1,838.30	2,172.53	2,506.77	3,008.12	3,509.47
Maentwrog	1,003.03	1,170.20	1,337.37	1,504.54	1,838.88	2,173.22	2,507.57	3,009.08	3,510.59
Mawddwy	1,007.09	1,174.94	1,342.79	1,510.64	1,846.34	2,182.04	2,517.73	3,021.28	3,524.83
Nefyn	1,024.12	1,194.81	1,365.49	1,536.18	1,877.55	2,218.93	2,560.30	3,072.36	3,584.42
Pennal	1,008.49	1,176.58	1,344.66	1,512.74	1,848.90	2,185.07	2,521.23	3,025.48	3,529.73
Penrhyndeudraeth	1,024.32	1,195.04	1,365.76	1,536.48	1,877.92	2,219.36	2,560.80	3,072.96	3,585.12
Pentir	1,017.91	1,187.57	1,357.22	1,526.87	1,866.17	2,205.48	2,544.78	3,053.74	3,562.70
Pistyll	1,019.67	1,189.61	1,359.56	1,529.50	1,869.39	2,209.28	2,549.17	3,059.00	3,568.83
Porthmadog	1,009.51	1,177.77	1,346.02	1,514.27	1,850.77	2,187.28	2,523.78	3,028.54	3,533.30
Pwllheli	1,020.05	1,190.06	1,360.07	1,530.08	1,870.10	2,210.12	2,550.13	3,060.16	3,570.19
Talsarnau	1,033.95	1,206.27	1,378.60	1,550.92	1,895.57	2,240.22	2,584.87	3,101.84	3,618.81
Trwsfynydd	1,015.53	1,184.78	1,354.04	1,523.29	1,861.80	2,200.31	2,538.82	3,046.58	3,554.34
Tudweiliog	1,000.49	1,167.23	1,333.98	1,500.73	1,834.23	2,167.72	2,501.22	3,001.46	3,501.70
Tywyn	1,025.89	1,196.87	1,367.85	1,538.83	1,880.79	2,222.75	2,564.72	3,077.66	3,590.60
Waunfawr	1,003.15	1,170.35	1,337.54	1,504.73	1,839.11	2,173.50	2,507.88	3,009.46	3,511.04

Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned + Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council + North Wales Police and Crime Commissioner

	Band A	Band B	Band C	Band D	Band E	Band F	Band G	Band H	Band I
Aberdaron	1,210.95	1,412.77	1,614.60	1,816.42	2,220.07	2,623.72	3,027.37	3,632.84	4,238.31
Aberdyfi	1,217.92	1,420.91	1,623.89	1,826.88	2,232.85	2,638.83	3,044.80	3,653.76	4,262.72
Abergwyngregyn	1,209.61	1,411.22	1,612.82	1,814.42	2,217.62	2,620.83	3,024.03	3,628.84	4,233.65
Abermaw (Barmouth)	1,227.35	1,431.91	1,636.47	1,841.03	2,250.15	2,659.27	3,068.38	3,682.06	4,295.74
Arthog	1,206.56	1,407.65	1,608.75	1,809.84	2,212.03	2,614.21	3,016.40	3,619.68	4,222.96
Bala	1,215.85	1,418.50	1,621.14	1,823.78	2,229.06	2,634.35	3,039.63	3,647.56	4,255.49
Bangor	1,259.82	1,469.79	1,679.76	1,889.73	2,309.67	2,729.61	3,149.55	3,779.46	4,409.37
Beddgelert	1,216.12	1,418.81	1,621.49	1,824.18	2,229.55	2,634.93	3,040.30	3,648.36	4,256.42
Betws Garmon	1,205.81	1,406.77	1,607.74	1,808.71	2,210.65	2,612.58	3,014.52	3,617.42	4,220.32
Bethesda	1,242.11	1,449.12	1,656.14	1,863.16	2,277.20	2,691.23	3,105.27	3,726.32	4,347.37
Bontnewydd	1,221.00	1,424.50	1,628.00	1,831.50	2,238.50	2,645.50	3,052.50	3,663.00	4,273.50
Botwnnog	1,202.18	1,402.54	1,602.91	1,803.27	2,204.00	2,604.72	3,005.45	3,606.54	4,207.63
Brithdir & Llanfachreth	1,211.28	1,413.16	1,615.04	1,816.92	2,220.68	2,624.44	3,028.20	3,633.84	4,239.48
Bryncrug	1,218.87	1,422.01	1,625.16	1,828.30	2,234.59	2,640.88	3,047.17	3,656.60	4,266.03
Buan	1,203.64	1,404.25	1,604.85	1,805.46	2,206.67	2,607.89	3,009.10	3,610.92	4,212.74
Caernarfon	1,229.31	1,434.20	1,639.08	1,843.97	2,253.74	2,663.51	3,073.28	3,687.94	4,302.60
Clynnog Fawr	1,219.41	1,422.65	1,625.88	1,829.12	2,235.59	2,642.06	3,048.53	3,658.24	4,267.95
Corris	1,213.47	1,415.71	1,617.96	1,820.20	2,224.69	2,629.18	3,033.67	3,640.40	4,247.13
Criccieth	1,222.57	1,426.34	1,630.10	1,833.86	2,241.38	2,648.91	3,056.43	3,667.72	4,279.01
Dolbenmaen	1,212.39	1,414.46	1,616.52	1,818.59	2,222.72	2,626.85	3,030.98	3,637.18	4,243.38
Dolgellau	1,230.37	1,435.43	1,640.49	1,845.55	2,255.67	2,665.79	3,075.92	3,691.10	4,306.28
Dyffryn Ardudwy	1,232.60	1,438.03	1,643.47	1,848.90	2,259.77	2,670.63	3,081.50	3,697.80	4,314.10
Y Felinheli	1,215.98	1,418.64	1,621.31	1,823.97	2,229.30	2,634.62	3,039.95	3,647.94	4,255.93
Ffestiniog	1,282.01	1,495.67	1,709.34	1,923.01	2,350.35	2,777.68	3,205.02	3,846.02	4,487.02
Y Ganllwyd	1,215.57	1,418.16	1,620.76	1,823.35	2,228.54	2,633.73	3,038.92	3,646.70	4,254.48
Harlech	1,253.17	1,462.04	1,670.90	1,879.76	2,297.48	2,715.21	3,132.93	3,759.52	4,386.11
Llanaelhaearn	1,229.62	1,434.56	1,639.49	1,844.43	2,254.30	2,664.18	3,074.05	3,688.86	4,303.67
Llanbedr	1,222.25	1,425.96	1,629.67	1,833.38	2,240.80	2,648.22	3,055.63	3,666.76	4,277.89
Llanbedrog	1,213.34	1,415.56	1,617.79	1,820.01	2,224.46	2,628.90	3,033.35	3,640.02	4,246.69
Llanberis	1,220.27	1,423.64	1,627.02	1,830.40	2,237.16	2,643.91	3,050.67	3,660.80	4,270.93
Llandwrog	1,235.33	1,441.21	1,647.10	1,852.99	2,264.77	2,676.54	3,088.32	3,705.98	4,323.64
Llandygai	1,210.08	1,411.76	1,613.44	1,815.12	2,218.48	2,621.84	3,025.20	3,630.24	4,235.28
Llanddeiniolen	1,204.09	1,404.78	1,605.46	1,806.14	2,207.50	2,608.87	3,010.23	3,612.28	4,214.33
Llandderfel	1,204.60	1,405.37	1,606.13	1,806.90	2,208.43	2,609.97	3,011.50	3,613.80	4,216.10
Llanegryn	1,215.79	1,418.43	1,621.06	1,823.69	2,228.95	2,634.22	3,039.48	3,647.38	4,255.28
Llanelltyd	1,209.83	1,411.46	1,613.10	1,814.74	2,218.02	2,621.29	3,024.57	3,629.48	4,234.39
Llanengan	1,209.93	1,411.59	1,613.24	1,814.90	2,218.21	2,621.52	3,024.83	3,629.80	4,234.77
Llanfair	1,226.75	1,431.21	1,635.67	1,840.13	2,249.05	2,657.97	3,066.88	3,680.26	4,293.64
Llanfihangel y Pennant	1,226.86	1,431.34	1,635.81	1,840.29	2,249.24	2,658.20	3,067.15	3,680.58	4,294.01
Llanfrothen	1,220.19	1,423.55	1,626.92	1,830.28	2,237.01	2,643.74	3,050.47	3,660.56	4,270.65
Llangelynnin	1,208.56	1,409.99	1,611.41	1,812.84	2,215.69	2,618.55	3,021.40	3,625.68	4,229.96
Llangywer	1,213.20	1,415.40	1,617.60	1,819.80	2,224.20	2,628.60	3,033.00	3,639.60	4,246.20
Llanllechid	1,223.17	1,427.04	1,630.90	1,834.76	2,242.48	2,650.21	3,057.93	3,669.52	4,281.11
Llanllfni	1,216.20	1,418.90	1,621.60	1,824.30	2,229.70	2,635.10	3,040.50	3,648.60	4,256.70
Llanor	1,205.89	1,406.88	1,607.86	1,808.84	2,210.80	2,612.77	3,014.73	3,617.68	4,220.63
Llanrug	1,227.99	1,432.65	1,637.32	1,841.98	2,251.31	2,660.64	3,069.97	3,683.96	4,297.95
Llanuwchllyn	1,223.17	1,427.03	1,630.89	1,834.75	2,242.47	2,650.19	3,057.92	3,669.50	4,281.08
Llanwnda	1,216.88	1,419.69	1,622.51	1,825.32	2,230.95	2,636.57	3,042.20	3,650.64	4,259.08
Llanycil	1,205.93	1,406.92	1,607.91	1,808.90	2,210.88	2,612.86	3,014.83	3,617.80	4,220.77
Llanystumdwy	1,206.41	1,407.47	1,608.54	1,809.61	2,211.75	2,613.88	3,016.02	3,619.22	4,222.42
Maentwrog	1,206.73	1,407.85	1,608.97	1,810.09	2,212.33	2,614.57	3,016.82	3,620.18	4,223.54
Mawddwy	1,210.79	1,412.59	1,614.39	1,816.19	2,219.79	2,623.39	3,026.98	3,632.38	4,237.78
Nefyn	1,227.82	1,432.46	1,637.09	1,841.73	2,251.00	2,660.28	3,069.55	3,683.46	4,297.37
Pennal	1,212.19	1,414.23	1,616.26	1,818.29	2,222.35	2,626.42	3,030.48	3,636.58	4,242.68
Penrhyndeudraeth	1,228.02	1,432.69	1,637.36	1,842.03	2,251.37	2,660.71	3,070.05	3,684.06	4,298.07
Pentir	1,221.61	1,425.22	1,628.82	1,832.42	2,239.62	2,646.83	3,054.03	3,664.84	4,275.65
Pistyll	1,223.37	1,427.26	1,631.16	1,835.05	2,242.84	2,650.63	3,058.42	3,670.10	4,281.78
Porthmadog	1,213.21	1,415.42	1,617.62	1,819.82	2,224.22	2,628.63	3,033.03	3,639.64	4,246.25
Pwllheli	1,223.75	1,427.71	1,631.67	1,835.63	2,243.55	2,651.47	3,059.38	3,671.26	4,283.14
Talsarnau	1,237.65	1,443.92	1,650.20	1,856.47	2,269.02	2,681.57	3,094.12	3,712.94	4,331.76
Trawsfynydd	1,219.23	1,422.43	1,625.64	1,828.84	2,235.25	2,641.66	3,048.07	3,657.68	4,267.29
Tudweiliog	1,204.19	1,404.88	1,605.58	1,806.28	2,207.68	2,609.07	3,010.47	3,612.56	4,214.65
Tywyn	1,229.59	1,434.52	1,639.45	1,844.38	2,254.24	2,664.10	3,073.97	3,688.76	4,303.55
Waunfawr	1,206.85	1,408.00	1,609.14	1,810.28	2,212.56	2,614.85	3,017.13	3,620.56	4,223.99

Cynnydd yn y Dreth Cyngor fesul Cymuned / Increase in Council Tax by Community

Cymuned/ Community	Sylfaen Drethiannol / Taxbase (Band D)	Praesept / Precept £	Treth Cymuned / Community Tax	Treth Gwynedd / Gwynedd Tax	Treth Heddlu / Police Tax	Cyfanswm / Total (Band D) 2021/22	Band D 2020/21 £	Cynnydd / Increase 20/21 - 21/22	Cynnydd / Increase %
Aberdaron	542.74	15,000	27.64	1,483.23	305.55	1,816.42	1,748.31	68.11	3.9%
Aberdyfi	980.22	37,348	38.10	1,483.23	305.55	1,826.88	1,758.40	68.48	3.9%
Abergwyngregyn	117.00	3,000	25.64	1,483.23	305.55	1,814.42	1,746.43	67.99	3.9%
Abermaw (Barmouth)	1,148.25	60,000	52.25	1,483.23	305.55	1,841.03	1,772.89	68.14	3.8%
Arthog	617.37	13,000	21.06	1,483.23	305.55	1,809.84	1,740.76	69.08	4.0%
Y Bala	771.50	27,000	35.00	1,483.23	305.55	1,823.78	1,752.95	70.83	4.0%
Bangor	3,844.96	388,166	100.95	1,483.23	305.55	1,889.73	1,821.90	67.83	3.7%
Beddgelert	296.64	10,500	35.40	1,483.23	305.55	1,824.18	1,756.79	67.39	3.8%
Betws Garmon	130.44	2,600	19.93	1,483.23	305.55	1,808.71	1,740.19	68.52	3.9%
Bethesda	1,696.45	126,179	74.38	1,483.23	305.55	1,863.16	1,790.35	72.81	4.1%
Bontnewydd	433.07	18,500	42.72	1,483.23	305.55	1,831.50	1,763.19	68.31	3.9%
Botwnnog	448.54	6,500	14.49	1,483.23	305.55	1,803.27	1,735.56	67.71	3.9%
Brithdir & Llanfachreth	426.50	12,000	28.14	1,483.23	305.55	1,816.92	1,742.40	74.52	4.3%
Bryncrug	325.38	12,859	39.52	1,483.23	305.55	1,828.30	1,758.30	70.00	4.0%
Buan	224.84	3,750	16.68	1,483.23	305.55	1,805.46	1,737.61	67.85	3.9%
Caernarfon	3,596.36	198,489	55.19	1,483.23	305.55	1,843.97	1,776.73	67.24	3.8%
Clynnog Fawr	446.26	18,000	40.34	1,483.23	305.55	1,829.12	1,756.54	72.58	4.1%
Corris	296.99	9,330	31.42	1,483.23	305.55	1,820.20	1,751.84	68.36	3.9%
Criccieth	931.77	42,000	45.08	1,483.23	305.55	1,833.86	1,765.40	68.46	3.9%
Dolbenmaen	603.77	18,000	29.81	1,483.23	305.55	1,818.59	1,750.02	68.57	3.9%
Dolgellau	1,233.10	70,000	56.77	1,483.23	305.55	1,845.55	1,778.07	67.48	3.8%
Dyffryn Ardudwy	831.65	50,000	60.12	1,483.23	305.55	1,848.90	1,783.24	65.66	3.7%
Y Felinheli	1,136.66	40,000	35.19	1,483.23	305.55	1,823.97	1,755.82	68.15	3.9%
Ffestiniog	1,713.50	230,000	134.23	1,483.23	305.55	1,923.01	1,856.30	66.71	3.6%
Y Ganllwyd	86.79	3,000	34.57	1,483.23	305.55	1,823.35	1,753.80	69.55	4.0%
Harlech	769.40	70,000	90.98	1,483.23	305.55	1,879.76	1,811.18	68.58	3.8%
Llanaelhaearn	449.24	25,000	55.65	1,483.23	305.55	1,844.43	1,777.27	67.16	3.8%
Llanbedr	336.30	15,000	44.60	1,483.23	305.55	1,833.38	1,766.46	66.92	3.8%
Llanbedrog	720.36	22,500	31.23	1,483.23	305.55	1,820.01	1,750.77	69.24	4.0%
Llanberis	768.82	32,000	41.62	1,483.23	305.55	1,830.40	1,759.69	70.71	4.0%
Llandwrog	1,027.80	66,000	64.21	1,483.23	305.55	1,852.99	1,782.84	70.15	3.9%
Llandygai	1,000.88	26,363	26.34	1,483.23	305.55	1,815.12	1,746.42	68.70	3.9%
Llanddeiniolen	1,832.32	31,800	17.36	1,483.23	305.55	1,806.14	1,738.27	67.87	3.9%
Llandderfel	496.58	9,000	18.12	1,483.23	305.55	1,806.90	1,739.01	67.89	3.9%
Llanegryn	157.54	5,500	34.91	1,483.23	305.55	1,823.69	1,754.68	69.01	3.9%
Llanelltyd	288.90	7,500	25.96	1,483.23	305.55	1,814.74	1,746.60	68.14	3.9%
Llanengan	2,105.34	55,000	26.12	1,483.23	305.55	1,814.90	1,746.98	67.92	3.9%
Llanfair	311.58	16,000	51.35	1,483.23	305.55	1,840.13	1,773.16	66.97	3.8%
Llanfihangel y Pennant	223.75	11,525	51.51	1,483.23	305.55	1,840.29	1,772.69	67.60	3.8%
Llanfrothen	224.08	9,300	41.50	1,483.23	305.55	1,830.28	1,757.81	72.47	4.1%
Llangelynnin	407.39	9,800	24.06	1,483.23	305.55	1,812.84	1,744.64	68.20	3.9%
Llangywer	137.01	4,250	31.02	1,483.23	305.55	1,819.80	1,750.02	69.78	4.0%
Llanllechid	336.00	15,450	45.98	1,483.23	305.55	1,834.76	1,764.49	70.27	4.0%
Llanlllyfni	1,407.84	50,000	35.52	1,483.23	305.55	1,824.30	1,755.67	68.63	3.9%
Llannor	905.46	18,160	20.06	1,483.23	305.55	1,808.84	1,741.07	67.77	3.9%
Llanrug	1,127.82	60,000	53.20	1,483.23	305.55	1,841.98	1,774.29	67.69	3.8%
Llanuwchllyn	304.53	14,000	45.97	1,483.23	305.55	1,834.75	1,756.70	78.05	4.4%
Llanwnda	789.27	28,840	36.54	1,483.23	305.55	1,825.32	1,756.06	69.26	3.9%
Llanycil	198.76	4,000	20.12	1,483.23	305.55	1,808.90	1,741.59	67.31	3.9%
Llanystumdwy	864.34	18,000	20.83	1,483.23	305.55	1,809.61	1,741.68	67.93	3.9%
Maentwrog	283.93	6,051	21.31	1,483.23	305.55	1,810.09	1,742.44	67.65	3.9%
Mawddwy	346.60	9,500	27.41	1,483.23	305.55	1,816.19	1,745.92	70.27	4.0%
Nefyn	1,458.93	77,250	52.95	1,483.23	305.55	1,841.73	1,772.52	69.21	3.9%
Pennal	215.54	6,360	29.51	1,483.23	305.55	1,818.29	1,749.79	68.50	3.9%
Penrhyndeudraeth	779.36	41,500	53.25	1,483.23	305.55	1,842.03	1,771.45	70.58	4.0%
Pentir	1,260.20	55,000	43.64	1,483.23	305.55	1,832.42	1,761.12	71.30	4.0%
Pistyll	259.32	12,000	46.27	1,483.23	305.55	1,835.05	1,766.94	68.11	3.9%
Porthmadog	2,016.47	62,581	31.04	1,483.23	305.55	1,819.82	1,751.86	67.96	3.9%
Pwllheli	1,729.10	81,000	46.85	1,483.23	305.55	1,835.63	1,765.85	69.78	4.0%
Talsarnau	325.03	22,000	67.69	1,483.23	305.55	1,856.47	1,788.09	68.38	3.8%
Trawsfynydd	499.20	20,000	40.06	1,483.23	305.55	1,828.84	1,761.01	67.83	3.9%
Tudweiliog	457.21	8,000	17.50	1,483.23	305.55	1,806.28	1,738.13	68.15	3.9%
Tywyn	1,624.58	90,328	55.60	1,483.23	305.55	1,844.38	1,776.77	67.61	3.8%
Waunfawr	558.03	12,000	21.50	1,483.23	305.55	1,810.28	1,742.18	68.10	3.9%
Awdurdod			2021/22	2020/21		Authority			
Cyngor Gwynedd			1,483.23	1,430.31	3.7%	Gwynedd Council			
Comisiynydd Heddlu a Throedd Gogledd Cymru			305.55	290.61	5.1%	North Wales Police & Crime Commissioner			
Cyngorau Cymuned (Cyfartaledd)			49.03	48.23	1.7%	Community Councils (Average)			
Cyfanswm			1,837.81	1,769.15	3.9%	Total			

CYFARFOD:	Y CYNGOR LLAWN
DYDDIAD:	4 MAWRTH 2021
PWNC:	STRATEGAETH CYFALAF 2021/22 (YN CYNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)
PWRPAS:	MABWYSIADU'R STRATEGAETH ARFAETHEDIG AR GYFER 2021/22
SWYDDOG CYSWLLT:	DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID
AELOD CABINET:	Y CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID

PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2021/22

CYFLWYNIAD

1. Mae rheoliadau cenedlaethol perthnasol yn mynnu penderfyniad gan y Cyngor llawn ar y Strategaeth Cyfalaf blynyddol. Er mwyn ehangu dealltwriaeth o'r maes hyn, trefnwyd cyflwyniad gan swyddogion o gwmni Arlingclose, Ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
2. Mae'r adroddiad strategaeth gyfalaf hwn ar gyfer 2021/22. Mae'n rhoi trosolwg lefel uchel ar y modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o sut rheolir y risgiau cysylltiedig, a'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Fe'i hysgrifennwyd mewn arddull rwydd er mwyn hwyluso dealltwriaeth aelodau o'r meysydd hyn sy'n dechnegol ar brydiau.
3. Bydd penderfyniadau ar reolaeth cyfalaf a thrysorlys a wneir eleni yn cael effaith ariannol ar y Cyngor am nifer o flynyddoedd i'r dyfodol. Maent felly o dan reolaeth fframwaith cenedlaethol a fframwaith polisi lleol, fel a gynhoir yn yr adroddiad hwn.

GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO

4. Gwariant cyfalaf yw pan mae'r Cyngor yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Mewn llywodraeth leol mae hyn yn cynnwys gwario ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill, a rhoi benthyciadau a grantiau i gyrff eraill i'w galluogi nhw i brynu asedau. Mae gan y Cyngor ryddid cyfyngedig i bennu'r hyn sy'n cyfrif fel gwariant cyfalaf, ac mae rhai asedau gwerth isel yn cael eu trosglwyddo i refeniw yn ystod y flwyddyn. Asesir pob ased a chynllun yn ôl ei haeddiant ei hun, a chyfrifir amdanynt yn unol â hynny hefyd.

- Ceir eglurhad pellach am bolisi'r Cyngor ar gyfalafu yn Nodiadau Polisi Datganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2019/20, gweler:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Perfformiad-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon-19-20/1-Datganiad-or-Cyfrifon-2019-20-Terfynol-10.11.20.pdf>

5. Yn 2021/22, mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £47m, fel crynhoir isod:

Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 2019/20 £m	Amcan 2020/21 £m	Cyllideb 2021/22 £m	Cyllideb 2022/23 £m	Cyllideb 2023/24 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	29.1	42.3	47.1	21.0	14.9
Prydlesu Cronfa Gyffredinol *	0.0	0.0	0.0	5.0	0.0
CYFANSWM	29.1	42.3	47.1	26.0	14.9

* Mae'r Gwariant Cyfalaf am 2022/23 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

6. Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2021/22 yn cynnwys:

- Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - £15.0m
- Atal Llifogydd Arfordirol - £6.3m
- Cynlluniau /Strategaeth Tai - £6.1m
- Cynlluniau Eiddo - £3.1m

7. **Llywodraethu:** Mae gan y Cyngor Strategaeth Asedau 10 mlynedd, sef cynllun o flaenoriaethau gwariant cyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar anghenion yr adrannau. Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfran heb ei chlustnodi. O'r gyfran hon, mae modd i adrannau wneud cais yn flynyddol am arian ar gyfer cynlluniau cyfalaf. Yr Adran Gyllid sy'n cydlynu'r ceisiadau. Mae'r Cabinet yn

gwerthuso pob cais yn seiliedig ar flaenoriaethau, ac yn gwneud argymhellion. Cyflwynir ceisiadau cyfalaf a strategaeth asedau i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn flynyddol.

- Am ragor o wybodaeth am raglen gyfalaf y Cyngor, ewch i **Atodiad A**.

8. Rhaid ariannu pob gwariant cyfalaf naill ai o ffynonellau allanol (grantiau gan y llywodraeth a chyfraniadau eraill), adnoddau'r Cyngor (refeniw, cronfeydd a derbyniadau cyfalaf), neu ddyled (benthycu, prydlesu, a Menter Cyllid Preifat (MCP)). Bwriedir ariannu'r gwariant uchod fel a ganlyn:

Tabl 2: Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 2019/20 £m	Amcan 2020/21 £m	Cyllideb 2021/22 £m	Cyllideb 2022/23 £m	Cyllideb 2023/24 £m
Ffynonellau Allanol	20.1	23.0	15.4	5.8	2.5
Adnoddau ein Hunain	3.0	14.3	21.5	8.2	5.4
Dyled *	6.0	5.0	10.2	12.0	7.0
CYFANSWM	29.1	42.3	47.1	26.0	14.9

* Mae'r Ddyled am 2022/23 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

9. Cyllid dros dro yn unig yw dyled, gan fod rhaid talu benthyciadau a phrydlesau yn ôl. Mae hwn, felly, yn cael ei ddisodli mewn amser gyda mathau gwahanol o ariannu, fel arfer o refeniw. Gelwir hyn yn ddarpariaeth lleiafswm refeniw (DLIR). Fel arall, gellir defnyddio enillion a ddaw o werthu asedau cyfalaf (a elwir yn dderbyniadau cyfalaf) i ddisodli dyled ariannol. Mae'r defnydd o'r derbyniadau cyfalaf a'r DLIR bwriedig fel a ganlyn:

Tabl 3: Disodli Dyled mewn £ miliynau

	Gwir 2019/20 £m	Amcan 2020/21 £m	Cyllideb 2021/22 £m	Cyllideb 2022/23 £m	Cyllideb 2023/24 £m
Adnoddau ein Hunain	7.6	7.8	7.6	8.4	8.4

- Ceir Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw cyflawn y Cyngor yn **Atodiad B** y Datganiad Strategaeth Cyfalaf.

10. Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda DLIR a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled. Disgwylir y bydd y GCC yn cynyddu £2.6m yn ystod 2021/22.

Yn seiliedig ar y ffigyrau gwariant ac ariannu uchod, mae GCC amcangyfrifedig y Cyngor fel a ganlyn:

Tabl 4: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2020 £m	Amcan 31.3.2021 £m	Cyllideb 31.3.2022 £m	Cyllideb 31.3.2023 £m	Cyllideb 31.3.2024 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol *	176.8	174.0	176.6	180.1	178.6

* Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf am 2022/23 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £5m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

11. **Rheoli Asedau:** Er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn parhau'n ddefnyddiol yn y tymor hir, mae gan y Cyngor strategaeth rheoli asedau. Mae'r Cynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd o 2019/20 hyd 2028/29 wedi cael ei ddatblygu a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 07/03/2019, gweler Eitem 11 ar y rhaglen:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=130&id=2457&ver=4&>

12. **Gwaredu Asedau:** Pan nad oes angen yr ased cyfalaf mwyach, gellir ei werthu er mwyn gwario'r derbyniadau cyfalaf yma ar asedau newydd neu i ad-dalu dyled. Mae ad-dalu grantiau cyfalaf, benthyciadau a buddsoddiadau hefyd yn creu derbyniadau cyfalaf. Bwriad y Cyngor yw derbyn derbyniadau cyfalaf fel a ddengys yn y tabl isod:

Tabl 5: Derbyniadau Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 2019/20 £m	Amcan 2020/21 £m	Cyllideb 2021/22 £m	Cyllideb 2022/23 £m	Cyllideb 2023/24 £m
Gwerthu Asedau	0.5	0.1	0.1	0.1	0.1

RHEOLAETH TRYSORLYS

13. Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y Cyngor, gan reoli'r risgiau cysylltiedig. Buddsoddir arian dros ben nes bydd galw amdano, ac ymdrinnir â phrinder arian drwy fenthyg, er mwyn sicrhau nad yw'r gweddill credyd na'r gorddrafft yn y cyfrif banc cyfredol yn ormod. Mae'r Cyngor fel arfer yn gyfoethog mewn arian parod yn y tymor byr gan fod incwm refeniw'n cael ei

dderbyn cyn cael ei wario. Ond yn y tymor hir mae'n ariannol dlawd, gan fod gwariant cyfalaf yn digwydd cyn canfod yr arian i dalu amdano. Caiff gormodedd arian parod refeniw ei osod yn erbyn diffygion arian parod cyfalaf er mwyn lleihau faint a fenthycir yn gyffredinol.

14. Oherwydd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn y gorffennol, ar hyn o bryd mae benthyciadau'r Cyngor yn £112.6m, gyda chyfradd llog cyfartalog o 5.3%, a buddsoddiadau trysorlys o £77.4m ar gyfradd gyfartalog o 0.6%.
15. **Y Strategaeth Fenthyca:** Prif amcanion y Cyngor wrth fenthyg yw canfod cost fenthyca sy'n isel ond sy'n benodedig, gan gynnal hyblygrwydd pe bai cynlluniau yn newid yn y dyfodol. Yn aml, mae'r amcanion hyn yn gwrthdaro. Mae'r Cyngor, felly, yn ceisio cael cydbwysedd rhwng benthyciadau rhad, tymor byr (ar gael ar hyn o bryd am ryw 0.1%) a benthyciadau tymor hir ar gyfradd sefydlog lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch (tua 1.5% i 2.5% ar hyn o bryd).
16. Gweler lefelau rhagamcanedig o gyfanswm dyled y Cyngor sy'n weddill (sef rhwymedigaethau benthyg, MCP a phrydlesau) isod, o'u cymharu â'r gofyn cyllido cyfalaf (gweler uchod).

Tabl 6: Dangosydd Darbodus: Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2020 £m	Amcan 31.3.2021 £m	Cyllideb 31.3.2022 £m	Cyllideb 31.3.2023 £m	Cyllideb 31.3.2024 £m
Dyled (gan gynnwys MCP a phrydlesau)	127.8	106.8	105.4	103.1	104.9
Gofyn Cyllido Cyfalaf	176.8	174.0	176.6	180.1	178.6

17. Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Fel y gwelir yn nhabl 6, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd yn cydymffurfio â hyn yn y tymor canolig.
18. **Meincnod Ymrwymiad:** Er mwyn cymharu faint mae'r Cyngor wedi'i fenthyg mewn gwirionedd yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod ymrwymiad wedi'i gyfrifo sy'n dangos y lefel risg isaf o fenthyg. Mae hyn yn tybio fod balansau arian parod a buddsoddiadau yn cael eu cadw ar o leiaf £10m ar ddiwedd pob blwyddyn. Rhagwelir y bydd yn cynyddu oherwydd yr angen i fenthyg ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Tabl 7: Benthycia a'r Meincnod Ymrwymiad mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2020 £m	Amcan 31.3.2021 £m	Cyllideb 31.3.2022 £m	Cyllideb 31.3.2023 £m	Cyllideb 31.3.2024 £m
Benthyciadau sy'n Ddyledus	124.9	104.2	103.0	162.2	216.7
Meincnod Ymrwymiad	109.2	126.9	136.7	205.7	262.1

19. Mae'r tabl yn dangos fod y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau aros islaw ei feincnod ymrwymiad. Mae hyn am fod yr allbynnau arian parod wedi bod yn is na'r disgwyl hyd yma o ganlyniad i'r sefyllfa negyddol gyda chyfalaf gweithredol. Mae'r ffigyrau yn cynyddu o 2022/23 ymlaen oherwydd y disgwyliad o fenthycia newydd tymor hir ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

20. **Terfyn Benthyc Fforddiadwy:** Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyc fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled ariannol awdurdodedig) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn dynesu at y terfyn.

Tabl 8: Dangosyddion Darbodus: Y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol mewn £m

	Terfyn 2020/21 £m	Terfyn 2021/22 £m	Terfyn 2022/23 £m	Terfyn 2023/24 £m
Terfyn Awdurdodedig - Cyfanswm Dyledion Allanol	200	200	260	320
Ffin Gweithredol - Cyfanswm Dyledion Allanol	190	190	250	310

Mae'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol am 2022/23 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £6m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau, ac yn ystyried benthycia'r dyfodol ar gyfer BUEGC.

- Mae manylion pellach ar fenthyciadau ar gael yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.

21. **Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys:** Mae buddsoddiadau'r trysorlys yn digwydd drwy dderbyn arian parod cyn iddo gael ei dalu allan eto. Fel arfer, ni ystyrir fod buddsoddiadau a wneir am resymau gwasanaeth neu er elw ariannol yn unig yn rhan o reolaeth y trysorlys.

22. Polisi'r Cyngor ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch; sef, canolbwyntio ar leihau risg yn hytrach nac uchafu deilliannau. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y dyfodol agos yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, er enghraifft gyda'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, neu fanciau ansawdd uchel penodedig, er mwyn lleihau'r perygl o golled. Bydd arian a gedwir yn hwy yn cael ei fuddsoddi'n ehangach, gan gynnwys mewn bondiau, cyfrannau ac eiddo, er mwyn cydbwysu'r perygl o golled gyda'r perygl o gael deilliannau sy'n is na chwyddiant. Gellir cadw buddsoddiadau dyfodol agos a thymor hwy mewn cronfeydd wedi'u pwlio, lle mae rheolwr cronfa'n penderfynu pa fuddsoddiadau penodol i'w prynu ac fe all y Cyngor ofyn am ei bres yn ôl ar fyr rybudd.

Tabl 9: Buddsoddiadau Rheolaeth y Trysorlys mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2020 £m	Amcan 31.3.2021 £m	Cyllideb 31.3.2022 £m	Cyllideb 31.3.2023 £m	Cyllideb 31.3.2024 £m
Buddsoddiadau'r Dyfodol Agos	25	10	10	10	10
Buddsoddiadau'r Tymor Hwy	10	10	10	10	10
CYFANSWM	35	20	20	20	20

- Ceir manylion pellach ar fuddsoddiadau'r trysorlys yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.

23. **Rheolaeth Risg:** Mae rheoli a rheoli risg yn effeithiol yn brif amcan gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor. Felly mae'r strategaeth rheolaeth trysorlys yn nodi amryw o ddangosyddion a therfynau i gyfyngu ar y risg o golledion annisgwyl ac yn manylu i ba raddau y gellir defnyddio deilliadau ariannol i reoli risgiau trysorlys.
24. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddi a benthyg gan reolwyr y trysorlys yn ddyddiol; felly, fe'u dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Gyllid, sy'n gweithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn. Cyflwynir adroddiadau hanner blwyddyn a blwyddyn gyfan ar weithgaredd rheolaeth trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am graffu penderfyniadau rheolaeth trysorlys. Mae aelodau y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn cyflwyniad mewn seminar blynyddol gan Arlingclose, ein ymgynghorwyr ariannol, cafodd ei gynnal ar 27 Ionawr 2021 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22.

BUDDSODDIADAU ER DIBENION GWASANAETH

25. Gall y Cyngor wneud buddsoddiadau i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys gwneud benthyciadau i fusnesau bychain er mwyn hyrwyddo twf economaidd a chefnogi'r strategaeth dai. Yn sgil yr amcan gwasanaeth cyhoeddus, mae'r Cyngor yn fodlon cymryd mwy o risg na gyda buddsoddiadau'r trysorlys. Fodd bynnag, mae'n dal i gynllunio na fydd buddsoddiadau o'r fath yn gwneud colled hyd yn oed ar ôl talu'r holl gostau.
26. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddiadau gan y Pennaeth Gwasanaeth priodol mewn ymgynghoriaeth â Phennaeth yr Adran Gyllid. Mae mwyafrif y benthyciadau'n rhai gwariant cyfalaf a byddant hefyd yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r rhaglen gyfalaf.

YMRWYMIADAU

27. Yn ogystal â'r ddyled y manylir arno uchod, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i wneud taliadau yn y dyfodol i unioni'r diffyg yn ei gronfa bensïynau (gwerth o £245m). Mae hefyd wedi clustnodi £8m er mwyn cyflenwi risgiau'r darpariaethau, y mae 96% ohonynt yn ymwneud â Safleoedd Gwastraff. Mae perygl hefyd y gall y Cyngor orfod talu ymrwymïadau dibynnol yn ymwneud â chapio a gofynion ôl-ofal ar gyfer Safleoedd Tirlenwi'r Cyngor, a hefyd ymrwymïadau yswiriant sy'n ymwneud â threfniadau yswiriant yr awdurdodau a'i rhagflaenodd, a chau Cronfa Yswiriant Municipal Mutual (MMI). Yn unol â'r gofynion cyfrifeg, ni chlustnodwyd unrhyw arian ar gyfer ymrwymïadau dibynnol o'r fath.
28. **Llywodraethu:** Penaethiaid Gwasanaethau sy'n gwneud penderfyniadau newydd ar ymrwymïadau dewisol mewn ymgynghoriaeth â'r Pennaeth Cyllid. Mae'r Adran Gyllid yn monitro'r perygl y bydd ymrwymïadau'n dod yn wir ac y bydd angen taliad. Adroddir ar ymrwymïadau materol newydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Ceir manylion pellach yr ymrwymïadau ar dudalen 12 Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Perfformiad-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon-19-20/1-Datganiad-or-Cyfrifon-2019-20-Terfynol-10.11.20.pdf>

GOBLYGIADAU CYLLIDEB REFENIW

29. Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a DLIR yn gost ar refeniw, a'i osod yn erbyn unrhyw incwm buddsoddi a dderbynnir. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

Tabl 10: Dangosydd Darbodus: Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net

	Gwir 2019/20	Amcan 2020/21	Cyllideb 2021/22	Cyllideb 2022/23	Cyllideb 2023/24
Costau Ariannu * (£m)	£13.0m	£13.2m	£13.0m	£13.8m	£13.7m
Cyfran y Llif Refeniw Net (%)	5.2%	5.1%	4.8%	5.0%	4.9%

* Mae'r Costau Ariannu am 2022/23 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £0.7m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

- Caiff manylion pellach goblygiadau refeniw gwariant cyfalaf eu cynnwys yng Nghyllideb 2021/22:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistmeetings.aspx?cid=133&year=0&>

30. **Cynaliadwyedd:** Oherwydd natur hirdymor gwariant ac ariannu cyfalaf, bydd goblygiadau cyllideb refeniw'r gwariant a wneir yn y blynyddoedd nesaf yn ymestyn 50 mlynedd a mwy i'r dyfodol. Mae'r Pennaeth Cyllid yn fodlon fod y rhaglen gyfalaf a gynigir yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

GWYBODAETH A SGILIAU

31. Mae'r Cyngor yn cyflogi staff profiadol mewn swyddi uwch a chanddynt gymwysterau proffesiynol; mae ganddynt gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau gwariant cyfalaf, benthyca, a buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifydd cymwys gyda blynyddoedd o brofiad, ac mae'r Pennaeth Tai ac Eiddo yn syrfêwr siartredig ac yn aelod o Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig. Mae'r Cyngor efo staff cymwysedig ac yn talu i staff i astudio tuag at gymwysterau proffesiynol perthnasol megis CIPFA, ACCA ac AAT.
32. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn talu cwmni Arlingclose i fod yn ymgynghorwyr rheolaeth y trysorlys. Mae'r ffordd hon yn un fwy cost effeithiol na chyflogi staff

o'r fath yn uniongyrchol, ac mae'n sicrhau bod gan y Cyngor fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i awch am risg.

33. Mae staff perthnasol yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant CIPFA ac Arlingclose er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf, a bod gwybodaeth a sgiliau yn gyfredol.

ARGYMHELLIAD

34. Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2021/22.
-

Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:

Mae arweiniad statudol dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth leol 2003 yn gofyn fod y Cyngor yn paratoi strategaeth fuddsoddi flynyddol. Mae'r adroddiad a'r argymhelliad yn cyfarch y gofyn i'r Cyngor Llawn gyflawni hyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio i baratoi'r adroddiad ac rwy'n cadarnhau fod y cynnwys yn addas i bwrpas.

CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlgyiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

RHAGLEN GYFALAF			
	2021/22	2022/23	2023/24
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Asedau'r Cyngor :			
Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif	2,987	1,303	3,854
Cynlluniau Tai	2,525	2,225	1,300
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes	1,750	1,000	0
Cartrefi/ Canolfannau Oedolion	1,493	450	625
Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol	896	1,145	1,640
Cynlluniau Eraill	4,768	2,215	1,573
Bidiau Cyfalaf	500	500	500
Cynlluniau Eraill :			
Adnoddau Grant Cyfalaf Cyffredinol Ychwanegol i'w ddyrannu	1,554	0	0
Grant Cynnal Ffyrdd 2021/22	1,323	0	0
Strategaeth Dai – Cronfa Premiwm Treth y Cyngor	0	0	2,550
Strategaeth Dai - Prynu i Osod	1,000	2,880	2,880
Cynlluniau Eraill Eisoes wedi eu Cymeradwyo :			
Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif (LIC)	12,051	3,327	0
Atal Llifogydd Arfordirol	4,796	0	0
Cynlluniau/Strategaeth Tai	2,550	2,550	0
Cynlluniau Eiddo	2,406	0	0
Cerbydau Adrannol	1,396	3,081	0
Eraill	5,091	350	0
CYFANSWM Y RHAGLEN	47,086	21,026	14,922

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF			
	2021/22	2022/23	2023/24
	£'000	£'000	£'000
Benthyca Gyda Chefnogaeth	4,077	4,077	4,077
Benthyca Arall	6,159	2,891	2,880
Grantiau a Chyfraniadau	15,433	5,810	2,533
Derbyniadau Cyfalaf	227	13	0
Refeniw Adrannol	508	0	0
Cronfa Cyfalaf	5,145	0	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	15,537	8,235	5,432
CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN	47,086	21,026	14,922

4. Sefydlwyd strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.
5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu proffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2022/23 ymlaen.
6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2021/22 i 2023/24, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.
7. Mae'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn uwch yn 2021/22 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau. Mae'n fwriad dod ag adroddiad dilynol gerbron y Cabinet i adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Asedau a sicrhau'r defnydd o'r adnodd ychwanegol hwn.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £47,085,960 ar gyfer 2021/22, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

DATGANIAD DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW BLYNYDDOL 2021/22

1. Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR neu MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru *Canllaw ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw* (Canllaw LIC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2018.
2. Nod cyffredinol Canllaw LIC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.
3. Mae Canllaw LIC yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLIR yn flynyddol, ac yn argymhell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLIR. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.
 - Ar gyfer cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff y DLIR ei bennu yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008, yn ymgorffori "Addasiad A" o £1.9m.
 - Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff y DLIR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff DLIR ar dir rhydd-ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff DLIR ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.
 - Ar gyfer asedau a geir trwy brydlesau cyllidol neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod y DLIR yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu yn erbyn yr ymrwymiad ar y fantolen.
 - Ar gyfer benthyciadau gwariant cyfalaf i drydydd parti, sy'n cael eu had-dalu mewn rhandaliadau blynyddol neu amlach, ni fydd y Cyngor yn gwneud DLIR. Yn hytrach bydd yn rhoi derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o'r ad-daliadau prifswm o'r neilltu i leihau y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC).

4. Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn 2021/22 yn destun ffi DLIR hyd nes 2022/23.
5. Yn seiliedig ar amcangyfrif diweddaraf y Cyngor o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2021, mae'r gyllideb ar gyfer DLIR wedi ei bennu fel a ganlyn:

	31.03.2021 Amcan GCC £m	2021/22 Amcan DLIR £m
Gwariant cyfalaf cyn 01.04.2008 a gwariant cyfalaf gyda chefnogaeth wedi 31.03.2008	132.3	5.2
Gwariant cyfalaf heb gefnogaeth wedi 31.03.2008	39.1	2.1
Prydlesau Cyllidol a Menter Cyllid Preifat	2.6	0.3
Cyfanswm Cronfa Gyffredinol	174.0	7.6

Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2021/22

1. Cyflwyniad

- 1.1** Rheolaeth trysorlys yw rheolaeth llif arian, benthyca a buddsoddiadau'r Cyngor a'r risgiau cysylltiol. Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli buddsoddiadau a'r effaith refeniw o'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae adnabod, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus felly yn ganolog i reolaeth ariannol bwylllog y Cyngor.
- 1.2** Mae rheolaeth risg trysorlys yn y Cyngor yn rhan o fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2017* (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LIC) gyhoeddi canllaw diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sef y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyngor dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LIC.
- 1.3** Yn unol ag Arweiniad LIC, gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn sail i'r adroddiad hwn yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, newid yn rhaglen cyfalaf y Cyngor neu yn lefel ei balans buddsoddi, neu golled sylweddol yng ngwerth teg buddsoddiad anariannol a nodwyd fel rhan o'r prosesau paratoi ac archwilio cyfrifon diwedd blwyddyn.

2. Y Cyd-destun Allanol

2.1 Cefndir Economaidd

Bydd yr effaith ar y DU o coronafirws, mesurau clo, cyflwyno brechlynnau, yn ogystal â'r trefniadau masnachu newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd (UE), yn parhau i fod yn ddylanwadau mawr ar strategaeth rheoli trysorlys y Cyngor ar gyfer 2021/22.

Cynhaliodd Banc Lloegr (BoE) Gyfradd Banc ar 0.10% ym mis Rhagfyr 2020 a rhaglen '*quantitative easing*' ar £895 biliwn ar ôl ei ymestyn £150 biliwn yn y mis

blaenorol. Pleidleisiodd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) yn unfrydol dros y ddau, ond ni chrybwyllwyd y defnydd posibl o gyfraddau llog negyddol yn y dyfodol. Yn rhagolygon Adroddiad Polisi Ariannol (MPR) mis Tachwedd, mae'r Banc yn disgwyl i economi'r DU grebachu -2% yn Ch4 2020 cyn tyfu 7.25% yn 2021, yn is na'r rhagolwg blaenorol o 9%. Mae'r BoE hefyd yn rhagweld y bydd yr economi nawr yn cymryd tan Ch1 2022 i gyrraedd ei lefel cyn-bandemig yn hytrach na diwedd 2021 fel y rhagwelwyd yn flaenorol. Erbyn cyhoeddiad yr MPC ym mis Rhagfyr, roedd brechlyn COVID-19 wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio, a nododd y Banc y byddai'n lleihau rhai o'r risgiau anfantais i'r rhagolygon economaidd a amlinellwyd yn MPR mis Tachwedd.

Roedd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) y DU ar gyfer Tachwedd 2020 yn 0.3% flwyddyn-ar-flwyddyn, i lawr o 0.7% yn y mis blaenorol. Syrthiodd chwyddiant craidd, sy'n eithrio'r cydrannau mwy cyfnewidiol, i 1.1% o 1.5%. Dangosodd data diweddaraf y farchnad lafur am y tri mis hyd at Hydref 2020 fod y gyfradd ddiweithdra wedi codi i 4.9% tra bod y gyfradd gyflogaeth wedi gostwng i 75.2%. Disgwylir i'r ddau fesur ddirywio ymhellach oherwydd effaith barhaus y coronafirws ar y farchnad swyddi, yn enwedig pan fydd cynlluniau cadw swyddi amrywiol y llywodraeth yn dechrau dad-ddirwyn yn 2021, gyda'r BoE yn rhagweld y bydd diweithdra ar ei uchaf yn 7.75% yn Ch2 2021. Ym mis Hydref, y gyfradd twf blynyddol gyfartalog 3 mis ar gyfer cyflogau oedd 2.7% ar gyfer cyfanswm cyflogau a 2.8% ar gyfer cyflogau rheolaidd. Mewn termau real, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant, roedd cyfanswm y twf cyflog i fyny 1.9% tra bod cyflog rheolaidd i fyny 2.1%.

Adlamodd twf GDP 16.0% yn Ch3 2020 ar ôl gostwng -18.8% yn yr ail chwarter, gyda'r gyfradd flynyddol yn codi i -8.6% o -20.8%. Cododd pob sector chwarter-ar-chwarter, gydag enillion dramatig mewn adeiladu (41.2%), ac yna gwasanaethau a chynhyrchu (y ddau yn 14.7%). Mae amcangyfrifon misol GDP wedi dangos bod yr adferiad economaidd yn arafu ac yn parhau i fod ymhell o dan ei anterth cyn-bandemig. Wrth edrych ymlaen, mae MPR mis Tachwedd BoE yn rhagweld y bydd twf economaidd yn codi yn 2021 gyda GDP yn cyrraedd 11% yn Ch4 2021, 3.1% yn Ch4 2022 ac 1.6% yn Ch4 2023.

Adlamodd twf GDP ym mharth yr ewro 12.7% yn Ch3 2020 ar ôl crebachu -3.7% a -11.8% yn y chwarter cyntaf a'r ail, yn ôl eu trefn. Mae chwyddiant pennawd, fodd bynnag, yn parhau i fod yn hynod wan, gan gofrestru -0.3% flwyddyn-ar-flwyddyn ym mis Tachwedd, y pedwerydd mis yn olynol o ddadchwyddiant. Roedd chwyddiant craidd yn 0.2% flwyddyn-ar-flwyddyn, sy'n llawer is na tharged Banc Canolog Ewrop (ECB) sef 'o dan, ond yn agos at 2%'. Disgwylir i'r ECB barhau i ddal ei brif gyfradd llog o 0% a'i gyfradd cyfleusterau adneuo o -0.5% am gyfnod ond ehangodd ei ysgogiad ariannol ym mis Rhagfyr 2020, gan

gynyddu maint ei gynllun prynu asedau i €1.85 triliwn a'i ymestyn tan Mawrth 2022.

Crebachodd economi'r UD ar gyfradd flynyddol o 31.4% yn Ch2 2020 ac yna adlamodd 33.4% yn Ch3. Cynhaliodd y Gronfa Ffederal gyfradd y Cronfeydd Ffed rhwng 0% a 0.25% a chyhoeddodd newid i'w threfn targedu chwyddiant i ffurf fwy hyblyg o dargedu cyfartalog. Hefyd rhoddodd y Ffed arwyddion cryf nad yw cyfraddau llog yn debygol o newid o'r lefelau cyfredol dros y tair blynedd nesaf.

Enillodd y cyn is-arlywydd Joe Biden etholiad arlywyddol yr Unol Daleithiau 2020. Mae Mr Biden yn gwneud mynd i'r afael â choronafirws yn flaenoriaeth uniongyrchol iddo a bydd hefyd yn gwrthdroi sawl gorchymyn gweithredol a lofnodwyd gan ei ragflaenydd ac yn mynd â'r UD yn ôl i gytundeb hinsawdd Paris a Sefydliad Iechyd y Byd.

2.2 Rhagolygon credyd

Ar ôl cynyddu ddiwedd mis Mawrth wrth i coronafirws ddod yn bandemig bydeang ac yna codi eto ym mis Hydref/ Tachwedd, mae prisiau cyfnewid diffygdlu credyd (CDS) ar gyfer banciau mawr y DU wedi cwmpo'n ôl yn raddol i lefelau cyn-bandemig bron. Er bod ansicrwydd ynghylch diffygdladau benthyciad sy'n ymwneud â COVID-19 yn arwain at fanciau yn darparu biliynau ar gyfer colledion posibl yn hanner cyntaf 2020, gan leihau elw yn sylweddol, gostyngwyd amhariadau a adroddwyd ar gyfer Ch3 yn sylweddol mewn rhai sefydliadau. Fodd bynnag, gall proffidioldeb banc cyffredinol yn 2020 a 2021 fod yn sylweddol is nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Cafodd y statws credyd ar gyfer llawer o sefydliadau'r DU eu hisraddio ar gefn israddiadau i'r sgôr sofran. Er hynny, mae amodau credyd yn fwy cyffredinol mewn banciau a chymdeithasau adeiladu wedi tueddu i fod yn gymharol llyfn, er gwaethaf effaith y pandemig.

Wrth edrych ymlaen, mae'r potensial i golledion banc fod yn fwy na'r disgwyl pan fydd cefnogaeth y llywodraeth a banc canolog yn dechrau cael ei ddiddymu yn parhau i fod yn risg, gan awgrymu bod agwedd ofalus tuag at adneuon banc yn 2021/22 yn parhau i fod yn fuddiol.

2.3 Rhagolygon cyfraddau llog

Mae ymgynghorydd rheoli trysorlys y Cyngor, Arlingclose, yn rhagweld y bydd Gyfradd Banc BoE yn aros ar 0.1% tan o leiaf chwarter cyntaf 2024. Bernir fod y risgiau i'r rhagolwg hwn i'r anfantais wrth i lywodraeth DU a'r BoE barhau i

ymateb i'r pandemig coronafirws a threfniadau masnachu newydd yr UE. Ymestynnodd y BoE ei raglen prynu asedau i £895 biliwn ym mis Tachwedd wrth gadw'r Gyfradd Banc a chynnal y sefyllfa hon ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag, ni ellir diystyru toriadau pellach mewn cyfraddau llog i sero, neu negyddol o bosibl, ond nid yw hyn yn rhan o ragolwg canolog Arlingclose.

Disgwylir i enillion gilt aros yn isel iawn yn y tymor canolig tra bod enillion tymor byr yn debygol o aros yn is neu'n sero nes bydd y BoE yn diystyru'r siawns y bydd cyfraddau llog negyddol neu ragolygon twf/ chwyddiant yn gwella. Yr achos canolog yw i enillion gilt 10-mlynedd ac 20-mlynedd gynyddu i tua 0.60% a 0.90% yn eu trefn dros y gorwel amser. Bernir bod y risgiau o amgylch y rhagolygon cynnyrch gilt yn eithaf cytbwys tuag i lawr a thuag i fyny, ond bron yn sicr bydd yna gyfnewidioldeb tymor byr oherwydd ansicrwydd a digwyddiadau economaidd a gwleidyddol.

Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose i'w weld yn **Atodiad 1**.

- 2.4** Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd bod buddsoddiadau rheolaeth trysorlys newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 0.01% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd yn 2021/22.

3. Y Cyd-destun Lleol

- 3.1** Ar 31 Rhagfyr 2020, roedd gan y Cyngor fenthyciadau o £112.6m a £77.4m o fuddsoddiadau. Ceir rhagor o fanylder yn **Atodiad 2**. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad mantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

Tabl 1: Crynodeb mantolen a'r rhagolwg

	31.3.20 Gwir £m	31.3.21 Amcan £m	31.3.22 Cyllideb £m	31.3.23 Cyllideb £m	31.3.24 Cyllideb £m
GCC	176.8	174.0	176.6	180.1	178.6
Llai: Rhwymedigaethau arall *	(2.9)	(2.6)	(2.4)	(1.4)	(5.4)
Benthyca GCC	173.9	171.4	174.2	178.7	173.2
Llai: Benthyca allanol **	(124.9)	(104.2)	(103.0)	(101.7)	(99.5)
Benthyca mewnol	49.0	67.2	71.2	77.0	73.7
Llai: Cronfeydd defnyddiadwy	(78.0)	(57.5)	(50.3)	(45.3)	(44.1)
Llai: Cyfalaf gweithio	0.4	0.4	0.4	0.4	0.4
Buddsoddiadau	28.6	(10.1)	(21.3)	(32.1)	(30.0)

* ymrwymadau PFI

**yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt heb gynnwys ail gyllido dewisol

- 3.2** Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca er dibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a'r cyfalaf gweithio yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol.
- 3.3** Mae Tabl 1 yn dangos y bydd angen i'r Cyngor fenthyg yn ystod y tair blynedd nesaf. Os yw hyn yn digwydd, defnyddir benthyca tymor byr er mwyn lleihau'r gyfradd llog.
- 3.4** Mae'r *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* gan CIPFA yn argymhell y dylai cyfanswm dyledion y Cyngor fod yn is na'i GCC uchaf posib yn ôl y rhagolygon dros y tair blynedd nesaf. Dengys Tabl 1 fod y Cyngor yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2021/22.

4. Meincnod Ymrwymadau


- 4.1** Er mwyn cymharu gwir fenthyciadau'r Cyngor yn erbyn strategaeth arall, mae meincnod rhwymedigaeth wedi cael ei chyfrifo sy'n dangos lefel benthyca gyda risg isaf. Mae hyn yn tybio'r un rhagolygon a tabl 1 uchod, ond bod balansau arian a buddsoddiadau yn aros ar lefel isafswm o £10m ar ddiwedd bob blwyddyn er mwyn cynnal digon o hylifedd ond lleihau'r risg credyd.

Eleni, mae ystyriaeth ychwanegol wedi'i hychwanegu at y Meincnod Ymrwymadau gan mai Cyngor Gwynedd yw awdurdod cynnal Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru lle bydd gofyniad i fenthyca yn codi yn y blynyddoedd i ddod.

Tabl 2: Meincnod Ymrwymadau

	31.3.20 Gwir £m	31.3.21 Amcan £m	31.3.22 Cyllideb £m	31.3.23 Cyllideb £m	31.3.24 Cyllideb £m
GCC	176.8	174.0	176.6	180.1	178.6
Llai: Cronfeydd ddefnyddiadwy	(78.0)	(57.5)	(50.3)	(45.3)	(44.1)
Llai: Cyfalaf gweithio	0.4	0.4	0.4	0.4	0.4
Ychwanegu: Lleiafswm buddsoddiadau	10.0	10.0	10.0	10.0	10.0
Ychwanegu: Benthycu BUEGC	d/b	0.0	0.0	60.5	117.2
Meincnod Ymrwymadau	109.2	126.9	136.7	205.7	262.1

4.2 Gan ddilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod tymor hir yn rhagdybio gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan fenthyciadau o £6m y flwyddyn, lleiafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar gyfnod oes ased o 25 mlynedd a chynnydd chwyddiant o 2.5% y flwyddyn ar incwm, gwariant a reserfau. Dangosir hyn yn y siart canlynol:



Mae'r siart yn dangos y bydd angen benthycia am gyfnod o 15 mlynedd o 2023 ymlaen. Mae hyn er mwyn hwyluso Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

5. Y Strategaeth Fenthyca

5.1 Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn dal £103.6 miliwn o fenthyciadau, mae hyn fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd cynt. Mae rhagolygon y fantolen yn nhabl 1 yn dangos nad yw'r Cyngor angen benthycia arian tymor hir yn 2021/22 ond efallai y bydd angen benthycia tymor byr oherwydd rhesymau llif arian. Yn y dyfodol, gall y Cyngor hefyd fenthyg symiau ychwanegol i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod ymlaen llaw ac i hwyluso Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ar yr amod nad yw hyn yn uwch na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthycia.

5.2 Amcanion

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a ennill sicrwydd cost dros y cyfnod mae angen yr arian. Yn ail amcan i hyn yw'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir y Cyngor yn newid.

5.3 Strategaeth

Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae strategaeth benthycia'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwy heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio dyledion. Gan fod cyfraddau llog tymor byr yn llawer is na chyfraddau tymor hir, mae'n debygol o fod yn fwy effeithiol yn y tymor byr i unai defnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthyg dros y tymor byr yn lle hynny.

Drwy wneud hyn, gall y Cyngor leihau costau benthycia net (er yn hepgor yr incwm o fuddsoddiadau) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol. Bydd y buddion o fenthyca mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthycia tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthycia tymor hir yn codi yn gymedrol. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw. Gall yr allbwn o hwn bennu p'un a fydd y Cyngor yn benthycia symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2021/22 gyda'r bwriad o gadw costau llog y dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hyn yn creu cost ychwanegol yn y tymor byr.

Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi codi'r mwyafrif o'i fenthycia tymor hir o'r PWLB ond bydd yn ystyried benthyciadau tymor hir o ffynonellau eraill gan gynnwys banciau, pensiynau ac awdurdodau lleol, a bydd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno bondiau ac offerynnau tebyg, er mwyn gostwng costau llog a lleihau gorddibyniaeth ar un ffynhonnell cyllid yn unol â Chod CIPFA. Nid yw benthyciadau PWLB bellach ar gael i awdurdodau lleol sy'n bwriadu prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch; mae'r Cyngor yn bwriadu osgoi'r gweithgaredd hwn er mwyn cadw ei fynediad at fenthyciadau PWLB.

Fel arall, gall y Cyngor drefnu benthyciadau sy'n cychwyn yn ei flaen yn 2021/22, gyda'r cyfradd llog wedi ei sefydlu ymlaen llaw, ond bod yr arian yn cael ei dderbyn mewn blynnyddoedd i ddod. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd cost heb ddioddef y gost cario yn y cyfamser.

Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y bydd y Cyngor yn benthycia benthyciadau tymor byr i gwrdd â diffygion annisgwyl yn y llif arian.

5.4 Ffynonellau benthycia

Dyma'r ffynonellau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor byr a thymor hir:

- Cyfleuster Benthycia PWLB Trysorlys EM (Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus gynt)
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladau arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff cyhoeddus yn y DU
- cronfeydd pensiwn cyhoeddus a preifat yn y DU (eithrio Cronfa Bensiwn Gwynedd)
- Buddsoddwyr marchnad cyfalaf
- UK Municipal Bonds Agency plc a cwmnïau eraill i bwrpas arbennig a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol.

5.5 Ffynonellau eraill arian dyled

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol sydd ddim yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel rhwymedigaethau dyledion eraill:

- Prydlesau
- Hur-bwrcasu
- Menter Cyllid Preifat
- Gwerthu ac adlesu

Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi derbyn mwyafrif o'i fenthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), ond byddwn yn parhau i ystyried ffynonellau cyllid eraill, megis benthyciadau gan awdurdodau lleol a benthyciadau banc, gall fod ar gael ar gyfraddau mwy ffafriol.

Y Municipal Bonds Agency: Sefydlwyd yr UK Municipal Bonds Agency plc yn 2014 gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol fel dewis amgen i'r PWLB. Mae'n cyflwyno bondiau ar y marchnadoedd cyfalaf a rhoi benthyg yr enillion i awdurdodau lleol. Mae hyn yn ffynhonnell gyllid mwy cymhleth na'r PWLB am ddau reswm: bydd gofyn i awdurdodau sy'n benthyca ddarparu gwarant i'r buddsoddwyr bond i ad-dalu eu buddsoddiad petai'r asiantaeth yn methu â gwneud hynny am ba bynnag reswm; a bydd yna gyfnod arweiniol o sawl mis rhwng ymrwmo i fenthyca a chael gwybod beth fydd y gyfradd llog sy'n daladwy. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca gan yr Asiantaeth felly'n destun adroddiad ar wahân i'r Cyngor llawn.

5.6 Benthyciadau tymor byr a chyfradd newidiol

Mae'r benthyciadau yma yn gadael y Cyngor yn agored i'r risg o gynnydd tymor byr yn y gyfradd llog, ac felly yn agored i derfynau amlygiadau cyfradd llog y dangosyddion rheolaeth trysorlys isod.

5.7 Aildrefnu dyledion

Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu, ac un ai talu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol â fformiwlâ a osodwyd yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Hwyrach y bydd rhai benthycwyr yn barod i drafod telerau ad-dalu cynnar. Gall y Cyngor gymryd mantais o hyn ac amnewid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, lle y disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbediad cyffredinol neu leihad cyffredinol mewn risg.

6. Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys

6.1 Mae gan y Cyngor arian wedi'i fuddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn ei wario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor wedi amrywio rhwng £23.2 a £110.4 miliwn, a disgwylir cynnal lefelau tebyg am y flwyddyn sydd i ddod.

Mae hyn yn cynnwys balansau arian Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn cael eu pŵlio gyda chronfeydd y Cyngor at ddibenion buddsoddi. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac

mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pŵl ar gyfer 2021/22 yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2021.

Fel arfer, nid yw benthyciadau i sefydliad sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a phrynu eiddo fel buddsoddiad yn cael eu hystyried yn fuddsoddiadau trysorlys, ac felly rydym yn delio â'r rhain ar wahân yn **Atodiad 3**.

6.2 Amcanion

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion drwy buddsoddiadau'n diffygdlu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Cyngor yn anelu i dderbyn dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir.

6.3 Cyfraddau llog negyddol

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cynyddu'r risg y bydd Banc Lloegr yn gosod ei Gyfradd Banc ar neu o dan sero, sy'n debygol o fwydo drwodd i gyfraddau llog negyddol ar yr holl opsiynau buddsoddi tymor byr risg isel. Gan na all buddsoddiadau dalu incwm negyddol, cymhwysir cyfraddau negyddol trwy leihau gwerth buddsoddiadau. Os yw hyn yn digwydd, bydd diogelwch yn cael ei fesur fel derbyn y swm cytundebol a fuddsoddwyd ar aeddfedrwydd, er gallai'r swm yma fod yn llai na fuddsoddwyd yn wreiddiol.

6.4 Strategaeth

Gyda'r cynnydd parhaus yn y risg ac enillion isel iawn o fuddsoddiadau byr dymor ansicredig banc, bydd y Cyngor yn anelu at barhau i ddal dosbarthiadau o asedau sy'n fwy sicr a/neu gynnyrch uwch yn ystod 2021/22. Mae hyn yn benodol yr achos ar gyfer yr £10m amcangyfrifedig sydd ar gael ar gyfer buddsoddiad tymor hirach. Mae'r rhan helaeth o'r arian parod sydd dros ben gan y Cyngor wedi'i fuddsoddi mewn adneuron banc anwarantedig, tystysgrifau adneuron a chronfeydd marchnadoedd arian. Bydd yr arallgyfeirio felly'n parhau'r strategaeth a fabwysiadwyd yn 2015/16.

6.5 Modelau Busnes

O dan y safon IFRS 9 newydd mae'r gyfrifeg ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "model busnes" y Cyngor i'w rheoli. Mae'r Cyngor yn anelu i ennill gwerth gan ei fuddsoddiadau trysorlys sydd yn cael eu rheoli'n fewnol gyda model busnes o gasglu llif arian cytundebol ac felly, ble mae'r meini prawf yn cael ei cwrdd, mae'r buddsoddiadau yn dal i gael eu cyfrifo ar gost wedi ei amorteiddio.

6.6 Gwrthbartïon cymeradwy

Gall y Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gyda unrhyw o'r gwrthbartïon yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau arian (fesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

Tabl 3: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo a'r terfynau

Sector	Terfyn amser	Terfyn gwrthbarti	Terfyn sector
Llywodraeth y DU	50 mlynedd	Diderfyn	d/b
Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill	25 mlynedd	£10m	Diderfyn
Buddsoddiadau â sicrwydd *	25 mlynedd	£10m	Diderfyn
Banciau (ansicredig) *	13 mis	£5m	Diderfyn
Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) *	13 mis	£5m	£5m
Darparwyr cofrestredig (ansicredig) *	5 mlynedd	£5m	£25m
Cronfeydd marchnad arian *	d/b	£10m	Diderfyn
Cronfeydd cyfun strategol	d/b	£10m	£50m
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	d/b	£10m	£25m
Buddsoddiadau eraill *	5 mlynedd	£5m	£10m

Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â'r nodiadau canlynol.

6.7 Statws Credyd

Gosodir cyfyngiadau buddsoddi drwy gyfeirio at y statws credyd hirdymor isaf sydd wedi'i gyhoeddi gan ddetholiad o asiantaethau graddio allanol. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbartion. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael ei gwneud ar sail cyfraddau credyd yn unig, mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

6.8 Llywodraeth

Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan, lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygol amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau yma yn destun '*bail-in*', ac yn gyffredinol bychan iawn yw'r risg o ansolfedd, er nad ydynt yn ddi-risg. Bernir nad oes gan fuddsoddiadau gyda Llywodraeth y DU risg credyd oherwydd ei gallu i greu arian ychwanegol ac felly gellir eu gwneud mewn symiau gyda dim cyfyngiad am hyd at 50 mlynedd.

6.9 Buddsoddiadau â Sicrwydd

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r benthyciwr, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad. Bydd maint ac ansawdd y diogelwch yn ffactor allweddol yn y penderfyniad buddsoddi. Mae bondiau gorchuddiedig a chytundebau adbrynu o chwith gyda banciau a chymdeithasau adeiladu wedi'u heithrio rhag '*bail-in*'. Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod gan y cyfochrog y sicrheir y buddsoddiad arno statws credyd, defnyddir yr uchaf o'r statws credyd cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

6.10 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (ansicredig)

Cyfrifon, adneuo, tystysgrifau adneuo a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in*' petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

6.11 Darparwyr cofrestredig (ansicredig)

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warrantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio gan yr Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai yn yr Alban, Llywodraeth Cymru ac yr Adran ar gyfer y Gymuned (yn Gogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

6.12 Cronfeydd Marchnad Arian

Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd yr un diwrnod neu fyr rybudd ac anweddolrwydd prisiau isel iawn neu ddim o gwbl trwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddyn nhw'r fantais dros gyfrifon banc o ddarparu gwasgariad ehangach o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa broffesiynol am ffi fach. Er nad oes unrhyw derfyn sector yn berthnasol i gronfeydd marchnad arian, bydd y Cyngor yn cymryd gofal i arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylif dros amrywiaeth o ddarparwyr i sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

6.13 Cronfeydd Cyfun Strategol

Cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo sy'n cynnig enillion gwell dros y tymor hir ond sy'n fwy anwadal yn y tymor byr. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Cyngor ehangu i ddosbarthiadau o asedau ar wahân i arian parod heb yr angen i fod yn berchen ar y buddsoddiadau gwaelodol a'u rheoli. Gan nad oes dyddiad aeddfedu pendant ar gyfer y cronfeydd hyn, a'u bod ar gael i'w tynnu allan ar ôl cyfnod o rybudd, bydd eu perfformiad a'u haddasrwydd i barhau i gwrdd ag amcanion buddsoddi'r Cyngor yn cael eu monitro'n gyson.

6.14 Ymddiriedolaethau Buddsoddi Ystâd Real

Cyfranddaliadau mewn cwmnïau sy'n buddsoddi'n bennaf mewn ystâd real ac sy'n talu'r mwyafrif o'u hincwm rhent i fuddsoddwyr mewn modd tebyg i gronfeydd eiddo cyfun. Yn yr un modd â chronfeydd eiddo, mae ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real yn cynnig enillion gwell dros y tymor hir, ond maent yn fwy anwadal yn enwedig gan fod pris y cyfranddaliadau yn adlewyrchu'r galw newidiol am y cyfranddaliadau ynghyd â newidiadau yng ngwerth yr eiddo sylfaenol.

6.15 Buddsoddiadau eraill

Mae'r categori yma yn cynnwys buddsoddiadau trysorlys nad ydynt wedi'u rhestru uchod, er enghraifft bondiau corfforaethol ansicredig a benthyciadau cwmni. Nid yw cwmnïau heblaw banciau yn destun 'bail-in' ond gallent fynd yn fethdalwr gan roi buddsoddiad y Cyngor mewn perygl.

6.16 Cyfrifon banc gweithredol

Gall y Cyngor ddelio gyda unrhyw fanc yn y DU gyda statws credyd dim is na BBB - a chydag asedau mwy na £25 biliwn, a hynny, er enghraifft, drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr. Nid yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel buddsoddiadau, ond maent yn parhau yn agored i risgiau 'bail-in', ac felly bydd y balansau yn cael eu cadw'n is na £900,000 fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan petai yna fethiant, y byddai banciau gydag asedau sy'n fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o fod yn destun 'bail-in' na chael eu gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r Cyngor yn gallu parhau i weithredu.

6.17 Asesu Risg a Statws Credyd

Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Mae'r asiantaethau statws credyd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd wedi'u rhestru yn nogfen Arferion Rheolaeth Trysorlys. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "rating watch negative" neu "credit watch negative") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

6.18 Gwybodaeth arall ar ddiogelwch buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn deall bod graddfeydd statws credyd yn broffwydi da, ond nid perffaith, ar gyfer buddsoddiadau'n diffygdalu. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol a dadansoddiad a chynghor gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys y Cyngor. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuan cadarn ynghylch ei ansawdd credyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 ac yn 2020, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei hadlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Cyngor yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian y Cyngor, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi i'r enillion ar fuddsoddiadau ostwng, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

6.19 Cyfyngiadau Buddsoddi

Rhagwelir bydd gan y Cyngor £43 miliwn mewn cronfeydd refeniw ar 31 Mawrth 2021 fydd ar gael i dalu am unrhyw golledion buddsoddi. Er mwyn sicrhau nad yw mwy na 23% o'r cronfeydd hyn mewn perygl oherwydd diffygdalu unigol, yr uchafswm gellir ei fenthycu i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) yw £10 miliwn. O ran y cyfyngiad yma bydd grŵp o endidau o dan yr un perchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol.

Mae datguddiadau risg credyd sy'n deillio o fuddsoddiadau ar wahân i'r trysorlys, deilliadau ariannol a balansau sy'n fwy na £500,000 mewn cyfrifon banc gweithredol yn cyfrif yn erbyn y terfynau buddsoddi perthnasol.

Tabl 4: Terfynau ychwanegol

	Cyfyngiad arian
Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolaeth	£25m fesul rheolwr
Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer	£25m fesul brocer
Gwledydd tramor	£10m fesul gwlad

6.18 Rheoli hylifedd

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagolygon eu llunio ar y sail bod benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu ei ymrwymadau ariannol os oes angen. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau tymor hir yn cael eu gosod ar sail cynllun ariannol tymor canolig a rhagolwg llif arian y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf bedwar darparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian) i sicrhau bod mynediad at arian parod yn cael ei gynnal os bydd anawsterau gweithredol mewn unrhyw un darparwr.

7. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

7.1 Diogelwch

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran amser ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg ganfyddedig.

Dangosydd risg credyd	Targed
Sgôr credyd cyfartalog y portffolio	6.0

7.2 Hylifedd

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthyca ychwanegol.

Dangosydd risg hylifedd	Targed
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£10m

7.3 Datguddiad Cyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Yr effaith refeniw ar gyfyngiadau uwch dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwmp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

Dangosydd risg cyfradd llog	Cyfyngiad
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn <u>codiad</u> 1% yng nghyfraddau llog	£635,000
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda <u>cwmp</u> o 1% yng nghyfraddau llog	£24,000

Caiff effaith newid mewn cyfraddau llog ei gyfrifo ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau sy'n aeddfedu yn cael eu hamnewid ar y cyfraddau cyfredol.

7.4 Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau fel a ganlyn:

Dangosydd risg cyfradd ail gyllido	Cyfyngiad Uchaf	Cyfyngiad Isaf
Dan 12 mis	25%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	25%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	50%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%
10 mlynedd a mwy	100%	0%

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

7.5 Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwyt na flwyddyn

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

Dangosydd risg pris	2021/22	2022/23	2023/24
Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddiwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£20m	£20m	£20m

8. Materion Cysylltiedig

8.1 Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA.

8.2 Cytundebau Deilliadau

Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol penodol i wneud hynny, ni fydd y Cyngor yn defnyddio cytundebau ariannol annibynnol (megis cytundeb cyfenwid, cytundeb ymlaen, cytundeb dyfodol a chytundeb opsiwn). Mae'n bosib y bydd cytundebau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd wedi eu cyfuno a thrafodion sy'n dechrau yn y dyfodol, yn cael eu defnyddio, a bydd y risgiau sydd ynghlwm â hwy yn cael eu monitro yn unol a risg cyffredinol y strategaeth rheolaeth trysorlys.

8.3 Cronfeydd Allanol

Yn gynwysedig yng balansau'r Cyngor mae'r balansau ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, GwE, Cronfa'r Degwm a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Dyrennir yr incwm llog i bob sefydliad yn seiliedig ar falansau dyddiol.

8.4 Cyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi dewis cael statws cleient proffesiynol gyda'i darparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr buddsoddi, er mwyn caniatáu mynediad at amrediad mwy o wasanaethau ond heb y diogelwch rheoleiddio uwch sydd ar gael i unigolion a chwmnïau bychan. Oherwydd maint ac ystod gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu mai hwn yw'r statws priodol gorau.

9. Arweiniad Llywodraeth Cymru

Mae materion pellach sy'n ofynnol gan ganllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn **Atodiad 3**.

10. Goblygiadau Ariannol

10.1 Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2021/22 yw £0.335 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio buddsoddi o £48 miliwn ar gyfradd llog o 0.01% ar gyfer adneuon a £10 miliwn o gronfeydd cyfun ar enillion o 4%. Y gyllideb ar gyfer y llog ar ddyledion yn 2021/22 yw £5.7 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio dyledion o £102.8 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 5.51%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r benthyciadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

11. Ystyried Opsiynau Eraill

11.1 Nid yw Canllawiau Llywodraeth Cymru na Chod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i awdurdodau lleol ei fabwysiadu. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-ffeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau o ran rheoli risgiau.

Dewis Arall	Effaith ar incwm a gwariant	Effaith ar reoli risgiau
Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrth bartïon ac/neu am gyfnodau byrrach	Bydd incwm ar y llog yn is	Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdlu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn fwy
Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrth bartïon ac/neu am gyfnodau hirach	Bydd incwm ar y llog yn uwch	Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdlu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn llai
Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor	Bydd costau llog dyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwysu hyn drwy incwm buddsoddi uwch	Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith petai ddiffygdlu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor

		yn fwy sicr
Cymryd benthyciadau byrdymor newidiol yn hytrach na chyfraddau sefydlog hirdymor	Bydd costau llog dyledion yn is i gychwyn	Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael eu gwrthbwysu i raddau helaeth gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond bydd mwy o ansicrwydd am y costau hirdymor
Lleihau lefel y benthyciadau	Mae'r arbediad ar log y ddyled yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir	Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor yn llai sicr

Atodiad 1 – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Rhagfyr 2020

Rhagdybiaethau sylfaenol:

- Mae'r rhagolygon economaidd byd-eang tymor canolig wedi gwella gyda dosbarthiad brechlynnau, ond mae'r cynnydd diweddar mewn achosion coronafirws wedi gwaethgu'r rhagolygon economaidd dros y tymor byr.
- Mae mesurau cyfyngol a chyfnodau clo pellach yn debygol o barhau yn y DU ac Ewrop nes bydd mwyafrif y boblogaeth yn cael eu brechu erbyn ail hanner 2021. Bydd y cyfnod adfer yn gryf wedyn, ond o bosibl yn hirach na'r hyn a ragwelwyd o'r blaen.
- Roedd arwyddion o adferiad economaidd araf yn y DU eisoes yn amlwg yn nata misol GDP a PMI y DU, hyd yn oed cyn yr ail cyfnod clo a chyfyngiadau Haen 4. Mae cyflogaeth yn gostwng er gwaethaf estyniad i becynnau cymorth.
- Bydd yr angen i gefnogi adferiadau economaidd a defnyddio capasiti sbâr yn arwain at fanciau canolog yn cynnal cyfraddau llog isel ar gyfer y tymor canolig.
- Bydd Brexit yn pwysu ar weithgaredd y DU. Bydd effaith gyfunol Brexit ac ôl-ffeithiau'r pandemig yn lleddfu twf o'i gymharu â chyfoedion, yn cynnal capasiti sbâr ac yn cyfyngu ar chwyddiant domestig. Bydd Banc Lloegr felly yn cynnal amodau ariannol llac hyd y gellir rhagweld.
- Bydd enillion tymor hwy hefyd yn parhau i fod yn isel, wedi'i angori gan gyfraddau polisi banc canolog isel, disgwyliadau ar gyfer cyfraddau a allai fod hyd yn oed yn is a disgwyliadau chwyddiant tymor hwy gwan. Mae siawns y gall enillion ddilyn llwybr ychydig yn wahanol yn y tymor canolig, yn dibynnu ar ganfyddiadau buddsoddwyr o dwf a chwyddiant, neu'r defnydd o frechlynnau.

Rhagolygon:

- Mae Arlingclose yn disgwyl i Gyfradd Banc aros ar y lefel gyfredol o 0.10%.
- Ein hachos canolog dros Gyfradd Banc yw dim newid, ond ni ellir diystyru toriadau pellach i sero, neu efallai hyd yn oed i diriogaeth negyddol, yn enwedig gyda chamau gweithredu brys tebygol mewn ymateb i Brexit 'dim bargaen'.
- Bydd enillion gilt yn aros yn isel yn y tymor canolig. Mae enillion gilt tymor byrrach yn negyddol ar hyn o bryd a byddant yn aros oddeutu sero neu'n is nes bydd y Banc naill ai'n diystyru Cyfradd Banc negyddol neu ragolygon twf/ chwyddiant yn gwella.

- Mae risgiau anfantais yn parhau, ac yn wir yn ymddangos yn uwch, yn y tymor agos, wrth i'r llywodraeth ymateb i'r cynnydd mewn cyfraddau heintiau a chyfnod pontio Brexit yn dod i ben.

	Mar-21	Jun-21	Sep-21	Dec-21	Mar-22	Jun-22	Sep-22	Dec-22	Mar-23	Jun-23	Sep-23	Dec-23	Mar-24
Official Bank Rate													
Upside risk	0.00	0.00	0.15	0.15	0.15	0.15	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30
Arlingclose Central Case	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10
Downside risk	0.30	0.40	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
3-month money market r.													
Upside risk	0.05	0.05	0.10	0.10	0.15	0.20	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30
Arlingclose Central Case	0.10	0.10	0.15	0.15	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20
Downside risk	0.30	0.40	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
1yr money market rate													
Upside risk	0.05	0.05	0.10	0.10	0.15	0.20	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40
Arlingclose Central Case	0.15	0.15	0.25	0.25	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30
Downside risk	0.15	0.15	0.15	0.15	0.15	0.15	0.15	0.15	0.15	0.15	0.15	0.15	0.15
5yr gilt yield													
Upside risk	0.40	0.40	0.45	0.45	0.50	0.50	0.55	0.60	0.60	0.65	0.65	0.70	0.70
Arlingclose Central Case	0.00	0.00	0.05	0.10	0.15	0.20	0.20	0.20	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25
Downside risk	0.40	0.45	0.50	0.55	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60	0.60
10yr gilt yield													
Upside risk	0.30	0.35	0.40	0.45	0.50	0.50	0.55	0.60	0.60	0.65	0.65	0.70	0.70
Arlingclose Central Case	0.25	0.30	0.35	0.35	0.40	0.40	0.45	0.45	0.50	0.55	0.55	0.55	0.60
Downside risk	0.50	0.50	0.55	0.55	0.55	0.55	0.55	0.55	0.55	0.55	0.55	0.55	0.55
20yr gilt yield													
Upside risk	0.40	0.40	0.45	0.45	0.50	0.50	0.55	0.60	0.60	0.65	0.65	0.70	0.70
Arlingclose Central Case	0.70	0.70	0.75	0.75	0.75	0.80	0.80	0.85	0.85	0.85	0.85	0.90	0.90
Downside risk	0.30	0.30	0.35	0.35	0.35	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40
50yr gilt yield													
Upside risk	0.40	0.40	0.45	0.45	0.50	0.50	0.55	0.60	0.60	0.65	0.65	0.70	0.70
Arlingclose Central Case	0.60	0.60	0.65	0.65	0.65	0.70	0.70	0.75	0.75	0.75	0.75	0.80	0.80
Downside risk	0.30	0.30	0.35	0.35	0.35	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40

PWLB Certainty Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.80%

PWLB Infrastructure Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.60%

Atodiad 2- Sefyllfa Portffolio a Dyled Presennol

	31.12.2020 Gwir Bortffolio £m	31.12.2020 Cyfradd Cyfartalog %
Benthyca Allanol:		
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)	87.4	5.79
Benthyciadau eraill	16.2	4.22
Benthyciadau Awdurdod Lleol	9.0	0.78
Cyfanswm benthyca allanol	112.6	5.30
Ymrwymadau tymor hir arall:		
Prydlesau	1.5	0.0
Cyfanswm ymrwymadau tymor hir arall	1.5	0.0
Cyfanswm dyled gros allanol	114.1	5.30
Buddsoddiadau trysorlys:		
Banciau a Chymdeithasau adeiladu (ansicredig)	14.9	0.21
Llywodraeth (yn cynnwys Llywodraeth leol)	22.0	0.06
Cronfeydd Marchnad Arian	30.5	0.14
Cronfeydd wedi'i pŵlio	10.0	3.98
Cyfanswm buddsoddiadau trysorlys	77.4	0.60
Dyled Net	36.7	

Atodiad 3- Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Ganllaw Buddsoddi diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sy'n gosod gofynion adrodd ychwanegol ar awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan annatod o brosesau rheoli trysorlys y Cyngor hwn. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys buddsoddiadau nad ydyn nhw'n rhan o reoli trysorlys, er enghraifft eiddo buddsoddi a benthyciadau i sefydliadau lleol.

Cyfraniad: Mae buddsoddiadau'r Cyngor yn cyfrannu at ei amcanion darparu gwasanaeth a / neu i hyrwyddo lles fel a ganlyn:

- mae buddsoddiadau rheoli trysorlys yn cefnogi gweithgareddau rheoli trysorlys effeithiol,
- mae benthyciadau i sefydliadau lleol yn darparu cymorth ariannol i'r sefydliadau hynny i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a fyddai fel arall yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y Cyngor, a
- mae eiddo buddsoddi yn darparu gwarged ariannol net sy'n cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol.

Newid yn yr hinsawdd: Mae penderfyniadau buddsoddi'r Cyngor yn ystyried risgiau hinsawdd tymor hir i gefnogi economi carbon isel i'r graddau, os oes buddsoddiad carbon isel cyfwerth ar gael gyda'r un enillion, yna byddai'n well gan y Cyngor y buddsoddiad carbon isel.

Buddsoddiadau penodedig: Mae Canllawiau LIC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel y rheini:

- wedi'i enwi mewn punt sterling,
- i fod i gael ei ad-dalu cyn pen 12 mis ar ôl y trefniant oni bai bod y gwrthbarti yn awdurdod lleol,
- heb ei ddiffinio fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, a
- buddsoddi gydag un o:
 - Llywodraeth y DU,
 - Awdurdod lleol yn y DU, cyngor plwyf neu gyngor cymunedol, neu
 - Corff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Cyngor yn diffinio sefydliadau a gwarantau "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch sy'n hysgu o'r DU neu wlad dramor sydd â sgôr sofran o AA + neu'n uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun eraill, diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch.

Benthyciadau: Mae Canllawiau LIC yn diffinio benthyciad fel cytundeb ysgrifenedig neu lafar lle mae'r Cyngor yn trosglwyddo arian dros dro i drydydd parti, menter ar y

cyd, is-gwmni neu aelod cyswllt sy'n cytuno ar enillion yn ôl telerau ac amodau derbyn y benthyciad, ac eithrio pan fydd y trydydd plaid yn awdurdod lleol arall.

Gall y Cyngor ddangos bod ei amlygiad ariannol i fenthyciadau i fentrau lleol, elusennau lleol, cwmnïau dan berchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd yn gymesur trwy osod y terfynau yn nhabl 3a. Mae'r rhain yn sicrhau nad yw cyfanswm yr amlygiad yn fwy na 20% o gronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellir eu defnyddio. Ar hyn o bryd mae llyfr benthyciadau'r Cyngor o fewn y terfynau hunanasesedig hyn.

Tabl 3a: Terfynau Benthycg

Benthyciwr	Terfyn arian
Mentrau ac elusennau lleol	£3m
Cwmnïau dan berchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd	£3m
Benthyciadau ceir a beics i weithwyr	£3m
Buddsoddiadau rheolaeth trysorlys sy'n cwrdd a'r diffiniad o fenthyciad	Diderfyn

Mae'r Cyngor yn defnyddio model 'colled credyd disgwylidig' a ganiateir ar gyfer benthyciadau a symiau derbyniadwy fel y nodir yn Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9: Offerynnau Ariannol fel y'i mabwysiadwyd gan arferion priodol i fesur risg credyd ei bortffolio benthyciadau. Rhoddir ystyriaeth briodol i reolau cymorth gwladwriaethol a chyfraith cystadleuaeth. Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli credyd priodol i adennill ad-daliadau hwyr.

Buddsoddiadau amhenodol: Mae unrhyw fuddsoddiad ariannol nad yw'n cwrdd â'r diffiniad o fuddsoddiad penodol neu fenthyciad yn cael ei ddsbarthu fel un amhenodol. O ystyried y diffiniad eang o fenthyciad, mae'r categori hwn yn berthnasol i unedau mewn cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cwmnïau yn unig. Dangosir cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodol yn nhabl 3b; mae'r Cyngor yn cadarnhau bod ei fuddsoddiadau amhenodol cyfredol yn aros o fewn y terfynau hyn.

Tabl 3b: Terfynau buddsoddiadau amhenodol

	Terfyn arian
Unedau mewn cronfeydd cyfun heb statws credyd neu wedi'u graddio islaw A-	£20m
Cyfranddaliadau mewn ymddiriedolaethau buddsoddi eiddo tiriog	£10m
Cyfanswm buddsoddiadau amhenodol	£30m

Buddsoddiadau anariannol: Mae'r categori hwn yn cynnwys asedau anariannol a ddelir yn bennaf neu'n rhannol i gynhyrchu elw, eiddo buddsoddi yn bennaf. Penderfynir ar ddiogelwch trwy gymharu pris prynu pob ased â'i werth teg gan ddefnyddio'r model yn Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 40: Eiddo Buddsoddi fel y'i haddaswyd gan arferion

priodol. Ar asesiad ar 31 Mawrth 2019, mae'r Cyngor o'r farn nad yw graddfa ei fuddsoddiadau anariannol masnachol yn sylweddol.

Hylifedd: Ar gyfer buddsoddiadau ariannol nad ydynt yn fuddsoddiadau neu fenthyciadau rheoli trysorlys, mae'r Cyngor yn sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu buddsoddi am gyfnod darbodus.

Ymgynghorwyr Buddsoddi: Mae'r Cyngor wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac yn derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyled a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

Benthyg cyn yr angen: Gall y Cyngor, o bryd i'w gilydd, fenthycu cyn yr angen, lle mae disgwyl i hyn ddarparu'r gwerth am arian tymor hir gorau. Gan y bydd symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi nes eu bod yn cael eu gwario, mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o gollir symiau a fenthycwyd, a'r risg y gall cyfraddau llog buddsoddi a benthyca newid yn y cyfamser. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o reolaeth gyffredinol y Cyngor ar ei risgiau trysorlys.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn fwy na'r terfyn benthyca awdurdodedig o £200 miliwn. Disgwylir i'r cyfnod hwyaf rhwng benthyca a gwariant fod yn ddwy flynedd, er nad yw'n ofynnol i'r Cyngor gysylltu benthyciadau penodol ag eitemau gwariant penodol.

Trefniant masnachol: Os bydd trefniant masnachol, mae'r unigolion sy'n gwneud y fargen yn ymwybodol o egwyddorion craidd y fframwaith darbodus a'r drefn reoleiddio y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddi.

Capasiti, sgiliau a llywodraethu corfforaethol: Gwahoddwyd aelodau a swyddogion etholedig i gyflwyniad gan Arlingclose ar 27ain Ionawr 2021. Mae'r wybodaeth a'r drafodaeth yn y cyflwyniad yn sicrhau bod gan yr aelodau'r sgiliau a'r wybodaeth briodol i'w galluogi i:

- Wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylid buddsoddi'n benodol.
- Asesu asesiadau unigol yng nghyd-destun amcanion strategol a phroffil risg y Cyngor
- Deall sut mae cwantwm y penderfyniadau hyn wedi newid amlygiad risg cyffredinol yr awdurdod lleol.

Mae swyddogion hefyd yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau yn rheolaidd a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA. Anogir staff perthnasol hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA, ACA a sefydliadau priodol eraill.

Eitem 13

CYFARFOD	Cyngor
DYDDIAD	4ydd o Fawrth 2021
AELOD CABINET	Cynghorydd Nia Jeffreys
TEITL	Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
AMCAN	1.Derbyn y wybodaeth 2. Gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo a monitro rhaglen waith ymateb i ddarpariaethau'r Ddeddf.
AWDUR	Swyddog Monitro

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae cryn hanes i'r Ddeddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sydd a'i wreiddiau ym Mil Lywodraethol Leol (Cymru) gyflwynwyd gan y cyn Weinidog Lywodraeth Leol Leighton Andrews yn 2015. Ers hynny mae sawl newid a datblygiad yn amcan y Deddfwriaeth a'r pwyslais. Y prif newid yw'r tynnu yn ôl oddi wrth Ddeddf oedd a'i ffocws ar ad-drefnu y Cynghorau boed yn wirfoddol neu drwy statud. Mae'n debyg y cofiwch yr ymgynghoriadau fu gerbron yn ystod y daith yma.
- 1.2 Bellach er fod darpariaethau yn y Ddeddf yn creu fframwaith ar gyfer uno cynghorau nid yw yn cynrychioli prif amcan y ddarpariaeth. Gerbron mae Deddfwriaeth sydd yn cyflwyno nifer o newidiadau a grymoedd ynglŷn a llywodraethant Llywodraeth Leol yng Nghymru. Nid yw hyn i ddweud nad oes elfennu o'r Ddeddf sydd yn bellgyrhaeddol yn arbennig felly ym maes Etholfraint Llywodraeth Leol , Cyd Weithio a Rheoli Perfformiad. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau sydd yn deillio yn uniongyrchol o'r trefniadau dros dro roddwyd mewn lle yn ystod y cyfnod argyfwng Coronafeirws. Amcan yr adroddiad yma yw rhoi trosolwg cyffredinol i'r Cyngor ar gynnwys y Ddeddf ..

2. Y Ddeddf

- 2.1 Derbyniodd y Ddeddf Gyd-Syniad brenhinol ar yr 20fed o Ionawr 2021 . Mae naw prif ran i'r Ddeddf sydd yn berthnasol i Brif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chymuned. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar sefyllfa Prif Gynghorau. Yn ôl ein dealltwriaeth daw'r r darpariaethau i rym yn ystod y 12 – 15 Mis nesaf. Mae rhai darpariaethau mewn grym eisoes ond yn disgwyl ar gyhoeddi rheoliadau neu arweiniad statudol perthnasol. Felly mae cyfuniad o ddyddiadau drafft a dyddiadau rhag dybiedig yn y rhan ddilynol.

RHAN 1 - ETHOLIADAU

Mewn grym ar gyfer etholiad 2022.

1. Ymestyn yr Etholfraint i oedran 16 i fyny ac hefyd pleidleiswyr tramor cymwys .
2. Hawl i swyddogion cyngor sefyll etholiad heb ofyn iddynt ymddiswyddo os nad ydynt yn llwyddiannus (eithrir swyddogion mewn swyddi gwleidyddol gyfyngedig)
3. Hawl i Gyngor ddewis trefn Pleidleisio Mwyafrifol neu STV. **Bydd yr hawl yma yn dod yn weithredol wedi etholiadau 2022.**

RHAN 2 – PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL I AWDURDODAU LLEOL

Rhagwelir y bydd mewn grym erbyn Hydref 2021

- Rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i Brif Gyngor a rhai Cyngorau Tref a Chymuned Cymwys. Mae Cyngor yn ddibynnol ar hawl statudol i wneud unrhyw weithgaredd. Mae'r ddarpariaeth yma yn rhoi pŵer cyffredinol i weithredu heb ei gyfyngu i swyddogaeth benodol.
- Fodd bynnag mae'n adlewyrchu pŵer cyffelyb sydd wedi bod mewn grym yn Lloegr ers rhai blynedd. Mae profiad yn Lloegr yn awgrymu nad yw yn cynnig gymaint o newid a'r hyn sydd yn cael ei awgrymu gan y disgrifiad. Er r fod y pŵer yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i'r Cyngorau mae unrhyw gyfyngiadau statudol sydd eisoes mewn grym neu ddaw i rym yn cael blaenoriaeth ac felly yn ei gyfyngu.

RHAN 3 - HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL

Rhagwelir y bydd mewn grym erbyn Mai 2022

- Dylatswydd i annog cyfranogiad y cyhoedd mewn materion megis penderfyniadau
- Gofyn i fabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad
- Gofyn i fabwysiadu Cynllun Deisebau
- Gofyn cyhoeddi Canllawiau i'r Cyfansoddiad
- Gosod gofyn statudol i we ddarlledu ystod o gyfarfodydd.
- Rhoi mynediad o bell gan aelodau ar sail statudol – **Bydd hyn mewn grym ar gyfer Mai 2021.**
- Ymgorffori newidiadau i faterion megis cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd ac ymdrin a materion megis cyhoeddi penderfyniadau.

RHAN 4 – GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL

Rhagwelir y bydd mewn grym erbyn Mai 2022

- Sefydlu swydd dan y disgrifiad "Prif Weithredwr" ar sail statudol gyda cyfrifoldebau penodol.
- Caniatáu rhannu swyddi aelodau Cabinet
- Caniatáu penodi aelodau fel cynorthwyon Aelodau Cabinet
- Caniatáu rhannu swyddi Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion
- Arweinyddion Grwpiau a chyfrifoldeb statudol am ymddygiad eu haelodau
- Gosod adroddiad Blyneddol Pwyllgor Safonau i'r Cyngorau ar sail statudol.

RHAN 5 – CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU

Mae'r rhan yma mewn grym ac mae rheoliadau drafft wedi bod yn destun ymgynghoriad. Ymddengys ar hyn o bryd fod yr ymgynghoriad wedi amlygu ystod o faterion sydd yn derbyn sylw pellach)

- Pŵer gweinidogion i sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforedig. Mae'r rhain yn fath newydd o gorff llywodraeth leol. Byddent yn gorfforaethau gyda statws cyfreithiol eu hunain.
- Arweinyddion y Cyngorau fydd aelodau craidd
- Pŵer mandadu – Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth, Llesiant Economaidd a Gwella Ysgolion. Mae'r rheoliadau drafft wedi adnabod rhanbarth Gogledd Cymru fel ardal y. Cyd Bwyllgor
- Hawl gan 2 neu fwy o gynghorau wneud cais i sefydlu drwy offeryn statudol.

RHAN 6 – PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU PRIF GYNGHORAU

Dod i rym Ebrill 2021 gyda rhai eithriadau - isod

- Sefydlu cysyniad o adroddiad perfformiad blynyddol statudol ac ymgynghori fel rhan o'r broses
- Apwyntio "Panel" ar gyfer cynnal asesiad perfformiad Cyngor - **Dod i rym Mai 2022**
- Angen am osod Amcanion Gwella (Gwerth Gorau) yn cael ei ddileu
- Gofyn fod i 1/3 aelodau y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fod yn aelodau llewg gan gynnwys y Cadeirydd - **Dod i rym Mai 2022**
- Sefydlu ac enwi Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bellach yn statudol
- Pwyllgor Archwilio a Lywodraethu yn mabwysiadu swyddogaeth trosolwg trefniadau cwynion

RHAN 7 – UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

Mewn grym gyda ambell eithriad technegol

- Sefydlu fframwaith ar gyfer proses uno cyngorau pe fyddai cynllun o'r fath yn dod ymlaen.

RHAN 8 – CYLLID LLYWODRAETH LEOL

Mewn Grym dau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol

- Pwerau i fynnu gwybodaeth yn ymwneud â hereditamentau, gwybodaeth sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw person yn atebol i dalu trethi annomestig,
- Tynnu ymaith y pŵer i ddarparu ar gyfer Carcharu Dyledwyr y Dreth Gyngor sydd yn ymgorffori mewn Deddf yr hyn sydd eisoes yn weithredol drwy Reoliadau.

RHAN 9 – AMRYWIOL

Rhagwelir y bydd mewn grym erbyn Mai 2022

- Rhoi statws gwarchodaeth prif swyddog statudol i'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidd.
- Diddymu y rhwystr ar Swyddog Monitro rhag bod yn Bennaeth Gwasanaethau Democraidd.
- Darpariaethau ynglŷn ag uno a dad-uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

3. Camau Nesaf.

Atodir tabl (Atodiad 1) yn amlinellu sut fydd y gwaith yn cael ei rannu dros y misoedd i ddilyn. . Mae ystod y darpariaethau yn y Ddeddf yn golygu y bydd cyfres adroddiadau i Bwyllgorau priodol. Mae elfennau o'r gwaith eisoes ar y gweill. Y bwriad felly fyddai paratoi adroddiadau i'r Pwyllgorau Arweiniol ar y camau nesaf wrth i'r ddeddf ddod yn weithredol. Mae cyfnod amserlen grymuso y darpariaethau ac amrywiaeth eu ystod yn arwain at broses o'r math yma. Mae gweithgor swyddogion wedi cychwyn ar y gwaith yma a'r argymhelliad yw fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymeradwyo rhaglen waith fanwl a chadw trosolwg ar y cynnydd.

PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1. Derbyn y wybodaeth**
- 2. Gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo a monitro rhaglen waith ymateb i ddarpariaethau'r Ddeddf.**

Sylwadau Swyddog Monitro

Awdur yr Adroddiad

Sylwadau Prif Swyddog Cyllid

Mae elfennau o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ddim ond yn ffurfioli neu orfodi'r drefn gyfredol, fel enwi'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn statudol, tra bydd angen cynllunio agweddau eraill fel y gofyn i benodi aelodau lleyg yn draean o aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o Fai 2022.

Atodiad 1

(Cyng. = Cyngor Lawn , Cab=Cabinet , PALI = Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, PGD =Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd PS= Pwyllgor Safonau)

Darpariaethau	Adran/ Gwasanaeth arweiniol	Camau Paratoi / Adnoddau	Prif Gyfarfodydd
Rhan 1 Etholiadau	<i>Gwasanaethau Cyfreithiol</i>	<i>Mater ar gyfer enwebiadau ar gyfer etholiad. A gweinyddu cofrestru etholiadol Codi ymwybyddiaeth</i>	<i>Cyd-Blethu a gwaith hyrwyddo cyfranogiad democrataidd PGD</i>
Rhan 2 Pennod 1 Pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol	<i>Gwasanaethau Cyfreithiol</i>	<i>Nodyn briffio ar y pwerau yn esbonio ei natur a therfynau etc.</i> <i>Nodyn Briffio Adrannau - Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth Deddf.</i>	
Rhan 3 Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol,	<i>Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol</i>	<i>Gwasanaethau Cyfreithiol i arwain ar adolygu Cyfansoddiad. Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith i arwain ar faterion yn ymwneud â mynediad o bell, cyfranogiad a chyhoeddi rhaglenni ayyb</i>	<i>Cyng., PGD PALI</i>
Rhan 4 Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol	<i>Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol</i>	<i>Gwasanaethau Cyfreithiol i arwain ar adolygu Cyfansoddiad a materion Cod Ymddygiad</i>	<i>Adrodd PALI PS a Cyng.</i>
Rhan 5 Cydweithio gan Brif Gyngorau	<i>Tim Arweinyddiaeth</i>	<i>Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth Deddf.</i> <i>Adrodd ar oblygiadau rheoliadau sefydlu i Cabinet a Phwyllgorau Craffu</i>	<i>Cab a Craffu.</i>
Rhan 6 Perfformiad a Llywodraethu Prif Gyngorau a Dyletswydd Prif Gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus	<i>Tim Arweinyddiaeth a Gwasanaeth Cyllid o ran trefniadau y Pwyllgor Archwilio</i>	<i>Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth Deddf. PALI i arwain</i>	<i>PALI a Cyng</i>
Rhan 7 – Uno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd	<i>Tim Arweinyddiaeth</i>	<i>Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth er gwybodaeth</i>	
Rhan 8 – Cyllid Llywodraeth Leol	<i>Gwasanaeth Cyllid</i>		
Rhan 9 – Amrywiol	<i>Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol</i>		<i>Adroddiad Pwyllgor Penodi a Cyngor pan yn briodol</i>

Eitem 14

PWYLLGOR :	Y Cyngor
DYDDIAD :	4 Mawrth 2021
TEITL :	Ail-benodi Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau
AWDUR :	Iwan Evans, Swyddog Monitro

Cefndir

1. Mae pump 'aelod annibynnol' (h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol) ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Mae'r pwyllgor hefyd yn cynnwys aelod yn cynrychioli'r cynghorau cymuned a thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.
2. Mae tymor aelodaeth un o'r aelodau annibynnol, sef David Wareing, yn dod i ben ar 4 Mawrth 2021.
3. Mae'r rheoliadau perthnasol (Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001) yn caniatáu ail-benodi aelodau annibynnol am un cyfnod olynol, pellach o ddim mwy na phedair blynedd. Mae'r aelod yn gymwys i'w ail-benodi, ac wedi mynegi ei barodrwydd i wasanaethu am gyfnod pellach. Byddai ei ail benodi yn golygu na fyddai'r Pwyllgor yn colli'r profiad a'r arbenigedd y mae wedi ei ennill yn ystod ei wasanaeth.
4. Tra bod rhaid dilyn trefn statudol o hysbysebu a chyfweld cyn penodi aelod annibynnol newydd, nid oes angen dilyn y broses honno wrth ail-benodi.

Argymhelliad

5. Ail benodi David Wareing fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i wasanaethu am dymor pellach o bedair blynedd.

Sylwadau Swyddog Monitro

Awdur yr adroddiad.

Prif Swyddog Cyllid

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

CYFARFOD	Y Cyngor Llawn
DYDDIAD	4 Mawrth 2021
PWNC	Calendr Pwyllgorau 2021/22
PWRPAS	Mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2021-22.
AWDUR	Geraint Owen Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

1. CEFNDIR

- 1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2021/22. Mae'r Calendr yn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.
- 1.2 Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.
- 1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.
- 1.4 Ymgynghorwyd a swyddogion perthnasol a'r Parc Cenedlaethol Eryri ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro a chyfarfodydd eraill.

2.0 CALENDR PWYLLGORAU 2021/22

- 2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2021/22.
- 2.2 Noder fod dyddiadau'r holl gyfarfodydd wedi llithro ychydig yn sgil Etholiad Comisiynydd yr Heddlu ac Etholiad y Senedd, sydd i'w cynnal ar 6ed o Fai. O ganlyniad, bydd cyfarfod blynyddol y Cyngor Llawn yn cael ei gynnal wythnos yn hwyrach, sef ar y 13eg o Fai 2021.
- 2.3 Yn ogystal noder fod dyddiad Cyfarfod Blynyddol y Cyngor yn 2022 yn ail hanner mis Mai o ganlyniad i Etholiad Llywodraeth Leol. Bydd hyn yn caniatáu cyfle i sicrhau'r trefniadau angenrheidiol a chynnal sesiwn anwytho i'r holl Aelodau cyn cyfarfod blynyddol y Cyngor Llawn.

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2021-22.

4. **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

Y SWYDDOG MONITRO:

Mae'r Calendr yn darparu rhaglen resymegol ar gyfer trefniadau llywodraethu'r Cyngor.

Y PENNAETH CYLLID:

Mae dyddiadau arfaethedig cyfarfodydd allweddol o'r Cyngor llawn, Cabinet, Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a'r Pwyllgor Pensiynau, fel y'u cynigir yma, yn addas i bwrpas. Yn benodol, ymysg dyddiadau allweddol eraill, maent yn amserol ar gyfer cymeradwyo cyfrifon 2020/21 a derbyn adroddiad yr archwiliwr annibynnol yn yr hydref, ac yn amserol ar gyfer gosod cyllideb a threth 2022/23 erbyn 11 Mawrth 2022. Rwy'n gwerthfawrogi cydweithrediad yr awdur a swyddogion pwyllgorau wrth lunio'r Calendr yma.

	2021/22	Amser cyfarfod	Mai	Mehafin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai
CYNGOR		pm	13*		8			7		2			3		19*
Cabinet		pm	18	15	06		7/28	12	9 / 30	21	18	15	8/29	19	
Hyfforddiant Aelodau		am / pm													
Pwyllgor Craffu – Addysg ac Economi		am / pm			13			21		09		8	31		
Pwyllgor Craffu - Cymunedau		am / pm		10			23		04		13		10		
Pwyllgor Craffu - Gofal		am / pm			01		30		25			03	17		
Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu		am	27	17	15			14	18			10			
Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth		am / pm		29					16			17			
Pwyllgor Cynllunio		am / pm	24	21	12		06	04	1 / 22	13	10/31	28	21	11	
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd		am	28		23		24	22		10	21		18		
Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol		pm		7			20			06			14		
Pwyllgor Safonau		am		14					08			14			
CYSAG		pm		8					23			01			
Pwyllgor Iaith		am		22				19			25			07	
Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol		am			02										
Pwyllgor Apelau Cyflogaeth		am / pm	21	25	09		10	08	19	03	28	11	25	15	
Pwyllgor Pensiynau		pm		24			16		17 *		20		24		
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog		yr hwyr						5					8		
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli		yr hwyr						12					15		
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi		am							02				29		
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw		am						19					22		
DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL															

*Cyfarfod Blynnyddol.

Amser cyfarfod (yn ôl yr angen) **am** – bore **pm** – p'nawn **am/pm** – trwy'r dydd

Dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.

Eitem 17a

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: ER
Ein cyf/Our ref: JJ/02946/20

Y Cyngorydd Edgar Owen
Cadeirydd Cyngor Gwynedd

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

27 Tachwedd 2020

Annwyl Gyngorydd Owen,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Tachwedd ynghylch defnyddio'r system gynllunio i reoli nifer yr ail gartrefi yng Nghymru.

Un o'r ffactorau allweddol o ran galluogi cymunedau yng Nghymru i fod yn llewyrchus ac yn ffyniannus yw sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael. Mae prinder tai fforddiadwy yn sail i'r anawsterau y mae pobl leol yn eu hwynebu, sef mater a godwch yn eich llythyr. Dyma pam mae polisïau tai Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy. Mae hwn hefyd yn fater y gall awdurdodau cynllunio lleol fynd i'r afael ag ef drwy weithredu ac adolygu eu cynlluniau datblygu.

O ran ail gartrefi / cartrefi gwyliau yn benodol, rydym wedi ystyried yn ddiweddar a oes gan y system cynllunio defnydd tir rôl o ran rheoli nifer y cartrefi o'r fath fel rhan o adolygiad cynhwysfawr o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987. Nododd yr adolygiad heriau ymarferol a chyfreithiol sylfaenol wrth ddiffinio ail gartrefi yn nhermau cynllunio. Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer 'datblygu', sydd naill ai'n weithrediadau ffisegol neu'n 'newid defnydd sylweddol'. O ran cynllunio defnydd tir, nid oes unrhyw newid defnydd sylweddol rhwng defnyddio eiddo fel prif breswylfa ac fel ail gartref. Heb ddiffiniad clir, byddai gorfodaeth yn anodd iawn ac yn creu ansicrwydd, gan wneud deddfwriaeth gynllunio ar y mater hwn yn aneffeithiol. Ni fyddai newidiadau i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn mynd i'r afael â'r mater ac am y rheswm hwn nid ydym o'r farn bod newidiadau i ddeddfwriaeth gynllunio yn opsiwn ymarferol. Yn ogystal, byddai unrhyw ymateb cynllunio defnydd tir yn cael effaith gyfyngedig gan na ellid defnyddio unrhyw newid deddfwriaethol yn ôl-weithredol i reoli gweithrediad yr ail gartrefi / cartrefi gwyliau presennol.

Yn achos Tai Amlfeddiannaeth (HMOs), y cyfeiriwch atynt yn eich gohebiaeth, gall trosi annedd deuluol i HMO gynrychioli newid defnydd sylweddol a gellir diffinio hyn yn glir, gan alluogi cymhwysu'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn effeithiol i reoli nifer y tai o'r fath mewn ardal.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau sydd gennych ar gyfer mynd i'r afael â'r anawsterau ymarferol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau i ddeddfwriaeth gynllunio yr ydych yn eu cynnig ar gyfer rheoli nifer yr ail gartrefi ac edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Eitem 17b

Lesley Griffiths AS/MS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref ER
Ein cyf/Our ref LG/00040/21

Cynghorydd Edgar Owen
Cadeirydd Cyngor Gwynedd

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

1st Chwefror 2021

Annywl Edgar,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Ionawr am dân gwyllt.

Rwy'n rhannu pryderon Cyngor Gwynedd ynghylch effaith sŵn tân gwyllt ar bobl fregus ac ar anifeiliaid. Ym mis Tachwedd, bu'r Prif Weinidog a finnau'n siarad am y pwnc yn y Senedd, lle cafwyd cefnogaeth eang o blaid gwella'r rheoliadau yn y maes.

Gweinidogion Llywodraeth y DU o dan Ddeddf Tân Gwyllt 2003 sy'n gyfrifol am reoliadau gwerthu a defnyddio tân gwyllt yng Nghymru a Lloegr. Ysgrifennais at Lywodraeth y DU i gofnodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i argymhellion Pwyllgor Deisebau Tŷ'r Cyffredin i reoleiddio tân gwyllt yn well. Rwyf wedi galw felly ar Lywodraeth y DU i dynhau'r rheoliadau ar werthu a defnyddio tân gwyllt ar lefel Prydain Fawr, er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol.

O gofio bod ein hardaloedd mwyaf poblog mor agos at siopau yn Lloegr a'i bod mor rhwydd siopa ar-lein, rwy'n credu bod angen i bawb weithredu gyda'i gilydd ledled Prydain Fawr i sicrhau bod y tân gwyllt sydd ar gael ar gyfer eu gwerthu i'r cyhoedd yn dawlwch ac yn cael eu defnyddio'n llai aml.

Rwyf wedi gofyn am gyfarfod teirffordd â'r Gweinidogion sy'n gyfrifol am bolisi tân gwyllt yn yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a Llywodraeth yr Alban cyn gynted ag y medrir i drafod y ffordd ymlaen.

Yr eiddoch yn gywir,

Lesley Griffiths AS/MS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth
Ddiwydiannol

1 Victoria Street

Llundain

SW1H 0ET

Eirian Roberts
E-bost: rti1950@gmail.com

T +44 (0) 20 7215 5000
E enquiries@beis.gov.uk
W www.gov.uk

Ein cyf: TOSL2021/03361

9 Chwefror 2021

Annwyl Edgar Owen,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 7 Ionawr ynglŷn â thân gwyllt. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ddiolchgar i chi am gymryd amser i ysgrifennu. Gofynnwyd i mi ymateb ar ei ran.

Hoffwn eich sicrhau bod y Llywodraeth yn cymryd materion sy'n gysylltiedig â gwerthiant a'r defnydd o dân gwyllt o ddifri. Mae yna fframwaith reoleiddio gynhwysfawr eisoes yn ei le ar gyfer tân gwyllt a'i nod yw lleihau'r risgiau a'r aflonyddwch i bobl ac anifeiliaid. Mae deddfwriaeth bresennol yn rheoli gwerthiant, argaeledd a'r defnydd o dân gwyllt, a hefyd yn gosod cyrffiw a chyfyngiad sŵn.

Rwyf wedi nodi'r camau y mae Cyngor Gwynedd yn eu cymryd a'i farn ar gyfyngiadau sŵn priodol. Er gwybodaeth i chi, mae'r Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch wedi bod yn ystyried materion a godwyd ynghylch tân gwyllt, gan gynnwys sŵn ac aflonyddwch, tra ein bod yn parhau i fonitro effaith tân gwyllt ar gymunedau, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu p'un a ydynt am ddilyn y camau gweithredu a gynigiwyd, ac i fodloni'u hunain bod ganddynt y pwerau priodol i wneud hynny. Er bod y Llywodraeth yn cynghori ei fod yn arfer da rhoi hysbysiad i gymdogion cyn unrhyw arddangosfa tân gwyllt, nid oes gofyn cyfreithiol i arddangosfeydd tân gwyllt gael eu hysbysebu cyn digwyddiad.

Efallai y bydd gennych ddiddordeb gwybod bod Pwyllgor Deisebau Tŷ'r Cyffredin, yn ei ymchwiliad yn 2019, wedi casglu na allai gefnogi gwahardd y gwerthiant o dân gwyllt i'r cyhoedd. Roedd eu hymresymiad yn nodi'r posibilrwydd o ganlyniadau anfwriadol a fyddai'n wrthgynhyrchol i ddiogelwch y cyhoedd, megis unigolion yn cael gafeol ar gynyrrch anghyfreithlon ac anniogel ar-lein. Roedd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân hefyd yn cytuno â'r casgliad hwn.

Mae casgliad y Pwyllgor Deisebau'n cyd-fynd â safiad y Llywodraeth ei hun. Rydym yn dal yn ymrwymedig i hyrwyddo defnydd diogel ac ystyriol o dân gwyllt drwy fframwaith deddfwriaethol effeithiol, a hefyd drwy fesurau anneddfwriaethol a argymhellir gan y Pwyllgor Deisebau.

Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith y mae eich Cyngor yn ei ystyried ac yn gobeithio ei wneud. Mae camau diweddar a gymerwyd gan yr Adran hon wedi cynnwys cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ar gyfer tymor tân gwyllt 2020, ymgysylltu ag elusennau anifeiliaid ar faterion lles anifeiliaid ac ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol i ddeall y materion maent yn eu hwynebu o ran tân gwyllt. Byddwn yn eich annog i gysylltu â swyddogion yn y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch wrth hyrwyddo defnydd diogel a chyfrifol o dân gwyllt. Bydd swyddogion yn hapus i'ch cefnogi a rhoi cyngor i chi ar eich deunyddiau ymgyrchu, i wirio eu bod yn adlewyrchu'r gyfraith ac, o bosib, yn cyd-fynd â'r gwaith a wneir gan y Swyddfa drwy ei hymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus a chyngor i adwerthwyr. Cysylltwch â fy swyddog, Maeve Nicholson sy'n arwain ar waith yr ymgyrch drwy e-bostio maeve.nicholson@beis.gov.uk a byddwn yn hapus i drafod hyn ymhellach.

Er fy mod yn gwerthfawrogi na fydd yr ymateb hwn efallai yn lleddfu holl bryderon y Cyngor, mae'r Llywodraeth yn derbyn sylwadau gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd, sefydliadau ac elusennau, ac mae gan bob un farn wahanol ar beth yw'r materion a pha gamau gweithredu yr hoffent eu gweld.

Yn gywir,



Kirsty Wallace
UNED GOHEBIAETH BYSDd